



Llywodraeth Cymru
Adroddiad yr Ymgynghoriad

Drafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Medi 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

'Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040'
fydd enw ein fframwaith datblygu cenedlaethol cyntaf
pan gaiff ei gyhoeddi. Cafodd y ddogfen hon ei
pharatoi cyn ei chyhoeddi ac mae'n defnyddio'r enw
'fframwaith datblygu cenedlaethol' a'r 'FfDC' drwyddo.
Er crisialu'r ystyr, cymerir bod pob cyfeiriad at y
fframwaith datblygu cenedlaethol yn golygu Dyfodol
Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Cynnwys

Adran		Tudalen
1	Cyflwyniad	4
2	Ymgynghori ac ymgysylltu	5
3	Strwythur yr adroddiad	12
4	Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru	14
5	Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Newid yr Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig	222
6	Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau	249
7	Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	255

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) sy'n nodi polisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru. Mae'r FfDC hefyd wedi'i nodi yn y strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, fel elfen allweddol o ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau twf cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- 1.2 Mae cyhoeddi drafft llawn yn gam allweddol yn y broses o lunio'r FfDC. Cyhoeddwyd y drafft hwn ac roedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 7 Awst a 15 Tachwedd 2019.
- 1.3 Mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn crynhoi ac yn dadansoddi sylwadau'r ymatebwyr, yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r rhain ac yn esbonio sut mae'r ymatebion wedi dylanwadu ar newidiadau a wnaed i bolisiau drafft y FfDC.
- 1.4 Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae gwaith a wnaed gan ddau o bwyllgorau craffu'r Senedd, sef y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, hefyd wedi dylanwadu ar newidiadau a wnaed i bolisiau'r FfDC. Ystyriodd y [Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig](#) gyflwyniadau ysgrifenedig a chlywodd dystiolaeth lafar gan randdeiliaid yn ystod cyfarfodydd ar 24 Hydref, 6 Tachwedd a 14 Tachwedd 2019. Clywodd [Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau](#) dystiolaeth ar 21 Tachwedd. Lluniodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig 51 o gasgliadau a lluniodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wyth casgliad er mwyn i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Nodir ymateb Llywodraeth Cymru i gasgliadau'r pwyllgorau hyn ym Mhenodau 5 a 6 o'r adroddiad hwn.
- 1.5 Cyhoeddir yr adroddiad hwn ochr yn ochr â'r FfDC drafft a bydd y Senedd yn craffu arno am 60 diwrnod gwaith. Ar ôl ystyried unrhyw newidiadau a argymhellir gan y Senedd, bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at gyhoeddi'r FfDC terfynol oddeutu 4 – 6 mis yn hwyrach.
- 1.6 Mae crynodeb gweithredol o'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad ar gael hefyd.

2. Ymgynghori ac ymgysylltu

- 2.1 Rydym wedi ymgynghori a siarad â llawer o bobl ledled Cymru ac wedi'u gwahodd i rannu eu barn am yr hyn y dylai'r FfDC ei wneud a'i gynnwys. Yn ystod y broses hon rydym wedi casglu tystiolaeth helaeth er mwyn ein helpu i lunio'r cynllun a phenderfynu ar y polisiau a fydd yn helpu i symud Cymru ymlaen dros yr 20 mlynedd nesaf.

Pum ffordd o weithio

- 2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi pum ffordd o weithio sydd, ochr yn ochr â nodau llesiant y Ddeddf, yn ganolog i'r FfDC, ei ymgynghoriad a'r broses ymgysylltu. Y pum ffordd o weithio yw:
1. **Cydweithio** – gweithio gydag eraill i gyflawni amcanion llesiant
 2. **Integreiddio** – sut y gall amcanion llesiant effeithio ar y nodau llesiant, neu ar amcanion cyrff eraill.
 3. **Hirdymor** – cydbwysu anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu anghenion hirdymor
 4. **Cynnwys** – cynnwys pobl yn y gwaith o gyflawni nodau llesiant a sicrhau bod y broses hon yn adlewyrchu amrywiaeth.
 5. **Atal** – gweithredu i atal problemau rhag digwydd er mwyn helpu i gyflawni amcanion.
- 2.3 Er mwyn ategu'r egwyddorion hyn nodwn gyfres o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod y broses o baratoi'r FfDC yn arddangos nodweddion o'r pum ffordd o weithio.

Ymgysylltu – Gall unrhyw un gymryd rhan a mynegi ei farn wrth baratoi'r FfDC a helpu i'w lywio yn y dyfodol.

Ymgynghori – Ym mis Awst 2019 aethom ati'n ffurfiol i geisio barn ar y FfDC drafft yr oeddem o'r farn y dylai ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer Cymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio'r cynllun terfynol.

Craffu – Bydd aelodau dethol o'r Senedd yn craffu ar ddrafft y FfDC ac yn gwneud argymhellion, cyn iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Asesu – Mae'n bwysig ein bod yn ystyried yr effeithiau y gallai cynigion y FfDC eu cael ar amgylchedd, cymunedau ac unigolion Cymru. Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yn allweddol i'r broses hon. Roedd croeso i bawb gyflwyno sylwadau ar sut y dylid datblygu'r asesiadau hyn dros gyfnod llunio'r FfDC drafft. Mae'r adroddiadau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gael ar ein gwefan.

Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd y FfDC

- 2.4 Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn ddogfen statudol sy'n nodi sut y gall rhanddeiliaid cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill gymryd rhan yn y broses o lunio'r FfDC. Bob tro y gwnaed newidiadau i'r Datganiad bu ymgynghori ac fe'u hysbysebwyd yn briodol. Cyhoeddwyd y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd cyntaf ym mis Tachwedd 2016 gyda diwygiadau ym mis Mehefin 2017 a mis Gorffennaf 2019. Cafodd ei ddiweddarau eto ym mis Medi 2020 ar ôl yr oedi a achoswyd gan y pandemig Covid-19.
- 2.5 Mae'r amserlen ganlynol yn nodi'r camau a'r amserlenni ar gyfer llunio'r FfDC ers ei sefydlu yn 2016 i'r adeg y bwriedir ei gyhoeddi. Dengys wahanol gamau'r broses o lunio'r FfDC a phryd y cynhaliwyd ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer y rhain. Cynhaliwyd tri ymarfer ymgynghori dros y cyfnod hwn, ar gamau 2, 5 ac 8:

Cam 1	Llunio Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd	Ionawr 2016
Cam 2	Cyhoeddi'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ac ymgynghori arno (pum wythnos)	Chwefror – Ebrill 2016
Cam 3	Ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd a llunio adroddiad ar yr ymgynghoriad	Mai – Medi 2016
Cam 4	Casglu tystiolaeth, datblygu'r weledigaeth, yr amcanion a'r opsiynau Cynnal Ymarfer Ymgysylltu Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau	Hydref 2016 – Mawrth 2018
Cam 5	Cyhoeddi'r prif faterion, yr opsiynau a'r opsiwn a ffefrir, wedi'u hategu gan adroddiadau ac asesiadau amgylcheddol, ac ymgynghori arnynt (12 wythnos)	Ebrill – Gorffennaf 2018
Cam 6	Ystyried yr ymatebion i'r prif faterion, yr opsiynau a'r opsiwn a ffefrir a llunio adroddiad ar yr ymgynghoriad	Gorffennaf – Hydref 2018
Cam 7	Llunio'r FfDC drafft Cynnal Ymarfer Ymgysylltu	Hydref 2018 – Mehefin 2019
Cam 8	Ymgynghori ar y FfDC drafft (14 wythnos)	Awst – Tachwedd 2019

Cam 9	Ystyried yr ymatebion i'r FfDC drafft a llunio adroddiad ar yr ymgynghoriad	Tachwedd 2019 – Awst 2020
Cam 10	Y Cynulliad i ystyried y FfDC drafft (60 diwrnod eistedd)	Medi – Tachwedd 2020
Cam 11	Cyhoeddi'r FfDC	Chwefror 2021

Strategaeth ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu

2.6 Roedd diben yr ymgyrch ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod y cam ymgynghori ar y FfDC drafft ffurfiol hwn yn amlochrog. Y bwriad oedd lledaenu gwybodaeth am y FfDC, casglu tystiolaeth i gefnogi'r FfDC, galluogi rhanddeiliaid i drafod materion â swyddogion Llywodraeth Cymru, cyrraedd pob rhan o Gymru ac annog sefydliadau a rhwydweithiau i hysbysu eu haelodau. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad mewn sawl ffordd, gan gynnwys gwefan Llywodraeth Cymru, drwy 1,552 o randdeiliaid a oedd wedi'u cofrestru yng nghronfa ddata Ymgynghoriad Ymgysylltu'r FfDC, rhwydweithiau proffesiynol sy'n bodoli eisoes, cyfarfodydd a digwyddiadau rhanddeiliaid a gwahanol allfeydd cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol.

Ymateb i'r ymgynghoriad

2.7 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y dogfennau ffurfiol canlynol:

- y FfDC drafft (ar gael ar-lein ac mewn print)
- fersiwn hawdd ei deall o'r FfDC drafft (ar gael ar-lein ac mewn print)
- fersiwn o'r FfDC drafft sydd wedi'i hanelu at bobl ifanc (ar gael ar-lein)
- taflen a oedd yn nodi cefndir y FfDC ac yn crynhoi cynnwys y FfDC drafft (ar gael mewn print)
- fersiynau llawn a chryno o'r adroddiadau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ar gael ar-lein ac mewn print)
- Fersiwn llawn a fersiwn hawdd ei deall o'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad (ar gael ar-lein ac mewn print)

2.8 Gellir gweld y dogfennau hyn yn yr adran 'ymgynghoriad wedi cau' o wefan Llywodraeth Cymru: <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft>.

2.9 Darparwyd y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad mewn fformat ar-lein a gwblhawyd drwy wefan Llywodraeth Cymru ac mewn fformat dogfen pdf/Word i'w ebostio at y Llywodraeth. Roedd y ffurflen yn cynnwys 15 o gwestiynau; roedd 11 ohonynt yn ymwneud yn benodol â pholisïau'r FfDC, tra bod pedwar yn ymwneud â'r Gymraeg, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sylwadau pellach.

2.10 Roedd y 15 o gwestiynau yn ymwneud ag adrannau a pholisïau'r FfDC drafft fel y'u dangosir isod.

- | | |
|---|---|
| 1. Canlyniadau'r FfDC | 8. Y Rhanbarthau (Polisi 16) |
| 2. Strategaeth Ofodol (Polisïau 1-4) | 9. Gogledd Cymru (Polisïau 17-22) |
| 3. Tai Fforddiadwy (Polisi 5) | 10. Canolbarth a De-orllewin Cymru (Polisïau 23-26) |
| 4. Parthau Gweithredu Ffonau Symudol (Polisi 6) | 11. De-ddwyrain Cymru (Polisïau 27-33) |
| 5. Cerbydau Allyriadau Isel lawn (Polisi 7) | 12. Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig |
| 6. Seilwaith Gwyrdd (Polisïau 8 a 9) | 13. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| 7. Ynni Adnewyddadwy a Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol (Polisïau 10-15) | 14. Y Gymraeg |
| | 15. Sylwadau pellach |

2.11 Gellir gweld cwestiynau llawn yr ymgynghoriad, a nodir yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-10/dogfen-ymgyngori-fframwaith-datblygu-cenedlaethol.pdf>

2.12 Roedd y fersiwn hawdd ei deall o'r holiadur yn cynnwys yr wyth cwestiwn canlynol:

Rhan A – Prif bwyntiau'r FfDC

Ein Cynllun yw gweld y datblygiadau mwyaf yng Nghymru yn digwydd yn y dinasoedd a'r trefi mawr - lleoedd fel Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam. Rydym eisiau i drafnidiaeth fod yn lan, i greu llawer o ynni glan ac i wella yr amgylchedd.

1. Ydych chi'n meddwl ein bod ni'n anelu i wneud y pethau cywir gyda'r Cynllun?
2. Mae 10 nod gan y Fframwaith. Oes angen i ni feddwl am unrhyw beth arall?
3. Ydych chi'n meddwl bydd y Fframwaith yn helpu sicrhau lleoedd iach wedi eu cynllunio yn dda?
4. Ydych chi'n meddwl bydd y Fframwaith yn helpu ni ofalu am ein hamgylchedd?

Rhan B – Gwahanol rannau o Gymru

Rydyn ni am weld y 3 rhanbarth yng Nghymru yn tyfu. Gallwch roi eich barn am ein syniadau – hyd yn oed os ydych yn byw neu'n gweithio mewn ardal arall.


5. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau ar gyfer Gogledd Cymru?
6. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau ar gyfer **Canolbarth a De-orllewin Cymru?**

7. Ydych chi'n cytuno â'r cynlluniau ar gyfer De-ddwyrain Cymru?

8. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

2.13 Cafwyd cyfanswm o 1088 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

2.14 Roedd y dadansoddiad o'r 1088 o ymatebion yn ôl y math o ymatebydd fel a ganlyn:



Y ffyrdd mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu

2.15 Yn ogystal â'r safbwyntiau a fynegwyd drwy'r ffurflenni ymateb, aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgysylltu â gwahanol grwpiau ac unigolion er mwyn lledaenu a chasglu rhagor o wybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau galw heibio ledled Cymru, digwyddiadau cynadledda a chyfarfodydd â gwahanol randdeiliaid. Er i ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu penodol gael ei gynnal mewn perthynas â'r FfDC drafft, mae gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu wedi bod yn mynd rhagddo ar amryw ffurf ers 2016.

2.16 Cafodd 11 o sesiynau galw heibio, lle y gwnaeth rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd apwyntiadau i drafod y FfDC drafft â swyddogion Llywodraeth Cymru, eu cynnal ledled Cymru yn y lleoliadau a restrir isod. Trefnwyd tua 125 o apwyntiadau yn y llefydd canlynol:

Abertawe	Caerdydd	Merthyr Tudful
Aberystwyth	Caerfyrddin	Wrecsam
Bae Colwyn	Casnewydd	Y Drenewydd
Bangor	Llandrindod	

2.17 Cynhaliwyd 21 o gyfarfodydd a digwyddiadau pellach gyda gwahanol sefydliadau a rhanddeiliaid gan gynnwys:

- Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru
- Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
- Grŵp Cyswllt Tirweddau De Cymru
- Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru
- Cyngor Partneriaeth y Gymraeg
- *Renewables UK*
- Comisiynydd y Gymraeg
- RSPB Cymru
- Grŵp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol y GIG
- Bwrdd Partneriaeth Tyfu Partneriaeth Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Partneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Grŵp Swyddogion Cynllunio Deddwyrain Cymru
- *The Great Inter-Professional Debate*
- Cyngor Sir Penfro
- Lansio Pecynnau Adnoddau Addysgol
- Cynllunwyr Ifanc RTPI
- Cangen Gogledd Cymru RTPI
- RTPI Cymru – yr Eisteddfod Genedlaethol

2.18 Gellir gweld Cynllun Ymgysylltu llawn y FfDC, sy'n nodi'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau ers 2016, ar wefan Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-cynllun-ymgysylltu_0.pdf

Adnoddau Addysg

2.19 Datblygwyd cyfres o adnoddau a phecynnau adnoddau i ysgolion er mwyn meithrin dealltwriaeth dysgwyr o waith cynllunio yng Nghymru, gan gynnwys y FfDC. Gwnaed ymdrechion arbennig i ymgysylltu â phobl ifanc, i ofyn am eu barn ac i gynhyrchu dogfennau sydd wedi'u hanelu at y gynulleidfa bwysig hon. Gweithiom yn agos gyda'r sefydliad Plant yng Nghymru, sefydliad sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â llywodraethau cenedlaethol a lleol ar faterion sydd o bwys i bobl ifanc. Helpodd yr ymgysylltiad hwn yn uniongyrchol â datblygiad yr adnoddau addysg¹ a fersiwn gryno pobl ifanc o'r FfDC.

Ymgysylltu â'r Cyfryngau

¹ <https://hwb.gov.wales/repository/discovery/resource/7fd63088-bf14-444b-8cfa-e8453dd661b6/cy>
<https://hwb.gov.wales/repository/discovery/resource/dc719db0-de38-4516-8122-d9d9d69441c6/cy>

- 2.20 Cafwyd mwy na 16,000 o ymweliadau â gwefan yr Ymgynghoriad ar y FfDC drafft rhwng mis Awst a mis Rhagfyr 2019. At hynny, gwylwyd animeiddiadau'r FfDC ar YouTube dros 3,750 o weithiau, tra bod cyfrif Twitter Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad gyda'i 90,000 o ddilynwyr cofrestredig.
- 2.21 Roedd erthyglau newyddion ar wefan y BBC, y Western Mail a'r Daily Post, mewn papurau newydd lleol a chylchgronau sectoraidd megis *Planning*, *Welsh Housing Quarterly* a Cynllunio.

3. Strwythur yr adroddiad

- 3.1 Cafodd Llywodraeth Cymru 1088 o sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, y mae pob un ohonynt wedi cael ei ddarllen, ei ddadansoddi a'i ystyried.
- 3.2 Mae'r gwaith o ddadansoddi a chategoreiddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i wneud ar ran Llywodraeth Cymru gan *Strategic Research and Insight Ltd* (SRI) Mae'r adroddiad a roddwyd SRI i Lywodraeth Cymru yn ffurfio'r rhan fwyaf o Bennod 4 o'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad.
- 3.3 Er bod adroddiad SRI yn ganolog i Bennod 4, Llywodraeth Cymru oedd yn gwbl gyfrifol am asesu'r ymatebion ac unrhyw benderfyniadau ynghylch newidiadau i'r FfDC drafft a ddeilliodd o'r broses hon.
- 3.4 Mae'r asesiad o'r ymatebion wedi'i rannu'n is-adrannau fel y disgrifir ym mharagraff 3.5 isod. Mae pob isadran yn ymwneud ag un cwestiwn o'r holiadur llawn a'r cwestiwn cyfatebol yn yr holiadur hawdd ei deall. Mae polisïau presennol y FfDC drafft wedi'u grwpio yn unol â hynny o dan y cwestiynau perthnasol. M mae unrhyw bolisïau newydd sy'n deillio o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn naill ai wedi'u grwpio o dan gwestiynau perthnasol neu maent wedi'u rhestru o dan Gwestiwn 15 sy'n cynnwys pob mater arall. Yn yr adroddiad hwn, ymddengys Cwestiwn 15 ar ôl Cwestiwn 11 am ei fod yn ymwneud â'r testun sy'n ei ragflaenu.
- 3.5 Mae pob is-adran ym Mhennod 4 yn cynnwys yr elfennau canlynol:
 - **Cwestiynau'r ymgynghoriad**
 - **Ystadegau**

Siart a thabl sy'n dangos i ba raddau roedd yr ymatebwyr yn cytuno ac yn anghytuno â'r cwestiwn, lle y rhoddwyd ateb clir gan ddefnyddio ffurflen ymateb (ar gyfer cwestiynau llawn a chwestiynau hawdd eu deall)
 - **Y prif themâu a godwyd gan yr ymatebwyr**

Tablau sy'n dangos y prif bynciau a materion sy'n destun pryder, yn dilyn ymarfer codio manwl
 - **Sylwebaeth ar y prif themâu**

Ystyriaeth fwy manwl o sylwadau'r ymatebwyr, gan gynnwys dyfyniadau o ymatebion i'r ymgynghoriad
 - **Themâu hawdd eu deall (lle y bo'n gymwys)**

Disgrifiad o'r prif bynciau a materion sy'n destun pryder a godwyd gan ymatebwyr gan ddefnyddio'r ffurflen Hawdd ei Deall
 - **Sylwebaeth hawdd ei deall (lle y bo'n gymwys)**

Crynodeb o sylwadau'r ymatebwyr

- **Cyflwyniadau gan ymatebwyr na wnaethant ddefnyddio ffurflen ymateb**

Yn ogystal ag ymatebion a gafwyd drwy brif holiadur yr ymgynghoriad a'r holiadur hawdd ei ddeall, cafwyd cyflwyniadau rhydd hefyd drwy'r post ac e-bost. Mae'r ymatebion wedi'u hadolygu'n thematig mewn fformat cryno er mwyn nodi themâu cyffredin yn ogystal â safbwyntiau unigryw, ac mae rhai wedi'u dyfynnu'n helaeth er mwyn tynnu sylw at eu prif ddadleuon ac unrhyw gynigion amgen. Mae pob cwestiwn ymgynghori ym Mhennod 4 yn cynnwys adran ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig sy'n ymgorffori testun perthnasol.

Roedd y cyflwyniadau yn perthyn yn naturiol i'r categorïau canlynol: y rhai a oedd yn ymwneud yn bennaf â chynigion ar gyfer datblygiadau ynni ym Mhowys, y rhai a oedd yn ymwneud â chynigion ar gyfer datblygiadau ynni yn gyffredinol neu mewn rhannau eraill o Gymru a'r rhai a gododd bwyntiau eraill a oedd yn ymwneud â'r FfDC yn gyffredinol.

- **Ymatebion safonedig (Ile y bo'n gymwys)**

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys tair set o ymatebion safonedig. Nodir faint o weithiau y cyflwynwyd y rhain a chrynodeb o'r pryderon a godwyd ynndynt ym Mhennod 4. Rhoddir testun llawn pob cyflwyniad safonedig yn Atodiad 2.

Mae deisebau ac ymatebion safonedig yn ddangosyddion pwysig o farn y cyhoedd a gallant gasglu safbwyntiau nad ydynt wedi'u mynegi fel arall drwy holiadur yr ymgynghoriad. Serch hynny, ni rannwyd fawr ddim gwybodaeth â Llywodraeth Cymru am y ffordd y casglwyd yr ymatebion hyn, pa wybodaeth a oedd ar gael i'r ymatebwyr cyn iddynt wneud eu cyflwyniadau ac a oedd pob ymateb yn unigryw neu a oedd wedi cael ei ddyblygu gan ymatebwyr â chymhelliant penodol.

- **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'n esbonio lle mae diwygiadau wedi'u gwneud i bolisïau'r FfDC drafft a'r testun esboniadol. Mae hefyd yn cynnwys cyfeiriadau at bolisïau newydd lle y bo'n gymwys.

- **Croesgyfeirio at y Pwyllgor Newid Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a Phwyllgor yr Economi, Sgiliau a Seilwaith**

Dengys lle mae'r diwygiadau a wnaed i'r FfDC drafft yn sgil yr ymgynghoriad yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a Phwyllgor yr Economi, Sgiliau a Seilwaith.

4. CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD AC YMATEB Y LLYWODRAETH

4.1 Canlyniadau'r FfDC

Cwestiwn 1 y ffurflen ymateb lawn a chwestiwn hawdd ei ddeall 2

4.1.1 Mae a wnelo Cwestiwn 1 â Chanlyniadau'r FfDC ac mae wedi'i rannu'n ddwy ran, sef C1.1 a C1.2. Fe'i dilynr gan ystadegau'r ymatebwyr, tabl o'r prif themâu a sylwebaeth. Nodir Cwestiwn hawdd ei ddeall 2 isod.

Cwestiwn 1

Mae'r FfDC wedi cynnig 11 o ganlyniadau fel uchelgais ar gyfer ble rydym am fod ymhen 20 mlynedd.

C1.1 Yn gyffredinol, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod yr 11 o Ganlyniadau yn weledigaeth realistig ar gyfer y FfDC?


C1.2 I ba raddau rydych yn cytuno â'r 11 o Ganlyniadau fel uchelgeisiau ar gyfer y FfDC?

Os ydych yn anghytuno ag unrhyw rai o'r 11 o Ganlyniadau, dywedwch wrthym pam.

Cwestiwn 1 – Ystadegau


4.1.2 Dengys Siartiau C1.1 a C1.2 isod nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chwestiynau 1.1 ac 1.2 yn y drefn honno, ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nhw. Dengys y tablau cysylltiedig nifer a chanrannau'r ymatebwyr a fynegodd farn.

C1.1



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	27	96	31	40	75	6	12	287
Canran	9%	33%	11%	14%	26%	2%	4%	100

C1.2



	Cytuno â phob un	Cytuno â'r rhan fwyaf	Cytuno â rhai	Ddim yn cytuno â'r un ohonynt	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	62	74	90	42	9	11	288
Canran	22%	26%	31%	15%	3%	4%	100

Cwestiwn 1 – Prif Themâu

4.1.3 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw.

Thema	Cod	Cyfanswm
Datblygiadau gwynt/solar	Niwed i gefn gwlad/effeithiau ecolegol e.e. perygl i fywyd gwylt/difrod amgylcheddol/ni ddylid derbyn egwyddor newid tirwedd	103
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau yn lleol/dylid ymgynghori â'r gymuned leol a dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn lleol/dylai fod yn bosibl	81

	gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	
Datblygiadau gwynt/solar	Yr ardal yn rhy fawr/lleihau graddfa cynlluniau ar gyfer ffermydd gwynt	78
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Rhy eang/idealistic/mae angen canolbwyntio'n fwy ar weithredu/mae angen iddynt fod yn fesuradwy/ar y cyfan nid ydynt yn ddigon manwl neu eglur	58
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynni niwclear	37
Canlyniadau	Mae'r canlyniadau yn mynd yn groes i'w gilydd/i ba ganlyniadau y rhoddir mwy o flaenoriaeth/nid yw datgarboneiddio neu fioamrywiaeth a thwf trefol yn cyd-fynd â'i gilydd/mae lleoedd gwledig llewyrchus yn anghyson â ffermydd gwynt	35
Trafnidiaeth	Ni all rhwydweithiau trafndiaeth ymdopi â datblygiadau newydd/byddent yn arwain at gynnydd mewn traffig/mae angen buddsoddi mwy mewn trafndiaeth gyhoeddus e.e. er mwyn lleihau allyriadau	33
Ardaloedd gwledig	Dim digon o fanylion neu ni roddir digon o bwyslais ar gymunedau gwledig yn y cynlluniau/sut y caiff cymunedau gwledig eu cefnogi er mwyn sicrhau twf/dim digon o sôn am y diwydiant amaeth/gormod o bwyslais ar ardaloedd trefol	32
Datblygiadau gwynt/solar	Rwy'n pryderu ynghylch yr effaith weledol/bydd y tyrbinau yn rhy fawr/bydd y seilwaith yn rhy ymwithiol/bydd yn atal twristiaid rhag ymweld â'r ardal a fydd yn effeithio ar yr economi leol/dylid cyflwyno clustogfeydd er mwyn lleihau'r effaith weledol	31
Amhenodol	Dw i ddim yn siŵr a yw'r cynlluniau yn ymarferol/ni fyddant yn mynd rhagddynt mewn gwirionedd	31
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar y diwydiant twristiaeth/sut y caiff diwydiannau twristiaeth eu diogelu e.e. yng Nghanolbarth Cymru	28
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan rwy'n cytuno â'r cynlluniau/cytuno â'r rhan fwyaf o'r cynlluniau/y canlyniadau mewn egwyddor	27
Newid yn yr hinsawdd	Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ddatgarboneiddio/yr argyfwng o ran yr hinsawdd/effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol/dylai Canlyniad 11 gael blaenoriaeth dros y canlyniadau eraill	25
Cludo ynni	Pryder ynghylch sut i gysylltu ffermydd gwynt/solar gwledig â'r grid cenedlaethol/y seilwaith sydd ei angen i gludo'r ynni	24
Nid yw'r cynlluniau yn mynd yn ddigon pell	(Amhenodol) e.e. nid yw'r cynlluniau yn uchelgeisiol	21
Cysoni polisiau	Mae angen cysoni'r FfDC â pholisiau/strategaethau eraill e.e. Polisi Cynllunio Cymru (PCC), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	20
Sail dystiolaeth	Nid oes sail dystiolaeth i'r FfDC/nid ystyriwyd tystiolaeth groes er mwyn sicrhau ei fod yn gadarn	12
Materion sy'n ymwneud â graddfa	Bydd y bwch polisi rhwng y FfDC a CDSau/CDLlau yn cynyddu tensiynau (statws polisi)/egluro'r gydberthynas â CDSau/CDLlau	12

Datblygiadau gwynt/solar	Yr effaith ar iechyd/llesiant	11
Y Gymraeg	Rwy'n anghytuno â'r cynigion ar gyfer y Gymraeg/ni ddylai'r Gymraeg fod yn flaenoriaeth/mae'r targedau o ran siarad Cymraeg yn afrealistig	11
Canlyniad ychwanegol	Dylai tai fod yn ganlyniad yn ei rinwedd ei hun/tai o ansawdd uchel	11
Gwrthwynebiad cyffredinol	Ar y cyfan rwy'n gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy/datblygiadau ar raddfa fawr/nid oes angen y cynigion	9
Datblygiadau gwynt/solar	Ni fydd datblygiadau gwynt/solar yn cynhyrchu digon o drydan i ateb y galw/nid ydynt yn ddibynadwy/effeithlon/bydd y costau yn uwch na'r ynni a gynhyrchir/bydd angen capasiti cynhyrchu wrth gefn/bydd y buddiannau yn fach iawn	8
Dichonoldeb	Mae angen neilltuo cyllid ar ei gyfer/ei ariannu'n deg er mwyn iddo fod yn llwyddiannus	8
Gwerth ychwanegol	Mae i ddiwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd werth y tu hwnt i ystyriaethau economaidd/mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ddiwylliant/treftadaeth/cynnwys treftadaeth fel canlyniad	8
Tai	Dylid cynnwys adeiladwyr tai/y sector preifat mewn gweithgarwch adeiladu tai/nid yw'r FfDC yn cynnwys y sector preifat ddigon	8
Tai	Rwy'n pryderu ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai/dylai tai newydd fod yn ecogyfeillgar/yn niwtral o ran carbon/yn effeithlon o ran ynni/defnyddio ffynonellau ynni gwyrdd/dylid ôl-osod y stoc bresennol	8
Tai	Ni roddir digon o sylw i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael tai fforddiadwy/nid yw prisiau tai yn fforddiadwy/ni ddylid canolbwyntio ar dai a gymorthdelir	8
Tai	Mae angen ystyried amwynderau lleol/gwella'r seilwaith lleol wrth adeiladu tai	7
Dichonoldeb	Mae'n gofyn am weithio cydgysylltiedig e.e. rhwng Llywodraeth Cymru ac ALLau	7
Gwrthwynebiad cyffredinol	Ar y cyfan rwy'n anghytuno â'r cynigion/yn fy marn i ni fyddant yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol (amhenodol)	7
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	O ran rheoli llifogydd/ni roddir digon o bwyslais ar berygl llifogydd dros oes y FfDC e.e. mewn cymunedau arfordirol/dylid ystyried ailgoedwigo er mwyn mynd i'r afael â llifogydd	7
Ariannol	Mae angen ystyried costau/nid yw cost cynigion wedi'i chynnwys yng nghynlluniau'r FfDC	6
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Rwy'n anghytuno â'r penderfyniad i osod ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ac Abertawe yn yr un grŵp/dylid ystyried cymunedau gwledig Canolbarth Cymru fel endid ar wahân	6
Tai	Pryder ynghylch adeiladu tai ar y llain las/difrod i ardaloedd gwyrdd	5

Canlyniadau	Mae'r FfDC yn rhy eang/mae'r canlyniadau y tu allan i gylch gwaith cynllunio/y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru	5
Monitro	Mae angen i'r FfDC gynnwys proses fonitro	5
Canlyniad ychwanegol	Dylai ansawdd aer fod yn ganlyniad/mae angen rhoi mwy o bwyslais arno	4
Cydweithio	Mae angen cysoni'r FfDC â pholisïau eraill y DU/polisïau bydeang ar ynni/yr hinsawdd	4
Canlyniad amgen	Diogelu ac adfer bioamrywiaeth	4
Canlyniad amgen	Twf economaidd	4
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Gofyn am fwy o ymgysylltu ag awdurdodau lleol/cyrff cynrychioliadol/dylai awdurdodau lleol benderfynu ar leoliadau ffermydd gwynt	3
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mae'r mapiau yn annigonol ar gyfer gwneud penderfyniadau/mae angen mapiau manylach/mae angen map o'r boblogaeth/mae'n cynnwys gwallau	3
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Gormod o bwyslais ar Gaerdydd/mae Caerdydd yn cael yr holl fuddiannau/arian	3
Cynaliadwyedd	Mae angen rhoi mwy o sylw i gynaliadwyedd	3
Cydweithio	Mae angen cynllun Seilwaith mwy cydgysylltiedig e.e. dylid ystyried y tu hwnt i ffiniau (llifau)	3
Yr Economi	Nid ystyriwyd costau ariannol ychwanegol datblygiadau gwynt/solar ar raddfa fawr e.e. yr effeithiau ar y gymuned/tarfu/gwaith ffordd/gwneud ffyrdd yn lletach/y pwysau ar wasanaethau	2
Datblygiadau gwynt/solar	Costau cynyddol ynni/cost gosod tyrbinau gwynt	2
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Mae'r cynlluniau yn cael effaith anghymesur ar Ganolbarth Cymru/ni wrandewir ar Ganolbarth Cymru	2
Materion sy'n ymwneud â graddfa	Pwysigrwydd darparu ar gyfer gwahaniaethau daearyddol wrth lunio polisïau	2
Safleoedd llain las	Dylai fod yn bosibl datblygu ar safleoedd llain las	2
Canlyniad amgen	Iechyd a lles	2
Polisi	Mae angen dysgu o bolisïau cynllunio eraill sydd wedi cael eu gwrthwynebu/nad ydynt wedi gweithio e.e. Tan8	2
Cynllunio	Mae angen defnyddio amrywiaeth o dechnegau cynllunio gwahanol ochr yn ochr â'i gilydd	2
Gwledig	Mae angen gwaith datblygu sensitif er mwyn diogelu cymeriad ardaloedd gwledig Cymru	2
Datgarboneiddio	Mae angen atebion mwy arloesol o ran datgarboneiddio/datgarboneiddio trafndiaeth	2
Tai	Sicrhau bod cymdeithasau tai/awdurdodau lleol yn chwarae mwy o ran mewn gweithgarwch adeiladu tai	1
Y Gymraeg	Rwy'n cytuno y dylid ystyried y Gymraeg/dylid annog pobl i ddysgu/defnyddio'r Gymraeg, yn fy marn i	1
Canlyniad amgen	Mynediad cyfartal i fannau gwyrdd	1
Canlyniad amgen	Addysg	1
Geiriad	Mae'r defnydd o'r iaith yn awgrymu nad oes gan bobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yr hawl i gael cartrefi, swyddi ac ati	1

Cwestiwn 1 – Sylwebaeth

4.1.4 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

I ddechrau, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y canlyniadau a gyflwynwyd yn weledigaeth realistig ar gyfer y FfDC, ac a oeddent yn cytuno â phob un, y rhan fwyaf neu rai o'r uchelgeisiau yn gyffredinol neu'n anghytuno â phob un ohonynt. Pan ofynnwyd iddynt esbonio unrhyw resymau dros anghytuno ag 11 o ganlyniadau'r FfDC, canolbwyntiodd yr ymatebion gan amlaf ar y cynigion ar gyfer datblygiadau ynni gwynt. Yn benodol, roedd yr ymatebwyr yn pryderu fwyaf ynghylch y ffaith y gallai datblygiadau ynni gwynt amharu ar y tirweddau gwledig lleol, gan gynnwys niweidio'r amgylchedd ac effeithio ar fywyd gwylt megis adar. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn anghytuno'n benodol â'r term “*acceptance of landscape change*” yn y FfDC.

Also no mention of the damage to the ecosystems involved with the enormous amount of land proposed for these projects.

This proposed large-scale destruction of one the UK's most beautiful and environmentally important areas is completely inappropriate and totally unacceptable and tragically, totally irreversible. The many thousands of tourist visitors numbers, for example, on which many livelihoods and local economies depend, would be greatly reduced as a consequence of the disappearance of this unique and natural resource that they visit to celebrate.

The Mid Wales landscapes should be protected and biodiversity enhanced. An acceptance of landscape change as set out in the proposals is entirely unacceptable. One in 4 jobs are based on tourism - our rural economy supports thousands of businesses and jobs that are dependent on the scenic mid wales landscapes.

Yn gysylltiedig â hyn roedd canfyddiad nad oedd penderfyniadau ynghylch newid tirwedd yn ystyried prosesau gwneud penderfyniadau lleol. Roedd 81 o ymatebwyr o'r farn y dylent allu gwrthwynebu cynigion penodol ar gyfer tyrbinau gwynt yn eu hardal neu y dylid ymgynghori â'r gymuned leol fesul datblygiad. Fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau hon, nododd llawer y dylent allu gwrthwynebu cynigion ar gyfer datblygu tyrbinau ar sail eu heffaith ar y dirwedd. Roedd llai o ymatebwyr o'r farn mai'r awdurdodau lleol a ddylai benderfynu ar gynigion o'r fath neu y dylid cynnwys cyrff cynrychioliadol lleol eraill yn y broses gwneud penderfyniad.

Local councils should determine Wind Energy applications, and applications should have the backing of local communities to be approved. It is unacceptable that applications in Wales are determined through a decision by Welsh Government Ministers and not local authorities. It is undemocratic, local people should be making planning decisions.

It is not actually the Outcomes I disagree with... it's the action intended and processes of implementation that are seriously faulty in some key respects e.g. ignoring local democratic decisions.

People objecting are informed that they can no longer object to landscape impact/change -which suggests that there would be no democracy - a plan with no democracy, is not an acceptable plan.

Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr o'r farn bod yr ardal a nodwyd fel safle posibl ar gyfer datblygu fferm gwynt yn rhy fawr neu gwnaethant ofyn am i gyfanswm yr arwynebedd gael ei leihau.

Too great an area of land proposed for onshore wind/solar projects - considerably reduce area proposed

Cododd sylwadau faterion a oedd yn ymwneud nid yn unig â'r ardal a gymerwyd gan y tyrbinau gwynt eu hunain, ond hefyd y tir y byddai angen ei ddefnyddio i gynnal y seilwaith sy'n gysylltiedig â nhw.

This would be an unfair system, especially considering the substantial area of land involved and the size of the infrastructure involved.

Awgrymodd nifer o sylwadau fod rhai pobl wedi dehongli'r cynlluniau i olygu y byddai tyrbinau yn cael eu hadeiladu ar un rhan o bump o dirfas Cymru.

[I]f the plan suggests they could cover up to 1/5 Wales, then this would be a significant impact. It is not acceptable that objections about impact on landscape are not "accepted" even though this is one of the main objections worldwide to the massive RE sites.

Yn lle datblygiadau gwynt a solar ar y tir, gwnaeth 37 o ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer prosiectau cynhyrchu ynni amgen. Datblygiadau gwynt ar y môr ac ynni'r llanw a awgrymwyd amlaf, ac ymhlith y lleoliadau a awgrymwyd roedd morlyn Bae Colwyn a Môr y Gogledd. Awgrymodd eraill orsafoedd ynni niwclear newydd.

I am all for off shore wind farms and underwater energy, but why spoil the scenery here on Anglesey.

Put them offshore if they have to have them here or preferably use the tidal energy which we have, less harm full to the environment and less intrusive to our island residents

If you have carbon free nuclear power you don't need any intermittent wind or solar since nuclear plant run 24hours 7 days a week.

Yn fwy cyffredinol, roedd eraill o'r farn nad oedd canlyniadau'r FfDC yn ddigon manwl mewn rhyw ffordd, naill ai am eu bod yn rhy eang neu idealistig, neu am eu bod yn teimlo bod angen iddynt fod yn fesuradwy neu ganolbwyntio ar weithredu yn hytrach na bod yn 'ddyheadol'. Gwnaeth eraill sylwadau cyffredinol nad oedd y cynlluniau yn ddigon manwl/eglur.

They are far too general and will be affected by many other events both global and local, the planning process alone will not be enough to achieve the goals that have been set.

We do have concerns that none of the issues which aim to be tackled are mapped in order to show where there is need for improvement, this would give a more strategic overview of where resources need to be focused. Sustrans believe that there will be more likelihood of achieving the 11 Outcomes if there was a clear strategy to show how they filter down into other relevant Government policies.

*The **outcomes are clearly idealistic** with only some influenced by the planning system (emphasis added). If they are left in the current form they can only be considered as aspirational and knowingly unachievable. The outcomes are not informed by a robust evidence base to demonstrate how they would be viable and deliverable. This must be the process otherwise it could place the lower tier development plans of the SDPs and LDPs in impossible situations of being able to conform with unrealistic outcomes put forward in the NDF.*

Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod rhai o ganlyniadau'r FfDC yn mynd yn groes i'w gilydd. Yn benodol, ystyriwyd y gallai canlyniadau i gefnogi twf a datblygiad wrthdaro â'r rhai sydd â'r nod o sicrhau cynaliadwyedd, datblygu cymunedau gwledig bywiog neu gyflawni'r agenda ddatgarboneiddio. Unwaith eto, roedd hyn yn aml yn ymwneud ag effaith ffermydd gwynt ar gymunedau gwledig.

Whilst most of the outcomes are desirable in and of themselves, there is no recognition of the potential conflict between the objectives, for example, outcomes 2, 10 and 11 could be directly in conflict with respect to land use planning. Wales' unique rural character could be destroyed by the over use of industrial scale solar and wind farms in order to fulfil the decarbonisation ambitions.

We also have concerns that the Outcomes identified within the draft NDF are conflicting in nature. For example, they seek to promote the delivery of economic development and affordable housing while at the same time as protecting greenfield land and recovering lost biodiversity. No recognition is provided that the Outcomes are interlinked and potentially contradictory in nature, or how such conflicts are to be resolved

Roedd trafndiaeth, effaith y cynigion ar ardaloedd gwledig, a sylwadau eraill ynghylch tai a ffermydd gwynt yn themâu cyffredin eraill. Ymhlith y sylwadau mwy cyffredinol a gafwyd, roedd rhai a nododd eu bod yn gwrthwynebu'r cynlluniau yn gyffredinol neu a oedd yn credu eu bod yn anymarferol. Tueddai'r rhain i fod yn amhenodol ynghylch yr ardaloedd yr oeddent yn anghytuno â nhw neu yr oeddent yn credu eu bod yn annhebygol o lwyddo. Dangosodd eraill gefnogaeth gyffredinol i'r cynigion, gan gytuno fel arfer fod yr egwyddorion cyffredinol yn cael eu cefnogi, wrth godi rhai pryderon penodol ynghylch cynigion penodol.

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 2


Mae cwestiwn hawdd ei ddeall 2 yn cyfateb i gwestiwn 1 yr holiadur llawn am Ganlyniadau.

C.2 Ydych chi'n meddwl ein bod ni'n anelu i wneud y pethau cywir gyda'r Cynllun?

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 2 – Ystadegau

4.1.5 Dengys Siart CH.2 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chwestiwn C2, ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tabl union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

CH.2



	Ydw	Ddim yn siwr	Na	Cyfanswm
Nifer	43	34	9	86
Canran	50%	40%	10%	100

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 2 – Prif Themâu

4.1.6 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw.

Thema	Cod	Cyfanswm
Datblygiadau gwynt/solar	Niwed i gefn gwlad/effeithiau ecolegol e.e. perygl i fywyd gwyllt/difrod amgylcheddol/ni ddylid derbyn egwyddor newid tirwedd	12
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynni niwclear	11
Yr economi/twristiaeth	Bydd y cynlluniau yn cael effeithiau negyddol ar yr economi neu'r diwydiant twristiaeth/dylid blaenoriaethu twristiaeth	11
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	4
Datblygiadau gwynt/solar	Yr effaith ar iechyd/llesiant	3
Datblygiadau gwynt/solar	Rwy'n anghytuno â defnyddio/adeiladu tyrbinau gwynt/mae tyrbinau gwynt yn amharu ar ardaloedd o harddwch naturiol	3
Tai	Rwy'n pryderu ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai/dylai tai newydd fod yn ecogyfeillgar/yn niwtral o ran carbon/yn effeithlon o ran ynni	3
Hygyrchedd	Mae angen rhoi mwy o sylw i hygyrchedd ar gyfer manau cyhoeddus e.e. canol trefi/Maes Awyr Caerdydd/gwella mynediad i gadeiriau olwyn/arwyddion hawdd eu darllen/ystyried pobl ag anghenion dysgu ychwanegol	3
Dichonoldeb	Dw i ddim yn siŵr a yw'r cynlluniau yn ymarferol/ni fyddant yn mynd rhagddynt mewn gwirionedd	2
Yr Economi	Swyddi/swyddi â chyflog da/dylid blaenoriaethu swyddi i bobl Cymru	2
Amaethyddiaeth	Mae'r effaith ar amaethyddiaeth yn destun pryder	2
Trafnidiaeth	Mae angen gwella'r rhwydwaith trafndiaeth yn gyffredinol e.e. mwy o rwydweithiau ffyrdd	2
Rhanbarthau	Gormod o bwyslais ar y De-ddwyrain/Caerdydd	2
Ardaloedd Gweithredu ar Ffonau Symudol	Unwaith eto, mae angen gwella signal ffonau symudol/rwyf wedi cael problem gyda signal gwael yn y gorffennol/dylai Cymru gyfan fod yn ardal weithredu ar gyfer gwella signal ffonau symudol/dylid gorfodi gwasanaeth cyffredinol/signal i ardaloedd lleiafrifol	2
Gwrthwynebiad cyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n anghytuno â'r cynigion	1
Llain las	Dylid dynodi ardaloedd ychwanegol yn lleiniau glas/AHNEau/eu diogelu rhag gwaith datblygu e.e. gwynt a solar	1
Tai	Mae angen mwy o waith datblygu yng nghefn gwlad/ni ddylid cyfyngu cymaint ar adeiladu ar safleoedd tir llwyd	1
Cludo ynni	Pryder ynghylch sut i gysylltu ffermydd gwynt/solar gwledig â'r grid cenedlaethol/y seilwaith sydd ei angen i gludo'r ynni	1

Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Cyffredinol (amhenodol)	1
Cerbydau Trydan	Awgrymiadau ar gyfer cyflwyno cerbydau trydan e.e. technoleg solar gadarn	1
Ardaloedd gwledig	Nid oes digon o fanylion ac ni roddir digon o bwyslais ar gymunedau gwledig yn y cynlluniau/y ffordd y caiff cymunedau gwledig eu cefnogi er mwyn sicrhau twf/gormod o bwyslais ar ardaloedd trefol	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		8

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 2 – Sylwebaeth

4.1.7 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Cododd tair thema dro ar ôl tro, ac i raddau llawer mwy nag unrhyw rai eraill, pan ofynnwyd i ymatebwyr a oedd unrhyw beth yn ychwanegol at y 10 nod y dylid ei ystyried. Roedd pob un o'r tair thema hyn yn ymwneud â datblygiadau gwynt a solar. Fel yr ailadroddwyd rywle arall, cyfeiriodd ymatebwyr at werth natur er mwynhad a llesiant trigolion ac ymwelwyr ac roeddent o'r farn y byddai adeiladu tyrbinau gwynt yn amharu ar gymeriad yr ardal a ddefnyddir at y diben hwn ac, yn y pen draw, atal twristiaid rhag ymweld â hi.

Saving the land for future generations would be a good place to start. People need to be able to experience nature firsthand not in an imitation city park.

Preserving undeveloped open land not industrializing it with environmentally damaging wind turbines.

...the impact on the well-being of the residents of Anglesey as they face a fight to maintain the environmental beauty of their island.

Awgrymodd ymatebwyr, yn lle hynny, y dylid defnyddio ffynonellau ynni amgen i ddiogelu cymeriad gwledig a 'fflora and ffawna' ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ac Ynys Môn, yn enwedig ynni'r llanw.

A Wales that keeps its identity, beauty and is not industrialized by 250m high wind turbines. A Wales that makes best use of its coast to generate clean under sea energy.

Tidal, the tides are reliable unlike the wind

Cyflwyniadau Ysgrifenedig

4.1.8 Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r ymgynghoriad fel cyflwyniadau ysgrifenedig ac ni wnaethant ddefnyddio'r holiadur llawn na'r holiadur hawdd ei ddeall.

Mae canlyniadau'r FfDC yn codi problemau

Roedd grŵp o ymatebion yn ymwneud â beirniadaethau o ganlyniadau'r FfDC am nad ydynt yn gyflawnadwy. Roedd rhai o'r farn bod y canlyniadau yn rhy gyffredinol ac na ellid eu mesur tra awgrymodd eraill nad oeddent yn fwy na datganiad amwys o ffeithiau neu ddyheadau. Beirniadaeth arall oedd nad oedd y canlyniadau yn ddigon manwl. Beirniadaeth olaf oedd bod y canlyniadau yn rhy uchelgeisiol.

O ran geiriad, awgrymwyd bod y canlyniadau yn cynnwys gormod o jargon ac iaith dechnegol a oedd yn golygu bod rhai pobl yn ei chael hi'n anodd eu deall. Dywedodd un person fod angen geirio'r polisi terfynol yn gryfach.

Roedd cryn dipyn o feirniadaeth o ganlyniadau'r FfDC am eu bod yn anghyson â'i gilydd. Yn benodol, ystyriwyd bod tensiwn rhwng yr agenda ddatgarboneiddio a'r agenda ddatblygu.

It is obvious that Policy 32 on expanding Cardiff Airport is incompatible with much of the content of the draft NDF. Anyone can see that expanding the capacity of that airport, which is failing to compete well with others such as Bristol across the English border, is directly at odds with the statement by the Welsh Government that “we are committed to decarbonising Wales”

The expansion of Cardiff airport does little to offset a carbon footprint – quite the reverse. Why should the rest of rural Wales pay for this extended carbon footprint by having so called carbon saving windfarms?

...the pursuit of policy that may potentially involve the felling of more trees [i.e. building renewable energy infrastructure], is completely contrary to the goals which form the basis for the ideology upon which the NDF is based.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r canlyniadau ganolbwyntio ar feysydd amgen gan gynnwys: materion economaidd; iechyd a llesiant; addysg a thrafnidiaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Canlyniadau'r FfDC

Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn yr adran hon yn ymdrin â Chwestiwn 1 yr holiadur llawn a Chwestiwn hawdd ei ddeall 2, a'r cyflwyniadau ysgrifenedig.

4.1.9 Cedwir Canlyniadau'r FfDC yn yr un fformat cyffredinol ag a nodir yn y FfDC drafft. Maent yn cwmpasu'r mathau o ddatblygiad y mae'r system gynllunio yn dylanwadu'n uniongyrchol arnynt a materion lle y gall gwaith cynllunio greu amodau sy'n annog cyflawni dyheadau ehangach Llywodraeth Cymru. Maent wedi'u llywio gan yr heriau a'r cyfleoedd hirdymor a nodir ym Mhennod 2. Gyda'i gilydd mae'r Canlyniadau yn ffurfio gweledigaeth ar gyfer 20 mlynedd ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y polisiâu sy'n dilyn ym Mhennodau 4 a 5.

4.1.10 Dylai'r newidiadau arfaethedig wella geiriad ac eglurder canlyniadau'r FfDC. Maent yn ymateb i ymatebion penodol i'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â chreu lleoedd, tai, newid yn yr hinsawdd, perygl llifogydd, geoamrywiaeth a'r Gymraeg. Y rhesymeg dros y newidiadau hyn yw gwella'r broses o gydgyssylltu'r FfDC a Pholisi Cynllunio Cymru, er mwyn sicrhau eu bod yn

ymdrin â blaenoriaethau o ran defnydd tir yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu newidiadau arfaethedig eraill a wnaed ar y cam hwn. Rydym yn cynnig y dylid newid y ffordd y cyflwynir y Canlyniadau er mwyn sicrhau bod yr adran hon o'r FfDC yn haws ei darllen. Caiff y tabl sy'n dangos y gydberthynas rhwng Canlyniadau a pholisïau'r FfDC, a gyflwynir ar dudalen 70 o'r FfDC drafft, ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r Canlyniadau a'r polisïau diwygiedig.

4.1.11 Rydym yn bwriadu nodi'r fframwaith monitro ar gyfer y FfDC ym Mhennod 3, yn union ar ôl nodi Canlyniadau'r FfDC. Bydd hyn yn sicrhau bod cysylltiad clir rhwng y weledigaeth gyffredinol ar gyfer y FfDC a'r gwaith o fesur newid gwirioneddol dros gyfnod y cynllun. Mae'r Canlyniadau wedi'u disgrifio gan rai fel idealistig a rhy uchelgeisiol ac mae eraill wedi dweud nad ydynt yn ddigon uchelgeisiol na beiddgar, sy'n dangos ei bod yn anodd pennu gweledigaeth sy'n bodloni'r holl ddisgwyliadau. Ein nod yw sicrhau bod y Canlyniadau yn uchelgeisiol, yn ddynamig ac yn barhaus – efallai na fydd 'pwynt terfyn' lle y byddant wedi'u cyflawni, ond mae'n bwysig gallu dangos bod cynnydd clir yn cael ei wneud yn erbyn pob canlyniad dros gyfnod y cynllun.

4.1.12 Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn mynegi rhywfaint o bryder ynghylch y gwrthdaro posibl rhwng y Canlyniadau. Mae'r system gynllunio yn ddull o reoli uchelgeisiau datblygu croes a lliniaru effeithiau dewisiadau o ran defnydd tir ar gymdeithas a'r amgylchedd. Mae'r Canlyniadau yn atgyfnerthu'r rôl hon, drwy nodi'r ystod o faterion y mae'n rhaid eu hystyried wrth gynllunio datblygiadau newydd a phennu polisïau defnydd tir. At hynny, nid ydym yn cytuno â'r awgrym gan rai ymatebwyr fod gwrthdaro cynhenid rhwng uchelgeisiau economaidd ac uchelgeisiau amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel**, sy'n weledigaeth hirdymor ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy sy'n cydnabod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â datblygu economi wedi'i datgarboneiddio, ffyniannus.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 1, 8, 9 ac 20 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am fanylion.

4.2 STRATEGAETH OFODOL Y FfDC

Cwestiwn 2 y ffurflen ymateb lawn a chwestiynau hawdd eu deall 1 a 3

- 4.2.1 Mae a wnelo Cwestiwn 2 yr holiadur llawn â Strategaeth Ofodol a Pholisïau 1-4 y FfDC drafft. Mae'r cwestiwn wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae a wnelo'r cwestiwn cyntaf â Pholisi drafft 1 Twf Trefol Cynaliadwy, Polisi drafft 2 Cefnogi Canolfannau Trefol a Pholisi drafft 3 Buddsoddiad Cyhoeddus, Adeiladau Cyhoeddus a Thir sy'n Eiddo Cyhoeddus. Mae a wnelo'r ail gwestiwn â Pholisi drafft 4 Cefnogi Cymunedau Gwledig. Dilynir y cwestiynau gan set o ystadegau a sylwebaeth. Cyflwynir cwestiynau hawdd eu deall C1 a C3, sy'n cyfateb i Bolisïau 1-4, nes ymlaen yn yr adran hon.

Cwestiwn 2

Mae strategaeth ofodol y FfDC yn fframwaith arweiniol ar gyfer y lleoedd hynny y bydd newid ar raddfa fawr a datblygiadau o bwys cenedlaethol wedi'u canolbwyntio arnynt dros yr 20 mlynedd nesaf.


C2.1 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r strategaeth ofodol a'r egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu mewn Ardaloedd Trefol (Polisïau 1-3)

C2.2 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r strategaeth ofodol a'r egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu mewn Ardaloedd Gwledig (Polisi 4)

Cwestiwn 2.1 a 2.2 – Ystadegau


- 4.2.2 Dengys Siartiau C2.1 a C2.2 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chwestiynau 2.1 a 2.2 yn y drefn honno, ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nhw. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

C2.1



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	25	83	47	33	57	7	36	288
Canran	9%	29%	16%	11%	20%	2%	13%	100

C2.2



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytun o'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	28	79	32	42	75	4	28	288
Canran	10%	27%	11%	15%	26%	1%	10%	100

Cwestiwn 2 – Prif Themâu

4.2.3 Dengys y tabl isod brif bryderon yr ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw ar gyfer cwestiynau 2.1 a 2.2.

Thema	Cod	Cyfanswm
Datblygiadau gwynt/solar	Niwed i gefn gwlad/effeithiau ecolegol e.e. perygl i fywyd gwylt/difrod amgylcheddol/ni ddylid derbyn egwyddor newid tirwedd	59
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	54
Datblygiadau gwynt/solar	Lleihau maint, nifer neu arwynebedd datblygiadau gwynt/solar	52
Trafnidiaeth	Gwella'r rhwydwaith ffyrdd/seilwaith trafndiaeth gwledig/dylai tagfeydd ar yr M4 fod yn flaenoriaeth/cysylltiadau trafndiaeth â chanolfannau trefol gan gynnwys teithio llesol/e-feiciau	38
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Cyffredinol (amhenodol)/nid ydynt yn darparu digon o dystiolaeth/mae angen iddynt ganolbwyntio'n fwy ar weithredu/mae angen iddynt fod yn fesuradwy/llai idealistig/diffyg uchelgais	35
Ardaloedd gwledig	Dim digon o fanylion neu ni roddir digon o bwyslais ar gymunedau gwledig yn y cynlluniau/y diwydiant amaeth/sut y caiff cymunedau gwledig eu cefnogi er mwyn sicrhau twf/gormod o bwyslais ar ardaloedd trefol	29
Tai	Gwella seilwaith lleol/cyflogaeth/amwynderau lleol cyn adeiladu tai	27
Ardaloedd gwledig	Dylid diogelu ardaloedd gwledig/tirwedd Cymru e.e. rhag diwydiannu/trefoli	25
Yr economi/twristiaeth	Bydd y cynlluniau yn cael effeithiau negyddol ar yr economi neu'r diwydiant twristiaeth	23
Tai	Pryder nad oes digon o safleoedd tir llwyd i ateb y galw	19
Tai	Mae angen mwy o waith datblygu yng nghefn gwlad/ni ddylid cyfyngu cymaint ar adeiladu ar safleoedd tir llwyd/y llain las/cyfyngiadau cyffredinol am gyfnod o 20	18

	mlynedd/mae PCC yn darparu ar gyfer ystyried gwaith datblygu ar safleoedd tir glas	
Rhanbarthau	Rwy'n anghytuno â'r rhaniad rhanbarthol/rhoddir gormod o sylw i'r De-ddwyrain	15
Tai	Mae angen mwy o dai fforddiadwy	14
Cefnogaeth gyffredinol	Rwy'n cytuno â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru/credu bod lleihau allyriadau carbon yn bwysig/y dylid ei flaenoriaethu	13
Tai	Dylid penderfynu ar yr angen am dai yn lleol/cynyddu rôl neu gyllid awdurdodau lleol/Cynghorau cymuned a thref/CDLlau	12
Gwrthwynebiad cyffredinol	Rwy'n anghytuno â'r cynigion/ni ellir eu cyflawni, yn fy marn i	10
Datblygiadau gwynt/solar	Ar y cyfan, rwy'n gwrthwynebu datblygiadau gwynt/solar/nid ydynt yn ateb y broblem, yn fy marn i	10
Tai	Dylid datblygu tai newydd ar sail angen/ardaloedd lle mae'r galw mwyaf am dai	10
Trafnidiaeth gyhoeddus	Dylid annog y cyhoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus werdd/dulliau teithio llesol/beiciau trydan/dylid pwysleisio datblygiadau di-gar	10
Y tri rhanbarth	Rwy'n anghytuno â'r penderfyniad i rannu Cymru'n dri rhanbarth/Awgrymiadau amgen ynglŷn â rhannu Cymru yn rhanbarthau e.e. 4 rhanbarth, Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru fel rhanbarthau ar wahân	8
Cludo ynni	Pryder ynghylch sut i gysylltu ffermydd gwynt/solar gwledig â'r grid cenedlaethol/y seilwaith sydd ei angen i gludo'r ynni	8
Cymunedau yng Nghymru	Cefnogi cymunedau yng Nghymru yn well/Cynyddu neu wella gwaith datblygu/cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig e.e. lle mae siaradwyr Cymraeg yn byw/nid yw'r ardaloedd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn cael digon o fuddsoddiad	8
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Gormod o bwyslais ar Gaerdydd	7
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynnï niwclear	6
Tai	Pryder ynghylch adeiladu tai ar y llain las/difrod i ardaloedd gwyrdd	6
Llifogydd	Nid yw'r FfDC yn ystyried llifogydd/nid yw wedi ystyried llifogydd mewn perthynas â datblygiadau trefol a gwledig/lleoli ffermydd gwynt	6
Arall	Mae denu pobl iau i Gymru yn bwysig/dylai fod yn flaenoriaeth/rwy'n pryderu ynghylch poblogaeth Cymru sy'n heneiddio	6
Gwall/hepgoriad canfyddedig yn y FfDC	Mae AHNEau/safleoedd treftadaeth wedi'u hepgor o fapiau	5
Dull gweithredu cydgysylltiedig	Dylai'r rhanbarthau/CDSau gydweithio/ystyried ei gilydd	5
Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg	Dylai fod yn ofynnol i ddatblygiadau tai newydd gael ysgolion cyfrwng Cymraeg	5
Costau	Nid yw'r FfDC yn nodi cost ei gynigion e.e. cost datblygiadau gwynt/solar	5

Tai	Dylid ystyried prynu cartrefi gwag yn orfodol/defnyddio'r stoc dai bresennol/tai nas defnyddir cyn adeiladu tai newydd	4
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mae angen i'r cynlluniau roi mwy o wybodaeth/eglur am ardaloedd twf rhanbarthol/cenedlaethol	4
Arall	Mae angen i'r cynlluniau sôn am Ardaloedd menter e.e. Ardaloedd Menter Ynys Môn/Eryri	4
Cerbydau allyriadau isel	Mae angen buddsoddi mwy/datblygu mannau gwefru yn gyflymach	4
Tai	Dylai'r FfDC gefnogi/ystyried adeiladu aneddiadau newydd/mae hyn wedi'i nodi gan PCC	4
Pryderon ynghylch tyrbinau gwynt	Yr effaith ar iechyd/llesiant	2
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mae'r mapiau yn annigonol ar gyfer gwneud penderfyniadau/mae angen mapiau manylach/mae angen map o'r boblogaeth	2
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Rwy'n anghytuno â'r penderfyniad i osod ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ac Abertawe yn yr un grŵp/dylid ystyried cymunedau gwledig Canolbarth Cymru fel endid ar wahân	2
Ymgynghori	Mae'r ddogfen ategol yn cynnwys anghysondebau rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg	2
Ymgynghori	Dylid newid/egluro geiriad/diffiniadau'r FfDC	2
Datblygiadau gwynt/solar	Ar y cyfan, rwy'n cytuno â datblygiadau gwynt/solar/yn credu mai dyma'r ateb gorau	1
Parthau gweithredu ffonau symudol	Rwy'n cytuno bod angen gwella signal ffonau symudol/Rwyf wedi cael problem gyda signal gwael yn y gorffennol	1
Arall (nas nodwyd)		71

Cwestiwn 2 – Sylwebaeth

4.2.4 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny. Mae'n ymdrin â chwestiynau 2.1 a 2.2.

Pan holwyd yr ymatebwyr am y strategaeth ofodol a'r egwyddorion allweddol ar gyfer datblygu mewn ardaloedd trefol a gwledig, ailadroddwyd y pryderon a godwyd amlaf yn C1 yma. Roedd y pryderon mwyaf cyffredin a leisiwyd gan yr ymatebwyr yn ymwneud â niwed i gefn gwlad, effeithiau ecolegol (e.e. perygl i fywyd gwylt) a difrod amgylcheddol. Ystyriwyd bod y niwed hwn i'w briodoli i ddatblygiadau gwynt ac, i raddau llai, ddatblygiadau solar. Nododd eraill na ddylid 'derbyn egwyddor newid' tirwedd.

Built up areas need more electricity and so should generate their own rather than just lay waste to the countryside for the needs of the built-up areas. Sorry but Wales hasn't been ruined yet and nor should it be, I will stand up and fight for the conservation of upland and rural wales for the future generations of Wales and the tourists who come to Wales to enjoy its natural setting

Ailddatganodd llawer eu pryderon ynghylch democratiaeth leol, neu gwnaethant nodi bod yn well ganddynt weld penderfyniadau yn cael eu gwneud yn lleol mewn perthynas â datblygiadau gwynt newydd a hefyd yn fwy cyffredinol.

Using the NDF to push these developments through also creates a democratic deficit by over-riding consultation levers and established local development policies.

Unwaith eto, gan gyfeirio at yr ardal arfaethedig ar gyfer datblygiadau gwynt a solar, roedd cyfran debyg am leihau maint, nifer neu ardal datblygiadau gwynt/solar, yn gyffredinol a gan gyfeirio'n benodol at yr ardal â blaenoriaeth arfaethedig.

Rural areas Policy 4 I don't agree with the quantity of land shaded in for the RE proposals (Solar or wind). This needs to be reduced substantially.

Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys awgrymiadau penodol ynglŷn â thrafnidiaeth, megis seilwaith trafndiaeth wledig a chysylltiadau trafndiaeth â chanolfannau trefol, megis teithio llesol/e-feiciau.

However, it is a concern that active travel for improving walking and cycling applies only to town centre areas. It should also cover villages so that local people can cycle or walk to urban areas for employment, shopping, leisure and health activities to reduce car pollution. However, cycle lanes need to be considered by the side of the road where the road is wide enough to accommodate it without danger to cyclists from passing lorries.

The idea is that all new public service facilities of a significant scale should be located in town and city centres. It would be helpful to include stronger reference to place-making and designing in community health and well-being, so that places are supportive of community health and health and well-being.

Consideration needs to be given to how to mitigate the potential disadvantages of this approach, including the issue of access to services for people that won't live in or near to town or city centres. If there is a time lag with the development of sustainable transport infrastructure then people in many parts of Gwent could be left behind and without access to services needed to support their well-being.

I am pleased to see a commitment to supporting rural communities but would like to see the development of a transport infrastructure which truly addresses communal rural transport links e.g. community electric buses, increased rail links and an extension of schemes such as Dial-a-ride but with sustainable hybrid transport utilising electric recharging points. [...] Means of public transport should be built into all new developments - adequate room for buses, use of electric buses, railways where appropriate - there are quite a lot of disused railways that could supply new developments.

Roedd sylwadau ar drafnidiaeth hefyd yn cynnwys cefnogaeth o blaid annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus werdd neu gwnaethant nodi y dylid cryfhau'r geiriad ynglŷn â theithio cynaliadwy er mwyn cefnogi datblygiadau di-gar.

Trafododd eraill sut roedd angen gwella rhwydweithiau ffyrdd yn gyffredinol a chan gyfeirio'n benodol at dagfeydd ar yr M4.

The NDF is proposing economic growth whilst remaining completely silent on the M4 which carries the majority of its freight and workforce

The current situation involves the M4 in South East Wales that is a major national issue. The level of congestion is increasing month by month in terms of queue length and amount of time each day there is significant congestion. This is essentially the only route connecting England to the whole of the southern half of Wales (Newport through to west Wales). Unless imminent measures are brought forward to address this issue the Welsh economy will suffer. The draft NDF fails to mention it let alone set out how the draft NDF outcomes would be achieved with this major issue.

Awgrymodd rhai nad oedd y cynlluniau yn ddigon manwl. Roedd y sylwadau hyn naill ai'n rhai cyffredinol (h.y. nid oeddent yn ymwneud ag unrhyw bolisi penodol), neu roeddent yn cyfeirio at rannau penodol o bolisiau 2 neu 4, gan awgrymu nad yw'r FfDC yn rhoi digon o dystiolaeth i gefnogi'r polisiau hynny, neu fod angen iddo ganolbwyntio'n fwy ar weithredu neu gynnwys canlyniadau mesuradwy.

We question if it is forward looking enough and if it provides the solutions needed at this level for the next 20 years? For example, the NDF recognises connectivity issues (road and rail) in Wales but does not suggest any specific proposals for improvements. For a 20-year plan, the NDF should be more ambitious.

Policy 2: Too vague and not enough detail.

We largely agree with the proposals but question whether these aims are achievable. There is no substance to these nice words detailing how NDF hope to achieve this objective. The omission of a strategic plan for developing transport or health infrastructure or the Further / Higher Education sector to best serve all the communities of Wales.

Policy 4 'Supporting Rural Communities' falls short in providing any information on Welsh Government's objective to support and diversify rural areas. The policy is greatly dependent on lower tier plans but without providing any details on how to address the future of challenges in rural areas. This is very disappointing for Denbighshire because the local authority is largely rural in nature. What role will traditionally small market towns play in the development of Wales? Is Welsh Government committed to support these areas at the same level as the identified growth areas?

The draft NDF is described as a 'spatial plan' but it is only currently spatial for some topics, such as growth areas, onshore wind and solar, district heat networks. Yet other potentially spatial policies (e.g. Mobile Action Zones, biodiversity enhancement, national forests etc.) appear to be set aside for a later date, stating the Welsh Government "will identify" areas/sites. This inconsistency is carried throughout the document and comes across as a lack of detail and assessment on many of the topics, with the others such as wind and solar being incredibly detailed.

RTPI Cymru supports greater detail in the final NDF or supporting Annexes and would encourage a spatially specific approach backed up by evidence throughout the NDF - where possible as that detailed for renewable energy generation.

Ymhlith yr ymatebion cafwyd sylwadau a oedd yn ceisio eglurhad ynglŷn â diffiniadau penodol yn y FfDC, megis sut mae canol trefi neu ddinasoedd wedi'u diffinio neu beth fyddai'n gyfystyr ag amgylchiadau eithriadol i ddatblygu rywle arall.

Part of the issue with this policy is lack of clarity in terms of what is meant by town and city centres? Is it the retail boundary drawn around retail cores? This needs to be clarified.

In planning terms, town/city centres usually have tightly defined boundaries within LDPs and relate to the 'retail core' area. If the NDF definition assumes a wider boundary to 'town/city centres' then this should be explained within it. By way of illustration, the Council is currently working with joint venture with Welsh Government, to dispose of land at the Innovation Quarter in Barry Waterfront for a college campus. This site is not within the 'town centre' but is within easy walking distance of homes, rail and bus services, leisure uses, offices, shops and other services which make the site extremely sustainable. The policy should be clearer that sites like this will also be appropriate for these types of public service facilities.

The document could usefully seek to explain what "exceptional circumstances" could comprise? i.e. where there are areas of identified need/ defined shortages in terms of access to services

Tynnodd eraill sylw at y ffaith bod system goleuadau traffig y FfDC ar gyfer datblygiadau gwynt yn ddryslud neu'n amhriodol neu ei bod yn rhoi'r 'negeseuon anghywir', neu fod angen ei chynnwys ar fapiau er eglurder.

- *It is highly unlikely that developers would be searching in National Parks or AoNBs.*
- *Amber provides an incorrect and confusing signal.*
- *Defining green areas is unlikely to be appropriate at this level.*

The maps need to be presented in terms of red/amber/green for each technology – it will also be necessary to indicate areas where there is no potential due to lack of resource.

It is our view that the traffic light approach is misleading, fails to provide a clear position on where development will come forward and should be removed from the NDF in favour of criteria based policies.

Roedd sylwadau ynghylch y ffaith nad oedd polisi 4 yn ddigon manwl yn aml yn ategu sylwadau ynghylch y diffyg manylion am ardaloedd gwledig, gan gynnwys y ffaith nad oes digon o fanylion na phwyslais ar gymunedau gwledig na'r ffordd y caiff y cymunedau hynny eu cefnogi er mwyn sicrhau twf, neu fod mwy o bwyslais wedi'i roi ar dwf trefol. Tueddai pryderon ychwanegol ynghylch ardaloedd gwledig i ganolbwyntio ar ddiwydiannu'r dirwedd, gan gynnwys pryderon ynghylch datblygiadau dwysedd uchel.

The Rural Area policy is very vague and contradicts the Urban Policy - If funding is concentrated in Urban Areas how can we persuade young people to remain in the Countryside where funding is less (no jobs, poor infrastructure, limited housing)

There is a marked emphasis and detail on the Urban with 3 policies as opposed to the one policy for the Rural areas. Although there are references and aspirations for the Rural it would appear that there is an over reliance on local LPDs and SPDs to fill in this gaping void and no overall National Way Forward for Rural areas

I would love to see any aspects of your rural policies that saw Mid Wales as an area to be cherished and celebrated, rather than a place to exploit or ignore. I know our local elected representatives go to Cardiff-well, because they have to. That is where the Assembly building is. But I never seem to hear of visits here (other than when campaigning) I challenge Ministers and Portfolio Holders to come with open minds and see what a wonderful place it is, to travel around our beautiful scenery and actually look positively at it as a place to visit and stay, rather than a featureless void between Snowdonia and the valleys

Higher density creates tensions with providing adequate space for Green Infrastructure including gardens, parks, open spaces and street trees. There would be a conflict if in practice that means infilling gardens or not providing the necessary scale of green areas within a development. For example, in 2013, in Wales, just 1% of all urban tree cover (a principal component of urban green infrastructure) was found in areas of high-density housing, often being those areas experiencing the highest levels of deprivation. Private residential gardens make up 35% of Wales' urban areas, providing 20% of all our towns' tree canopy, being 29% of all urban trees. (Figures from NRW's urban tree canopy cover assessment, p64). Their report showed that 159 of Wales' 220 towns lost canopy cover between 2006 and 2013, including 7000 large trees and 20 hectares of urban woodland. Policy measures that actively reverse such trends are needed if we are to use Green Infrastructure effectively to mitigate climate change effects in urban areas.

Roedd sylwadau ar dai yn canolbwyntio'n bennaf ar wella seilwaith, cyfleoedd cyflogaeth neu amwynderau cyn dechrau ar ddatblygiadau tai newydd.

You talk of 'town centres first'. in rural towns everything gets taken away from banks, libraries, transport, recycling stations. If '...they are integral to the health and livelihood of our nation', then I think they should be supported much more. not many jobs prospects and even if say a housing scheme was planned and executed, the building jobs do not go to local builders, plumbers, carpenters etc but are contracted to bigger companies out of the area!

Where people live is market driven effected by a number of issues the most influential of which is employment, this needs to be resolved first, development alone will not solve this problem.

[T]here is a need to develop smaller market town / sub-regional towns, which have historically served rural areas. WG need to sustain good public transport services and a range of economic activities irrespective of the critical mass of people otherwise there will be inequalities in opportunities in rural areas, migration of young people and a loss of cultural, social and economic opportunities in the rural areas (including diminishing use of the welsh language).

Ymhlith y pryderon eraill a leisiwyd mewn perthynas â thai roedd sylwadau nad oes digon o safleoedd tir llwyd ar hyn o bryd i ateb y galw am dai fforddiadwy (a thai yn fwy cyffredinol) a sylwadau cysylltiedig a oedd yn awgrymu y dylai fod mwy o ddatblygiadau gwledig neu lai o gyfyngiadau ar adeiladau ar safleoedd maes glas. Datgelodd rhai o'r sylwadau hyn bryderon y gallai gosod cyfyngiadau ar waith datblygu ar safleoedd maes glas am yr 20 mlynedd nesaf achosi problemau yn y dyfodol os bydd angen ystyried datblygu ar safleoedd o'r fath.

Mynnodd sylwadau eraill sylw fod gan Bolisi Cynllunio Cymru ganllawiau llai caeth ar ddatblygu ar safleoedd maes glas.

We need more development in rural areas which are suffering from a withdrawal of services and facilities. We need more housing in these areas, which will make these areas more viable and will allow the younger generations to remain in these areas.

Currently, national policy allows consideration of suitable and sustainable greenfield sites within or on the edge of settlements, alongside new settlements in the open countryside in exceptional circumstances (PPW Edition 10 Para 3.40 refers). This recognises that there is a need to provide a range and choice of sites to ensure that there is a deliverable supply of housing to satisfy each Council's housing requirement. By way of example, Cardiff's 2010 Local Development Plan (LDP) was initially withdrawn as a result of concerns raised by the Inspector due to its overreliance on brownfield land – which is a finite resource in terms of availability.

Yn ogystal â'r ffaith nad oes digon o safleoedd tir llwyd yn gyffredinol, rhybuddiodd rhai mai prin oedd y tir cyhoeddus a oedd ar gael ar gyfer cyflenwi tai defnydd cymysg neu fforddiadwy, yn enwedig am fod awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio derbyniadau cyfalaf o dir a waredwyd i gyflawni amcanion eraill.

Given that bringing a site forward for development is a significant challenge in its own right, limiting sites to urban areas and publically owned land makes this challenge even harder.

We are also not convinced that such a policy on its own will change the mindset of the public owners who will still be looking to maximise the capital receipt from the land. If they are not allowed to do this then they may not bring the land forward resulting in fewer new homes being delivered.

The principle of giving positive consideration to the future use of publicly owned land is generally supported. However, the Council currently uses capital receipts from land disposal to deliver other strategic objectives such as 21st Century schools programme and regeneration initiatives. Welsh Government either needs to support Council's financially to deliver these agendas or leave it to Councils to determine how they proceed with individual sites. Otherwise it will inhibit Local Authorities whose priorities differ from those identified by Welsh Government.

To deliver the intentions of Policy 3, a culture change will need to be achieved within Public Bodies where all departments are in a position to work towards the longer term wider well-being goals, rather than be under pressure to maximise the capital receipt for plots of land

Nododd cyfrannau llai o'r ymatebion, ar y cyfan, fod angen darparu mwy o dai fforddiadwy, gan awgrymu y dylai'r angen am dai gael ei bennu'n lleol, neu gan Awdurdodau Lleol, CDLlau neu gyrff cymunedol eraill, neu y dylai tai gael eu datblygu yn unol â lefelau o angen.

Cwestiynau Hawdd eu Deall 1 a 3

Mae gennym 10 nod yn y Fframwaith.


C.1 Oes angen i ni feddwl am unrhyw beth arall?

C.3 Ydych chi'n meddwl bydd y Fframwaith yn helpu i sicrhau lleoedd iach wedi eu cynllunio yn dda?

Hawdd ei Ddeall – Ystadegau


4.2.5 Dengys Siartiau CH.1 a CH.3 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chwestiynau 1 a 3 yn y drefn honno, ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nhw. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

CH.1



	Oes	Ddim yn siwr	Na	Cyfanswm
Nifer	61	13	39	113
Canran	54%	12%	35%	100

CH.3



	Ydw	Ddim yn siwr	Na	Cyfanswm
Nifer	49	21	44	114
Canran	43%	18%	39%	100

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 1 – Prif Themâu

4.2.6 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn hawdd ei ddeall 1.

Thema	Cod	Cyfanswm
Datblygiadau gwynt/solar	Niwed i gefn gwlad/effeithiau ecolegol e.e. perygl i fywyd gwylt/difrod amgylcheddol/ni ddylid derbyn egwyddor newid tirwedd	14
Dichonoldeb	Dw i ddim yn siŵr a yw'r cynlluniau yn ymarferol/ni fyddant yn mynd rhagddynt mewn gwirionedd	9
Yr economi/twristiaeth	Bydd y cynlluniau yn cael effeithiau negyddol ar yr economi neu'r diwydiant twristiaeth	8
Datblygiadau gwynt/solar	Fel arall, rwyf yn erbyn adeiladu tyrbinau gwynt ar y tir	7
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n cytuno ag egwyddorion/nodau/canlyniadau'r FfDC	7
Dichonoldeb	Mae'n gofyn am weithio cydgyssylltiedig e.e. rhwng Llywodraeth Cymru ac ALLau	5
Datblygiadau gwynt/solar	Yr effaith ar iechyd/llesiant	4

Cludo ynni	Pryder ynghylch sut i gysylltu ffermydd gwynt/solar gwledig â'r grid cenedlaethol/y seilwaith sydd ei angen i gludo'r ynni)	4
Trafnidiaeth	Dylid gwella'r rhwydwaith ffyrdd/cysylltiadau trafndiaeth â chanolfannau trefol	4
Tai	Mae angen ystyried amwynderau lleol/gwella'r seilwaith lleol wrth adeiladu tai	3
Dichonoldeb	Mae angen neilltuo cyllid ar ei gyfer/ei ariannu'n deg er mwyn iddo fod yn llwyddiannus	3
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymgynghori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	3
Tai	Dylid ystyried prynu cartrefi gwag yn orfodol/defnyddio'r stoc dai bresennol/tai nas defnyddir cyn adeiladu tai newydd	2
Tai	Ar y cyfan, rwyf yn erbyn adeiladu tai	1
Tai	Pryder ynghylch adeiladu tai ar y llain las/difrod i ardaloedd gwyrdd	1
Y Gymraeg	Rwy'n anghytuno â'r cynigion ar gyfer y Gymraeg/nid yw'r Gymraeg yn flaenoriaeth/mae'r targedau ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yn afrealistig	1
Arall (nas nodwyd)		13

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 1 – Sylwebaeth

4.2.7 Mae'r adran ganlynol yn rhoi sylwebaeth hawdd ei deall ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny. Mae'n ymdrin â chwestiwn hawdd ei ddeall 1.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud y pethau iawn gyda'u cynllun, cyflwynwyd sylwadau gan 52 o ymatebwyr o'r ymgynghoriad hawdd ei ddeall. Tueddai'r ymatebion i ganolbwyntio ar y cynigion ar gyfer datblygiadau gwynt a solar yn ogystal â thai ac, i raddau llai, drafnidiaeth.

Gan amlaf, roedd yr ymatebwyr yn pryderu ynghylch effaith tyrbinau gwynt ar y dirwedd, yr amgylchedd neu fywyd gwylt Cymru wledig. Cyflwynodd eraill sylwadau gan nodi, ar y llaw arall, eu bod yn erbyn adeiladu tyrbinau gwynt ar y tir neu'n gwrthwynebu hynny am resymau iechyd a llesiant.

I strongly believe wind farms should be offshore, I strongly feel that the beauty, wildlife, tourism will be damaged by wind farms

Mid wales landscape should be protected so I believe that the landscape changes set out in the proposal are wrong.

Gwnaeth eraill sylwadau gan nodi eu bod yn erbyn adeiladu tyrbinau gwynt ar y tir neu'n gwrthwynebu hynny am resymau iechyd a diogelwch. Roedd y pryderon ynghylch iechyd a llesiant yn ymwneud â'r sŵn a grëir gan dyrbinau, neu eu heffaith weledol ar drigolion lleol.

Generally "Yes" with the exception of the approach to onshore wind farm development

It is an ill thought out plan with no concern for the human body and the fact that subsonic noise could have negative effects on the human body, such as disturbed sensory perception or circulatory problems does not seem to have figured, or considered important enough, in your plans

It's about time you thought about the residents of this area, what is it going to do to them, the noise from the turbines, the ugly scar on the landscape and the effect it will have on property in the area

Unwaith eto, roedd pryderon ynghylch trafndiaeth yn gysylltiedig â chysylltedd cymunedau gwledig ag ardaloedd trefol, yn enwedig yng Nghanolbarth Cymru, a'r ffaith nad oes seilwaith trafndiaeth gyhoeddus yn bodoli eisoes yn yr ardaloedd hyn.

Disadvantages the many rural communities in Wales. Where I live in mid Wales no good roads to get to these cities nor good public transport.

I'm concerned about Mid Wales, according to the plan, a place with no connectivity to North or South Wales. [...] Montgomeryshire has no connectivity in any way with the Swansea region. I'd guess that 90% of residents had never been to the Swansea region, there's not even a direct road network linking communities. I note that improved links are to be encouraged between N Wales and Liverpool, Chester and Manchester. However, there is no mention of improved links between Mid Wales and Liverpool, Chester, Birmingham, Hereford etc. Has nobody noticed the congestion on the A5 between Oswestry and Chester, or even looked at the impact that has on A483, the artery to Mid Wales?

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 3 – Prif Themâu

4.2.8 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn hawdd ei ddeall 3.

Thema	Cod	Count
Cyffredinol	Cytuno â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru/rwy'n credu ei bod yn bwysig lleihau allyriadau carbon/dylai fod yn flaenoriaeth	6
Datblygiadau gwynt/solar	Niwed i gefn gwlad/effeithiau ecolegol e.e. perygl i fywyd gwylt/difrod amgylcheddol/ni ddylid derbyn egwyddor newid tirwedd	6

Yr economi/twristiaeth	Bydd y cynlluniau yn cael effeithiau negyddol ar yr economi neu'r diwydiant twristiaeth	6
Ardaloedd gwledig	Nid oes digon o fanylion ac ni roddir digon o bwyslais ar gymunedau gwledig yn y cynlluniau/y ffordd y caiff cymunedau gwledig eu cefnogi er mwyn sicrhau twf/gormod o bwyslais ar ardaloedd trefol	6
Datblygiadau gwynt/solar	Yr effaith ar iechyd/llesiant	5
Cyffredinol	Anghytuno â'r cynigion/ni ellir eu cyflawni, yn fy marn i	4
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Cyffredinol (amhenodol)/mae angen iddynt ganolbwyntio'n fwy ar weithredu	4
Trafnidiaeth	Dylid gwella'r rhwydwaith ffyrdd/cysylltiadau trafndiaeth â chanolfannau trefol	3
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Mae'r cynlluniau yn cael effaith anghymesur ar Ganolbarth Cymru/ni wrandewir ar Ganolbarth Cymru	3
Rhanbarthau	Awgrymiadau amgen ynglŷn â rhannu Cymru'n rhanbarthau	1
Datblygiadau gwynt/solar	Dylid dysgu o TAN8/roedd TAN8 yn fethiant/mae'r cynlluniau yn rhy debyg i TAN8	1
Tai	Pryderu ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai/dylai tai newydd fod yn ecogyfeillgar/yn niwtral o ran carbon/yn effeithlon o ran ynni	1
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	1
Cludo ynni	Pryder ynghylch sut i gysylltu ffermydd gwynt/solar gwledig â'r grid cenedlaethol/y seilwaith sydd ei angen i gludo'r ynni	1
Llain las	Cefnogi ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n llain las	1
Datblygiadau gwynt/solar	Lleihau maint, nifer neu arwynebedd datblygiadau gwynt/solar	1
Tai	Pryder ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai/dylai tai newydd fod yn ecogyfeillgar/yn niwtral o ran carbon/yn effeithlon o ran ynni	1
Ardaloedd Gweithredu ar Ffonau Symudol	Rwy'n pryderu ynghylch effeithiau 5G ar iechyd	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		4

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 3 – Sylwebaeth

4.2.9 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny. Mae'n ymdrin â chwestiwn hawdd ei ddeall 3.

Pan ddaeth yn fater o ystyried a fydd y cynllun yn helpu i greu lleoedd iach sydd wedi'u cynllunio'n dda, roedd yr ymatebwyr, gan amlaf, yn cefnogi'r egwyddor o leihau allyriadau carbon neu'n credu y dylid blaenoriaethu hynny.

Nice to see commitment to allowing more areas for renewable energy. this is a must if we are to achieve carbon reduction targets.

We need a radical change in our lifestyles, we are ready to change.

Serch hynny, ailddatganodd ymatebwyr eu pryderon ynghylch effaith tyrbinau gwynt ar yr amgylchedd a thwristiaeth i raddau tebyg ac roeddent hefyd o'r farn nad oedd y cynlluniau yn rhoi digon o gefnogaeth i ardaloedd gwledig na digon o bwyslais arnynt, o gymharu ag ardaloedd trefol.

Young people need a reason to stay living in the countryside, there for encourage small industry to move to the small towns and not to the big conurbations which seem to create more ill feelings towards your neighbour. If the countryside is spoiled there is no valid reason for young people to stay. A Wales where people can live happily in the countryside must be a goal worth aiming for.

Yn gysylltiedig â hyn, awgrymodd rhai nad oedd Canolbarth Cymru yn cael gwrandawriad neu ei fod yn cael llai o fuddiannau a mwy o effeithiau negyddol o dan y cynigion.

With the amount of on shore wind farms proposed for Mid Wales, the noise pollution will drive everybody out.

Powys has closer links and connectivity to England, and that should be developed to fulfil the aims. There are already too many cases of Mid Wales residents having to go to Cardiff for health care, away from family and friends instead of being treated close to home over the border.

Cyflwyniadau Ysgrifenedig

4.2.10 Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r ymgynghoriad fel cyflwyniad ysgrifenedig ac ni wnaethant ddefnyddio'r holiadur llawn na'r holiadur hawdd ei ddeall.

Cytuno â'r egwyddorion

Roedd llawer o'r cyflwyniadau, cyn rhoi'r ymateb, wedi gwneud datganiad eu bod yn cefnogi egwyddorion, canlyniadau neu uchelgeisiau'r FfDC ar y cyfan, cyn mynd ymlaen i wneud awgrymiadau penodol ar gyfer gwella neu ddarparu mwy o fanylion neu roeddent wedi mynegi pryderon ynghylch y dull gweithredu. Disgrifiwyd egwyddorion y FfDC fel rhai oedd yn anodd anghytuno â hwy.

We are very supportive of the draft NDF and its aims and objectives in replacing the Wales Spatial Plan, by providing a distinct vision for the country and its future for the next 20 years. In addition, we welcome and endorse the comments from the First Minister in seeing the NDF as a building block in making Wales a fair, green and prosperous place. Also, we are encouraged and agree with the comments of the Minister for Housing & Local Government who wants to ensure everyone has access to a good home and importantly that we all want a planning system that consistently delivers the homes that meet our needs.

The Cabinet welcomes a strategic approach to development in Wales and recognises the opportunities for using the planning system to address national and regional priorities. Clearly, a strategic approach can play an important role in informing the infrastructure investment and developments needed to deliver in areas relating to economic growth, decarbonisation, resilient ecosystems, and health and community well-being. As a major urban area, Cardiff particularly welcomes Policy 1, which explicitly supports sustainable urban growth given it is uniquely positioned to deliver on this.

Cymunedau gwledig a thirweddau

Un o'r pwyntiau sy'n ymwneud â chymunedau gwledig oedd effaith bosibl canlyniadau lluosog ar y diwydiant amaethyddiaeth. Nododd un ymatebydd fod angen i ffermwyr arallgyfeirio eu ffrydiau incwm, gan awgrymu mai ychydig o ffermwyr a fyddai'n cael budd o ddatblygiadau tyrbinau gwynt ac y byddent yn cyfyngu ar allu llawer o ffermwyr i gynhyrchu incwm o dwristiaeth ac eco-dwristiaeth. Awgrymodd yr ymatebydd hwn fod nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer ffermio ar raddfa fawr neu ffermio diwydiannol wedi cynyddu, a allai fod yn niweidiol i'r amgylchedd.

Rhybuddiodd Cyngor Cymuned Pentyrch hefyd am ffermio diwydiannol ar raddfa fawr, gan awgrymu bod angen i'r FfDC ymestyn y cynnig ar gyfer lleiniau glas yn rhanbarth y Ddeddwyrain i gynnwys yr Ardal Tirwedd Arbennig sy'n cynnwys Mynydd y Garth a'i Esgeiriau ac atal Caerdydd rhag ymestyn i dir amaethyddol, yn ogystal â rhoi mwy o ddiogelwch i ffermydd teuluol a ffermwyr tenant. Er bod Cyngor Cymuned Pentyrch yn pryderu ynghylch blerdwf trefol ar dir amaethyddol, roedd cyngorydd lleol ym Mhowys hefyd yn pryderu y byddai'r cynnydd arfaethedig yng ngorchudd coetir yn effeithio ar dir ffermio da byw traddodiadol ac yn teimlo y dylid ymgynghori'n uniongyrchol ag undebau ffermio ar y mater hwn.

There is also a need to address the current trend for farm diversification that is based on high volume egg, chicken and cattle (including veal) production, as can be seen from the increasing number of planning applications for such, essentially industrial, proposals. The present trend for growing large crops of maize for fuel production is another matter with worrying impacts on the local environment. The ecological, environmental and infrastructure impacts of all such developments are considerable and often negative. Urgent action is needed to deal with the likely post-Brexit situations in which Welsh agriculture could, by a number of admissions, suffer greatly.

Unigolyn

We are concerned that the dNDF does not include protection of family owned and/or tenanted farms which are vital for food security, protection of language and cultural identity as well as a bastion against large scale factory farming

Cyngor Cymuned Pentyrch

Pryderon eraill

Cododd sawl sefydliad ystyriaethau penodol iawn yn seiliedig ar eu meysydd arbenigedd na chyfeiriwyd atynt yn aml nac yn fanwl, fel arall, mewn manau eraill yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniadau gan Dŵr Cymru a oedd yn nodi effaith bosibl datblygiadau newydd ar Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff ac yn awgrymu y

dylai'r FfDC ystyried ei Gynlluniau Draenio a Dŵr Gwastraff er mwyn helpu i ystyried newid yn y boblogaeth ac effaith hyn ar yr amgylchedd.

It is useful to have this broad indication within the NDF of where strategic growth will be focussed and the approximate housing requirement that will need to be provided for, however we will need to await consultation on the SDPs for further information regarding the breakdown of growth between settlements to allow us to assess the potential impact of growth upon our infrastructure. For example, not every settlement is served by its own Wastewater Treatment Works (WwTW), the catchment area of some WwTW cover numerous settlements therefore the impact on our assets will be dependent upon the amount of growth proposed within individual catchment areas.

Dŵr Cymru

Yn olaf, mae siniciaeth ddofn ynghylch y FfDC a'r broses ymgynghori. Yn y grŵp hwn, mynegodd dau unigolyn y farn hon. Dywedodd un o'r rhain y gallai'r FfDC fod wedi cael ei ysgrifennu:

...could have been written a decade ago except for the additional major issues of climate change and energy which should be held up as the most important current considerations. It does not suggest a complete understanding of the situation we are in today and this is reflected in the lack of the human/people focus in key spheres of the sustainable model.

Tra roedd un arall yn amau a fydd yr ymgynghoriad yn arwain at weithredu:

... we have never put in place credible plans for our future and the future of our immediate descendants let alone the planet. It is therefore given past examples of failure to be transparent or to get it "right first time" or provide "best value", questionable as to what is the plan for all the ideas that come forward this time. Numerous past consultations have come and gone without any real results or measurable changes being made clear and transparent, or that progress has been made...

Ymateb Llywodraeth Cymru – Strategaeth Ofodol

- 4.2.11 Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn yr adran hon yn ymdrin â Chwestiwn 2 yr holiadur llawn a Chwestiwn 1 yr holiadur hawdd ei ddeall..
- 4.2.12 Nifer cymharol fach o sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r strategaeth ofodol gyffredinol a gynigir gan y FfDC drafft. Tueddai'r sylwadau a gafwyd fod yn fanwl ac ymwneud â phryderon ynghylch polisiau penodol yn hytrach na'r dull gofodol cyffredinol. Mae'r nifer bach o sylwadau a wnaed mewn perthynas â'r strategaeth wedi arwain at newidiadau arfaethedig pwysig.
- 4.2.13 Cynigir polisi newydd – 'Ble fydd Cymru yn tyfu' – fel polisi cyntaf y FfDC. Bydd y polisi yn nodi egwyddorion y strategaeth ofodol ac mae'n cyfateb i bolisi hierarchaeth aneddiadau a geir yn aml mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r polisi yn cynnwys testun o dudalen 24 o'r FfDC drafft yn bennaf, ond gyda'r pwys ychwanegol sy'n deillio o fod wedi'i fynegi fel polisi.
- 4.2.14 Mae'r polisi arfaethedig yn nodi tair Ardal Twf Cenedlaethol a'r nodweddion y dylai gwaith datblygu a buddsoddiad yn yr ardaloedd hyn geisio eu cynnal a'u gwella. Mae'r tair ardal yn ddigyfnewid o ran y graddau gofodol o'r FfDC drafft. Mae'r polisi yn nodi Ardaloedd Twf Rhanbarthol mewn tri o'r rhanbarthau ac yn eu disgrifio'n fras. Rhoddir disgrifiadau a pholisiau manwl ar gyfer pob un o'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol ym Mhennod 5 ar y Rhanbarthau. Mae'r papurau esboniadol ar y strategaeth ofodol a'r rhanbarthau yn rhoi mwy o fanylion am y ffactorau a bennodd y strategaeth ofodol.
- 4.2.15 Nododd yr ymgynghoriad bryderon ymhlith llawer o'r ymatebwyr ynghylch y weledigaeth ar gyfer ardaloedd trefol, gyda'r canfyddiad bod y FfDC yn rhoi gormod o bwyslais ar ardaloedd trefol. Nodir y rhesymeg dros ddull y FfDC drafft o ymdrin â chymunedau gwledig yn y papur esboniadol ar yr ardaloedd trefol. Yn ein barn ni, Cynlluniau Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol yw'r haen briodol o'r system gynllunio ar gyfer gwneud cynigion manwl ar gyfer ardaloedd gwledig, oherwydd yr amrywiadau yn nodweddion gwahanol leoedd gwledig. Rydym hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig bod y FfDC yn cynnig gweledigaeth glir a chadarnhaol ar gyfer datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Mae'r penderfyniad i greu pedwerydd rhanbarth, a wneir drwy rannu Canolbarth Cymru a'r De-Orllewin, yn arwydd o'r gydnabyddiaeth hon, yn ogystal â'r cynnig i gynnwys polisi cenedlaethol ychwanegol ar faterion gwledig. Nodir manylion y rhanbarth newydd hwn o dan gwestiwn 11 (rhan 4.7), a cyflwynir y polisi newydd yn ddiweddarach yn yr adran hon.
- 4.2.16 Codwyd materion cyffredin mewn perthynas â'r strategaeth ofodol, polisi tai fforddiadwy a pholisiau rhanbarthol, gan gynnwys a yw uchelgeisiau'r FfDC drafft yn gyflawnadwy, pryderon bod y FfDC yn canolbwyntio gormod ar ddatblygu ar safleoedd tir llwyd a chanfyddiad bod y FfDC yn anghson â Pholisi Cynllunio Cymru am nad yw'n cefnogi unrhyw drefi newydd. Nodwyd gwendidau o ran darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus ac ardaloedd o fewn yr

ardaloedd twf lle mae perygl llifogydd hefyd fel cyfyngiadau posibl ar dwf cynaliadwy yn yr ardaloedd twf.

4.2.17 Rydym yn cydnabod nad oedd y FfDC drafft yn cynnwys polisi ar berygl llifogydd a goblygiadau hyn o ran rhoi sicrwydd bod modd cyflawni'r strategaeth ofodol. Nodir manylion y polisi newydd arfaethedig ar reoli perygl llifogydd o dan gwestiwn 15 (adran 4.8).

4.2.18 Yn fwy cyffredinol, credwn fod gwahanol bolisiau'r FfDC, gyda'i gilydd, yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau twf cynaliadwy mewn rhannau trefol o'r ardaloedd twf a nodwyd. Ni nodir unrhyw drefi newydd gan y FfDC am ein bod o'r farn mai'r ffordd orau o ddiwallu'r angen a'r galw am dai yw drwy waith datblygu mewn canolfannau sy'n bodoli eisoes. Nid yw'r safbwynt hwn yn anghyson â Pholisi Cynllunio Cymru, sy'n galluogi cynlluniau datblygu i nodi trefi newydd ond nad yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 1 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 1: Twf trefol cynaliadwy; Polisi drafft 2: Cefnogi Canolfannau Trefol

4.2.19 Mae Polisi 2 y FfDC Drafft: Cefnogi Canolfannau Trefol wedi'i ddiweddarau a chynigir y dylid ei fabwysiadu fel Polisi 2: Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd rhywfaint o feirniadaeth nad oedd gan y FfDC drafft weledigaeth ar gyfer y dyfodol, nad oedd yn ddigon arloesol ac nad oedd yn adlewyrchu pwysigrwydd creu lleoedd i'r system gynllunio yng Nghymru. Mewn ymateb i hyn, mae'r polisi wedi'i ddiweddarau yn pennu dyhead clir ar gyfer tyfu ac adfywio trefi a dinasoedd er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egniol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd. Mae set o egwyddorion creu lleoedd wedi'i chyflwyno er mwyn cefnogi twf ac adfywio trefol er mwyn cyflawni'r dyhead hwn.

4.2.20 Lleisiwyd rhai pryderon mai dim ond datblygiadau dwysedd uchel a oedd yn cael eu hyrwyddo gan y polisi yn y FfDC drafft ac y byddai'n arwain at ddatblygiadau uchel iawn a oedd wedi'u cynllunio'n wael ac na fyddent yn darparu'r math o dai y mae pobl am fyw ynddynt. Nid dyna fwriad y polisi sydd, yn hytrach, yn ceisio hyrwyddo datblygiadau â dwysedd uwch (nid uchel) o dai o gymharu a'r datblygiadau sy'n cael eu hadeiliadu ar hyn o bryd..

4.2.21 Y rheswm pam mae'r polisi yn hyrwyddo cynyddu dwysedd y boblogaeth yw bod adeiladu datblygiadau dwysedd is yn creu ystadau tai a pharciau manwerthu/busnes sy'n dibynnu ar y car, sy'n ei gwneud yn anodd i bobl

teithio o amgylch ar droed ac ar feic ac sy'n golygu bod gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn aneconomaidd. Mae i hyn oblygiadau mawr i iechyd a llesiant am ei fod yn cyfrannu at ordewdra a'r teimlad o fod yn unig ac yn ynysig. Mae'n gwaethygu anfanteision iechyd i grwpiau penodol, megis yr henoed, y rhai sy'n gofalu am blant bach, plant eu hunain, y rhai ag anabledau a'r rhai mewn tlodi. Mae hefyd yn denu gweithgarwch oddi wrth ganol trefi ac yn creu ardaloedd heb ymdeimlad o le na chymuned. Gall hefyd arwain at golli mannau gwyrdd a chefn gwlad ac mae'n tanseilio ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac yn gwaethygu problemau o ran llygredd sŵn ac ansawdd aer.

4.2.22 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu ar gyfer ffyrdd amrywiol o fyw ac ni fwriedir i bob datblygiad newydd fod yn un dwysedd uchel nac i'r holl dai a adeiledir fod yn fflatiau. Mae'r polisi wedi ei ddiweddarau yn glir y dylai datblygiadau newydd ymateb i'r cyd-destun lleol. Dylai dwysedd a natur gwaith datblygu amrywio er mwyn adlewyrchu pa mor agos ydyw at ganol tref, pa mor hygyrch yw trafndiaeth gyhoeddus a natur y stryd. Mae'r polisi yn glir nad yw'r dwyseddau rydym yn eu hyrwyddo yn gofyn am ddatblygiadau uchel iawn ac mai'r nod yw hyrwyddo ffurfiau mwy trefol ar waith dablygu, megis strydoedd teras a blociau perimedr. Gall y rhain ddarparu amrywiaeth o fathau o dai, gan gynnwys cartrefi teuluol o faint da, gyda thai teras, tai tref, tai 'mews' a blociau bach o fflatiau.

4.2.23 Rydym yn cydnabod, er eu bod yn dra hysbys ar y cyfan, y gall fod yn anodd rhoi'r egwyddorion creu lleoedd ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, ni fydd dull 'busnes fel arfer' yn creu'r lleoedd llwyddiannus a chynaliadwy rydym am eu gweld. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, ynghyd â phryderon nad yw'r FfDC yn ddigon clir ynghylch sut y dylai cynlluniau haen is ymateb, mae'r polisi wedi'i ddiweddarau yn argymhell y dylai awdurdodau cynllunio lleol sefydlu fframwaith gofodol ar gyfer pob tref a dinas. Y bwriad yw sefydlu dull cynllunio gofodol rhagweithiol ac integredig sy'n seiliedig ar leoedd er mwyn llywio twf a gweithgarwch adfywio. Yn ogystal â nodi'r ffordd orau y gall trefi a dinasoedd ehangu, y bwriad yw annog canolbwyntio'n fwy ar gynllunio ar gyfer cymdogaethau presennol, yn enwedig y rhai sydd angen eu hadfywio, a sefydlu fframwaith sy'n rhoi mwy o sicrwydd ac sy'n galluogi lleoedd i ddatblygu dros amser.

4.2.24 Byddwn yn gwneud rhagor o waith er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi'r polisi hwn ar waith.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 49 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am fanylion.

✿ Polisi Arfaethedig Newydd 6 – Canol Trefi yn Gyntaf

4.2.25 Mae Polisi 2 y FfDC drafft wedi'i ddiweddarau yn sylweddol mewn ymateb i'r ymgynghoriad. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn rydym wedi datblygu Polisi arfaethedig 6: Canol Trefi yn Gyntaf. Gofynnodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad pam fod Polisi drafft 2 ond yn gymwys i ddatblygiadau'r sector

gyhoeddus a pham nad oedd yn cynnwys datblygiadau'r sector preifat hefyd. Er mai'r bwriad oedd y byddai'r sector cyhoeddus yn dangos arweiniad drwy fabwysiadu dull Canol Trefi yn Gyntaf, cytunir y dylai'r egwyddorion hyn fod yn gymwys i'r sector preifat hefyd. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau er mwyn iddo fod yn gymwys i gyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd.

4.2.26 Lleisiodd rhai ymatebwyr bryder y gall lleoli gwasanaethau cyhoeddus yng nghanol trefi fod yn heriol yn ymarferol. Cydnabyddir y gall hyn fod yn wir, ond mae goblygiadau mawr i iechyd, llesiant a chydaddoldeb os nad yw datblygiadau yn hygyrch i bawb. Mae'n rhaid inni sylweddoli nad yw pawb yn gallu gyrru nac yn dymuno gyrru ac nad oes gan bawb fynediad at gar. Felly, nid yw cyfleusterau sy'n dibynnu ar y car, y mae angen iddynt fod yn hygyrch i aelodau o'r cyhoedd neu gyflogaion, yn briodol nac yn dderbyniol.

4.2.27 Mae'n hollbwysig bod datblygiadau yn cael eu lleoli yng nghanol trefi, lle y gall eu defnyddwyr gerdded, beicio a/neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i'w cyrraedd yn hawdd. Mae hon yn agwedd allweddol ar waith creu lleoedd ac mae angen ei rhoi ar waith er mwyn inni gyflawni ein nod o greu lleoedd cynaliadwy sy'n gwella iechyd a llesiant pobl. Bydd lleoli'r cyfleusterau hyn yng nghanol trefi hefyd yn cefnogi siopau, yn ogystal â chyfleusterau eraill, ac yn atgyfnerthu eu rôl fel canolbwynt lleoedd.

4.2.28 Cododd rhai ymatebwyr bryderon bod y polisi yn ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth cyhoeddus newydd gael ei leoli o fewn y ffin a dynnwyd o amgylch canolfannau manwerthu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Nid dyna'r bwriad ac mae'r polisi wedi'i ddiwygio er mwyn cywiro'r gamdybiaeth hon a darparu ar gyfer ei roi ar waith mewn modd synhwyrol. Er enghraifft, cydnabyddir y gall fod angen darnau mawr o dir ar rai cyfleusterau, megis ysbytai dosbarth, ac ni ddisgwylir iddynt gael eu lleoli o fewn ffin fanwerthu canol trefi a dinasoedd. Yn hytrach, dylid eu lleoli yn ganolog mewn tref neu ddinas mewn man y gellir ei gyrraedd yn hawdd ar drafndiaeth gyhoeddus. Cydnabyddir hefyd y gall fod yn well lleoli rhai gwasanaethau llai o faint, megis meddygfeydd neu ysgolion cynradd, mewn mannau hygyrch mewn cymdogaethau, yn enwedig canolfannau lleol.

4.2.29 Bwriedir i'r polisi hyrwyddo creadigrwydd o ran y ffordd y caiff datblygiadau eu darparu a'u cynllunio. Os cânt eu lleoli'n ganolog, a'u bod yn hygyrch ar drafndiaeth gyhoeddus, gall datblygiadau gael eu hadeiladau ar ddwyseddau uchel ac nid oes angen darnau mawr o dir arnynt ar gyfer lleoedd parcio ceir. Gall hyn ei gwneud yn bosibl i'r un cyfleusterau gael eu hadeiladu ar lain lawer llai nag y byddai ei hangen ar gyfer datblygiad sy'n dibynnu ar y car y tu allan i'r dref. Gall hefyd fod yn well addasu adeilad sy'n bodoli eisoes i'w ddefnyddio at ddiben gwahanol yn hytrach nag adeiladu un newydd. Yn yr un modd, gall fod yn well defnyddio nifer o adeiladau llai o faint mewn tref, yn hytrach na chodi un adeilad mawr.

4.2.30 Holodd rhai ymatebwyr ynghylch cymhwysedd defnyddio prawf dilyniannol ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn rhai manwerthu, megis gyda gwasanaethau iechyd. Mae'r polisi yn cadw'r defnydd o ddull dilyniannol, am y bwriedir iddo

fod yn adnodd cadarnhaol i helpu i nodi'r lleoliad gorau ar gyfer gwaith datblygu mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Os na chaiff cynnig ei ddyrannu mewn cynllun datblygu, diben y prawf dilyniannol yw asesu a oes asesiad trylwyr o'r gwahanol opsiynau wedi'i gynnal.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 3 y FfDC drafft: Buddsoddiad cyhoeddus, Adeiladau Cyhoeddus a Thir sy'n Eiddo Cyhoeddus

- 4.2.31 Mae Polisi 3 y FfDC drafft wedi'i ddiweddarau a hwn bellach yw Polisi 3 drafft: Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus. Mewn ymateb i feirniadaeth bod angen i'r FfDC fod yn fwy gweledigaethol ac arloesol a chanolbwyntio'n fwy ar greu lleoedd, mae'r polisi wedi'i ddiweddarau yn gliriach ynglŷn â phwysigrwydd atgyfnerthu'r rôl y mae'r sector cyhoeddus yn ei chwarae wrth alluogi twf ac adfywio trefol. Mae cefnogi'n fwy penodol y nod o greu lleoedd a gwella iechyd a llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae hefyd yn rhoi datganiad clir y bydd Llywodraeth Cymru yn cydgasglu tir, buddsoddi mewn seilwaith a pharatoi safleoedd i'w datblygu, yn ogystal â helpu awdurdodau lleol i fanteisio ar botensial eu tir. Mae'r polisi hefyd wedi cael ei alinio'n agosach â chefnogi polisi Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol (Polisi 2 arfaethedig).
- 4.2.32 Nid yw ansawdd y datblygiadau sy'n cael eu hadeiliadu yn bodloni ein disgwyliadau o ran creu lleoedd. Nododd ymchwil ddiweddar fod dyluniad amgylcheddau tai newydd yn 'ddi-fflach' neu'n 'wael'². Roedd yr archwiliad hwn wedi edrych ar ddatblygiadau yn Lloegr, ond mae'r canlyniadau yn adlewyrchu ein pryderon ynghylch ansawdd dylunio datblygiadau yng Nghymru. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau yn nodi bod angen arallgyfeirio'r diwydiant datblygu yng Nghymru a bod angen i'r sector cyhoeddus chwarae mwy o ran. Dengys tystiolaeth, pan fydd y sector cyhoeddus yn chwarae rôl fwy gweithredol a galluogol, ar y cyd â dull cynllunio gofodol integredig, y gellir creu lleoedd gwell. Gall hyn arwain at ddatblygiadau sydd wedi'u dylunio'n well, sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol, a wasanaethir gan seilwaith o ansawdd uchel ac sy'n creu lleoedd sy'n sicrhau ansawdd bywyd llawer gwell.
- 4.2.33 Cododd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar dir sy'n eiddo cyhoeddus yn diwallu anghenion tai a thwf Cymru, ac nad oes gan y sector cyhoeddus lawer o dir sy'n addas i'w ddatblygu mwyach. Cydnabyddir na all tir sy'n eiddo cyhoeddus ddarparu'r holl dir sydd ei angen i ddiwallu ein hanghenion a'n dyheadau o ran twf ac adfywio. Yn yr un modd, ni ddylai perchenogaeth tir bennu ble y lleolir datblygiadau ac, yn lle hynny, dylid nodi'r safleoedd sydd fwyaf addas i'w datblygu a'u hadfywio drwy ddefnyddio dull gweithredu a arweinir gan gynllun, fel yr hyrwyddir yn y polisi Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol. Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau yn hyrwyddo rôl fwy gweithredol i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cydgasglu tir a galluogi gwaith datblygu, ac

² Place Alliance (2019) [A Housing Design Audit for England](#)

anogir awdurdodau cynllunio i weithio'n rhagweithiol a chydweithio er mwyn cefnogi hyn.

4.2.34 Nododd rhai ymatebion awdurdodau lleol eu bod yn dibynnu ar y derbyniadau cyflafaf o waredu tir. At hynny, nododd rhai ymatebion y bydd angen newid diwylliant yn gyntaf cyn y gellir sicrhau bod y sector cyhoeddus cyfan yn gweithio tuag at fuddiannau llesiant tymor hwy. Cydnabyddir, ar ôl blynyddoedd o gyngor cyllidol a osodwyd gan Lywodraeth y DU, fod y sector cyhoeddus mewn sefyllfa ariannol anodd. Fodd bynnag, mae gan y sector cyhoeddus rwymedigaeth hefyd i ddefnyddio ei asedau er budd y cyhoedd ac, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ystyried effeithiau hirdymor penderfyniadau a gwella llesiant y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

4.2.35 Nid atal y sector cyhoeddus rhag gwneud elw o ddatblygu ei dir yw diben y polisi ond, yn lle hynny, sicrhau ei fod yn cefnogi twf ac adfywio er budd cymunedau. Er mwyn gwneud hyn mae angen ailddiffinio'r ffordd yr rydym yn meddwl am werth am arian ac, yn hytrach na dim ond gwerthu tir i'r sawl sy'n cynnig y pris uchaf, ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r safle. Yn aml nid gwerthu tir i ddatblygwyr mawr yw'r opsiwn gorau ychwaith a gellir sicrhau canlyniadau llawer gwell os gall y sector cyhoeddus gadw perchenogaeth o safleoedd. Mae hyn yn rhoi mwy o reolaeth dros ansawdd gwaith datblygu a sicrhau buddiannau llesiant ehangach. Gall hyn hefyd fod yn gyfle i fabwysiadu dull datblygu sy'n seiliedig ar leiniau ac isrannu safleoedd yn lleiniau bach a all alluogi amrywiaeth eang o ddatblygwyr llai o faint a lleol i fanteisio ar gyfleoedd datblygu. Mae enghreifftiau o leoedd gwych lle mae'r awdurdod lleol wedi gwneud hyn, gan ffafrio unigolion, cwmnïau cydweithredol, darparwyr tai cymdeithasol ac adeiladwyr lleol wrth werthu lleiniau..

4.2.36 Mae'r polisi wedi'i ddiweddarau i ddileu'r elfen ar leoli datblygiadau newydd yng nghanol trefi, am yr ymdrinnir â hyn bellach yn y polisi Canol Trefi yn Gyntaf (Polisi 6 arfaethedig).

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 16 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 4 y FfDC drafft: Cefnogi Cymunedau Gwledig

4.2.37 Mae Polisi 4 y FfDC Drafft: Cefnogi Cymunedau Gwledig yn cefnogi aneddiadau cynaliadwy a thwf cymesur sy'n adlewyrchu maint ac anghenion yr anheddiad. Yn wahanol i Ardaloedd Twf Cenedlaethol, mae'r polisi yn nodi mai gwaith cynllunio rhanbarthol a lleol yw'r lefel fwyaf priodol lle y dylid ystyried materion megis darparu tai a chyflogaeth wledig neu drafnidiaeth a darparu seilwaith arall.

- 4.2.38 Codwyd pryderon nad yw Polisi 4 yn ddigon uchelgeisiol na rhagweithiol o ran cefnogi ardaloedd gwledig, nad yw'n rhoi digon o fanylion a'i fod yn dibynnu ar gynlluniau haen is i'w roi ar waith. Hefyd, bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar dwf mewn ardaloedd trefol mwy o faint ar draul cyfleoedd twf mewn ardaloedd gwledig.
- 4.2.39 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, mae Polisi 4 y FfDC drafft wedi'i rannu'n ddau bolisi, sef fersiwn ddiwygiedig o Bolisi 4 Cefnogi Cymunedau Gwledig a pholisi newydd arfaethedig, sef Polisi 5 Cefnogi'r Economi Wledig. Mae Polisi 4 yn ymdrin ag anghenion a materion cyffredinol sy'n effeithio ar aneddiadau gwledig tra bod Polisi 5 yn canolbwyntio'n benodol ar yr economi wledig. Diben hyn yw gwella'r ffocws a rhoi mwy o fanylion ac eglurhad yn y testun ategol.
- 4.2.40 Mae'r fersiwn ddiwygiedig o Bolisi 4 wedi'i symleiddio er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod pynciau gwledig wedi'u gwahanu. Mae cyfeiriadau at "trafnidiaeth" wedi'u symud i'r testun ategol, tra trafodir arallgyfeirio a "twf economaidd priodol a chymesur" ym Mholisi 5. Mae testun ategol y ddau bolisi wedi'i ehangu'n sylweddol.
- 4.2.41 Roedd nifer mawr o'r sylwadau ar Bolisi drafft 4 yn ymwneud â datblygiadau ynni gwynt a solar mewn ardaloedd gwledig. Yn benodol, eu heffaith ar dwristiaeth wledig, yr amgylchedd, cymeriad y dirwedd a'i "diwydiannu". Ymdrinnir ag ymateb Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy yng nghefn gwlad yn y fersiynau diwygiedig o bolisiau ynni adnewyddadwy'r FfDC, yn adran 4.6.
- 4.2.42 Mynegwyd pryderon nad oedd y FfDC yn trafod yr heriau sy'n wynebu ardaloedd gwledig yn ddigonol. Mae fersiwn ddiwygiedig o'r FfDC yn esbonio y dylai Awdurdodau Cynllunio gydnabod anghenion gwahanol ardaloedd gwledig, gan ymdrin â'r rhain drwy bolisiau Cynlluniau Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae Polisi 4 yn pwysleisio bod yn rhaid i ardaloedd gwledig ddarparu swyddi a thai er mwyn iddynt gadw neu ddenu pobl o oedran gweithio ac er mwyn cadw gwasanaethau a chyfleusterau i atgyfnerthu hyfywedd a chynaliadwyedd aneddiadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i fynd i'r afael â diboblogi gwledig, anghydbwysedd oedran, amddifadedd, anghydraddoldeb, ynysu cymdeithasol a chanlyniadau Brexit. Dylai Awdurdodau Cynllunio ystyried anghenion yr holl drigolion, gan gynnwys pobl hŷn a phobl ag anabledau a sicrhau yr ystyrir darparu tai arbenigol ac y cynllunnir ar gyfer hynny.
- 4.2.43 Codwyd pryderon nad yw Polisi drafft 4 yn ymdrin â thrafnidiaeth na chysylltedd gwledig. Mae testun ategol y Polisi bellach yn tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol a seilwaith gwefru cerbydau trydan, a'r ffordd y bydd creu lleoedd da yn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar geir a chyfrannu at iechyd a llesiant. Fodd bynnag, derbynnir, mewn ardaloedd mwy anghysbell, ei bod yn debygol y bydd y car

yn ddull hanfodol o deithio o hyd. Pwysleisir pwysigrwydd symud yn effeithiol ar draws rhanbarthau a rhyngddynt hefyd; dylai awdurdodau rhanbarthol a lleol gydweithio i wella hyn. Dylid darllen Polisi 4 ar y cyd â strategaethau trafndiaeth a chysylltedd a nodir yn y fersiwn ddiwygiedig o Bolisi 2 Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleuedd mewn Ffordd Strategol, Polisi 6 arfaethedig Canol Trefi yn Gyntaf, Polisi 11 arfaethedig Cysylltedd Cenedlaethol a Pholisi 12 arfaethedig Cysylltedd Rhanbarthol.

4.2.44 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod diffyg uchelgais i Bolisi drafft 4, gan nodi bod "twf priodol a chymesur" aneddiadau yn derm cyfyngol, a fydd yn arwain at lai o gymunedau cynaliadwy yn hytrach na mwy. Mae'r term wedi'i symud o'r polisi ac mae i'w weld bellach ym Mholisi 5. Ni fwriedir i'r term fod yn gyfyngol, pennir twf gan anghenion y gymuned a'r ardal o'i hamgylch a chan strategaeth wledig Awdurdodau Cynllunio drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Y tu allan i Ardaloedd Twf Cenedlaethol, bydd Ardaloedd Twf Rhanbarthol (gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig) yn tyfu, yn datblygu ac yn cynnig amrywiaeth o dai, gwasanaethau economaidd a gwasanaethau cyhoeddus a masnachol yn rhanbarthol. Dylai gwaith datblygu a thwf mewn trefi llai o faint a phentrefi mewn ardaloedd gwledig lle mae gwasanaethau, cyfleusterau, trafndiaeth a seilwaith arall ac agosrwydd tai a chyflogaeth, yn cynnig yr opsiwn mwyaf cynaliadwy, fod yn gymesur ac ar raddfa briodol a helpu i gyflawni dyheadau a diwallu anghenion pobl leol.

4.2.45 Roedd ymatebwyr o'r farn nad oedd y FfDC yn pwysleisio ddigon yr angen am seilwaith cyfathrebu digidol modern cyflym mewn ardaloedd gwledig. Mae testun ategol Polisi 4 wedi'i ehangu er mwyn mynd i'r afael â hyn, gan gydnabod y manteision y mae seilwaith o'r fath yn eu sicrhau i'r economi wledig, cymunedau ac unigolion a'r rôl y gall Awdurdodau Cynllunio ei chwarae wrth helpu i hwyluso'r broses o'i ddarparu. At hynny, ychwanegwyd polisi arfaethedig newydd, sef Polisi 13 Cefnogi Cyfathrebu Digidol, at y FfDC er mwyn diwallu'r angen am seilwaith modern cyflym ym mhob rhan o Gymru.

*** Polisi Arfaethedig Newydd 5 – Cefnogi'r Economi Wledig**

4.2.46 Codwyd pryderon ynghylch y diffyg uchelgais economaidd mewn ardaloedd gwledig a'r goblygiadau i'r potensial i dyfu. Mae'r Polisi Arfaethedig, sef Polisi 5 Cefnogi'r Economi Wledig, a'i destun ategol yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â materion megis diboblogi, Brexit a phrinder swyddi o ansawdd uchel sy'n talu cyflogau da, a datblygu sail economaidd eang er mwyn creu amgylchedd mwy cydnherth a chynaliadwy ar gyfer cyflogaeth wledig.

4.2.47 Mae'r polisi newydd hwn yn nodi sectorau cyflogaeth allweddol y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol geisio eu hannog er mwyn galluogi cyfleoedd cyflogaeth newydd. Roedd ymatebwyr yn pryderu nad oedd polisi gwledig yn cyfeirio at yr economi sylfaenol; mae Polisi 5 yn cydnabod hyn ynghyd â phwysigrwydd busnesau newydd a microfusnesau. Mae'r testun

ategol yn disgrifio'r economi sylfaenol, gan dynnu sylw at dwristiaeth, hamdden a'r sectorau bwyd a diod, a'r rôl hanfodol y maent yn ei chwarae mewn ardaloedd gwledig. Yn dilyn galwadau i'w cydnabod, cyfeirir ym Mholisi 5 at rôl busnesau a sectorau technoleg arloesol sydd wrthi'n datblygu, gyda'r testun ategol yn nodi sut y gallant greu swyddi hyfedr sy'n talu cyflogau da mewn aneddiadau gwledig. Nododd ymatebwyr fod arallgyfeirio yn hanfodol i gefnogi'r sector amaethyddol, mynd i'r afael ag effeithiau Brexit ac ymateb i ddiboblogi ymysg pobl o oedran gweithio. Mae Polisi 5 a'i destun ategol yn annog Awdurdodau Cynllunio i ystyried amrywiaeth eang o ddefnyddiau tir ategol, polisïau a meini prawf er mwyn helpu i ddarparu mentrau arallgyfeirio mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.

4.2.48 Codwyd mater darparu neu wella seilwaith trafndiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy gan ymatebwyr, ac ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r rhan fwyaf o'r pwyntiau hyn yn y fersiwn ddiwygiedig o Bolisi 4. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r economi, mae Polisi 5 o blaid gwella cysylltiadau trafndiaeth strategol rhwng cefn gwlad ac ardaloedd trefol mawr er mwyn sicrhau manteision economaidd i'r naill a'r llall. Dylai Awdurdodau Cynllunio hefyd gefnogi cyfleoedd i wella neu ddatblygu cadwyni cyflenwi a rhwydweithiau dosbarthu gwledig.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 1, 7, 10, 11 a 12 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Materion eraill sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwledig

4.2.49 Cyfeiriodd nifer o sylwadau at y dewis o ranbarthau a gyflwynir yn y FfDC ac, yn benodol, at y ffaith y dylid rhannu Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn ddau ranbarth. Y rhesymau dros hyn oedd bod strwythurau ardaloedd gwledig a threfol cymdeithasol ac economaidd Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru yn eithaf gwahanol ac na fyddai un ymagwedd tuag at bolisïau yn gweithio. Ymdriniwyd â'r mater hwn drwy rannu Canolbarth a De-orllewin Cymru yn ddau ranbarth ac mae'r FfDC yn rhoi manylion am hyn ym Mhennod 5 Y Rhanbarthau ac ym Mholisïau arfaethedig 25-27 ar Ganolbarth Cymru a Pholisïau arfaethedig 28-32 ar y De-orllewin.

4.2.50 Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu y byddai'r polisïau ar Leiniau Glas yn atal twf mewn ardaloedd trefol. Mae adran 4.7 yn esbonio diben polisïau Lleiniau Glas a'r rhesymau dros eu cynnig.

4.3 DARPARU TAI FFORDDIADWY

Cwestiwn 3 y ffurflen ymateb lawn

Cwestiwn 3


Mae'r FfDC yn nodi'r dull gweithredu ar gyfer darparu tai fforddiadwy, gan annog awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol a busnesau adeiladu bach a chanolig i adeiladu mwy o gartrefi.

C3 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull o gynyddu nifer y tai fforddiadwy?

Cwestiwn 3 - Ystadegau

4.3.1 Dengys Siart C3 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chwestiwn C, ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

C3



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	55	75	46	32	45	4	31	288
Canran	19%	26%	16%	11%	16%	1%	11%	100

Cwestiwn 3 – Prif Themâu

4.3.2 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn 3

Thema	Cod	Cyfanswm
Cefnogaeth gyffredinol	Rwy'n cytuno â'r cynigion/tai fel polisi cenedlaethol/bydd y cynigion yn sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl/mae tai fforddiadwy yn bwysig	36
Tai	Dylid cynnwys adeiladwyr tai/y sector preifat mewn gweithgarwch adeiladu tai/nid yw'r FfDC yn cynnwys y sector preifat ddigon	34
Dichonoldeb	Mae lefelau tai fforddiadwy yn annibynadwy/afrealistig/rhy uchel/rhy ddrud	26
Yr Amgylchedd	Rwy'n pryderu ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai/dylai tai newydd fod yn ecogyfeillgar/yn niwtral o ran carbon/yn effeithlon o ran ynni/defnyddio ffynonellau ynni gwyrdd	25
Tai	Dylid penderfynu ar yr angen am dai yn lleol/cynyddu rôl neu gyllid awdurdodau lleol/Cynghorau cymuned a thref/CDLlau	25
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Nid yw'r cynlluniau ar gyfer tai yn ddigon manwl e.e. tystiolaeth o'r angen am dai, yn cefnogi polisi tai gwledig	21
Tai	Mae angen i'r cynlluniau gynnwys cartrefi ar gyfer y farchnad agored	21
Tai fforddiadwy	Ni roddir digon o sylw i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael tai fforddiadwy/nid yw prisiau tai yn fforddiadwy/ni ddylid canolbwyntio ar dai a gymorthdelir	18
Tai	Dylid ystyried prynu cartrefi gwag/tir yn orfodol/defnyddio'r stoc dai bresennol/tai nas defnyddir ddigon cyn adeiladu tai newydd	14
Trafnidiaeth	Gwella rhwydweithiau ffyrdd/cysylltiadau trafndiaeth â chanolfannau trefol/cydnabod tagfeydd e.e. yr M4/o Loegr	11
Anghenion tai	Mae tybiaethau'r FfDC o ran anghenion tai yn anghywir/mae'n tanamcangyfrif anghenion	11
Ansawdd	Mae angen i dai fod yn addas/o ansawdd da	9
Tai'r farchnad	Bydd cyflenwad annigonol o dai yn cael effeithiau negyddol ar yr economi leol/pobl ifanc/iechyd a llesiant	9
Gwledig	Dylid osgoi adeiladu yng nghefn gwlad/o fewn lleiniau glas	8
Anghenion tai	Mae lefelau tai fforddiadwy yn rhy isel/ar y llinell sylfaen	8
Anghenion tai	Gellid dehongli ffigurau fel targedau/maent yn gamarweiniol	8
Tai'r farchnad	Bydd y cynlluniau yn gwaethygu'r argyfwng tai	7
Digartrefedd	Dylid ystyried digartrefedd yn y FfDC	7
Adeiladu tai	Dylid adeiladu ar safleoedd tir llwyd sy'n bodoli eisoes/mewn canolfannau trefol	6
Adeiladu tai	Gwella cyfleoedd cyflogaeth/amwynderau lleol cyn adeiladu tai	6
Tai fforddiadwy	Dylid dyrannu/adeiladu tai fforddiadwy ar sail angen	6

Yn gwrthwynebu'n gyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n gwrthwynebu adeiladu tai/tai fforddiadwy/ni ddylai fod yn flaenoriaeth	5
Darpariaeth ALLau/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig	Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig/awdurdodau lleol ddarparu mwy o gartrefi	5
Troseddu	Rwy'n pryderu ynghylch y cysylltiadau rhwng tai fforddiadwy a throseddu	4
Adeiladu tai	Nid oes digon o dir i ddiwallu'r angen	4
Cydweithio	Pryderon nad yw llywodraeth leol a llywodraeth ganolog yn cydweithio/nad yw swyddogion cynllunio lleol yn ystyried y FfDC	3
Y sefyllfa bresennol	Mae'r polisi tai presennol yn ddigonol/nid oes angen newid	2
Prosesau cynllunio	Dylid atgyfnerthu prosesau cynllunio er mwyn sicrhau bod tai fforddiadwy yn parhau i fod yn fforddiadwy	2
Ystyriaethau eraill	Dylid ystyried cartrefi/carafanau mewn parciau yn y FfDC, e.e. er mwyn lleihau nifer y bythynnod gwyliau, neu i'w defnyddio fel tai fforddiadwy	2
Adeiladu	Dylid ystyried tai â ffrâm o bren o ffynonellau lleol	2
Adeiladu tai	Dylid ystyried aneddiadau/trefi newydd	2
Ystyried y Gymraeg	Dylid ystyried cadw a/neu ddefnyddio enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau	1
Tai'r farchnad	Bydd y cynlluniau yn lleihau prisiau tai	1
Tai fforddiadwy	Nid yw tai fforddiadwy yn fforddiadwy mewn gwirionedd/maent yn dal i fod yn rhy ddrud	1
CDSau	Mae angen i CDSau fod ar waith/yn fyw	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		36

Cwestiwn 3 – Sylwebaeth

4.3.3 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Cyflwynodd cyfanswm o 169 o ymatebwyr sylwadau ar ddull gweithredu'r FfDC ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Mae'r ymatebion hyn wedi cael eu trefnu o dan sawl thema gyffredinol.

Roedd y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor o ddarparu tai fforddiadwy, fel y'i nodir yn y FfDC, yn amrywio. Roeddent o blaid darparu tai fforddiadwy mewn egwyddor, gyda rhai'n nodi'n benodol y byddai diffyg tai fforddiadwy yn cael effaith negyddol ar yr economi leol, pobl ifanc ac iechyd a llesiant neu y byddai'n annog pobl i allfudo. Rhoddwyd rhywfaint o bwyslais ar sicrhau bod y tai fforddiadwy hyn o ansawdd da.

The NDF sets out the affordable housing 'delivery gap' and the Council is generally supportive of measures to increase the supply of affordable housing.

The approach to increasing affordable housing is supported as the approach commits to ensuring that all members of society have access to housing, especially those unable to afford to buy on the market.

Ar y llaw arall, roedd rhai yn gwrthwynebu darparu tai fforddiadwy yn gyffredinol, naill ai am eu bod yn anghytuno â'r egwyddor o adeiladu tai ei hun neu am eu bod o'r farn na ddylai tai fforddiadwy fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. At hynny, roedd rhai o'r farn nad oedd angen newid y polisi presennol ac roeddent o blaid parhau â'r sefyllfa bresennol.

In its current format, the Affordable Housing Policy does not work for Penarth. As such Members believe that increasing affordable housing under the same terms will have little impact in the area.

We do not need more homes we need less people

What is wrong with current open market system of imposing 20 or 33% affordable housing on new sites, it is working well, if it is not broken do not try to fix it.

Lleisiwyd pryderon y byddai cynlluniau ar gyfer tai fforddiadwy, fel y'u nodir yn y FfDC, yn gwaethgu'r argyfwng tai, er enghraifft drwy ddibynnu ar amcanestyniadau nad ydynt yn adlewyrchu lefelau o angen, nawr ac yn y dyfodol, yn ddigonol.

The estimates of housing need assume two key elements: newly arising need is calculated from the 2014 based variant household projections; and existing Unmet need – is said to equate to the sum of both those in homeless accommodation as at latest estimates, and the number of households that were overcrowded and concealed as at the 2011 Census. Each of the underlying variant population projections (underpinning the newly arising need calculation) assume a decline in the working age population (1664) of Wales of between -2% and -7%, and little growth (in some cases decline) in the child age population. By way of comparison, the same projection series for England projects growth of 6.5% in the population 16-64. Use of trend-based household projections in areas of low growth, leads to a perpetual state of decline in the projections over time – demonstrated by the significant ageing of the population (as above). Moreover, calculations of existing unmet need are just that – they fail to take account of ongoing levels of unmet need (homelessness and concealed households) that has occurred since 2011, and which are built into the future household projections.

Dywedodd rhai nad oedd y cynlluniau yn ddigon manwl neu nad oeddent yn darparu digon o dystiolaeth ar gyfer y strategaeth a nodwyd, tra dywedodd eraill fod y tybiaethau a wnaed ganddi ynglŷn â'r angen am dai yn anghywir.

When taking all of these factors into consideration, there is no evidence that the housing need for Wales is currently as low as 8,300dpa, or that it would fall to less than half that figure by 2038. By identifying a reduction in housing need through the Plan period the NDF is, in effect, planning for decline.

we are concerned that the NDF is only focused on the delivery of affordable housing and that the levels of affordable housing that are identified as being required in the plan are being presented out of context.

Roedd eraill yn amheus ynghylch a oedd y ddarpariaeth tai fforddiadwy arfaethedig yn fforddiadwy mewn gwirionedd.

...unfortunately most people, especially young people who want to get on the housing ladder cannot afford these so called affordable houses, based on their income

Roedd grŵp o ymatebwyr a oedd o'r farn na ddylai'r FfDC ganolbwyntio ar strategaethau ar gyfer tai a gymorthdelir. Roedd eraill o'r farn y dylai gynnwys strategaeth ar gyfer tai'r farchnad breifat.

there is also an enormous need for open market housing and the NDF does very little to emphasise the importance delivering of both market and affordable housing.

We consider it will be essential that a policy framework is put in place that will stimulate all types of house building in Wales and increase the delivery of market housing as well as affordable housing. For example, while the delivery of 3,900 affordable homes per annum would not be feasible under a requirement for 47% affordable housing (out of a total of 8,300 homes), it would be more likely as a smaller proportion of a larger overall housing requirement (e.g. 30% of a total of 13,000 homes). Increasing overall housing delivery would also have the added benefit of improving affordability of open market housing and ensuing a closer alignment between housing and economic growth.

Fodd bynnag, hyd yn oed pan oedd yr ymatebion yn cytuno â thai fforddiadwy mewn egwyddor, roeddent yn aml yn cael eu hategu gan gafeatau yn awgrymu bod problemau gyda dull gweithredu'r FfDC. Nodir rhai o'r materion a godwyd gan ymatebwyr isod.

Roedd un set o bryderon yn ymwneud â gosod targedau ar gyfer tai fforddiadwy. Awgrymodd rhai fod angen i dargedau'r FfDC sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu ar sail angen. Mynegwyd pryderon hefyd fod y targedau ar gyfer tai fforddiadwy naill ai'n annibynadwy, yn afrealistig, yn rhy uchel neu'n rhy ddrud. Awgrymwyd hefyd y gellid dehongli'r amcangyfrifon fel targedau mewn CDLLau.

It is considered that the NDF as well as providing a policy on open market housing should also make the same statement about the estimates not being used as a housing target, within the supporting text, as the NDF is the lead policy document which all other plans such as the SDP and LDP's have to be in compliance with. This is a critical point and as currently referenced the housing need figure could be misread as the housing target for Wales.

Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y byddai'r targedau yn achosi problemau am nad oedd digon o dir i ddiwallu'r angen a nodwyd. Fel mewn adrannau eraill o'r adroddiad cryno hwn, cododd tensiynau hefyd ynghylch ar ba lefel y dylid gwneud penderfyniadau, gyda rhai yn dweud bod angen penderfynu ar yr angen am dai yn lleol (h.y. mewn CDLLau, gan gynghorau cymuned a thref).

The Council supports the aspirations of Welsh Government to increase affordable homes, but the target should be realistic, underpinned by evidence and based on viability. The target of 47% is unrealistic. The viability of a scheme will vary on a site by site basis and will change over the lifetime of a plan in line with changes in economic circumstances. Setting such a high affordable housing target will have a massive impact on the margins of viability and will adversely impact on lower viability areas where it is difficult to encourage development in the first instance.

Local Authorities should be encouraged to grant fund affordable homes in those areas where sites are not financially viable but where the need is greatest.

Roedd trydedd thema yn ymwneud â phwy a ddylai ddarparu tai fforddiadwy. Codwyd pryderon nad yw'r FfDC yn cynnwys digon o rôl i'r sector preifat o ran darparu tai fforddiadwy a chodwyd sawl gwrthwynebiad manwl ar ran datblygwyr tai mewn perthynas â'r mater hwn. Awgrym arall oedd y dylai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol fod yn gyfrifol am ddarparu tai fforddiadwy.

No support is provided for the delivery of open market housing despite the private sector playing a key role in the delivery of affordable housing in Wales. The Draft NDF is dismissive of private-led delivery of affordable housing

When you look at the current delivery of affordable homes, it is clear that the private sector provides a significant proportion. The NDF should be encouraging private sector development because of this to further increase the contribution whilst limiting public sector funding.

Traditionally, private house builders have been responsible for delivering a significant proportion of affordable homes (both for social rent and low-cost home ownership) in Wales through Section 106 contributions. For example, for the last five years the private housing building industry have provided over a third of all new affordable homes in Wales (Stats Wales2). If the challenge of delivering record levels of affordable housing units is to be met the contribution of affordable homes through Section 106 planning obligations will remain an important component of this delivery.

Roedd set arall o ymatebion yn ymwneud ag effaith gweithgarwch adeiladu tai ar yr amgylchedd. Roedd yr ymatebwyr naill ai'n pryderu ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai neu gwnaethant awgrymu y dylai adeiladau newydd fod yn ecogyfeillgar mewn rhyw ffordd. Codwyd rhai pryderon penodol ynghylch adeiladu tai o fewn lleiniau glas.

I totally agree with the principle of developing more affordable housing but this housing needs to address the climate emergency. Funding from the Welsh Government to support affordable housing ought to be conditional on the housing meeting a code for sustainable level 5 or 6

I agree with the drive for affordable housing BUT, there is a real risk that making a house affordable will strip out its low carbon/ energy saving potentials. I think there is a real opportunity here that all new housing built in Wales is done to the highest and best eco-credentials available. Environmental sustainability of new housing should not come at the expense of a cost cutting exercise to make it affordable. Note that if these are built right, they will need little energy for heating, so low cost to run and a lot more affordable in the long run.

Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau amgen y dylai'r FfDC eu hystyried. Dywedodd rhai y dylai'r FfDC ganolbwyntio ar ailddefnyddio tai sy'n bodoli eisoes cyn adeiladu cartrefi newydd (e.e. prynu cartrefi gwag yn orfodol). Awgrymodd rhai y dylai'r FfDC ystyried defnyddio cartrefi a charafanau mewn parciau naill ai fel tai fforddiadwy neu y dylid lleihau nifer y cartrefi gwyliau a rhyddhau stoc dai ar gyfer trigolion. Awgrymodd nifer bach y dylid defnyddio tai â ffrâm o bren o ffynonellau lleol i greu stoc o dai fforddiadwy. Awgrymodd

rhai y dylid adeiladu ar safleoedd tir llwyd a safleoedd trefol eraill tra awgrymodd eraill y dylid datblygu trefi newydd neu aneddiadau eraill.

Roedd sylwadau eraill yn cynnwys: pryderon ynghylch y cysylltiadau rhwng troseddu a thai fforddiadwy; yr ofn bod tai fforddiadwy yn lleihau prisiau tai preifat; yr angen i sicrhau bod CDSau a phrosesau cynllunio cadarn ar waith; prosesau cynllunio cenedlaethol a lleol cydgysylltiedig (e.e. pryder nad yw swyddogion cynllunio yn gwybod am y FfDC neu nad ydynt yn ei ystyried yn eu gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol); yr angen i ystyried cadw/defnyddio enwau Cymraeg ar leoedd ar gyfer datblygiadau; a'r angen i ddatblygu seilwaith (rhwydweithiau ffyrdd, cyflogaeth ac amwynderau lleol) ochr yn ochr ag adeiladu tai.

Cyflwyniadau Ysgrifenedig

4.3.4 Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r ymgynghoriad fel cyflwyniadau ysgrifenedig ac ni wnaethant ddefnyddio'r holiadur llawn na'r holiadur hawdd ei ddeall.

Canmolodd rhai y ffaith bod yr elfennau sy'n cyfrannu at yr agenda creu lleoedd wedi'u cydnabod yn y FfDC mewn perthynas â darparu tai ychwanegol.

We note that the consultation suggests that public sector and the decisions it takes regarding its land can make a major contribution to shaping places. A key aspect of any effort to deliver any additional housing regardless of tenure, should be how the process contributes to the placemaking agenda, by developing resilient ecosystems, and improving the health and well-being of our communities. We welcome that there is a clear and strong recognition of the elements that together combine to help people prosper where they live.

Tai

Er bod llawer o'r sylwadau yn y cyflwyniadau yn adlewyrchu themâu a godwyd ym mhrif holiadur yr ymgynghoriad — megis ystyried ansawdd tai wrth adeiladu tai fforddiadwy a sicrhau bod y tai hynny (neu dai cyngor newydd yn gyffredinol) yn wyrdd/ygni effeithlon — ymhelaethodd rhai cyflwyniadau ar y themâu hyn yn fanwl neu gwnaethant eu cysylltu ag ystyriaethau polisi ehangach. Crynhoir y rhain, a'r sylwadau neu'r pryderon eraill a godwyd yn y cyflwyniadau, isod.

Tueddai'r sylwadau ar y dull gweithredu drafft o ymdrin â thai fforddiadwy ganolbwyntio ar argaeledd tir ac addasrwydd lleoliadau ar gyfer gwaith datblygu; sut y byddai datblygiadau newydd yn integreiddio â chymunedau neu seilwaith sy'n bodoli eisoes neu sut y dylent wneud hynny; sut i sicrhau bod tai fforddiadwy yn addas ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau mai dim ond at y diben hwn y gellid eu defnyddio yn y dyfodol; ffyrdd penodol o ddarparu tai fforddiadwy gan gynnwys cefnogi'r defnydd o gydweithrediaethau tai, llunio rhestrau o gontractwyr cymeradwy a chyngor arall ar nodweddion penodol datblygiadau tai a gwaith cynllunio tai.

Ystyriodd ymateb a gyflwynwyd ar y cyd ar ran Rhwydwaith Amgylcheddol Sir Benfro fater lleoli datblygiadau tai fel rhan o bryderon ehangach ynghylch yr argyfwng hinsawdd a'r perygl cynyddol o lifogydd sy'n gysylltiedig ag ef mewn ardaloedd arfordirol. O ganlyniad, galwodd am ailarfarniad llawn o gynlluniau defnydd tir Cymru. Gwnaeth eraill sylwadau tebyg ynghylch ystyried goblygiadau newid hinsawdd i ardaloedd sydd i'w datblygu yn y dyfodol.

We need a complete reappraisal of Welsh land use plans, with unprotectable areas identified; to maintain the human and economic viability of communities, the NDF must steer the relocation of • roads & railways • other infrastructure • housing • businesses.

Y rhwydwaith amgylcheddol – Sir Benfro

Welsh Government has declared both climate change and ecological emergencies. These have major implications for coastal, estuarine, open land and built up areas and will inevitably impact on future development choices. In the revision to this draft you may wish to consider delineating river catchment areas, strategic areas for woodland growth and biodiversity protection and enhancement

Unigolyn

Roedd Canolfan Cydweithredol Cymru hefyd o'r farn bod angen ailgysyniadoli tir ar gyfer datblygu o ran gwerth tir hirdymor, er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn ogystal â hyrwyddo tai fforddiadwy cydweithrediaethau tai.

The New Economics Foundation suggest that shifting focus from one off sale value to the best long term value for land would lead to wider social benefits. It suggests working with long term equity investors such as pension funds or community led projects to directly fund affordable developments. Hopefully the NDF will help guide investment decisions which address climate change mitigation and adaptation, as we move towards zero carbon, in this Climate Emergency.

Canolfan Gyd-weithredol Cymru

Roedd ystyriaethau eraill o ran tir ar gyfer tai fforddiadwy yn cynnwys ansawdd y tir – er enghraifft peidio â defnyddio tir halogedig y gall fod costau ychwanegol cudd fod yn gysylltiedig ag ef.

The quality of the public sector land for house building is of paramount importance. Only when this is assured can the delivery of production begin. Mitigation needs to occur to speed up the land available for house builders. This is particularly relevant in the case of brownfield sites, which may previously be contaminated land, and can involve significant risks with geotechnical and contamination issues often contributing to unforeseen costs and obstacles during remediation.

NHBC

Ar wahân i'r pryderon hyn, cafwyd nifer o ymatebion a oedd yn amau a oedd tir ar gael i ddarparu ar gyfer mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy. Roedd cyflwyniadau hefyd yn pryderu ynghylch y cyfyngiadau y byddai dynodi lleiniau glas yn eu gosod ar waith datblygu yng nghefn gwlad neu ar y gallu i newid y defnydd o adeiladau. Cyfeiriwyd at Sir Fynwy fel

ardal lle y gallai cyfyngiadau ar waith datblygu gael effaith yn benodol o ganlyniad i fudo o Fryste.

Policy 3 emphasises the importance of publicly owned land in delivering development including for mixed use and affordable housing. Whilst this is welcomed in principle, it is considered that there is not a significant amount of Council owned land available for development, particularly in town and city centre locations

Many Local Authorities are already identifying available land to deliver Affordable Housing, schools, infrastructure improvements and other corporate projects. However, Local Authorities also use the receipts from land disposal to deliver other strategic objectives such as the 21st Century schools programme. Welsh Government need to support Councils financially to deliver this agenda if land receipts are going to be reduced to support other policy initiatives.

Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru

Monmouthshire has a range of urban and rural settlements which all require a minimum of proportionate growth during the NDF period. The NDF fails to recognise this, and focusses development into the valleys, and attempts to restrict development in Monmouthshire to an unreasonable level. There will inevitably be a significant migration from the city of Bristol into the county of Monmouthshire due to rises in property prices in Bristol and the abolishment of the Severn Bridge tolls. The Welsh Government should not deter this movement of people into Monmouthshire, because it will in time bring the average age of the demographic of Monmouthshire down. As a county, Monmouthshire has a large aging population, with a significant lack of younger people to support the older generation. The Monmouthshire County Council Growth and Spatial Options consultation clearly identified the need for housing and the migration of people from Bristol.

Powells Chartered Surveyors

Yn yr un modd, galwodd rhai ar Lywodraeth Cymru i ryddhau mwy o safleoedd tir llwyd i'w datblygu, gan gynnwys safleoedd sy'n eiddo cyhoeddus a safleoedd preifat. Rhybuddiodd eraill rhag cyflwyno canllawiau rhagnodol ar greu 'trefi newydd', gan gyfeirio at anghysondebau o ran y mater â PCC. Roedd sawl un o blaid mabwysiadu dull gweithredu lle y gellid ystyried aneddiadau newydd yn unol â chanllawiau PCC.

The draft NDF [...] is in conflict with, and as a result comes to the wrong conclusion, with the guidance which allows New Settlements to be considered as an option in both Planning Policy Wales and the Development Plans Manual [Edition] 3 (Consultation Draft June 2019)

The opportunity for employment in close proximity to new residential areas combined with immediately adjoining public transport infrastructure (rail links) to facilitate transport to larger settlements, especially where such sites involve significant elements of brown field development, provides opportunity for development on a sustainable basis. Far more sustainable in some circumstances than simply extending existing development (with all of the disadvantages that can sometimes result in).

Watts and Morgan LLP

The NDF Strategy appears to dismiss the potential for sustainable new settlements. However, it is quite feasible that the most sustainable form of development could be a new settlement outside existing settlements rather than increasing development in settlements where infrastructure and quality of life are already challenged. This policy does not allow this form of development and as such could perpetuate less sustainable development. Planning Policy Wales (PPW) sets out the exceptional circumstances where new settlements may be appropriate. The NDF should reflect the policy advice in PPW and recognise there may be a role for new settlements if they create more sustainable places than urban sprawl at the edge of existing settlements. Such matters should be given detailed consideration as part of SDP and LDP strategies.

Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru

Ar wahân i aneddiadau newydd, roedd lleoliad gwaith datblygu yn bwysig i rai, ac ystyriwyd bod gan ardaloedd twf y potensial i ddenu arian i ffwrdd o gymunedau llai o faint tuag at Gaerdydd, a lleihau'r amser a dreulir yn y cymunedau. Ystyriwyd bod creu "anchor towns" â phoblogaethau sylweddol o fewn taith gymudo o 15 i 20 munud yn ateb i'r problemau hyn a'u bod yn hybu gweithgarwch adfywio'r ardal leol.

Co-locating homes, jobs and services in cities and large towns seems sensible as a means of focusing sustainable growth. However, we would urge that there is a geographical spread of large towns. For example, we would like to see towns in the valleys included rather than a focus on Cardiff. Creating economic opportunity in local neighbourhoods means that economically active individuals will remain within the community full time to spend money and contribute to community cohesion. In contrast, encouraging commutes to Cardiff will lead to jobs and money leaking out of local areas. To help address this, we welcome the Bevan Foundation's proposal for anchor towns. Towns with substantive populations within fifteen to twenty-minute travel times, anchor institutions and key infrastructure have potential to become "Anchor Towns" that could drive local regeneration and act as a brake on the outflow of people and expenditure

Canolfan Gyd-weithredol Cymru

Yn y cyfamser, awgrymodd eraill ddulliau amgen o gyflawni targedau ar gyfer tai fforddiadwy neu greu cymunedau cynaliadwy, gan gynnwys hwyluso dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dai a arweinir gan y gymuned neu dai cydweithredol, hierarchaeth aneddiadau neu glwstwr integredig o gymunedau. Roedd awgrymiadau eraill ynglŷn â thai fforddiadwy yn cynnwys defnyddio datblygwyr preifat oherwydd cyfraddau cyflenwi gwael yn hanesyddol neu lunio rhestrau o gontractwyr cymeradwy, yn ogystal â gorfodi safonau ansawdd ar gyfer eiddo (megis safonau NHBC neu safonau cyfatebol) a sicrhau eu bod yn cael eu harchwilio a'u gwarantu.

I think there should be a fundamental recognition that this housing must be set within the framework of cohesive and sustainable communities. A settlement hierarchy approach at the strategic planning stage may be sensible but within parts of Wales an integrated cluster of communities approach may be more appropriate to the social geography

Unigolyn

Yn olaf, roedd rhai awgrymiadau bod angen i Lywodraeth Cymru gael mwy o bwerau gwleidyddol i ymdrin â chartrefi gwag ac ail gartrefi a llety gwyliau rhent neu atal tai fforddiadwy rhag cael eu prynu a'u gwerthu am brisiau'r farchnad yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 5: Darparu Tai Fforddiadwy

- 4.3.5 Mae amcangyfrif yr angen am dai yn allweddol i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Dengys amcangyfrifon diweddaraf Llywodraeth Cymru y dylai darparu tai fforddiadwy fod yn ffocws allweddol ar gyfer cyflenwi tai yn genedlaethol ac yn rhanbarthol ac adlewyrchir hyn yn y FfDC. Bydd fersiwn derfynol y FfDC yn cynnwys amcangyfrifon wedi'u diweddarau. O ganlyniad i newidiadau eraill bydd y polisi hwn yn cael ei ailrifo fel Polisi 7
- 4.3.6 Mabwysiadwyd y fethodoleg ar gyfer cyfrifo Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru yn dilyn cyngor gan arbenigwyr ym meysydd dadansoddi a pholisi o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Mae arbenigwr annibynnol ym maes amcanestyniadau demograffig a thai, a friffiodd Aelodau'r Cynulliad ar y mater hwn, hefyd wedi asesu bod y fethodoleg yn gadarn. Nid yw'r Amcangyfrifon yn adlewyrchu polisiâu na digwyddiadau yn y dyfodol ac nid ydynt yn darged tai i Gymru na'r rhanbarthau. Mae'r Amcangyfrifon yn darparu rhan o'r dystiolaeth a'r cyd-destun sy'n llywio'r gofynion tai a nodwyd drwy Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau). Awdurdodau cynllunio lleol a fydd yn gyfrifol o hyd am bennu a chyfiawnhau eu gofynion tai naill ai drwy eu CDSau neu eu CDLlau. Bydd ychwanegiadau arfaethedig at yr adran 'Darparu Cartrefi' o'r FfDC yn egluro'r materion hyn.
- 4.3.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod adeiladwyr tai yn y sector preifat yn chwarae rôl bwysig i ddiwallu anghenion tai, gan gynnwys cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag adeiladwyr tai i ddarparu tai sector cyhoeddus. Fodd bynnag, er mwyn diwallu'r angen sylweddol am gartrefi fforddiadwy a nodwyd yn Amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o'r angen am dai, mae'r FfDC yn canolbwyntio ar y rôl y mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ei chwarae o ran cynyddu nifer y tai fforddiadwy a ddarperir yng Nghymru. Bydd diwygiadau arfaethedig i'r testun sy'n ategu'r polisi ar 'Ddarparu Cartrefi Fforddiadwy' yn cydnabod cyfraniad cartrefi newydd ar gyfer y farchnad agored at ddiwallu'r angen am dai yn fwy cyffredinol.
- 4.3.8 Mae'r FfDC yn cydnabod bod gan y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, rôl bwysig i'w chwarae o ran cynyddu nifer y tai fforddiadwy a ddarperir. Cyfeirir yn benodol at y rôl sydd gan awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chwmnïau adeiladu bach a chanolig i'w chwarae o ran sicrhau'r cynnydd hwn yn nifer y tai fforddiadwy a gyflenwir, yn ogystal ag ailddefnyddio tir sy'n eiddo

cyhoeddus. At hynny, cynigir y dylid ymestyn y polisi yn y FfDC drafft ar 'Buddsoddiad Cyhoeddus, Adeiladau Cyhoeddus a Thir sy'n Eiddo Cyhoeddus' (Polisi 3) i gynnwys 'Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus'. Bydd y polisi diwygiedig yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddarparu a galluogi datblygiadau a chyfeirio'n benodol at gynyddu nifer y tai cymdeithasol a ddarperir a rôl datblygwyr llai o faint. Bydd y polisi diwygiedig hefyd yn cyfeirio at yr angen i awdurdodau lleol chwarae rhan ragweithiol yn y broses o nodi'r lleoliadau cywir ar gyfer gwaith datblygu a phenderfynu ar y ffordd orau o ddatblygu'r safleoedd hyn.

- 4.3.9 Mae ystyried effaith amgylcheddol tai newydd yn elfen allweddol i awdurdodau cynllunio wrth benderfynu pa safleoedd sy'n addas ar gyfer tai ac asesu ceisiadau cynllunio unigol. Ymdrinnir â'r materion cysylltiedig yn fanwl ym *Mholisi Cynllunio Cymru*.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 23, 24, 25, 26, ac 28 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

4.4 PARTHAU GWEITHREDU FFONAU SYMUDOL

Cwestiwn 4 y ffurflen ymateb lawn

Cwestiwn 4


C4 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd nodi parthau gweithredu ffonau symudol yn effeithiol o ran gwella signal ffonau symudol?

Os ydych yn anghytuno, ym mha ffyrdd eraill y gall y FfDC wella signal ffonau symudol yn yr ardaloedd sydd â mynediad cyfyngedig ar hyn o bryd?

Cwestiwn 4 – Ystadegau

4.4.1 Yn seiliedig ar y cwestiwn uchod, dengys Siart C4 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

C4



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	50	75	60	26	16	7	53	287
Canran	17%	26%	21%	9%	6%	2%	18%	100

Cwestiwn 4 – Prif Themâu'r Ymgynghoriad

4.4.2 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn 4.

Thema	Cod	Cyfanswm
Cefnogaeth gyffredinol	Rwy'n cytuno bod angen gwella signal ffonau symudol/rwyf wedi cael problemau gyda signal gwael yn y gorffennol	39
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	E.e. nodi ardaloedd gweithredu/map o ardaloedd gweithredu/angen mwy o wybodaeth am ardaloedd gweithredu/dylid ymgynghori ynghylch ble y caiff yr ardaloedd hyn eu sefydlu	14
Iechyd	Rwy'n pryderu ynghylch effeithiau 5G ar iechyd	11
Pryderon ynghylch yr amgylchedd	Dylid ystyried yr effaith y gallai mastiau ei chael ar yr amgylchedd neu'r difrod y gallent ei wneud i'r dirwedd/mae 5G yn defnyddio mwy o ynni/mae'n fwy niweidiol i'r amgylchedd	10
Nid yw'r cynlluniau yn mynd yn ddigon pell	Dylai Cymru gyfan fod yn ardal weithredu ar gyfer gwella/dylid gorfodi gwasanaeth/signal gyffredinol ar gyfer ardaloedd lleiafrifol	10
Yr Economi	Mae gwella signal rhwydweithiau ffôn symudol yn bwysig i fusnesau/dylid canolbwyntio ar sicrhau manteision i fusnesau/yr economi	9
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Dylai penderfyniadau ynghylch ble i leoli mastiau gael eu gwneud yn lleol	5
Dichonoldeb	Dw i ddim yn credu y caiff y cynigion eu rhoi ar waith mewn gwirionedd	4
Cydweithredu	Annog/gorfodi gweithredwyr ffonau symudol i gydweithredu/bydd cydweithredu rhwng gweithredwyr yn sicrhau bod llai o fastiau yn cael eu hadeiladu	4
Dichonoldeb	Cynnig cymhellion i weithredwyr ffonau symudol/ni cheir cefnogaeth gweithredwyr preifat oni fydd yn broffidiol/ni ellir gorfodi gweithredwyr i wella'r signal mewn ardaloedd gwledig	4
Targedu signal ffonau symudol	Dylid targedu signal ffonau symudol ar sail angen/at gymunedau a fyddai'n cael y budd mwyaf	4
Gwrthwynebiad cyffredinol	Rwy'n gwrthwynebu 5G, yn gyffredinol	3
Dichonoldeb	Mae angen neilltuo cyllid ar ei gyfer/ei ariannu'n deg er mwyn iddo fod yn llwyddiannus	3
Seilwaith	Dylid ystyried gofynion seilwaith y grid cyn adeiladu 5G	3
Awgrymiadau Amgen	Dylai'r cynlluniau gynnwys y rhyngrwyd/ni ddylent fod yn gyfyngedig i 5G/dylent geisio manteisio ar ddatblygiadau technolegol arloesol tymor hwy	3
Geiriad	Newidiadau i'r geiriad e.e. y defnydd o'r gair "significant"	3
Buddion cymunedol	Mae sicrhau signal gwell yn bwysig i'r gymuned/addysg/cymunedau difreintiedig	2

Cadarnhaol	Mae'r cynlluniau yn diogelu'r dirwedd/gwarchod yr amgylchedd	2
Blaenoriaethu	Ni ddylai gwell signal 5G/signal ffôn symudol fod yn flaenoriaeth	2
Arall	Ymdriniwyd â'r pwnc hwn eisoes yn PCC/dylid ei gynnwys yn PCC yn unig/nid polisi newydd yw hwn	2
Canllawiau	Mae angen rhoi canllawiau ychwanegol e.e. ar leoli antenau	1
Awgrymiadau Amgen	Dylid defnyddio lloerennau	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		11

Cwestiwn 4 – Sylwebaeth

4.4.3 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italic, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Gwnaeth 80 o ymatebwyr sylwadau ar fater signal ffonau symudol. Er bod y cwestiwn yn holi am ffyrdd eraill o wella signal ffonau symudol, rhannodd y sylwadau mwyaf mynych brofiadau o signal ffonau symudol gwael ledled Cymru, neu roeddent yn cytuno bod hwn yn faes i'w wella. Yn gysylltiedig â hyn roedd awgrymiadau ynglŷn â manteision economaidd signal gwell, yn ogystal ag awgrymiadau llai mynych y byddai'n arwain at welliannau ym maes addysg neu'n dod â manteision i gymunedau difreintiedig.

The policy intent to improve mobile coverage and to better position the plan-led planning system in Wales to help facilitate improvements is understood and supported.

I can't get any signal where I live, it's ridiculous

If Wales is to compete in the 21st century then better mobile infrastructure is vital to the growth of SMEs and to attract and retain people in work and leisure settings.

Serch hynny, mynegodd 11 o ymatebwyr bryderon ynghylch yr effeithiau posibl ar iechyd o ganlyniad i gynnydd yn nifer y mastiau ffôn neu'r gorsafoedd neu signal estynedig. Awgrymodd un y dylid defnyddio lloerennau yn lle mastiau.

Use satellite. The masts are [not a] great idea as the frequency they emit are considered dangerous to human brains.

Care must be taken NOT to locate base stations close to residential properties, where perceived health risks and a loss of amenity for the householders are a major factor. New masts should be located well away from homes, and not imposed without local consent.

The Community Council would like it to be noted that there is a need to assess any health implications when extending coverage.

Roedd 10 o bobl eraill yn pryderu ynghylch effeithiau mastiau ffôn newydd ar y dirwedd. Roedd meysydd eraill lle y cafwyd anghytuno yn ymwneud â nodi lleoliadau'r ardaloedd gweithredu ar ffonau symudol. Cafwyd cryn nifer o geisiadau am fap a'r ardaloedd gweithredu, gwybodaeth am pryd y caiff yr ardaloedd gweithredu hyn eu nodi, neu'r meini

prawf a ddefnyddir i'w nodi ac ariannu'r gwelliannau. Gofynnodd ymatebydd arall a oes disgwyl i CDSau a CDLlau ymdrin ag Ardaloedd Gweithredu ar Ffonau Symudol a gofynnodd am i'r FfDC gysylltu â PCC.

It is disappointing that these action zones are not identified, though it is understood that they will change over time.

These zones are not yet identified but should be included in the finalised NDF or an explanation added with regards to where such zones will be published to provide clarity to the policy. It is comforting that the NDF recognises the importance of the landscape, LPA's have designated Special Landscape Areas which should form the basis of assessments of landscape impacts.

We call for a spatial approach and where possible the same level of detail as that set out for wind and solar. Without this detail questions are raised around how and when the zones will be identified. Would they form part of the NDF or a separate document? Alternatively, does this mean that it is the expectation that SDPs and LDPs should deal with Mobile action Zones in policy terms? Again, we would expect the NDF to set out any links with PPW on this matter.

Yn gysylltiedig â hyn roedd teimladau y dylai penderfyniadau ynghylch lleoli mastiau gael eu gwneud yn lleol, yn hytrach na chan gwmnïau telathrebu, a sylw a oedd yn gofyn am fwy o ganllawiau ar leoli mastiau, yn debyg i gyngor cynllunio Llywodraeth yr Alban.

What is also needed is local knowledge and consent to siting of telecom masts. "Significant adverse landscape impacts" are a matter for local planning, not telecom businesses.

Give local people a say in the siting of phone masts. This is too important to be left to telecoms companies who exist solely to make a profit, not consider the opinions of local users

We suggest that some urban and rural siting and design guidance will be required, along the lines of that provided in the Scottish Government's Planning Advice Note PAN62, which contains many examples of sensitive siting and design practice.

Roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o Ardaloedd Gweithredu ar Ffonau Symudol yn llwyr ac yn credu y dylai gwella signal ffonau symudol fod yn darged i Gymru gyfan, yn hytrach na dim ond i ardaloedd penodol lle mae'r signal yn arbennig o wael, neu na ddylai'r cynlluniau fod yn gyfyngedig i 5G yn unig, ond y dylent hefyd ymdrin â band eang neu waith cynllunio ar gyfer technolegau yn y dyfodol.

There is no commercial reason for operators to spend large sums for few customers. Only when 100% coverage is imposed on the likes of BT will we see improvements.

The idea of separate zones shouldn't really apply in this scenario. Although the solution of the mobile action zones is a valid one it really needs to be a National Solution with all areas in Wales being digitally connected no matter where you are if we want to move technological innovation forward as standard practice.

Policy 6 needs to be extended beyond mobile phones - reference needs to be made to broadband and internet things infrastructure (along with any other new technology which will become apparent during the NDF period). One intervention in the

implementation in the short/medium term is the Mobile Phones Action Zone; the policy should be more long-term. The Council considers that having a general policy for digital infrastructure connectivity which includes but isn't limited to Mobile Phones would be more beneficial for the future.

Look beyond 2040, what will be the new technologies replacing current mobile networks? Invest in appropriate research.

Roedd cyfran fach o'r ymatebwyr o'r farn nad oedd signal ffonau symudol yn fater digon pwysig i'w ystyried gan y FfDC neu y dylid ymdrin â hyn drwy PCC yn lle hynny.

This isn't exactly the biggest issue facing this country - what about the M4 relief road?

LDPs are required to provide a spatial expression to any policy with a spatial link. The NDF should not be treated differently in this respect. Therefore, as these zones are yet to be identified, it is considered that this policy advice would be better expressed through PPW.

Roedd eraill yn pryderu ynghylch dichonoldeb y cynllun ac roedd llawer ohonynt yn amheus ynghylch parodrwydd darparwyr telathrebu i weithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni eu nodau. Awgrymodd rhai y byddai cymelldaliadau neu ymrwymadau cyllido yn datrys y broblem hon, tra awgrymodd eraill y dylai Llywodraeth Cymru orfodi darparwyr i gydweithredu neu rannu mastiau er mwyn gwella'r signal.

The aspiration of the policy is fine, but I don't see how the private mobile phone companies can be persuaded to provide better coverage in the rural areas where it is not cost-effective for them to invest in better equipment etc. Will the Welsh Government be giving the mobile phone providers financial incentives to improve the coverage, and if so, how will that be funded? The policy seems unrealistic to me, as I don't see how it could be achieved.

Don't see how anything the Welsh Government can do will make commercial mobile phone providers improve access in rural areas where it is not cost-effective for them to do so.

The best way to encourage mobile coverage is to require that all providers allow intercompany roaming meaning that duplication and triplication of coverage is eliminated.

Enhanced co-operation between mobile phone operators is also necessary to ensure that a multiplicity of transmission masts does not result. IN addition, sharing resources between operators is clearly required.

There is a need to require pre-application discussions with stakeholders on the network planning and individual applications, including where there is scope for shared solutions to avoid multiple different masts within the same area.

Cyflwyniadau Ysgrifenedig

4.4.4 Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r ymgynghoriad fel cyflwyniad ysgrifenedig ac ni wnaethant ddefnyddio'r holiadur llawn na'r holiadur hawdd ei ddeall.

Seilwaith 5G ac Ardaloedd Gweithredu ar Ffonau Symudol

Cafwyd sawl ymateb gan weithredwyr telathrebu ynghylch pwysigrwydd ffonau symudol, cydgysylltiad y maes â phob un o ganlyniadau'r FfDC ac ymarferoldeb cynyddu seilwaith 5G.

Tynnodd Mobile UK sylw at y gyfran uchel o bobl sydd â dyfeisiau symudol, gan nodi bod 18% o bobl, yn aml mewn categorïau incwm is, yn byw 'mewn cartrefi â ffôn symudol yn unig'. Aeth ymlaen i amlinellu gwerth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ffonau symudol a'r rôl y maent yn ei chwarae o ran sicrhau hyblygrwydd o ran cyflogaeth, arloesi, teithio a lleihau llygredd a'r defnydd o garbon. I'r perwyl hwn, gofynnodd am newidiadau i'r geiriad ym mholisïau 3 a 4 er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd ffonau symudol.

Roedd Three UK a Vodaphone UK yn cefnogi cyflwyniad Mobile UK drwy gytuno bod angen diwygio'r gyfundrefn gynllunio er mwyn sicrhau'r manteision a fydd yn deillio o welliannau rhwydwaith 5G a chyflawni targedau Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Gofynnodd BT Group am hyn hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys caniatáu mastiau mwy o faint er mwyn lleihau nifer y mastiau sydd angen eu codi; rhagnodi mai dim ond ar gyfer mastiau ar y ddaear y bydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw, nid cyfarpar mewn adeiladau/ar doeon; a sicrhau cysondeb â gweithredwyr telathrebu sefydlog mewn perthynas â'r hyn a ganiateir o ran cabinetau stryd a strwythurau fertigol.

Yn y cyfamser, awgrymodd Group BT hefyd y dylid cysoni prosesau cynllunio yng Nghymru â phrosesau cynllunio yn Lloegr mewn perthynas â seilwaith ffonau symudol 4G a 5G a helpu i ddatblygu seilwaith 4G aeddfed fel rhagflaenydd i gyflwyno 5G. Yn ogystal â diwygio'r gyfundrefn gynllunio, awgrymodd hefyd y dylid cyflawni'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer band eang fel rhwyd ddiogelwch i gartrefi na allant gael cysylltedd digidol na chyllid cyhoeddus digonol.

At hynny, roedd Three UK a Mobile UK a BT i gyd o blaid diweddarau'r Cod Ymarfer/Nodyn Cyngor Technegol 19 er mwyn helpu i ddatblygu'r rhwydwaith ac, mewn rhai achosion, gwnaethant gynnig helpu Llywodraeth Cymru i wneud hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 6: Parthau Gweithredu Ffonau Symudol

4.4.5 Roedd yr ymatebion ynglŷn â pholisi drafft 6: Parthau Gweithredu Ffonau Symudol a gwella signal ffonau symudol ledled Cymru yn gefnogol, ar y cyfan, ac yn ystyried eu bod yn fuddiol i'r economi, cymunedau ac unigolion. Y prif bryderon a godwyd oedd nad oedd unrhyw fapiau o'r Parthau wedi'u darparu, nad oedd pwysigrwydd cyfathrebu digidol yng Nghymru wedi'i drafod ddigon, y dylid ymdrin ag effeithiau mastiau ffonau symudol ar iechyd a'r amgylchedd ac y dylai buddiannau Parthau Gweithredu Ffonau Symudol gael eu hymestyn i bob rhan o Gymru. O ganlyniad i newidiadau eraill caiff polisi drafft 6 ei ailrifo fel Polisi 14.

4.4.6 Mae'r gwaith o nodi parthau yn mynd rhagddo, a dyna pam nad yw'r FfDC wedi gallu cyflwyno mapiau. O ganlyniad, mae geiriad y polisi drafft wedi

newid ychydig oherwydd, heb fapiau, ni all Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gynaliadwyedd nac Asesiad llawn o'r Effaith ar Gynefinoedd. Fodd bynnag, mae'r polisi yn parhau i gefnogi ac ategu egwyddor Parthau Gweithredu Ffonau Symudol ledled Cymru, a bydd Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Cynllunio yn gweithio gyda gweithredwyr ffonau symudol i greu'r amgylchedd cywir yn y Parthau hyn i wella'r signal.

- 4.4.7 Mae Polisi arfaethedig 13 Cefnogi Cyfathrebu Digidol yn bolisi newydd, a ychwanegwyd er mwyn helpu i ddarparu seilwaith cyfathrebu digidol ledled Cymru (gweler isod).
- 4.4.8 Nodir materion sy'n ymwneud â thelathrebu ac iechyd ym Mholisi Cynllunio Cymru Pennod 5 Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus. Ar yr amod bod gwaith datblygu yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP), ni ddylai Awdurdodau Cynllunio ystyried yr agweddau ar gyfarpar telathrebu symudol sy'n ymwneud ag iechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r canllawiau hyn.
- 4.4.9 Nid ystyrir ei bod yn ymarferol nac yn angenrheidiol cyflwyno Parthau Gweithredu Ffonau Symudol i gwmpasu Cymru gyfan na darparu gwasanaeth cyffredinol. Mae'r farchnad yn darparu signal i'r rhan fwyaf o Gymru; mae menter benodol sydd wedi'i hanelu at ardaloedd lle nad oes fawr ddim signal os o gwbl yn fwy effeithiol.

*** Polisi Arfaethedig Newydd 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol**

- 4.4.10 Ychwanegwyd Polisi Arfaethedig, sef Polisi 13 Cefnogi Cyfathrebu Digidol, er mwyn ymateb i alwadau nad yw'r FfDC yn cyfeirio ddigon at gyfathrebu digidol ac nad yw'n pwysleisio ei bwysigrwydd i economi Cymru, ei chymunedau na'i hunigolion.
- 4.4.11 Mae'r polisi ei hun o blaid darparu a gwella seilwaith a gwasanaethau telathrebu a band eang. Mae'n datgan bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio gysylltu â darparwyr seilwaith digidol er mwyn nodi anghenion eu hardaloedd yn y dyfodol a chynnwys polisïau yn eu Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol er mwyn cyflawni hynny.
- 4.4.12 Mae'r polisi hefyd yn nodi y dylai datblygiadau newydd ddarparu seilwaith band eang sy'n addas ar gyfer gigabit ('gigabit capable') o'r cychwyn. Mae hyn yn golygu seilwaith i alluogi eiddo i gysylltu'n hawdd â gwasanaethau band eang cyflym nawr ac yn y dyfodol.
- 4.4.13 Mae'r testun ategol yn pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu digidol i sicrhau llwyddiant a chystadleurwydd economaidd busnesau yng Nghymru yn y dyfodol, a diwallu anghenion cymunedau ac unigolion gan gynnwys mynediad

at wasanaethau a chyfleusterau allweddol. Gall y ffaith nad oes gan ardal signal neu fawr ddim signal roi busnesau lleol, cymunedau ac unigolion o dan anfantais yn economaidd ac yn gymdeithasol a gall gyfrannu at amddifadedd, ynysu cymdeithasol a diffyg llesiant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 1 a 33 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

4.5 CERBYDAU ALLYRIADAU ISEL

Cwestiwn 5 y ffurflen ymateb lawn

Cwestiwn 5


C5 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd polisi 5 yn galluogi ac annog cyflwyno seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn?

Os ydych yn anghytuno, ym mha ffyrdd eraill y gall y FfDC alluogi ac annog cyflwyno seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn?

Cwestiwn 5 - Ystadegau

4.5.1 Dengys Siart C5 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

C5



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	44	79	67	37	15	8	37	287
Canran	15%	28%	23%	13%	5%	3%	13%	100

Cwestiwn 5 – Prif Themâu'r Ymgynghoriad

4.5.2 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn 5.

Thema	Cod	Cyfanswm
Cefnogaeth gyffredinol	Rwy'n cefnogi'r cynlluniau, ar y cyfan/bydd y cynlluniau yn gwella ansawdd aer/byddant yn dda i iechyd/yr amgylchedd/mae'n bwysig	33
Dichonoldeb	Mae angen digon o byrth gwefru/seilwaith er mwyn cynyddu'r defnydd o gerbydau trydan	29
Gwledig	Mae angen i'r cynlluniau bwysleisio darpariaeth mewn ardaloedd gwledig/mae angen i'r cynlluniau gynnwys mwy o fanylion am y ffordd y rhoddir seilwaith ar waith mewn ardaloedd gwledig	23
Trafnidiaeth gyhoeddus	Dylid annog y cyhoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus werdd/dulliau teithio llesol/beiciau trydan, yn hytrach na cherbydau trydan preifat	20
Dichonoldeb	Bydd cerbydau trydan yn cynyddu'r galw am ynni/byddant yn rhoi gormod o bwysau ar y grid/ni fydd ynni adnewyddadwy yn ateb y galw	20
Dichonoldeb	Mae seilwaith gwefru yn rhy ddud i'w adeiladu/mae'n rhy anodd ei leoli mewn cymunedau gwledig/ar strydoedd teras	19
Dichonoldeb	Bydd seilwaith gwefru yn fwy na'r galw am gerbydau trydan/mae cerbydau trydan yn rhy ddud i'w defnyddio gan gyfran fawr o'r boblogaeth	19
Dichonoldeb	Dylid aros nes i dechnoleg cerbydau trydan ddod yn rhatach/technoleg ddatblygu gyntaf/efallai na fydd angen seilwaith gwefru mwyach/mae angen i fatriâu fod yn fwy effeithlon	12
Yr Amgylchedd	Nid yw cerbydau trydan yn wyrdd/pryderon ynghylch difrod ychwanegol i'r amgylchedd a achosir gan gerbydau trydan e.e. cynhyrchu batriâu	10
Dichonoldeb	Mae angen iddo gael cyllid digonol er mwyn llwyddo	9
Awgrym amgen	Dylid buddsoddi mewn cerbydau hydrogen yn lle cerbydau trydan/mae pŵer hydrogen yn fwy ecogyfeillgar na batriâu lithiwm	9
Awgrymiadau eraill	Dylai pob cartref/datblygiad newydd a adeiledir gynnwys manau gwefru	8
Canllawiau	Mae angen rhoi canllawiau ychwanegol ar leoliadau pyrth gwefru/gofynion lleoli/gofynion o ran foltedd/diogelu strydoedd hanesyddol/pwy fyddai'n gyfrifol am eu hadeiladu	7
Dichonoldeb	Dw i ddim yn credu y gellir cyflawni'r cynlluniau mewn gwirionedd/nid erbyn 2040	6
Lleoliad	Mae angen mwy o fanylion am leoliadau gorsafedd gwefru/ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer seilwaith	6

	gwefru/dylid lleoli seilwaith gwefru yn strategol/ar brif goridorau ffyrdd	
Dylid ymestyn y polisi	I gynnwys/ystyried cerbydau nwyddau trwm (HGVs) a cherbydau cludo trwm eraill/bydd heriau yn gysylltiedig â chyflwyno'r cynllun hwn i gerbydau mwy o faint neu gerbydau amaethyddol	5
Awgrym amgen	Rhoi cymhellion i bobl rannu ceir neu eu hannog i wneud hynny	5
Dylid ymestyn y polisi	Dylid llunio cynllun seilwaith gwefru cenedlaethol e.e. peidiwch â dibynnu ar Awdurdodau Lleol	4
Blaenoriaeth	Ni ddylai fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru/ni all Cymru wneud gwahaniaeth o ran y mater hwn/San Steffan, a neb arall, ddylai benderfynu ar y mater hwn/mae pethau eraill yn fwy o flaenoriaeth ar gyfer gwario arian/nid yw'n briodol i'r system gynllunio roi sylw i'r mater hwn	4
Yr Amgylchedd	Mae angen cynhyrchu trydan gwyrdd yn gyntaf	4
Nid yw'r cynigion yn ddigon clar	Arall (e.e. cysylltedd data, cysylltiadau â thwf mewn canolfannau trefol)	4
Ansawdd aer	Dylai'r FfDC gyfeirio at ansawdd aer/ni fydd y cynigion yn datrys problemau sy'n ymwneud ag ansawdd aer/ni fyddant yn gwella ansawdd aer yn y byrdymor	4
Awgrymiadau amgen eraill	E.e. Dylid gwahardd teithiau awyr nad ydynt yn hanfodol/Cynnwys y trydydd sector/ystyried sut y gellir defnyddio tanwyddau ffosil yn fwy effeithlon/ceir di-yrwr	4
Nid yw'r cynigion yn ddigon clar	Beth yw cerbyd trydan/cerbyd allyriadau isel/a yw'r cynigion yn cynnwys cerbydau hybrid?	3
Arall	Dylid ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol/nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei hystyried	3
Arall	Dylai Llywodraeth Cymru/awdurdodau lleol arwain y ffordd/rhoi hyn ar waith gyntaf/datblygu hyn eu hunain	3
Dylid ymestyn y polisi	Dylid pasio deddfau newydd i awdurdodau lleol eu rhoi ar waith/cynhyrchu incwm o seilwaith gwefru	2
Tagfeydd	Mae angen i'r cynigion ystyried problemau sy'n ymwneud â thagfeydd/gallent waethygu problemau sy'n ymwneud â thagfeydd	2
Anghenion lleol	Dylid teilwra'r ddarpariaeth i anghenion/amgylchiadau lleol	2
Dichonoldeb	Ni fydd diwydiant/y sector preifat yn adeiladu seilwaith os nad oes digon o alw amdano/bydd angen cymorthdaliadau arnynt/mae'r defnydd o gerbydau trydan yn dibynnu ar ffactorau y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru	2
Parcio	Mae angen i'r cynlluniau ystyried darpariaeth i'r rhai sydd â lleoedd parcio oddi ar y stryd a'r rhai nad oes ganddynt lleoedd parcio o'r fath	2
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Rhanbarth De-ddwyrain Cymru a fydd yn cael y budd mwyaf o'r cynlluniau/bydd yn haws eu rhoi ar waith yma/caiff gormod o arian ei wario ar y De-ddwyrain	2
Awgrym amgen	Dylid buddsoddi mewn cynlluniau sgrapio cerbydau	2
Awgrym amgen	Padau gwefru mewn ffyrdd i wefru cerbydau wrth iddynt yrru/anwythiad electromagnetig	2

Awgrym amgen	Cytleoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd	2
Awgrym amgen	Ystyried perchenogaeth gymunedol o brosiectau ynni/paru â phrosiectau o'r fath	2
Nid yw'r cynnig yn ddigon manwl	Cyffredinol (amhenodol)/dylai ganolbwyntio'n fwy ar weithredu/fod yn fesuradwy	2
Arall	Ymdriniwyd â'r pwnc hwn eisoes yn PCC/dylid ei gynnwys yn PCC yn unig/nid polisi newydd yw hwn	2
Arall	Dylid ystyried yr effaith ar y sector twristiaeth	2
Arall	Dylid ystyried y gallu i ryngweithredu/gwefryddion cyffredinol/mae gan bob cerbyd trydan ei wefrydd ei hun	2
Polisiâu/deddfwriaeth	Dylid ystyried polisiâu eraill/deddfwriaeth arall e.e. y Ddeddf Priffyrdd/rheoliadau adeiladu	2
Trafnidiaeth	Dylid gwella coridorau trafndiaeth/cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de/ag ardaloedd trefol	2
Dylid ymestyn y polisi	Dylid cyflwyno hyn yn gyflymach nag a fwriadwyd	1
Gogledd/Gorllewin Cymru	Mae angen i'r cynlluniau bwysleisio mai Gogledd/Gorllewin/Gogledd a Gorllewin Cymru sydd angen eu gwella fwyaf	1
Cydraddoldebau	Byddant yn cael effaith negyddol ar grŵp sy'n agored i niwed, e.e. pobl hŷn/pobl hŷn sy'n dibynnu'n fwy ar gerbydau preifat/sydd â llai o arian i brynu cerbydau trydan	1
Arall	Bydd angen monitro'r sector preifat yn ddigonol er mwyn sicrhau bod seilwaith gwefru yn cael ei gyflawni'n ddigon cyflym	1
Arall	Dylid sicrhau bod datblygiadau yn cael eu cyflawni gan gwmnïau yng Nghymru yn hytrach na chwmnïau rhyngwladol	1
Arall (nas nodwyd)		20

Cwestiwn 5 – Sylwebaeth

4.5.3 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny. Mae'n ymdrin â chwestiwn 5.

Mae Polisi 7 yn cynnig y dylid cyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan er mwyn annog pobl i ddefnyddio cerbydau isel iawn eu hallyriadau. Er i set fach o sylwadau ddweud na ddylai creu'r seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau isel iawn eu hallyriadau fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, roedd llawer o bobl yn cefnogi'r polisi hwn mewn egwyddor, gyda rhai'n nodi'n benodol y byddai hyn yn gwella ansawdd aer, iechyd a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol.

We welcome the Welsh Government's support for the development of an EV charging network and for encouraging EV uptake.

[Organisation Name] fully supports the roll-out of charging infrastructure to support the transition to greater use of ultra-low emission vehicles

Mewn llawer o achosion, roedd y rhai a oedd yn cytuno mewn egwyddor hefyd wedi cynnwys cafeatau neu awgrymiadau ar gyfer datblygu'r polisi, a drafodir isod.

Awgrymodd rhai gwrthwynebiadau i'r polisi nad oedd y cynigion yn ddigon manwl, naill ai o ran y ffaith bod angen i'r canlyniadau fod yn fwy mesuradwy neu o ran y diffiniad o gerbyd isel iawn ei allyriadau.

There seems to be a lack of clarity that 'ULEV' embraces much more than electric and hybrid vehicles, ULEVs are currently defined as having less than 75 grams of CO2 per kilometre (g/km) from the tail pipe. The NDF needs improved clarity on when it is referring to electric and hybrid vehicles and when to the wider definition of ULEVs.

Yn yr un modd, awgrymodd rhai na ddylai'r polisi ganolbwyntio ar geir yn unig, ond y dylai hefyd ymdrin â cherbydau nwyddau trwm (HGVs) a cherbydau amaethyddol, er enghraifft. Fodd bynnag, nodwyd y bydd yn cymryd amser hir i sicrhau newid, yn enwedig yn achos cerbydau amaethyddol, ac, felly, y gallai fod angen atebion dros dro (e.e. cerbydau hybrid).

Codwyd pryderon hefyd nad yw'r FfDC yn cydnabod polisiâu eraill sy'n gorgyffwrdd â'r cynigion hyn (e.e. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; Polisi Cynllunio Cymru; Y Ddeddf Priffyrdd; rheoliadau adeiladu).

Given the positive contribution that Electric Vehicles are expected to be able to make to the decarbonisation agenda, it would be good to see the NDF being more specifically integrated with the Environmental (Wales) Act 2016 and the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act (2015).

In my view the Policy and the supporting text should be in PPW and not the NDF.

Roedd llawer o ymatebion yn ymwneud â gwahanol agweddau ar ddichonoldeb y cynnig ac, yn arbennig, y seilwaith gwefru sy'n gysylltiedig ag ef. Er i rai ddweud ei bod yn hanfodol datblygu digon o fannau gwefru i sicrhau bod cerbydau trydan yn opsiwn dichonadwy a chynyddu nifer y bobl sy'n eu defnyddio, roedd eraill o'r farn y byddai nifer y bobl sy'n defnyddio cerbydau trydan bob amser mor fach na fyddai'r galw byth yn cyfiawnhau'r seilwaith. Codwyd pryderon hefyd y byddai'r seilwaith gwefru yn rhy ddrud i'w adeiladu, yn enwedig o ystyried bod angen ei osod mewn lleoliadau anodd, megis ardaloedd gwledig a strydoedd teras.

the technology is not sufficiently advanced to make this a viable and reliable option in remote rural areas. Most electric vehicles are currently only capable of driving around 100 miles before battery recharging, whereas the best can achieve up to 250 miles. However, this range is greatly reduced if the journey included steep hills and inclines. It is unlikely that governments can justify the infrastructure investment required to support the introduction of ultra-low emission vehicles to rural areas

Awgrymwyd bod angen i'r polisi ddarparu rhagor o ganllawiau ar leoli mannau gwefru, er enghraifft: mwy o fanylion technegol; nodi pwy sy'n gyfrifol am y gwaith adeiladu; dynodi Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer gwaith adeiladu; nodi ble y dylid lleoli mannau gwefru; ac ystyried sut y dylid lleoli mannau gwefru mewn ardaloedd hanesyddol sensitif. Roedd rhai o'r farn y dylid datblygu'r cynllun seilwaith yn genedlaethol yn hytrach na'i ddatganoli i awdurdodau lleol ac mae'n bosibl bod hyn yn ymwneud â'r ffaith bod llawer o'r pryderon yn ymwneud â gweithredu'r rhwydwaith gwefru cyfan.

Mae'n bosibl bod awgrymiadau bod angen i'r cynlluniau gael cyllid digonol er mwyn iddynt lwyddo yn ymwneud â phryderon eraill na fyddai seilwaith yn cael ei adeiladu gan y sector preifat heb gymorthdaliadau neu pe na bai'n fasnachol ddichonadwy, ac y byddai angen monitro unrhyw raglen i gyflwyno seilwaith gan y sector preifat yn ddigonol. Cyfeiriwyd hefyd at y posibilrwydd o roi'r gwaith adeiladu i gwmnïau yng Nghymru yn unig.

Roedd rhai o'r farn nad oedd yn bosibl cyflawni'r cynlluniau yn gyffredinol neu o fewn y terfyn amser penodedig. Awgrymodd grŵp o bryderon nad oedd y dechnoleg yn ddigon datblygedig eto er mwyn sicrhau bod cerbydau trydan na'r seilwaith gwefru sydd ei angen i'w cynnal yn ddichonadwy. Codwyd pryderon hefyd na fyddai digon o drydan yn y grid i ateb y galw gan nifer cynyddol o gerbydau trydan. Dywedodd rhai pobl y byddai hyn yn arbennig o wir pe bai trydan yn y grid yn cael ei gynhyrchu gan ffynonellau adnewyddadwy. Yn gysylltiedig, o bosibl, â nifer o'r pryderon uchod roedd awgrymiadau y byddai'r ffactorau i sicrhau llwyddiant y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru..

As mentioned above, [organisation name] have reservations about the roll out of ultra-low emission vehicles, including electric vehicles, as members believed that the technology is not sufficiently advanced to make this a viable and reliable option in remote rural areas.

Roedd grŵp o bobl o'r farn y gallai cynnydd yn nifer y cerbydau trydan arwain at fwy o dagfeydd. Nododd eraill fod angen canolbwyntio ar strategaethau amgen ar gyfer trafndiaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: trafndiaeth gyhoeddus werdd; teithio llesol; beiciau trydan cyhoeddus; neu rannu ceir. Mynegwyd pryderon hefyd nad yw polisi 7 yn ecogyfeillgar. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys: nid yw cynhyrchu batriâu yn ecogyfeillgar; mae angen canolbwyntio ar gynhyrchu trydan gwyrdd ar yr un pryd; ac na fyddai'r cynigion yn datrys problemau dybryd sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn y byrdymor a bod angen i'r FfDC ymdrin ag ansawdd aer hefyd.

It is widely recognised that an all-electric transport future can't be delivered quickly due to cost and charging infrastructure constraints so will not solve air quality problems in the short term.

Mynegwyd pryderon ynghylch effaith wahaniaethol y cynnig polisi y gellir eu cyffredinoli, yn fras, fel pryder y bydd ardaloedd trefol De-ddwyrain Cymru yn cael mwy o fudd o'r polisi nag ardaloedd gwledig Cymru, gan gyfeirio'n benodol at Ogledd a Gorllewin Cymru. Mae pryderon ynghylch yr effaith negyddol ar ardaloedd gwledig eisoes wedi'u trafod. Ystyriwyd bod angen i'r FfDC gydnabod anghenion gwahanol yr ardaloedd gwahanol hyn a darparu cyllid a chynlluniau manwl a fyddai'n osgoi canlyniadau anghyfartal. I'r un perwyl, awgrymwyd bod angen datblygu cynlluniau yn lleol er mwyn ystyried anghenion lleol tra awgrymodd eraill ddeddfau er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddatblygu'r seilwaith, gan gynhyrchu incwm ohono, o bosibl. Felly, ar draws yr ymatebion gellir gweld tensiwn rhwng y rhai sydd am weld y seilwaith yn cael ei reoli'n lleol a'r rhai sydd am ei weld yn cael ei reoli'n genedlaethol. Roedd grŵp arall o bryderon yn ymwneud â'r effaith wahaniaethol ar y boblogaeth, gydag awgrymiadau bod aelodau hŷn a llai cefnog o'r boblogaeth yn llai tebygol o gael budd o'r cynigion.

Gwnaed awgrymiadau amgen yn lle'r polisi gan rai ymatebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol: buddsoddi mewn cerbydau hydrogen; bod pob cartref newydd a adeiledir yn

cynnwys mannau gwefru; gwahardd teithiau awyr nad ydynt yn hanfodol; cynnwys y trydydd sector; ystyried sut y gellir gwneud defnydd mwy effeithlon o danwydd ffosil; buddsoddi mewn cynllun sgrapio cerbydau; ystyried defnyddio padiau gwefru anwythiad electromagnetig mewn ffyrdd i wefrau cerbydau trydan wrth iddynt symud; cydleoli cartrefi, swyddi a gwasanaethau er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd; ac ystyried syniadau ynglŷn â pherchenogaeth cymunedau o brosiectau ynni.

Yn olaf, roedd grŵp arall o awgrymiadau yn cynnwys: ystyried darpariaeth wefru ar gyfer y rhai nad oes ganddynt leoedd parcio oddi ar y stryd; yr effaith ar y sector twristiaid; yr angen i gysylltu hyn â seilwaith trafndiaeth gwell yng Nghymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 7: Cerbydau Allyriadau Isel iawn

- 4.5.4 Mae Polisi 7 y FfDC drafft – Cerbydau Allyriadau Isel – wedi'i ymgorffori mewn polisiau newydd arfaethedig ar Gysylltedd Cenedlaethol a Chysylltedd Rhanbarthol. Am ragor o fanylion am y polisiau newydd hyn, gweler paragraff 4.8.10.
- 4.5.5 Cododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad nifer o faterion sy'n ymwneud â cherbydau dim allyriadau ac allyriadau isel iawn, sydd wedi cael eu defnyddio i lywio'r polisiau trafndiaeth newydd. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi mwy o eglurder ynglŷn â mathau gwahanol o gerbydau dim allyriadau ac allyriadau isel iawn. Mae hefyd yn egluro bod y FfDC yn rhoi mwy o bwyslais ar gerbydau trydan batri am mai'r cerbydau hyn sy'n cynnig y ffordd fwyaf uniongyrchol o symud oddi wrth gerbydau petrol a diesel ar hyn o bryd.
- 4.5.6 Lleisiwyd rhywfaint o bryder nad yw cerbydau trydan yn briodol i ardaloedd gweledig, ond nid ystyrir bod hyn yn wir a'n blaenoriaeth yw helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n eu defnyddio yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn bwysig i ddatgarboneiddio trafndiaeth am nad oes gan ardaloedd gwledig drafnidiaeth gyhoeddus yn aml neu am eu bod yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cynnal gwasanaethau. Mewn ardaloedd gwledig y bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ymyrryd os na fydd y farchnad yn darparu'r seilwaith angenrheidiol.
- 4.5.7 Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch gallu'r grid i ateb y galw cynyddol o ganlyniad i gynydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio cerbydau trydan. Diweddarwyd y FfDC er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithredwyr rhwydweithiau ynni yng Nghymru i ddatblygu seilwaith y grid trydan er mwyn helpu i gynyddu'r defnydd o gerbydau trydan a thrydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd. Er y bydd angen gwneud gwelliannau i'r grid yn bendant, bydd llawer yn dibynnu ar y ffordd y defnyddir cerbydau trydan. Er enghraifft, gallai ceir gael eu gwefru yn ystod y dydd gan ddefnyddio ynni solar ac, ar ôl gyrru adref, ddefnyddio'r wefr sy'n weddill i bweru cartrefi yn ystod oriau brig gyda'r nos, gan ailwefru dros nos pan fydd y galw yn lleihau fel arfer. Câi costau seilwaith gwefru eu gwrthbwyso gan y

ffaith y byddai llai o angen am gapasiti ychwanegol i ateb y galw am drydan yn ystod oriau brig a fyddai bellach yn is.

- 4.5.8 Awgrymodd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad fod angen i'r polisi gael ei ategu gan gynllun ynni ar gyfer y rhanbarthau. Er nad yw hyn wedi'i nodi yn y FfDC, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddefnyddio'r dystiolaeth o'r gwaith ymchwil a'r cynlluniau peilot sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru, ynghyd â gweithgarwch cynllunio ynni, er mwyn ystyried y galw am drydan, gwres a thrafnidiaeth yn y dyfodol, nodi ble mae angen y seilwaith newydd a'i gynnwys yn eu Cynlluniau Datblygu. Unwaith y bydd wedi'i ategu gan dystiolaeth, byddwn yn annog gweithredwyr rhwydweithiau i gynnwys y ddarpariaeth hon yn eu cynlluniau cyflawni.

4.6 SEILWAITH GWYRDD, YNNI ADNEWYDDADWY A RHWYDWEITHIAU GWRES RHANBARTHOL

Cwestiynau 6 a 7 y ffurflen ymateb lawn a chwestiwn hawdd ei ddeall 4

- 4.6.1 Mae Cwestiynau 6 a 7 yr holiadur yn ymdrin â saith o bolisiau'r FfDC drafft. Nodir pob cwestiwn ar wahân isod, ynghyd â'r polisiau y mae'n ymwneud â nhw. Mae Cwestiwn 6 yn ymwneud â Pholisïau 8 a 9, tra bod Cwestiwn 7 yn ymwneud â Pholisïau 10-15. Mae Cwestiwn 7 wedi'i rannu ymhellach yn 7a sy'n ymdrin â pholisïau ar ynni adnewyddadwy a 7b sy'n ymdrin â pholisïau ar rwydweithiau gwres rhanbarthol.
- 4.6.2 Mae'r polisiau hyn wedi'u grwpio ynghyd yn yr adran hon am fod y dadansoddiad o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn wedi darparu un prif dabl o themâu a sylwebaeth ar gyfer holl sylwadau'r ymgynghoreion sy'n ymwneud â Pholisïau 8-15.
- 4.6.3 Yn ogystal â chael ymatebion dwy'r prif holiadur, mae Cwestiwn 6 hefyd yn cynnwys ymatebion a gafwyd drwy'r holiadur hawdd ei ddeall, tabl o ystadegau a sylwebaeth.

Cwestiwn 6

Polisi 8 – Fframwaith Strategol ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth a Sicrhau bod Ecosystemau yn Wydn

Polisi 9 – Y Goedwig Genedlaethol

C6 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull o gynnal a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol?


Os ydych yn anghytuno â dulliau'r FfDC o ymdrin â seilwaith gwyrdd, pa ddulliau gweithredu amgen y dylem eu hystyried er mwyn helpu Cymru i wella ei bioamrywiaeth a newid i economi carbon isel?

Os ydych yn anghytuno â dulliau'r FfDC o ymdrin ag ynni adnewyddadwy neu rwydweithiau gwres rhanbarthol, pa ddulliau gweithredu amgen y dylem eu hystyried er mwyn helpu Cymru i wella ei bioamrywiaeth a newid i economi carbon isel?

Cwestiwn 6 - Ystadegau

4.6.4 Yn seiliedig ar y cwestiwn uchod, dengys Siart C6 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

C6



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	65	81	38	42	32	3	29	290
Canran	22%	28%	13%	14%	11%	1%	10%	100

Cwestiwn 7

- **Polisi 10 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth,**
- **Polisi 11 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar y Tu Allan i Ardaloedd â Blaenoriaeth,**
- **Polisi 12 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol,**
- **Polisi 13 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy Eraill**

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â pholisïau'r FfDC i leihau allyriadau carbon yng Nghymru drwy ddefnyddio:

C7.1 Datblygiadau gwynt a solar ar raddfa fawr

- **Polisi 14 – Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol**
- **Polisi 15 – Uwchgynllunio ar gyfer Rhwydweithiau Gwers Rhanbarthol**

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â pholisïau'r FfDC i leihau allyriadau carbon yng Nghymru drwy ddefnyddio:


C7.2 Rhwydweithiau gwres rhanbarthol.

Mewn perthynas â Chwestiynau 6 a 7, Os ydych yn anghytuno â dulliau'r FfDC o ymdrin â seilwaith gwyrdd, ynni adnewyddadwy neu rwydweithiau gwres rhanbarthol, pa ddulliau gweithredu amgen y dylem eu hystyried er mwyn helpu Cymru i wella ei bioamrywiaeth a newid i economi carbon isel?

Cwestiwn 7.1 – Ystadegau


4.6.5 Yn seiliedig ar gwestiynau 7.1 a 7.2 uchod, dengys Siartiau C7.1 a C7.2 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiynau. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

C7.1



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	35	50	27	46	103	30	291
Canran	12%	17%	9%	16%	35%	10%	100

C.7.2



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	46	64	60	35	32	9	39	285
Canran	16%	22%	21%	12%	11%	3%	14%	100

Cwestiynau 6 a 7 – Prif Themâu

4.6.6 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiynau 6 a 7.

Thema	Cod	Cyfanswm
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynni niwclear	159
Gwrthwynebiad cyffredinol	Ar y cyfan rwy'n gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy/datblygiadau ar raddfa fawr/nid oes angen y cynigion	89
Datblygiadau gwynt/solar	Effeithiau ecolegol/difrod amgylcheddol	87
Cludo ynni	Pryder ynghylch sut i gysylltu ffermydd gwynt/solar gwledig â'r grid cenedlaethol/y seilwaith sydd ei angen i gludo'r ynni	81

Democratiaeth/ prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu prosesau gwneud penderfyniadau lleol/dw i ddim am i benderfyniadau gael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru/dylid ymgynghori â'r gymuned leol a dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn lleol/dylai fod yn bosibl gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	78
Datblygiadau gwynt/solar	Ni fydd cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy yn cynhyrchu digon o drydan/ni fyddant yn ddibynadwy/nid ydynt yn cynnig gwerth am arian/oes fer	64
Twristiaeth	Bydd ffermydd gwynt yn effeithio ar y diwydiant twristiaeth/yr economi/pryderon ynghylch diogelu ardaloedd o harddwch naturiol ar gyfer ymwelwyr	63
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n cytuno â seilwaith gwyrdd/ynni adnewyddadwy/rhwydweithiau gwres rhanbarthol	52
Datblygiadau gwynt/solar	Buddsoddi mewn datblygiadau ynni lleol a datblygiadau ynni a hunangynhyrchir/Gosod paneli solar ar adeiladau/buddsoddi mewn systemau cynhyrchu trydan nad ydynt ar y grid/sy'n defnyddio batrïau	50
Datblygiadau gwynt/solar	Mae'n well gennyf ynni'r haul nag ynni gwynt/mae'n fwy dibynadwy/dylid buddsoddi ynddo mewn ardaloedd trefol	43
Cynnig amgen	E.e. ailgyflwyno grantiau ar gyfer gosod paneli solar ar adeiladau/cynhyrchu ynni'n lleol/inswleiddio/dal a storio carbon	40
Datblygiadau gwynt/solar	Rwy'n pryderu ynghylch yr effaith weledol/mae'n ddolur llygad/bydd tyrbinau yn rhy fawr/bydd y seilwaith yn rhy ymwithiol/caiff twristiaid eu hatal rhag ymweld â'r ardal, a fydd yn effeithio ar yr economi leol/dylid cyflwyno clustogfeydd er mwyn lleihau'r effaith weledol	37
Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol	Rwy'n eu gwrthwynebu, ar y cyfan/nid ydynt yn fasnachol ddichonadwy/ni fyddant yn cyrraedd sero net o ran allyriadau carbon/defnydd byrdymor/mae gan y cyhoedd amheuan yn eu cylch	30
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Cyffredinol (amhenodol)/mae angen iddynt ganolbwyntio'n fwy ar weithredu/bod yn fesuradwy	20
Datblygiadau gwynt/solar	Mae'r ardal yn rhy fawr/dylid lleihau graddfa cynlluniau ar gyfer ffermydd gwynt/mae angen newid dynodiadau ardaloedd â blaenoriaeth/sicrhau clustogfeydd	19
Datblygiadau gwynt/solar	Yr effaith ar iechyd/llesiant	16
Yr Amgylchedd	Pryderon ynghylch faint o ynni a ddefnyddir/agweddau/ymddygiad tuag at yr amgylchedd	15
Newid yn yr hinsawdd	Dylai'r argyfwng newid yn yr hinsawdd cael y flaenoriaeth dros faterion eraill	13
Ardaloedd â blaenoriaeth	Nid yw'r diffiniadau yn glir/mae angen egluro manylion amwys/mae angen nodi'r rhesymau dros eu cynnwys	13
Ardaloedd â blaenoriaeth	Mae angen defnyddio dull gweithredu seiliedig ar feini prawf/fesul achos/dewis yn ofalus	12
Cynlluniau/ canlyniadau/ polisiau	Maent yn cynnwys anghysondebau/mae'r canlyniadau yn mynd yn groes i'w gilydd/yn gwrthdaro â CDLlau/CDSau	11

Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol	Ar y cyfan, rwy'n cytuno y dylid eu defnyddio/eu hystyn	10
Ailgoedwigo	Mae angen manylion y Goedwig Genedlaethol (e.e. ble/pryd/sut)	10
Tai	Pryder ynghylch gweithgarwch adeiladu tai a diogelu seilwaith gwyrdd	9
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mae'r mapiau yn annigonol ar gyfer gwneud penderfyniadau/mae angen mapiau mwy manwl/mae angen map o'r boblogaeth/maent yn cynnwys gwallau/maent yn gamarweiniol	9
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mae angen diffiniadau a meini prawf clir ar y derminoleg	9
Bioamrywiaeth	Mae angen rhoi mwy o bwys ar y cynlluniau/dylid ymhelaethu arnynt/dylent geisio sicrhau enillion net	8
Cynlluniau/canlyniadau/polisïau	Mae angen eu cysoni â dogfennau eraill	7
Ardaloedd â blaenoriaeth	Mae angen ehangu'r ardal sydd i'w hystyried (e.e. safleoedd tirlenwi, Parciau Cenedlaethol, AHNEau)	7
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Nid yw mapiau o ardaloedd â blaenoriaeth yn seiliedig ar dystiolaeth	6
Tai	Rwy'n pryderu ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai/dylai tai newydd fod yn ecogyfeillgar/yn niwtral o ran carbon/yn effeithlon o ran ynni	6
Datblygiadau gwynt/solar	Efallai y bydd eisiau/angen iawndal am waith datblygu ar gymunedau llel/dylent gael budd o waith datblygu	6
Ailgoedwigo	Dylid ehangu'r cynlluniau/ar raddfa fwy/annog yn fwy	6
Seilwaith gwyrdd	Mae angen rhoi mwy o bwyslais arno/rhoi mwy o flaenoriaeth iddo	6
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Hoffwn weld mwy o ymgysylltu ag awdurdodau lleol/cyrff cynrychioliadol/awdurdodau lleol a ddylai benderfynu ar leoliadau ffermydd gwynt	5
Ailgoedwigo	Mae'n well gennyf ailgoedwigo na choedwigo/dylid dewis coed yn ofalus/ailgoedwigo fesul achos	5
Bioamrywiaeth	Dylid blaenoriaethu pobl yn gyntaf (e.e. adeiladu tai)	5
Seilwaith gwyrdd	Mae angen i gynlluniau fod yn fwy manwl/mae angen eu hegluro ymhellach/mae angen rhagor o fapiau arnynt	5
Ardaloedd â blaenoriaeth	Bydd dynodiadau yn peri problemau i ddatblygiadau	5
Tai	Bydd ffermydd gwynt yn effeithio ar brisiau tai	4
Y Dyfodol	Dylid adolygu ardaloedd â blaenoriaeth/technolegau adnewyddadwy o bryd i'w gilydd/dylid ystyried technoleg newydd	4
Datblygiadau	Dylid ymestyn y "Dybiaeth o blaid" e.e. nid yw'r cyfan ym Mholis 12 (AHNEau, Parciau Cenedlaethol)	4
Ailgoedwigo	Mae angen i'r cynlluniau fod yn fwy manwl	3
Bioamrywiaeth	Mae angen i'r cynllun gynnwys mwy o fanylion (lleoliad, gofynion penodol)	3
Amhenodol	Dw i ddim yn siŵr a yw'r cynlluniau yn ymarferol/ni fyddant yn mynd rhagddynt mewn gwirionedd	3

Perchenogaeth leol	Gallai fod yn anodd ei gyflawni/atgynhyrchu	3
Goleuadau traffig	Nid yw'r system goleuadau traffig (Polisi 11) yn ddefnyddiol/dylid ei dileu	3
Pryderon ynghylch datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy	Gallai'r cynlluniau gynyddu'r perygl o lifogydd	2
Ynni	Dylai'r polisi drafod cynlluniau ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy hefyd	2
Effaith andwyol	Dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i/mwy o bwys ar osgoi effeithiau andwyol	2
Trafnidiaeth	Pryderon ynghylch Maes Awyr Caerdydd (e.e. rhoi'r gorau i'w gyllido neu leihau'r cyllid y mae'n ei gael)	2
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		34

Cwestiynau 6 a 7 – Sylwebaeth

4.6.7 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny. Mae'n ymdrin â chwestiynau 6 a 7.

O ran cynnig awgrymiadau ar gyfer dulliau amgen o helpu Cymru i wella ei bioamrywiaeth a newid i economi carbon isel, roedd yr awgrymiadau mwyaf cyffredin yn ymwneud â dulliau amgen o ddarparu ynni. Gan amlaf, awgrymodd ymatebwyr ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw, yr ystyriwyd eu bod yn cael llai o effaith weledol a bod iddynt lai o oblygiadau cysylltiedig i'r diwydiant twristiaeth o gymharu â ffermydd gwynt ar y tir. Roedd dadleuon eraill o blaid y ffynhonnell hon o ynni yn honni bod ffermydd gwynt ar y môr bellach yn fwy effeithlon a bod llai o gostau adeiladu yn gysylltiedig â nhw nag yn y gorffennol, tra mynegodd eraill syndod nad yw'r cynlluniau yn rhoi mwy o bwyslais ar forlynoedd llanw Cymru.

The cost of offshore windfarms is falling rapidly, and their rapid development could easily displace the need for further onshore windfarms. Offshore windfarms cause less damaging landscape change and need much less power line infrastructure on land.

It's now accepted that offshore wind is far preferable to onshore in a great number of ways, including (but not limited to) the impact of them on the natural landscapes which make our island so precious.

Neither tidal energy (mentioned 4 times in the NDF) nor offshore wind (mentioned once) make it into the renewable energy policies. These need to be integrated into the overall energy strategy. The NDF is mainly focused on land use but tidal and offshore generation impacts that, both in its requirements for onshore transmission and in its implications for the demand for onshore generation.

One example, is the lack of reference to off shore wind and tidal energy generation. Whilst this may be addressed through the Wales National Marine Plan there should nonetheless be clear reference and links in the NDF. The NDF will form the development plan for DNS applications and therefore must provide clarity for making these decisions.

The plan to develop tidal energy in Swansea Bay should be resurrected. We further need to investigate hydro-electric and off-shore wind schemes.

Awgrymodd eraill mai ynni niwclear oedd yr opsiwn mwyaf dibynadwy ar gyfer cynhyrchu ynni wedi'i ddatgarboneiddio a'r un y gellid ei gyflawni gyflymaf, tra awgrymodd rhai y dylid defnyddio ynni niwclear ar y cyd â ffermydd gwynt a solar llai o faint.

The NDF has an obsessive belief in wind turbine energy. It completely fails to consider the benefits of other renewables including tidal energy, domestic solar and heat exchange systems. It also fails to consider the benefits of new technology nuclear power. This is at a time when the UK government is investing £58 million of public money in small modular reactors (SMR) and advanced modular reactors (AMR).

Interesting research has been carried out on Nuclear fusion which will enable in small scale nuclear plants that are completely carbon free to be built in actual cities.

The NDF ignores any expansion of generation using offshore wind or small modular nuclear reactors. These technologies enjoy support from the UK government, which is not the case for onshore wind and solar generation. a. If an extension of the Gwynt y Môr offshore wind farm goes ahead this could add up to 1.9 TWh to Wales' annual renewable generation, 16 % of the renewable target of Policy 10 b. If Wales successfully completes a small modular reactor of 300 MW, perhaps at Trawsfynydd, operating at load factor of 85 %, this would deliver 2.24 TWh per annum, 19 % of the 2030 Policy 10 renewable generation target, and would match the production from 1 GW of onshore wind or 2.3 GW of solar.

Roedd awgrymiadau llai mynych yn cynnwys ynni biomas a geothermol, er i ymatebwyr eraill wneud sylwadau negyddol ar botensial biomas

Emphasis should be made on biomass (using wood, wood waste, town waste, landfill gasses), hydropower (we have a huge coastline we should be using to generate electricity), and geothermal should also be more actively explored, the single site in Llynfi Valley is woefully inadequate.

Roedd effeithiau amgylcheddol neu ecolegol tyrbinau gwynt hefyd yn nodwedd gyffredin ar yr ymatebion. Dadleuodd yr ymatebwyr fod effaith amgylcheddol gwaith adeiladu, gan gynnwys y concriid sy'n cael ei ddefnyddio wrth eu hadeiladu, yn golygu bod y gwaith o adeiladu tyrbinau gwynt yn niweidiol i'r amgylchedd. Yn gysylltiedig â'r ystyriaethau amgylcheddol roedd pryder, a fynegwyd yn llai aml, ynghylch y risg uwch o lifogydd.

Turbine blades cannot be recycled...and they are massive!

You will permanently destroy large areas of important upland habitat, unavoidably and permanently increasing flood risk by installation of huge areas of concrete, and for the life of the turbines the hill landscape in our area will be utterly obliterated.

Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd y gallai gwaith adeiladu tyrbinau gwynt ar raddfa fawr ddinistrio ardaloedd o fawndir sy'n chwarae rôl bwysig wrth ddal a storio carbon.

The document illustrates the immense land areas designated for energy generation in disproportionate detail compared with, for instance, the areas for the proposed National Forest. However, the possible ecological consequences of such a major

change of land use are not stated. The effects of development on peatlands (a valuable sink for CO₂), biodiversity, groundwater and soil are all disregarded.

Apart from birdlife, turbines cause catastrophic destruction of pollinating insects on which a large proportion of our food and fruit crop production depends.

There is insufficient road and highway access across North Powys to facilitate large scale wind development and associated infrastructure. To gain required access would mean tearing up hedgerows and possibly road-widening together with endless road works: how 'green' is all that? It is clearly not. which is hardly in the interest of the environment, to say nothing of the wanton destruction of that environment...My understanding is that the huge concrete plinth upon which they stand also not only has to be replaced but re-sited, thus leading to an ugly concrete patchwork across what was beautiful countryside. There are also serious drainage issues that come with this.

Fel y dangosir gan yr ymatebydd uchod, roedd pryderon hefyd fod gosod tyrbinau gwynt yn cynyddu'r risg o lifogydd yn ogystal â lleihau'r cyflenwad dŵr ac ansawdd dŵr, o bosibl.

At hynny, ystyriwyd bod tyrbinau gwynt yn cael effeithiau negyddol ar iechyd a llesiant pobl sy'n byw yn agos atynt. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau sŵn; cysgodion symudol a thanseilio effeithiau cadarnhaol manau gwyrdd ar iechyd a llesiant fel y trafodwyd uchod.

Awgrymodd rhai ymatebwyr nad yw ynni adnewyddadwy mor ecogyfeillgar ag yr ymddengys i ddechrau. Tynnodd y pryderon hyn sylw at y ffaith bod cynhyrchu (gan gynnwys cloddio am adnoddau naturiol), cludo, gosod a datgomisiynu gwahanol rannau o dyrbinau gwynt ac araeau paneli solar yn cael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch yr effeithiau amgylcheddol negyddol ar leoedd a phobl y tu hwnt i Gymru.

Pryder mawr arall a godwyd oedd nad oes gan ardaloedd gwledig Cymru y seilwaith ffyrdd i ymdopi â'r gwaith o osod a chynnal a chadw tyrbinau gwynt. Teimlwyd y bydd yr anhrefn traffig hirdymor a fydd yn deillio o hynny yn cael effeithiau negyddol ar gymunedau lleol a thwristiaeth..

There is insufficient road and highway access across North Powys to facilitate large scale wind development and associated infrastructure.

What about access roads for transporting turbines? In the hills, single track roads where even small cars have to reverse for each other are the norm. To get turbines to their destinations involves major disruption on all roads, and traffic hold-ups to enrage the tourists. As the Tourism Company's Mid Wales Regional Tourism Strategy stated in 2011, driving in the region is still a pleasure. With little public transport, what will become of tourism if that ceases to be true?

There is insufficient road and highway access across North Powys to facilitate large scale wind development and associated infrastructure. There would be extensive damage to the narrow and winding lanes which are unsuited to the type of development required.

Lleisiwyd rhai pryderon nad oes effeithiau cronol nifer cynyddol o dyrbinau gwynt wedi'u hystyried.

Awgrymodd rhai ymatebwyr na fydd cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a/neu leihau allyriadau a bod y dystiolaeth ynglŷn â'r defnydd ohono yn gymysg, gyda rhai yn awgrymu bod y pwys a roddir ar dechnoleg adnewyddadwy yn dwyll. Roedd eraill o'r farn na fydd ynni adnewyddadwy yn cynhyrchu digon o drydan i ateb y galw ac y bydd y costau yn fwy na'r ynni a gynhyrchir. Roedd pryderon cysylltiedig yn ymwneud â gallu'r grid i ymdopi â lefelau amrywiol o ynni a gynhyrchir.

Codwyd pryderon hefyd ynghylch cludo ynni a'r seilwaith sydd ei angen i gludo ynni i'r grid cenedlaethol, ac awgrymwyd y bydd llinellau hir o geblau newydd yn ymestyn ar draws ardaloedd gwledig Cymru, uwchben y ddaear gan amlaf. Cododd hyn bryderon ynghylch effaith amgylcheddol a gweledol y seilwaith hwn yn ogystal â'r effaith negyddol ar gymunedau lleol tra bydd yn cael ei osod a'i gynnal a'i gadw. Roedd rhai o'r farn y dylai cwmnïau ynni dalu am y gwaith i gladdu llinellau trydan.

Codwyd pryderon y byddai seilwaith ynni gwynt a solar yn lleihau prisiau tai lleol a rhoddwyd un enghraifft o achos lle roedd hyn wedi digwydd.

Cafwyd rhai awgrymiadau bod Cymru eisoes yn cynhyrchu digon o drydan ac na ddylai geisio cynhyrchu mwy. Dywedodd rhai pobl na ddylai Cymru fod yn cynhyrchu ynni i'w gludo y tu hwnt i'w ffiniau.

Awgrymodd pobl hefyd y dylid ystyried safleoedd tir llwyd a safleoedd trefol ar gyfer seilwaith cynhyrchu ynni solar a gwynt.

Hefyd, roedd rhywfaint o gytundeb y dylid canolbwyntio ar ddatblygiadau gwynt a solar llai o faint.

Strategaethau ynni amgen

Roedd cryn gefnogaeth i strategaethau ynni amgen yn lle cynhyrchu ynni gwynt a solar.

Nododd cryn nifer o bobl fod angen ystyried y rôl y mae'r amgylchedd naturiol yn ei chwarae wrth ddal carbon. Mynegwyd hyn yn nhermau osgoi dinistrio'r amgylchedd hwn, fel y nodwyd uchod, ond hefyd yn nhermau'r angen i fynd ati i adfer neu hyrwyddo ecosystemau sy'n dal carbon.

Awgrymwyd y dylid sicrhau bod ffermydd gwynt presennol yn gweithio mor effeithlon â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys rhywfaint o drafodaeth ynghylch rhai tyrbinau nad ydynt erioed wedi cynhyrchu ynni i'w gyflenwi i'r grid.

Roedd cryn nifer o bobl o blaid sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael ei adeiladu i safonau gwyrdd, gan gynnwys cynaeafu dŵr a chynhyrchu ynni.

Dywedodd rhai y dylid addysgu unigolion a chwmnïau sut i arbed ynni.

Fel y gellir gweld o'r crynodeb hwn, ledled Powys, y farn gyffredinol ymhlith trigolion a ymatebodd oedd nad yw'r FfDC yn gwranddo arnynt pan fyddant yn mynegi barn am gymeriad ac anghenion eu hardaloedd lleol a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar waith cynllunio. Er bod y rhan fwyaf yn cytuno â nodau cyffredinol y FfDC, roedd llawer o drigolion yn ardaloedd gwledig Powys o'r farn eu bod nhw, eu cymunedau a'u tirweddau yn cael eu difreinio gan y FfDC a Llywodraeth Cymru. Ni wrthwynebir y FfDC mewn egwyddor ond ystyrir bod y FfDC yn creu gwaddol i ardaloedd gwledig Cymru a'u trigolion ac y dylai'r FfDC fabwysiadu ymagwedd fwy cynnil at Gymru er mwyn sicrhau ei fod yn cael y gwaddol hwnnw'n iawn.

Cyflwyniadau eraill yn ymwneud âg Ynni

Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o 34 o ymatebion a drafododd yn bennaf gynlluniau'r FfDC ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy drwy ddulliau gwynt a solar ac, yn arbennig, gynlluniau ar gyfer gosod tyrbinau gwynt. Cafodd grŵp cyfatebol ond llawer mwy (161) o'r ymatebion hyn, a oedd yn canolbwyntio ar Bowys yn unig, ei grynhoi ar wahân. Roedd yr ymatebion a grynhoir yn yr adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar bryderon ynghylch cynlluniau'r FfDC ar Ynys Môn. Fodd bynnag, gwnaeth rhai ymatebwyr bwyntiau ynghylch tyrbinau gwynt a/neu gynhyrchu ynni yn gyffredinol, a oedd yn amhenodol o safbwynt daearyddol.

Ar draws yr ymatebion hyn, trafododd pobl themâu sydd wedi'u trafod yn helaeth mewn manau eraill yn y ddogfen hon. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon: nad yw effeithiau tyrbinau ar iechyd wedi'u gwerthuso; na fydd technoleg adnewyddadwy yn cynhyrchu digon o drydan ar gyfer y buddsoddiad; bod problemau yn wynebu'r grid sy'n ymwneud ag amrywiadau yn lefel yr ynni a gynhyrchir o ffynonellau gwynt a solar; nad yw effeithiau amgylcheddol tyrbinau gwynt wedi'u gwerthuso'n ddigonol; nad yw tyrbinau gwynt yn ecologyfeillgar oherwydd y gwaith sydd angen ei wneud i'w cynhyrchu, eu cludo a'u gosod a datgomiynu eu rhannau; effaith weledol negyddol seilwaith; effaith andwyol seilwaith ynni adnewyddadwy ar dwristiaeth; materion sy'n ymwneud â'r seilwaith (e.e. ffyrdd) sydd ei angen i ategu'r gwaith o osod a chynnal a chadw technolegau ynni adnewyddadwy; y seilwaith sydd ei angen i gludo ynni i'r grid; yr angen am ddulliau angen o gynhyrchu/arbed ynni; bod democratiaeth leol yn cael ei thanseilio; y ffaith bod y broses gynllunio yn cael ei chanoli a bod prosesau gwneud penderfyniadau lleol yn cael eu tanseilio (unwaith eto cyfeiriwyd at achos Fferm Wynt Hendy yn Llandegla); nad oedd yr ymgynghoriad yn ddigon eang ei gwmpas; bod y gydberthynas rhwng gwahanol lefelau cynllunio a ph'un sy'n cael y flaenoriaeth yn achosi problemau; y ffaith nad oes polisiâu cenedlaethol cydgysylltiedig; ac anghysondebau o ran amcanion y FfDC (e.e. mae'n datgan cysylltiadau cadarnhaol rhwng manau gwyrdd a llesiant cadarnhaol ond mae o blaid datblygu manau gwyrdd).

Ni fydd ailddatgan y pryderon hyn sydd wedi'u trafod yn helaeth yn yr adran hon ond yn ailadrodd y sylwadau sydd wedi'u cyflwyno yn y crynodeb cyfan. Yn lle hynny, nodir y sylwadau amgen a wnaed gan yr ymatebwyr hyn isod.

Herio ffiniau a ddynodwyd gan y FfDC

Lleisiwyd pryderon gan ymatebwyr ynghylch gwahanol ffiniau sydd wedi'u tynnu o fewn y FfDC. Roedd llawer o'r pryderon hyn yn wahanol i bryderon ynghylch ffiniau a drafodir mewn

mannau eraill yn yr adroddiad hwn. Gwnaeth un ymatebydd y pwynt cyffredinol, er ei fod yn cytuno â mapio cyfyngiadau, y dylai'r ffiniau a gynhrychir gan y broses fod yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer amodau lleol. Awgrymodd y byddai hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i awdurdodau lleol pan fyddent yn cynllunio eu polisiau eu hunain:

We are concerned with the approach used to determine some of the Priority Areas. Whilst we agree with the use of constraint mapping to identifying the most suitable places for developments, having hard defining lines for the edge of Priority Areas can be counterproductive. Very often, high level planning tools used to direct developments to certain areas can be too general and often overlook certain constraints which make such areas unsuitable, or will exclude suitable areas on the basis of broad-brush, rather than site specific, constraints data...We would therefore suggest building in some flexibility around the boundaries of Priority Areas. The guidance should be clearer around the priorities given for developments that could potentially fall on the edge of a Priority Area or just outside. It may be worth considering having vague or broad-brush boundaries for Priority Areas rather than hard definitive lines which may give local planning authorities some flexibility when forming their own policies. An alternative may be to review the criteria used when assessing and forming the Priority Areas to include a wider scope of constraints.

Cafwyd yr ymateb hwn gan grŵp â diddordeb masnachol mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy a awgrymodd y dylid ymestyn rhan ddeheuol Ardal â Blaenoriaeth 5. Ymddengys fod yr awgrym i gael ffiniau hyblyg yma yn ymwneud â sicrhau bod cynllunwyr lleol yn gallu ymestyn datblygiad yn hytrach na chyfyngu arno. Cefnogwyd hyn gan ymatebydd arall a oedd o blaid gwaith datblygu, ac awgrymodd hyn hefyd y byddai'r Ardaloedd â Blaenoriaeth yn rhwystro gwaith datblygu mewn ardaloedd y tu allan i'w dalgylch. Cyflwynodd trydydd ymatebydd gynnig technegol manwl iawn ar gyfer ymestyn Ardal â Blaenoriaeth 14. Nod ei gyflwyniad oedd tynnu sylw at "*apparent weaknesses in the refinement process to identify Priority Areas for wind energy as part of the assessment of onshore wind and solar energy potential in Wales.*" Casgliad ei astudiaeth oedd y dylid ymestyn Ardal â Blaenoriaeth 14 "*slightly to the east to include the refined Strategic Search Area of SSA E of the NPT Local Development Plan*". Un rheswm dros hyn oedd ei awgrym y dylai uchder tybiedig y tyrbîn, sef 250m, a ddefnyddir ym mhroses ddynodi Ardaloedd â Blaenoriaeth y FfDC, fod yn yr ystod 150m-175m:

Setting the turbine tip height at a level far beyond what currently exists, and which may never exist in an onshore version, carries a very real risk of scoping out areas with excellent wind resource and very few constraints, for no valid reason. This would not preclude the deployment of larger turbines if site assessments concluded the impacts were acceptable

Dywedodd un ymatebydd fod y defnydd o ffiniau yn y FfDC yn anghyson. Ar y naill law mae'n canolbwyntio gwaith datblygu cynaliadwy mewn tair ardal fawr, ond mae hefyd yn dadlau y dylid canolbwyntio ffermydd gwynt ar raddfa fawr mewn nifer lai o Ardaloedd â Blaenoriaeth. Mae'n awgrymu, er cysondeb, y dylid canolbwyntio polisiau ynni ar y tri Rhanbarth hefyd.

Roedd pryderon eraill ynghylch ffiniau yn canolbwyntio'n bennaf ar ardal Ynys Môn a'r penderfyniad i ddynodi Ardal â Blaenoriaeth 1 o fewn ei ffiniau. Ar y cyfan, roedd yr

ymatebion hyn yn amau addasrwydd Ynys Môn ar gyfer lleoli tyrbinau gwynt. Dywedodd un ymatebydd, mewn cyflwyniad manwl a thechnegol arall, fod y dynodiad terfynol fel petai'n gwyro oddi wrth y dystiolaeth fel yr oedd yn ei deall. Roedd o'r farn bod elfen hollbwysig o'r broses dewis ffin yn aneglur:

The methodology used is detailed, clear and transparent except for the most important part, selecting the actual Priority Areas, which is densely opaque and gives the impression other, undeclared reasons are behind the finally selected areas. Without clear explanation of the rationale behind these decisions it is impossible to know if the framework is appropriate

Adleisiwyd y teimladau hyn gan ymatebydd arall a awgrymodd fod canfyddiadau hollbwysig mewn adroddiad cynharach gan Arup i Gynghorau Ynys Môn a Gwynedd, yn “*glaring omissions*” yn yr adroddiadau diweddarach, hefyd gan Arup, ar gyfer y FfDC. Awgrymodd yr ymatebydd fod hyn yn “*call[ed] into question the validity and/or motives of selecting Anglesey as a Priority Area for large scale wind energy*”.

Uchder tyrbinau gwynt

Cododd grŵp arall o bobl wrthwynebiadau penodol i dyrbinau gwynt a oedd yn seiliedig ar eu uchder. Gwnaeth un unigolyn y pwynt cyffredinol canlynol:

It must be clear to all involved that it is totally impossible to ‘minimise the landscape and visual impact’ of 150 metre high turbines

Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiadau wedi'u gwneud ar y sail bod tyrbinau uchel yn anaddas i Ynys Môn sy'n ynys fach, wastad ac, felly, y byddai effaith weledol y tyrbinau yn cael ei gwaethygu:

The island is geographically flat so the effects of these monstrous towers will be seen, not only across the island but in many areas on the mainland

The scale and type of generating technology, particularly 150 - 250 m high wind turbines, is simply not appropriate for an island rarely more than 100 m above sea level

Pryderon a nodwyd yn achlysurol

Roedd pryderon eraill a godwyd o fewn y grŵp hwn o ymatebion nas codwyd yn unman arall. Dim ond gan un neu ddau ymatebydd y codwyd pob un o'r rhain.

Yn gyntaf, awgrymodd un ymatebydd nad oedd costau ariannol tyrbinau gwynt ar gyfer plismona a'r GIG wedi'u cyfrifo. Ymddengys fod yr effeithiau ar y GIG yn cael eu cyfleu yn nhermau effeithiau negyddol tyrbinau gwynt ar iechyd. Nid yw'r rhesymau dros yr effeithiau ar gostau plismona yn glir er y gallent fod yn gysylltiedig â phlismona protestiadau ac ati.

Dywedodd un ymatebydd fod ynni gwyrdd yn gwneud diwydiant trwm yn anghystadleuol:

...this green policy is increasing electric energy costs making heavy industry uncompetitive. The UK is already has one of the highest electricity costs. This has already had an impact to our steel making industry.

Pryder arall a godwyd gan un unigolyn yn unig oedd, er bod Polisi 10 o fewn y FfDC ar yr wyneb fel petai'n cynnwys mesurau diogelu i leihau effeithiau tyrbinau gwynt, ei fod yn "hides a number of points that could be critical to an application for development being acceptable or not". Ystyrir hefyd nad yw canllawiau a addawyd ar ddatblygu prosiectau ynni gwynt a solar ar y tir mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth, wedi'u darparu. O ganlyniad, mae'r ymatebydd yn awgrymu:

The protective measures of the planning process are poorly defined and could be interpreted to make development inappropriate, and so selection of Priority Area 1 meaningless, or could be interpreted to provide no protection at all.

Dywedodd dau unigolyn eu bod yn pryderu ynghylch y wleidyddiaeth sydd wrth wraidd y FfDC ac roeddent o'r farn bod agendâu gwleidyddol a phersonol yn dylanwadu arno:

the political sector...now appears to me is an uncontrolled workplace driven nowadays by personal ambition and the accumulation of personal wealth

With virtually no exclusions the Priority Areas are all located in locations which did not vote for Labour so that a cynic might argue no votes will be lost here.

Crynhodd un unigolyn y farn gyffredinol sydd wrth wraidd llawer o'r ymatebion, a awgrymodd fod manylion ar goll yn y FfDC ynghylch cynhyrchu ynni adnewyddadwy:

Overall, the entire section of the NDF concerning renewable energy appears like a collection of input material to a first draft, but requires much more thought and consultation before it can be considered anywhere near mature enough for policy

Sylwadau amgen ar themâu a ddatblygwyd rywle arall

Cyflwynodd y grŵp hwn o ymatebion sylwadau amgen hefyd ar themâu a grynhoir mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Trafodir y safbwyntiau hyn isod.

Cafwyd awgrymiadau amgen ynglŷn â chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol fel opsiwn amgen yn lle seilwaith gwynt a solar ar raddfa fawr. Trafododd un ymatebydd yn y grŵp hwn sut mae'r model hwn hefyd yn cadw arian yn yr economi leol yn hytrach na'i fod yn mynd i gorfforaeth ryngwladol. Gwnaeth ymatebydd arall gyfiawnhau grantiau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y cartref drwy ei gymharu â grantiau ar gyfer tanau systemau gwres canolog newydd a arferai gael eu rhoi gan y Llywodraeth yn y gorffennol.

Ychwanegodd un ymatebydd at y pryderon ynghylch effeithiau negyddol posibl tyrbinau gwynt ar yr economi dwristaidd, gan siarad o safbwynt awduron teithlyfrau:

As a member of the Outdoor Writers' & Photographers' Guild I am well aware that my colleagues who write guidebooks do not wish to touch Mid-Wales, given the on-going assault on its landscapes by the wind industry. As no attempt has been made to carry out even a basic tourism survey it is indelibly clear that WAG could not care less about the Welsh countryside, and that this scheme has been concocted by city-dwellers

Ychwanegodd un ymatebydd at y trafodaethau ynghylch seilwaith grid, gan awgrymu y byddai unrhyw seilwaith grid newydd gael ei arwain gan ddatblygwyr ac nad yw'r FfDC yn rhoi digon o bwyslais ar y seilwaith hwn:

From our discussions with the two Distribution Network Operators serving Wales and with National Grid, they all advise that any new grid infrastructure will have to be

developer led. We have seen from past experience in mid Wales that new grid infrastructure can only be delivered by developers with the full support of the Welsh Government. Given this, the document doesn't place enough emphasis on the requirement for new grid infrastructure to meet the targets and objectives it sets out. The Welsh Government's role in the need to upgrade Wales' grid infrastructure to accommodate the decarbonisation and increases in demand from transport and domestic heating use through electrification will be a huge challenge. The NDF will need to give the Welsh Government the wide scope of policy support it needs to deliver on this. We believe as drafted this has been underestimated in the Draft NDF.

Ar draws yr holl ymatebion, ceisiodd llawer o bobl roi Cymru a strategaeth y FfDC mewn cyd-destun ehangach. Yma, dywedodd un ymatebydd y dylai Cymru ddilyn gwledydd eraill sy'n tueddu i leoli eu tyrbinau gwynt mewn ardaloedd trefol. Adleisiodd pobl eraill sylwadau sydd wedi'u crynhoi mewn manau eraill yn y ddogfen hon, sef bod mwy o duedd yn Lloegr tuag at ddiogelu'r dirwedd nag sydd yng Nghymru:

While the English are creating new national parks in areas of less scenic quality than much of Wales which is outside our three NPs, and places like Surrey and Sussex have no wind turbines, places like Powys, one of the poorest counties in the UK, will be further impoverished by these plans.

Fel rhybudd rhag tyrbinau gwynt, trafododd dau ymatebydd fodolaeth tyrbinau a osodwyd ond nad ydynt wedi cynhyrchu trydan i'r grid eto. Siaradodd un unigolyn yn fras am y mater hwn, tra enwodd y llall ddatblygiadau ym Mryn Blaen a Llandegla, gan nodi nad yw'r cyntaf yn cynhyrchu trydan o hyd ar ôl dwy flynedd. Mae'r mater hwn wedi'i godi mewn man arall yn yr adroddiad hwn ond nid i raddau helaeth.

Mae set arall o faterion yn ymwneud â chynhyrchu ynni a thechnolegau adnewyddadwy, y mae'r grŵp hwn o ymatebion hefyd wedi cyflwyno sylwadau pellach arnynt. Awgrymodd un unigolyn nad oedd y ffordd ymlaen yn ymwneud â seilwaith adnewyddadwy newydd yn unig:

There is plenty of evidence to suggest solutions are already available including an energy mix, more sustainable methods of working and delivering projects using existing research, funding and innovative ideas all able to provide employment, the green economy and enhance well-being of the nation

Fel mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, roedd llawer o bryderon ynghylch cynhyrchu ynni yn canolbwyntio ar bryderon bod ffynonellau ynni adnewyddadwy yn arwain at amrywiadau yn lefel yr ynni a gynhyrchir y bydd y grid yn ei chael hi'n anodd ymdopi â nhw. Yn y grŵp hwn o ymatebion, gwnaeth yr ymatebwyr bwyntiau cysylltiedig nas trafodir rywle arall. Er enghraifft, trafodwyd yr angen i fuddsoddi mewn cyfleusterau storio (e.e. defnyddio batrïau i storio ynni; systemau storio pwmp) er mwyn lleihau effaith amrywiadau yn lefel yr ynni a gyflenwir i'r grid.

Awgrymodd sawl unigolyn naill ai nad oedd gan y FfDC amcanestyniadau pŵer cywir neu fod yr amcanestyniadau yn yr FfDC yn anghywir.:

The level of generation potential is simply alarming - from onshore wind and solar in the 15 Priority Areas there is the potential to generate 1/3 of the UK's demand! With the generation offshore in the NMP, and nuclear in policy 22, Wales will be generating

almost 50% of UK demand. I cannot believe this is intended... This level of generation does not align with many estimates of the growth of renewables, including:

“Thirty recommendations by 2030” prepared for the Labour Party

“Re-energising Wales” by the Institute for Welsh Affairs

“Zero Carbon Britain”⁴ by the Centre for Alternative Technology

“Future Energy Scenarios 2019”⁵ by National Grid ESO

[T]he RE assessment does not set out a clear statement of current and projected electricity generation and consumption, ignores the fact that Wales is a net exporter of electricity, and fails to quantify the level of additional output required to reach the target of 70% by 2030

Awgrymodd llawer o'r rhai a oedd yn pryderu ynghylch materion yn ymwneud ag amcanestyniadau hefyd fod angen cysoni polisi ynni Cymru â pholisi ynni'r DU (e.e. Map Ynni Adnewyddadwy'r DU 2011):

The electricity system is operated as an integrated UK whole. Welsh policy should reflect this or propose an alternative approach... Welsh policy needs to further evolve to reflect these issues and align with UK policy. The intentions of its policy on the levels of exports to England should be made clear.

Mynegodd rhai bryderon bod Cymru yn cyflenwi ynni i'r DU ar draul ei thirwedd ei hun. Roedd y rhain yn ymwneud â phryderon bod Cymru yn cael ei defnyddio gan y DU i gyflenwi ynni a chyfeiriodd un unigolyn at y “depredations” a ddiodefwyd gan Gymru o ganlyniad i weithgarwch cynhyrchu glo a boddi Cwm Elan.

Gwnaeth ymatebydd arall bwynt technegol yr oedd yn credu ei fod yn anghywir yn y FfDC, a oedd yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng ynni a phŵer. Awgrymodd fod yn rhaid cyfrif capasiti cynhyrchu yn nhermau pŵer (kW) yn hytrach nag ynni (kWh). Bydd methu â gwneud hynny yn achosi problemau, ac mae angen cyfrif am y gwahaniaeth yn y cynllun:

*The NDF proposals are based on a capacity target for wind and solar set by outside consultants (with a significant interest in the wind and solar industries) based solely on energy consumption. **This is spurious and will not withstand independent inspection.** They have compounded this by the incorrect use of capacity factors*

Mae trafodaethau ynghylch pa berthynas sydd rhwng y FfDC a pholisïau Cymreig eraill wedi'u crynhoi mewn man arall yn y ddogfen hon. Mae materion ychwanegol sy'n ymwneud â pholisi, a godwyd gan ymatebwyr yn y grŵp hwn, yn cynnwys: mae angen polisi ynni cyffredinol ar Gymru; mae angen i bolisi Cymru gysylltu â Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 a Map Ynni Adnewyddadwy'r UK 2011; ac mae angen egluro a yw'r FfDC yn cyd-fynd ag Adran 38(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Yn olaf, cododd llawer o ymatebwyr bryderon ynghylch y broses ymgynghori. Unwaith eto, adleisiodd llawer o'r rhain bryderon sydd wedi'u crynhoi mewn man arall yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, mynegwyd rhai safbwyntiau amgen. Unwaith eto, roedd ymatebwyr yn anfodlon ar y broses ymgynghori gydag un ymatebydd yn mynegi'n glir deimlad cryf am y broses ymgynghori, a oedd yn ymhlyg mewn sylwadau eraill. Roedd hyn yn ymwneud â pholisi'r FfDC ar ynni adnewyddadwy, y gwnaethant ddweud ei fod yn “sales pitch unworthy

of government. There is no attempt to produce an evidence base for these claims”.

Ymddengys fod hyn yn cyd-fynd â phryderon bod y broses ymgynghori yn *fait accompli* nad oedd ganddi ddiddordeb gwirioneddol ym marn pobl leol, ac awgrymodd un ymatebydd fod materion cynllunio yn llai pwysig na chyflawni targedau eraill (ymddengys yma ei fod yn golygu targedau ynni).

Dywedodd un unigolyn fod y dogfennau cysylltiedig yn anodd i'w darllen neu eu deall, sef sylw a gododd yn anfynych hefyd yn yr ymatebion i'r holiadur. Roedd eraill yn pryderu ynghylch cwrpas yr ymgynghoriad, gydag un unigolyn yn awgrymu bod y FfDC mor bwysig i'r boblogaeth gyfan fel y dylai pob cartref fod wedi cael taflen amdano. Dywedodd un arall fod angen i ddogfen y FfDC fod yn fwy manwl.

Cyflwyniad Safonedig

4.6.12 Cyflwyniadau safonedig yw ble mae nifer o ymatebion union debyg wedi'u cyflwyno ar fater penodol.

Cyflwynodd 67 o unigolion, dau gyngor tref ac un cyngor cymuned ar Ynys Môn, ymatebion union debyg neu debyg iawn a oedd yn gwrthwynebu datblygiadau gwynt a solar ar Ynys Môn ar sail y ffaith bod y tyrbinau yn rhy uchel ac yn rhy fawr, y posibilrwydd o ddefnyddio ffynonellau ynni amgen, diffyg eglurder neu sail dystiolaeth ar gyfer yr ardaloedd â blaenoriaeth ac ymgynghoriad annigonol.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 8 y FfDC drafft: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth a Sicrhau bod Ecosystemau yn Wydn

4.6.13 Mae'r polisi strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn wydn yn cyfateb, fwy neu lai, i'r hyn a nodir yn y FfDC drafft. Atgyfnerthwyd y polisi, ymdriniwyd ag amwysedd ac eglurwyd y disgwyliau ar gyfer cyflawni. O ganlyniad i newidiadau eraill caiff y polisi hwn ei ailrifo yn Bolisi 9.

4.6.14 Mae'r polisi wedi'i ail-lunio ychydig a rhoddwyd teitl newydd iddo er mwyn iddo adlewyrchu'n agosach gyd-destun polisi ehangach sy'n nodi seilwaith gwyrdd yn benodol; Polisi 9, Rhwydweithiau Ecolegol a Seilwaith Gwyrdd Cydnerth. Mae naws y polisi bellach yn adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol ategol yn agosach ac mae'n mynd i'r afael â phryderon a leisiwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch yr angen i ddiogelu'r adnoddau naturiol sy'n bodoli eisoes ac adnoddau naturiol posibl (ochr yn ochr â chreu adnoddau newydd), yr angen i'r polisi fod yn gymwys ar bob lefel o waith cynllunio a'r angen i ymgorffori gwelliant (budd net) ym mhob ymyriad.

4.6.15 Er bod byrdwn cyffredinol y polisi drafft yn cael ei gefnogi ar y cyfan, mynegodd ymgynghoreion bryderon ynghylch y ffaith nad oedd y polisi yn

ddigon penodol, yn enwedig mewn perthynas â diogelu rhywogaethau, a galwyd am bolisi penodol ar safleoedd dynodedig. Mae'r polisi bellach yn darparu ar gyfer diogelu rhywogaethau ac yn esbonio'n gliriach arwyddocâd ehangach safleoedd dynodedig o fewn dull gweithredu sy'n seiliedig ar ddiogelu a seilwaith gwyrdd. .

- 4.6.16 Mae'r polisi wedi'i ailddrafftio yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer diogelu'r amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r targedau yn heriol iawn; mae nodi ardaloedd i'w diogelu fel rhwydweithiau ecolegol gwydn, nodi cyfleoedd ar gyfer seilwaith gwyrdd strategol ac, ym mhob penderfyniad, sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth yn sylfaen gadarn ar gyfer bodloni gofynion argyfwng newid hinsawdd ac argyfwng ecolegol. Cefnogir yr uchelgais ar gyfer y polisi hwn ym mhob rhan o'r Llywodraeth. Drwy arweinyddiaeth bragmataidd caiff canllawiau pellach eu cyhoeddi er mwyn cefnogi dulliau cyflawni haen is.
- 4.6.17 Gan fynd i'r afael â phryderon ymgylch y diffyg manylion ac eglurder ynglŷn â'r ffordd y rhoddir y polisi ar waith, mae'r testun ategol wedi'i ailddrafftio'n sylweddol..
- 4.6.18 Mae rôl swyddogaethol rhwydweithiau ecolegol gwydn mewn cyd-destun cynllunio wedi'i nodi, gan amlinellu pwysigrwydd allweddol rhwydweithiau o'r fath o fewn argyfwng newid hinsawdd ac argyfwng ecolegol a'r rôl y gall y system gynllunio ei chwarae yng nghyd-destun ehangach rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae mwy o bwys wedi cael ei roi ar sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth yn y testun ategol a chyfeirir at hyn mewn polisïau strategol eraill lle y gellir sicrhau budd o'r fath (llywio twf trefol a llifogydd).
- 4.6.19 Mae mwy o bwyslais wedi'i roi ar y cysylltiadau rhwng safleoedd dynodedig a rhwydweithiau ecolegol ehangach ac maent wedi'u nodi'n gliriach yn y testun ategol ac mae'r swyddogaeth carreg bontio wedi'i nodi.
- 4.6.20 Cododd ymgylchoreion bryderon ynghylch pa mor ymarferol yw defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar ddiogelu fel rhan o'r fframwaith polisi. Darparwyd manylion yn y testun ategol sy'n nodi'r cysyniad diogelu a bwriad y polisi. Mae'r testun ategol hefyd yn rhoi hyblygrwydd i gynlluniau haen is fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar ddiogelu sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau unigol.
- 4.6.21 Nodir y rôl y mae seilwaith gwyrdd yn ei chwarae wrth helpu i gyflawni prif amcanion y polisi hefyd. Mae'r naratif ategol yn darparu cyd-destun polisi cryf er mwyn llywio'r broses o roi'r polisi ar waith.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 12, 13, 19, 44-49 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 9 y FfDC drafft: Y Goedwig Genedlaethol

- 4.6.22 Bydd testun y polisi yn aros yn ddigyfnewid, fwy neu lai, ar wahân i ddiwygiad bach er mwyn rhoi mwy o eglurder. O ganlyniad i newidiadau eraill, caiff y polisi hwn ei ail-rifo'n Bolisi 15.
- 4.6.23 Mae'r polisi ar y goedwig genedlaethol yn un cadarnhaol ac uchelgeisiol a gefnogir gan bob rhan o'r llywodraeth ac, ar y cyfan, cydnabu'r ymatebwyr hyn, er bod rhai o'r farn y gallai'r polisi a'r testun ategol fod yn fwy uchelgeisiol.
- 4.6.24 Ar y cyfan, roedd yr ymatebion ynglŷn â'r Goedwig Genedlaethol yn gadarnhaol ac yn ffafriol. Serch hynny, cafwyd sylwadau ynghylch sut y gellid gwella'r polisi lle roedd yr ymatebwyr o'r farn y gallai'r polisi neu'r testun ategol roi mwy o wybodaeth.
- 4.6.25 Cododd cyfres o themâu o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn cynnwys y teimlad ymhlith yr ymatebwyr fod angen mwy o fanylion; bod angen cydnabod coedwigaeth fasnachol; pryderon ynghylch polisi yr ystyriwyd ei fod yn canolbwyntio ar goedwigoedd yn unig ac nid ar ecosystemau eraill; a'r effeithiau cadarnhaol y gall y goedwig genedlaethol eu cael ar newid yn yr hinsawdd, llesiant a thwristiaeth. Er i hyn gael ei nodi, mae'r goedwig genedlaethol yn un o nifer o bolisiau yn y FfDC ac ni ddylid darllen y polisi ar ei ben ei hun, yn arbennig heb ddarllen y polisi ar seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth. Serch hynny, mae gwydnwch ecosystemau bellach yn cael ei gydnabod yn y testun ategol.
- 4.6.26 Mae'r paragraff terfynol o Bolisi 8 y FfDC drafft – Fframwaith strategol ar gyfer gwella bioamrywiaeth a sicrhau bod ecosystemau yn fwy gwydn – wedi'i symud i destun ategol y polisi ar y Goedwig Genedlaethol. Mae'r testun hwn yn nodi'r buddiannau eang y mae coetiroedd yn eu cynnig i gymdeithas. Gwnaed hyn yn dilyn sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y rôl y gall y goedwig ei chwarae o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ogystal â'r cysyniad o'r "goeden gywir yn y lle cywir".
- 4.6.27 Ychwanegwyd geiriau at y testun ategol ynghylch y ffordd y gall y system gynllunio hwyluso'r gwaith o blannu coed fel rhan o gynigion datblygu a rhoddwyd enghraifft o ddefnyddio cytundebau adran 106 er mwyn cynyddu'r gorchudd coed.
- 4.6.28 Mae'r rôl y bydd y goedwig yn ei chwarae a'r tair elfen y bydd yn eu cynnwys wedi'u hegluro yn y testun. Diben hyn yw ei gysoni â'r gwaith sy'n mynd rhagddo ym mhob rhan o'r llywodraeth ac mewn ymateb i sylwadau a oedd yn galw am fwy o fanylion ac yn holi am swyddogaeth y goedwig genedlaethol.
- 4.6.29 Mewn ymateb i sylwadau ynghylch yr effeithiau cadarnhaol y gallai'r goedwig genedlaethol eu cael ar newid yn yr hinsawdd, cynhwyswyd geiriau er mwyn tynnu sylw at y rôl y gallai chwarae o ran lliniaru newid yn yr hinsawdd, yn

ogystal â'r rôl gadarnhaol sydd ganddi i'w chwarae o ran rheoli dŵr a pherygl llifogydd.

4.6.30 O ran creu cynefinoedd a rhywogaethau, mae'r testun wedi'i ddiwygio er mwyn cyfeirio at y ffaith na ddylai gweithgarwch ailgoedwigo wneud ecosystemau ehangach yn llai gwydn..

4.6.31 Mae cyfeiriad at y targed i blannu 2,000ha o goed y flwyddyn wedi'i ychwanegu at y testun.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 44, 47 a 48 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru – mae Polisiau drafft 10-15 Ynni Adnewyddadwy a Rhwydweithiau Gwres

- 10 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Ardaloedd â Blaenoriaeth,
- 11 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar y Tu Allan i Ardaloedd â Blaenoriaeth,
- 12 – Ynni Gwynt ac Ynni Solar mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
- 13 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy Eraill
- 14 – Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol
- 15 – Uwchgynllunio ar gyfer Rhwydweithiau Gwers Rhanbarthol

wedi cael eu diwygio a'u disodli gan

- Polisi Arfaethedig 16: Rhwydweithiau Gwres
- Polisi Arfaethedig 17 Seilwaith Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig
- Polisi Arfaethedig 18 Datblygiadau Adnewyddadwy Carbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol

4.6.32 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ein system ynni yn mynd drwy gyfod o drawsnewid wrth inni symud yn gyflym i ddatgarboneiddio ein prosesau o gynhyrchu ynni. Yn y dyfodol, rhagwelwn y byddwn yn mabwysiadu dull 'aml-factor' lle y defnyddir amrywiaeth o dechnolegau, ar wahanol raddfeydd, i gynhyrchu trydan mor agos â phosibl at gymunedau lle y gellir manteisio i'r eithaf ar eu buddiannau a lle mae'r angen am seilwaith grid ar raddfa fawr i'w cynnal yn cael ei leihau hyd yr eithaf. Er bod rhai ymatebwyr o'r farn bod y FfDC fel petai'n cefnogi datblygiadau gwynt a solar yn unig (oherwydd y dull gofodol proffil uchel), mewn gwirionedd, roedd yn cefnogi pob math o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel ar y tir. Nid yw

technologau ar y môr yn cael eu cwmpasu gan y system cynllunio gwlad a thref er bod polisiau mewn mannau eraill yn cael eu hatgyfnerthu er mwyn cefnogi'r elfennau ar y tir o gynlluniau ar y môr.

- 4.6.33 Gall pob datblygiad ynni adnewyddadwy mawr (gan gynnwys datblygiadau gwynt a solar) effeithio ar yr amgylchedd o'i amgylch. Caiff hyn ei asesu'n briodol o fewn y system gynllunio er mwyn sicrhau y caiff yr effeithiau hynny eu lleihau cymaint â phosibl er mwyn sicrhau y gallai cynllun fod yn dderbyniol. Mae'r broses hon (gan gynnwys yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a, lle y bo'n briodol, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) ystyried yr effeithiau ar y dirwedd a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol. Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylid sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r gymuned, lle y bo'n bosibl..
- 4.6.34 Mae penderfyniadau ar brosiectau mwy o faint wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru ers i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddod i rym, mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn caniatáu cysoni â pholisi a phrosesau gwneud penderfyniadau ar lefel briodol pan fo penderfyniadau ar gynlluniau strategol bwysig yn cael eu gwneud yn effeithlon er budd y wlad. Mae awdurdodau lleol yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses hon drwy Adroddiadau ar yr Effaith Leol. Bydd angen i CDLlau gydymffurfio â'r FfDC ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.
- 4.6.35 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cyfraniad y bydd datblygiadau llai o faint a datblygiadau cymunedol yn ei wneud at ein system ynni yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddant yn cynhyrchu digon o ynni adnewyddadwy i ddiwallu ein hanghenion. Felly, mae angen inni gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer datblygiadau ar raddfa fwy a fydd yn gwneud cyfraniad mwy sylweddol at ein targedau.
- 4.6.36 Comisiynwyd adroddiad Arup gan Lywodraeth Cymru yn 2018 a defnyddiodd fethodoleg a ddefnyddir yn gyffredin i fapio cyfyngiadau er mwyn nodi'r ardaloedd mwyaf addas ar gyfer datblygiadau gwynt a solar mawr. Trafodwyd y cyfyngiadau hyn a chytunwyd arnynt â rhanddeiliaid drwy bedwar gweithdy, a gynhaliwyd yn ystod hydref 2018, cyn i'r gwaith o fodelu'r ardaloedd ddechrau. Mae sylwadau wedi holi ynghylch y defnydd ychwanegol o eiddo preswyl fel cyfyngiad ychwanegol, ynghyd â choridorau ffyrdd, rheilffyrdd ac afonydd. Mae Arup wedi gwneud gwaith modelu ychwanegol sy'n dangos y byddai hyn yn diystyru rhannau helaeth o Gymru ac, felly, nid yw'n ymarferol gwneud hynny. Mae hyn yn arbennig o wir lle y gallai eiddo preswyl gael ei brynu neu ffurfio rhan o gytundeb perchenogaeth er mwyn sicrhau bod cynllun yn dderbyniol i eiddo preswyl gerllaw, sy'n golygu y byddai modd defnyddio clustogfa lai o faint neu beidio â defnyddio clustogfa o gwbl.
- 4.6.37 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi codi pryderon ynghylch diogelu ei hystad a'i hardaloedd hyfforddi strategol. Felly, mae'r ardaloedd hyn wedi'u mireinio, mewn ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn. Cyhoeddir map diwygiedig yn y FfDC.

- 4.6.38 Mae'r diwydiant solar wedi cyfeirio at yr angen am hyblygrwydd o ran y safbwynt polisi am ei fod yn fwy ystwyth wrth ymteb i gapasiti'r grid ac am nad yw ceisiadau ar gyfer ffermydd solar yn cael cymaint o effaith ar y dirwedd ehangach â thyrbinau gwynt. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn hyn ac, felly, mae wedi penderfynu dileu'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer datblygiadau solar o'r FfDC.
- 4.6.39 O ran cysylltiadau â'r grid, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai polisiâu FfDC fod yn gliriach o ran ein polisi tuag at seilwaith y grid. Adlewyrchir hyn mewn newidiadau i'r polisi.
- 4.6.40 Mae'r term 'Ardaloedd â Blaenoriaeth' hefyd wedi peri dryswch. Nid bwriad y polisi oedd y dylid ystyried yr ardaloedd hyn yn gyntaf. Fodd bynnag, derbynnir y gallai'r term hwn, ynghyd â'r dull 'goleuadau traffig' a gymeradwyir gael yr effaith hon. Felly, mae'r model goleuadau traffig wedi'i ddileu. Mae'r Ardaloedd â Blaenoriaeth wedi'u hailenwi'n 'Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw' er mwyn adlewyrchu'n well eu statws fel ardaloedd lle yr hoffai Llywodraeth Cymru weld rhwystrau i ddatblygiadau ynni gwynt mawr yn cael eu lleihau. Nid yw hyn yn golygu na fydd y datblygiadau yn destun trefniadau craffu llawn y prosesau cynllunio. Penderfynir ar bob cais cynllunio, waeth ble mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli, o dan yr un fframwaith polisi.
- 4.6.41 O ran polisi sy'n seiliedig ar feini prawf, er bod polisiâu'r FfDC drafft yn cynnwys meini prawf yn ymwneud â'r materion i'w hystyried ar y cam rheoli datblygu, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad oedd y meini prawf hyn yn ddigon manwl ac y gallent beri dryswch o ran y ffordd y byddent yn cael eu defnyddio.
- 4.6.42 Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid dileu pob un o bolisiâu ynni adnewyddadwy'r FfDC drafft a chyflwyno dau bolisi newydd yn eu lle, a fydd yn gymwys i bob technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r polisi cyntaf yn rhoi safbwynt polisi cadarnhaol Llywodraeth Cymru ar gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Aiff ymlaen i nodi dimensiwn gofodol y polisiâu sy'n gymwys i barciau cenedlaethol, AHNEau a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw. Mae'r polisi hefyd yn datgan y dylid sicrhau bod cynlluniau yn dod â'r manteision mwyaf posibl i'r gymuned ehangach ac yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i ddatblygu'r grid.
- 4.6.43 Mae'r ail bolisi arfaethedig yn ymwneud â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fawr (maint datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol). Mae wedi'i lunio'n gadarnhaol i nodi mai trwyddedu prosiectau yw'r man cychwyn, gydag amrywiaeth o feini prawf y mae angen eu hasesu a sicrhau eu bod yn foddhaol, cyn i'r statws hwn gael ei gadarnhau..

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 34-43 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Rhwydweithiau Gwres Ardal

- 4.6.44 Mae'r angen i ystyried rhwydweithiau gwres fel ffynhonnell wres wirioneddol yn y dyfodol yn glir. Mae'r DU yn paratoi ar gyfer newidiadau rheoliadol i alluogi rhwydweithiau gwres i weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol ac mae ymgynghoriad diweddar Rhan L y Rheoliadau Adeiladu yn ystyried y gallai rhwydweithiau gwres fod yn rhan o'r mesurau effeithlonrwydd ynni sy'n rhan o ddatblygiad newydd yn y dyfodol. Mae'n gywir felly bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gofyn i awdurdodau cynllunio a datblygwyr lleol ddechrau archwilio'r potensial ar gyfer rhwydweithiau gwres gan fod y nifer sy'n manteisio arnynt wedi bod yn araf hyd yn hyn.
- 4.6.45 Gall rhwydweithiau gwres weithredu ar lawer o wahanol raddfeydd, o ddau adeilad neu floc o fflatiau, i rwydweithiau ledled y ddinas sy'n cysylltu ffynonellau gwres gwastraff â defnyddwyr gwres mawr. Felly nid yw'n briodol defnyddio trothwy uwch i ddatblygiadau ystyried rhwydwaith gwres gan y gallai cyfleoedd gael eu colli.
- 4.6.46 Fodd bynnag, mae'n briodol i'r polisi gyfeirio at ffynonellau gwres gwastraff a'r angen i ddefnyddio ffynonellau ynni carbon isel lle bynnag y bo modd i sicrhau bod y prosiectau hyn yn helpu i gyfrannu tuag at dargedau datgarboneiddio; naill ai nawr neu yn y dyfodol.
- 4.6.47 Mae cefnogaeth ar gyfer cynllunio rhwydwaith gwres eisoes ar gael gan Lywodraeth y DU. Mae rhan o Becyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunwyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar sut y gall awdurdodau cynllunio lleol ddechrau mapio'r potensial yn eu hardaloedd. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried pa gymorth ac arweiniad pellach y gall eu rhoi yn y dyfodol.
- 4.6.48 Ystyrir ei bod yn ddoeth cyfuno'r ddau bolisi rhwydwaith gwres ardal drafft er mwyn effeithlonrwydd ac i gyfeirio at ffynonellau gwres carbon isel a phresennol. Yn ogystal, amlygodd ymatebion gan awdurdodau cynllunio lleol y gwaith presennol sydd wedi'i wneud yng Nglyn Ebwy a Port Talbot; ychwanegir y rhain at y rhestr o Feysydd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres. Y polisi cyfun arfaethedig ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Dosbarth fydd Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwres.

4.7 Y RHANBARTHAU

Cwestiynau 8-11 y ffurflen ymateb lawn, a Chwestiynau 5-7 yr holiadur hawdd ei ddeall

- 4.7.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â chwestiynau sy'n ymwneud â thri rhanbarth Cymru a nodir yn y FfDC drafft. Mae pob cwestiwn, ar wahân i Gwestiwn 8, yn ymdrin â nifer o bolisiâu. Mae pob cwestiwn o'r prif holiadur wedi'i nodi ar wahân isod, ynghyd â'r polisiâu y mae'n ymwneud â nhw. Mae tabl o ystadegau yn dilyn pob cwestiwn.
- 4.7.2 Mae un tabl o'r prif themâu ac un brif sylwebaeth i gwmpasu'r holl gwestiynau a pholisiâu cysylltiedig (fel yn achos Cwestiynau 6 a 7 uchod).
- 4.7.3 Ar ôl y prif themâu a sylwebaeth, mae'r cwestiynau, y tabl ystadegau a'r themâu a'r sylwebaeth hawdd eu deall wedi'u nodi.
- 4.7.4 Mae Ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o'r uchod yn dilyn wedyn.

Cwestiwn 8


Polisi 16 – Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

C8. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol wedi'u llunio ar lefel ranbarthol?

Cwestiwn 8 - Ystadegau

- 4.7.5 Dengys Siart C8 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tabl sy'n dilyn y siart union nifer a chanrannau'r bobl a fynegodd farn.

C8



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	40	90	56	34	33	7	25	285
Canran	14%	32%	20%	12%	12%	2%	9%	100

Cwestiwn 9 – Gogledd Cymru

Polisiau:

- 17 – Wrecsam a Glannau Dyfrdwy
- 18 – Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru
- 19 – Lleiniau Glas yng Ngogledd Cymru
- 20 – Porthladd Caergybi
- 21 – Cysylltiadau Trafnidiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr
- 22 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni


Rydym wedi nodi Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel y prif ffocws ar gyfer datblygu yng Ngogledd Cymru. Caiff llain las newydd ei chreu er mwyn rheoli'r ffurf ar dwf. Nodir bod gan nifer o drefi arfordirol rolau rhanbarthol allweddol i'w chwarae, tra rydym yn cefnogi twf a gwaith datblygu ym Mhorthladd Caergybi. Byddwn yn helpu i wella seilwaith trafndiaeth yn y rhanbarth, gan gynnwys Metro Gogledd Cymru, ac yn helpu i wella cysylltedd â Lloegr. Cydnabyddir y gallai Gogledd-orllewin Cymru gyflenwi ynni carbon isel ar raddfa strategol.

C9. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r polisiau a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer rhanbarth y Gogledd?

Cwestiwn 9 – Ystadegau – Gogledd Cymru

- 4.7.6 Dengys Siart C9 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tabl sy'n dilyn y siart union nifer a chanrannau'r bobl a fynegodd farn

C9



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	19	53	61	38	28	8	78	285
Canran	7%	19%	21%	13%	10%	3%	27%	100

Cwestiwn 10 – Canolbarth a De-orllewin Cymru

Polisiâu:

- **23 – Bae Abertawe a Llanelli**
- **24 – Canolfannau Rhanbarthol**
- **25 – Dyfrffordd y Ddau Gleddau**
- **26 – Metro Bae Abertawe**


Bae Abertawe a Llanelli yw'r brif ardal drefol yn y rhanbarth a'r lleoliad a ffefrir gennym ar gyfer twf. Rydym hefyd yn nodi bod nifer o drefi gwledig a threfi marchnad, a phedair Tref Hafan yn Sir Benfro, o bwys rhanbarthol. Mae Dyfrffordd y Ddau Gleddau o bwys cenedlaethol ac rydym o blaid ei datblygu. Rydym yn cefnogi cynigion ar gyfer Metro Bae Abertawe.

C10.1 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r polisiâu a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer Rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin?

Cwestiwn 10 – Ystadegau – Canolbarth a De-orllewin Cymru

4.7.7 Dengys Siart C10 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tabl sy'n dilyn y siart union nifer a chanrannau'r bobl a fynegodd farn.

C10



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	17	44	54	58	42	6	64	285
Canran	6	15	19	20	15	2	22	100

Cwestiwn 11 – De-ddwyrain Cymru

Polisiâu:

- 27 – Caerdydd
- 28 – Casnewydd
- 29 – Blaenau'r Cymoedd
- 30 – Lleiniau Glas yn Ne-ddwyrain Cymru
- 31 – Twf mewn Aneddiadau Cynaliadwy sy'n Canolbwyntio ar Dramwy
- 32 – Maes Awyr Caerdydd
- 33 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd


Yn Ne-ddwyrain Cymru rydym yn bwriadu cynyddu rôl Caerdydd fel y brifddinas a sicrhau mwy o dwf cynaliadwy yng Nghasnewydd a'r Cymoedd. Bydd llain las o amgylch Casnewydd a rhannau dwyreiniol y rhanbarth yn cefnogi'r strategaeth ofodol ac yn canolbwyntio gwaith datblygu ar ddinasoedd a threfi sy'n bodoli eisoes. Bydd Datblygu sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth, sy'n defnyddio lleoliadau sydd â gorsafoddd rheilffordd prif linell a gorsafoddd Metro, yn llywio'r ymagwedd tuag at ddatblygu ledled y rhanbarth. Mae cefnogaeth o blaid tyfu a datblygu Maes Awyr Caerdydd.

C11 I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r polisiâu a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer rhanbarth y De-ddwyrain?

Cwestiwn 11 – Ystadgau – De-ddwyrain Cymru

4.7.8 Dengys Siart C11 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tabl sy'n dilyn y siart union nifer a chanrannau'r bobl a fynegodd farn.

C11



	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	Dim barn	Cyfanswm
Nifer	16	54	69	45	48	9	53	294
Canran	5%	18%	23%	15%	16%	3%	18%	100

Cwestiynau 8, 9, 10, 11 – Prif Themâu – Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru

4.7.9 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiynau 8,9,10 ac 11.

Thema	Cod	Cyfanswm
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Rwy'n anghytuno â'r penderfyniad i grwpio Canolbarth Cymru ac Abertawe gyda'i gilydd/dylid ystyried cymunedau gwledig yng Nghanolbarth Cymru fel endid ar wahân/mae'n amrywio gormod	40
Gwrthwynebiad cyffredinol	Rwy'n anghytuno â'r rhaniad rhanbarthol/ni ddylid rhannu Cymru	32
Trafnidiaeth	Cysylltiadau/cysylltedd trafndiaeth gwell yng Nghymru	25
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Rwy'n anghytuno â'r cynlluniau ar gyfer llain las yn y De-ddwyrain/bydd yn rhwystro gwaith datblygu/nid yw'n cael ei hategu gan dystiolaeth	23
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Mae Canolbarth Cymru yn cael ei anwybyddu/dylid rhoi mwy o bwyslais ar fy ardal/nid oes gan y FfDC ddigon o bolisiau sydd wedi'u hanelu at ardaloedd penodol e.e. Y Trallwng, Powys	22
Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ardaloedd penodol	Nid oes sôn am [ardal benodol] / mae fy ardal wedi'i hepgor fel canolfan o bwys / rwy'n anghytuno â chanolfannau twf rhanbarthol / nid oes unrhyw gynllun datblygu ar gyfer ardal benodol	22
Tai	Nid yw'r lefelau a gynigir gan y FfDC yn cyd-fynd â CDSau/CDLlau/anghenion rhagweledig blaenorol/ rwy'n amau'r ffigurau ar gyfer tai	19
Ardaloedd gwledig	Nid oes digon o fanylion ac ni roddir digon o bwyslais ar gymunedau gwledig yn y cynlluniau/y ffordd y caiff cymunedau gwledig eu cefnogi er mwyn sicrhau twf/gormod o bwyslais ar ardaloedd trefol	17
Llain las	Rwy'n anghytuno â lleiniau glas yng Nghymru/ar y cyfan, bydd lleiniau glas yn cyfyngu ar dwristiaeth/yr economi/seilwaith/tai/maent yn gorgyffwrdd ag ardaloedd twf	17
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Rwy'n pryderu ynghylch yr effaith ar seilwaith trafndiaeth/mae'r seilwaith trafndiaeth yn annigonol i ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o ddatblygiadau e.e. Maes Awyr Caerdydd	17
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Gormod o bwyslais ar Gaerdydd/mae Caerdydd yn cael yr holl fuddiannau/arian	16
Maes Awyr Caerdydd	Rwy'n gwrthwynebu Maes Awyr Caerdydd/nid yw'n cyd-fynd â'r cynigion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd	16
Cydweithio	Mae angen dull gweithredu cydgysylltiedig/cenedlaethol	14
Model tri rhanbarth	Awgrymir daearyddiaeth/rhanbarthau amgen	14
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n cytuno ag egwyddorion/nodau/canlyniadau'r FfDC	13

Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Rwy'n gofyn am fwy o ymgysylltu â chyrrff lleol/cynrychioliadol	11
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n cytuno â'r rhanbarthau/yr egwyddor o greu tri rhanbarth	10
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Nid yw'n rhoi digon o bwys ar CDLLau/Byrddau Gwasanaethau Lleol/datganiadau ardal/dylid ystyried CDLLau a CDSau	10
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynni niwclear	10
Cyffredinol	Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl/ceir anghysondebau yn y FfDC	10
Model tri rhanbarth	Awgrymir rhaniad amgen – rhannu Canolbarth a De-orllewin Cymru yn ddau ranbarth	9
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mae'r mapiau yn annigonol ar gyfer gwneud penderfyniadau/mae angen mapiau manylach/mae angen map o'r boblogaeth	9
Llain las	Rwy'n cefnogi ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n llain las	8
Model tri rhanbarth	Rwy'n gwrthwynebu'r model tri rhanbarth, ar y cyfan	8
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	7
Tai	Mae angen mwy o waith datblygu yng nghefn gwlad/ni ddylid cyfyngu cymaint ar adeiladu ar safleoedd tir llwyd	7
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Rwy'n cefnogi cynlluniau/polisiau ar gyfer Casnewydd/yr ardal o amgylch Casnewydd	7
Cydweithio	Mae angen mwy o gydweithredu rhwng siroedd/ardaloedd y gororau a Lloegr	7
Nid oes digon o fanylion	Eglurder ynglŷn â CDSau/CDLLau/awgrymir diwygiadau i CDSau/CDLLau	7
Trafnidiaeth	Rwy'n pryderu ynghylch traffig yn Ne-ddwyrain Cymru/mae angen mynd i'r afael â thagfeydd yn Ne-ddwyrain Cymru e.e. yr M4/nid oes ffordd liniaru	7
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Mae angen adolygu safleoedd tir llwyd o amgylch Casnewydd er mwyn cyflawni cynlluniau tai (cyflenwad cyfyngedig)/ mae angen estyniadau maes glas	7
Datblygiadau gwynt/solar	Rwy'n pryderu ynghylch yr effaith weledol/bydd y tyrbinau yn rhy fawr/dylid cyflwyno clustogfeydd er mwyn lleihau'r effaith weledol/caiff twristiaid eu hatal rhag dod i'r ardal	6
Rhanbarth Gogledd Cymru	Rwy'n cytuno â'r polisiau arfaethedig ar gyfer y rhanbarthau/rwy'n credu ei fod yn ddull gweithredu da	6
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Ar y cyfan, nid yw'r polisiau economaidd yn ddigon manwl/nid ydynt yn ddigon uchelgeisiol	6
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Nid yw'r FfDC yn cynnwys digon o fanylion am dwf newydd arfaethedig ar gyfer Casnewydd/nid oes unrhyw fanylion am adfywio Casnewydd	6
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Cyffredinol (amhenodol)/mae angen iddynt ganolbwyntio'n fwy ar weithredu	6
Trafnidiaeth	Rwy'n cefnogi'r polisiau trafndiaeth a amlinellir yn y FfDC	5

Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Perygl llifogydd	5
Trafnidiaeth	Dylid buddsoddi mwy mewn trafndiaeth carbon isel/nid oes digon o fanylion am drafndiaeth	5
Tai	Gwella seilwaith lleol/cyflogaeth/amwynderau lleol cyn adeiladu tai	4
Dichonoldeb	Dw i ddim yn credu y bydd y cynlluniau yn mynd rhagddynt mewn gwirionedd/nid ydynt yn ymarferol/maent yn rhy ddrud	4
Llain las	Nid yw safle/lleoliad y llain las yn glir	4
Buddsoddi	Mae angen buddsoddi mwy yn gyffredinol mewn ardal benodol e.e. Casnewydd	4
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Nid oes digon o fanylion am reoli gwastraff	4
Tai	Dylai tir llwyd fod yn flaenoriaeth	4
Trafnidiaeth gyhoeddus	Nid oes digon o fanylion am y Metros/ddim yn ddigon eang	4
Datblygiadau gwynt/solar	Ar y cyfan, rwy'n angytuno â'r cynigion ar gyfer datblygiadau gwynt/lleoli ffermydd gwynt yng Nghanolbarth Cymru	3
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Dylid rhoi mwy o bwyslais ar fy ardal/nid oes gan y FfDC ddigon o bolisiau sydd wedi'u hanelu at ardal benodol e.e. Caerdydd, y Barri	3
Cadwraeth	Dylai fod polisiau ar ddiogelu/ cadw asedau hanesyddol/diwylliannol/treftadaeth	3
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Awgrymiadau amgen ar gyfer llain las	3
Adnoddau	Nid oes gan CDLLau/ALLau yr adnoddau i fodloni gofynion polisiau a nodir yn y FfDC e.e. CDSau	3
Rhanbarth Gogledd Cymru	Ni ddylid cyfyngu twf i Ogledd-ddwyrain Cymru	3
Nid yw'r cynlluniau yn cynnwys digon o fanylion	Am fwynau/echdynnu mwynau	3
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Dylai Polisi 30 gael ei aileirio/dylai fod ganddo fwy o dystiolaeth	3
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Am y Gymraeg	3
Cefnogaeth gyffredinol	Rwyf o blaid datblygu CDSau	3
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb	3
Tai	Rwy'n pryderu ynghylch y difrod amgylcheddol a achosir gan weithgarwch adeiladu tai/dylai tai newydd fod yn ecologyfeillgar/yn niwtral o ran carbon/yn effeithlon o ran ynni	2
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Rwy'n cefnogi'r cynlluniau/polisiau ar gyfer Caerdydd/yr ardal o amgylch Caerdydd	2
Y Gymraeg	Rwy'n anghytuno â'r cynigion ar gyfer y Gymraeg/nid yw'r Gymraeg yn flaenoriaeth/mae'r targedau ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yn afrealistig	2
CDSau/CDLLau	Pryderon ynghylch pa mor gyflym y bydd angen paratoi CDSau a pha mor gyflym y bydd angen iddynt gymeradwyo datblygiadau gwynt a solar/amseru â CDLLau	2

Cydweithio	Mwy o gysylltiad rhwng dogfennau cynllunio morol/Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r FfDC	2
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Dylid canolbwyntio gwaith datblygu o amgylch coridor yr M4	2
Cynaliadwyedd	Nid yw datblygu Caergybi fel porthladd i longau mordeithio yn cyd-fynd â'r cynigion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd	2
Tai	Mae angen mwy o dai yn y cymoedd	2
Twf	Mae gan Gaerdydd le o hyd i ddarparu ar gyfer twf cynaliadwy o hyd/rwy'n amau'r dybiaeth na all Caerdydd ddarparu ar gyfer rhagor o dwf	2
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Anghenion sipsiwn a theithwyr	2
Darpariaeth ynni amgen	Troi gwastraff yn ynni	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		31

Cwestiynau 8,9,10,11 – Sylwebaeth – Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru

4.7.10 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italic, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Roedd y FfDC yn cynnig tri rhanbarth y dylid canolbwyntio gwaith cynlluniau a datblygu arnynt yn y dyfodol, sef: Gogledd Cymru; Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Cafodd y model tri rhanbarth hwn gryn dipyn o sylw gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

Er bod rhai pobl o blaid rhannu Cymru yn dri rhanbarth at ddibenion y FfDC, roedd mwy o bobl yn erbyn y syniad. Yn achos rhai, roedd gwrthwynebu'r penderfyniad i rannu Cymru'n rhanbarthau yn egwyddor gyffredinol, gyda rhai pobl yn awgrymu bod angen strategaeth genedlaethol, gydgysylltiedig yn lle hynny.

You should NOT be splitting the country into three parts, as this causes division and strife. One region will think another region is getting better or more, and they may feel like they are being left behind.

I don't agree that your partitions are correct. There should be more regions involved, not just 3.

Dywedodd eraill nad oedd y cynlluniau yn ymarferol; naill ai am nad oeddent yn credu y byddai'r cynlluniau yn mynd rhagddynt neu am eu bod yn anymarferol neu'n rhy ddrud. Roedd eraill yn anghytuno â'r canolfannau twf rhanbarthol a awgrymir yn y FfDC. Roedd llawer o bryderon yn ymwneud â'r ffaith bod ymatebwyr yn anghytuno â'r ardaloedd arfaethedig a gwnaeth rhai awgrymiadau amgen ar gyfer rhaniadau rhanbarthol.

I feel that these matters should be viewed on a county basis as that structure is already in place and the situation in those areas is already defined and understood.

Members wondered why the NDF regions did not match the boundaries of the six land regions selected as Area Statements, as Area Statements were selected to rethink the way our natural resources are managed and used. Area statements were designed to

coordinate work and to build the resilience of ecosystems, so having conflicting boundaries for planning issues, and management of the environment will introduce confusion.

There should be four regions as proposed in the report provided by Cardiff University (Identification of Regional Areas for the National Development Framework) dated June 2017. Powys should be a region in its own right designated as Central East Wales.

Roedd rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn destun llawer o drafod ac roedd llawer o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r penderfyniad i ddynodi Canolbarth a De-orllewin Cymru yn un rhanbarth. Ystyriwyd bod y rhannau o Gymru sydd wedi'u cynnwys yn y dynodiad hwn mor wahanol i'w gilydd fel na ellid eu hystyried yn un ardal gynllunio. Pryder arbennig a godwyd oedd bod y gwahaniaethau rhwng ardal drefol Abertawe a'r rhannau gwledig o'r rhanbarth hwn yn rhy fawr i'r ardal gynllunio fod yn ddefnyddiol. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn y dylai ardaloedd gwledig Cymru a'u hanghenion penodol gael eu hystyried ar wahân i ardaloedd trefol Cymru.

The three-party model is not acceptable. Powys has no commonality with Swansea and Llanelli

To lump mid wales with South-west Wales is preposterous. Swansea, Llanelli should be part of south Wales and Mid Wales should be properly recognised for what it is. A largely rural and agricultural area that needs special consideration for its requirements that are UTTERLY unlike those of densely populated areas in the North and South

The Mid and South West Wales area is too large and diverse with upland rural central Wales included with lowland farming areas, the Pembrokeshire docklands and former industrialised Swansea and Neath Valleys that currently act as affordable commuter belts for the M4 Corridor and Swansea Bay, all amalgamated together. It will be very difficult to create effective policies for such a vast diverse area

There is little commonality of interest between the Mid Wales region and the south west Wales region and Mid Wales should be given separate status as an independent region in order to shape an alternative model of rural sustainability founded on its quality environment, strong potential for technological innovation through collaborations between the public sector and the Universities, strong potential to improve on health and wellbeing and improved understanding of culture and environment through tourism. The growing Mid Wales partnership must not be part of a larger region which has urban development as its core. Of the regional policies for Mid and south west Wales (only 4), only part of one policy applies to Mid Wales...

Regional accountability is great: let's just get the regions right. The urban areas of Swansea and Llanelli obviously belong with Cardiff and the motorway corridor. They have nothing in common with Pembrokeshire, Ceredigion or Mid Wales. Let's recognise the deprivation across rural Wales, vastly underreported, in terms of housing, employment, wages and access to healthcare (i.e. a fifty-mile journey by road to hospital in Telford, Shropshire for difficult obstetric cases in Newtown, Powys.) The problems in these rural areas are quite different to the challenges of urban enclaves.

Roedd rhai o'r farn nad yw'r FfDC yn rhoi digon o sylw i gymunedau gwledig neu ei fod yn rhoi gormod o sylw i ardaloedd a chymunedau trefol yn ei gynlluniau. Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith nad oes digon o fanylion am ardaloedd gwledig a'r ffordd y cânt eu cefnogi er mwyn

sicrhau twf. Oherwydd yr anghydbwysedd canfyddedig hwn, roedd rhai o'r farn y byddai'r FfDC yn arwain at anghydraddoldeb (e.e. economaidd, gwleidyddol) rhwng ardaloedd trefol a gwledig.

Need to differentiate between rural and urban areas as these have very different needs. Disagree strongly with the joining of Powys with the urban areas of Swansea and Llanelli – to combine these areas will inevitably mean that resources are concentrated on the urban area and it will be difficult to fully and properly address rural issues.

A separate policy relating to rural areas would also be appropriate, outlining how these can be supported to meet their needs in terms of housing, access to services, sustainable transport and digital infrastructure.

I agree that development should be centred on Newport and Cardiff and Heads of Valleys area in the South East Wales region to co-locate jobs and homes. However, it would be helpful if the Welsh Government in its policies and grants could support the type of endeavours most suitable to rural economies such as the growth of the tourism industry and better broadband connections in Monmouthshire, so that more people can work at home instead of commuting long distances to work.

Fel rhan o hyn, roedd dau ymatebydd o'r farn bod gan rannau penodol o Ganolbarth Cymru botensial heb ei gydnabod ar gyfer arloesi ym maes technoleg ac, mewn rhai achosion, y byddai hyn yn cael ei ddiystyru pe bai'n rhan o ranbarth mwy o faint.

There is little commonality of interest between the Mid Wales region and the south west Wales region and Mid Wales should be given separate status as an independent region in order to shape an alternative model of rural sustainability founded on its quality environment, strong potential for technological innovation through collaborations between the public sector and the Universities, strong potential to improve on health and wellbeing and improved understanding of culture and environment through tourism. The growing Mid Wales partnership must not be part of a larger region which has urban development as its core. Of the regional policies for Mid and south west Wales (only 4), only part of one policy applies to Mid Wales...

Given that renewable energy technologies are now becoming cheaper than fossil fuels, the Haven Waterway should be designated as a hub for renewable energy research and development, in order to ensure that it has a sustainable post-oil/LPG future.

Canolbwyntiodd ymatebion eraill ar ranbarth De-ddwyrain Cymru lle cafodd amrywiaeth o bryderon eu mynegi. Er bod rhai yn cefnogi'r cynlluniau ar gyfer ardal Caerdydd, roedd eraill yn pryderu bod y FfDC yn rhoi gormod o bwyslais ar Gaerdydd sy'n tueddu i gael yr holl arian. Mae hyn yn atgyfnerthu pryderon ynghylch y rhaniad rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Fodd bynnag, dywedodd eraill bod gan Gaerdydd le o hyd i ddarparu ar gyfer twf cynaliadwy ac roeddent yn amau'r dybiaeth na all Caerdydd ddarparu ar gyfer rhagor o dwf.

I ffwrdd o Gaerdydd, roedd cefnogaeth i bolisïau a chynlluniau o amgylch Casnewydd er i rai awgrymu nad oedd y FfCD yn cynnwys digon o fanylion am y twf newydd arfaethedig/cynllun i adfywio Casnewydd. Dywedodd rhai, yn y polisïau hyn, fod angen adolygu rôl safleoedd tir llwyd o amgylch Casnewydd am nad oeddent yn ddigonol i gyflawni

cynlluniau datblygu tai ac am y gallai fod angen estyniadau maes glas. Roedd rhai o'r farn y dylid canolbwyntio gwaith datblygu yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru o amgylch coridor yr M4.

Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd rhai pobl yn cytuno â'r polisi arfaethedig ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru ac yn ystyried ei fod yn syniad da. Roedd y rhain yn cynnwys sylwadau o blaid datblygu yng Ngogledd Cymru yn gyffredinol, canolbwyntio gwaith datblygu ar hyd y bwa arfordirol, gwneud Gogledd Cymru yn ganolfan ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddi mewn prosiectau ynni, a dau sylw o blaid buddsoddi ym mhorthladd Caergybi.

Furthermore, it states that investment to the port's capacity to accommodate cruise ships is supported. We support this policy as it recognises the importance of Holyhead Port within the region and its potential for future expansion.

Dywedodd eraill, yng Ngogledd Cymru, fod y FfDC yn canolbwyntio twf ar Ogledd-ddwyrain Cymru ac na ddylid cyfyngu twf i'r ardal honno.

Strengthening transport links to North West England is vital for the whole of North Wales and it is important that this policy is not simply about improving links from Wrexham and Deeside with improved service levels on the Wrexham-Bidston line. The North Wales coast line is far more important as it connects most of North Wales, including Holyhead, to Manchester, Manchester Airport, and to Crewe and beyond. There appears to be no mention of connecting North Wales to HS2 or Northern Powerhouse Rail. This is a significant omission. Some of the issues affecting connectivity may be outside of Wales, such as capacity on the rail network at Chester, and even as far as the Castlefield Corridor in Manchester. If needed, it benefits North Wales if Welsh money is spent on infrastructure in England. The document mentions the ongoing pinchpoint schemes on the A55 but doesn't mention the Deeside Corridor/Ewloe Interchange which, from a commuter's perspective, is a far more important scheme.

Codwyd materion yn ymwneud â seilwaith trafndiaeth ar gyfer pob rhanbarth, ond gyda ffocws cryf ar Dde-ddwyrain Cymru. Roedd rhai yn cefnogi'r polisiâu trafndiaeth presennol tra awgrymodd ymatebwyr eraill nad oedd y polisiâu yn ddigon manwl. Yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru mynegwyd pryder ynghylch y seilwaith trafndiaeth presennol, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â phroblemau ar yr M4 (yn enwedig mater ffordd lliniaru). Roedd rhai yn pryderu ynghylch effaith y FfDC ar seilwaith trafndiaeth am eu bod yn credu nad oedd y seilwaith yn ddigonol i ddarparu ar gyfer nifer cynyddol o ddatblygiadau megis Maes Awyr Caerdydd. Awgrymodd eraill fod angen i bolisi ganolbwyntio'n fwy ar drafndiaeth carbon isel a thrafndiaeth gyhoeddus, yn enwedig wrth ystyried datblygiadau newydd. Roedd llawer o'r sylwadau hyn yn gofyn am eglurder ynglŷn ag union natur y cynigion ar gyfer Metro neu roeddent am gael manylion penodol am y cynigion hynny.

There is in-principle support for development and growth focussed around existing and committed railway and Metro stations. However, the policy should additionally recognise that development around other sustainable transport nodes (such as bus stops with sufficient frequency and range of services) can also deliver transit-orientated development. The policy should also clearly recognise that it is not just about providing housing close to railways/Metro links but also encouraging

development around other existing urban areas with opportunities to reduce the need for residents to travel to work and access services. By allowing an appropriate level of growth around existing urban areas (housing and employment), it will help create a 'critical mass' of population to encourage businesses/services/public transport etc to locate in that town – a more sustainable pattern of growth and a public transport network at local and regional/national scales in the longer term.

There is uncertainty over the precise nature of the metro proposals which are likely to evolve over time, and it is not yet known when the scheme will be delivered. In the meantime, there is already growing need for housing development in the region, while there are sites that are suitable for development that are not necessarily in close proximity to the intended Metro routes. As such, development should not be delayed by stringently focusing on alignment with possible future metro routes.

Ym mhob rhanbarth, roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod eu hardal yn cael ei hanwybyddu neu nad oedd ganddi lais. Mynegwyd y teimladau hyn ynghylch Canolbarth Cymru a De-ddwyrain Cymru yn arbennig. Roedd rhai o'r farn bod polisïau'r FfDC yn rhy gyffredinol a bod angen iddo gynnwys mwy o bolisïau sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol (e.e. trefi; awdurdodau lleol) megis y Trallwng, Powys, Caerdydd a'r Barri. Roedd eraill o'r farn nad oedd y FfDC wedi cynnwys eu hardal fel canolfan o bwys. Un ardal yn benodol y cyfeiriwyd ati dro ar ôl tro fel rhywle y dylid ei hystyried yn Ardal Twf Rhanbarthol oedd Caerdybi. Enghraifft arall yw Sir Benfro y cyfeiriwyd ati'n benodol fel ardal nad oedd polisi ynni penodol wedi'i lunio ar ei chyfer.

We are very concerned that Holyhead and surrounding area has not been identified as a Regional Growth Area. Holyhead is ideally placed to exploit the opportunities afforded by the development of offshore wind energy and tidal energy, as well as to build upon the existing port infrastructure. A rejuvenated Holyhead will have knock-on effects across the island.

Its location makes Holyhead an obvious potential Regional Growth Area. It seems perverse that Carmarthen, Llandrindod Wells, Newtown, Aberystwyth and the four Haven Towns are acknowledged as regional centres but Holyhead is not

Why is Holyhead not a 'Regional Growth Centre'? Holyhead's connections by road, train, port and air (within a reasonably close distance) means that there are opportunities for Holyhead to be a 'Regional Growth Centre'. Similar settlements in other parts of Wales, such as Milford Haven and Pembroke are identified as Regional Growth Centres. It is considered that Holyhead merits the same status.

There is no equivalent to policy 22 (NW Wales and Energy) for Pembrokeshire – even though the Haven Waterway is the UK's biggest energy port with a £60m + City Deal renewable energy project and the possibility of a major hydrogen project. The map for NW Wales indicates an 'Anglesey Energy Island' and also shows 'Anglesey Airport'. The Board agree with PCC and would like to see something closer to policy 22 for Pembrokeshire, focusing on the Haven Waterway as an energy port and with the related map showing an 'Energy' icon for the Haven Waterway and also identifying the Airport at Haverfordwest (Withybush), which is situated within the Haven Waterway Enterprise Zone boundary.

Codwyd materion yn ymwneud â lleiniau glas hefyd. Awgrymodd rhai nad yw lleoliad lleiniau glas yn glir yn y FfDC. Dywedodd eraill y dylid ail-eirio'r polisi ar leiniau glas.

Roedd rhai pobl o blaid dynodi ardaloedd yn llain glais.

Green belts are a good idea and could be planted with wild flowers etc to encourage insects, thereby feeding birds etc.

I strongly support policies 30 and 31 in particular and that it is recognised that growth should be focussed around public transport and existing centres, and that our valuable rural landscape should be protected with a long overdue green belt.

Roedd eraill yn erbyn cael lleiniau glas yng Nghymru am y byddent yn cyfyngu ar dwristiaeth; gwaith datblygu; yr economi; seilwaith; neu dai. Awgrymodd rhai nad oedd cynigion ar gyfer lleiniau glas yn cael eu hategu gan dystiolaeth. Dywedodd eraill fod lleiniau glas yn gorgyffwrdd ag ardaloedd twf. Yn Ne-ddwyrain Cymru gwnaed awgrymiadau amgen ar gyfer lleiniau glas.

Wales does not need greenbelts, it needs greater investment opportunities so it does not fall further behind the rest of UK. The WG are focusing too heavily on protecting the environment rather than creating sustainable communities through investment and development.

It is noted that document states that the Strategic Development Plan must identify a green belt that includes the area to the north of the M4 from the Severn Crossings to North Cardiff. We welcome this policy; however, consideration should be given to move the southern boundary north to cover the heart of Monmouthshire area only.

The NDF seems to be focusing on forcing development to all take place in the Valleys but not all people want to live or work in the Valleys. There is no need for a greenbelt north of the M4. Development should be allowed in this area.

The Green Belt as proposed contradicts the growth and spatial options preferred by Monmouthshire and also severely curtails the opportunity for the City Region to capture growth.

Lleisiwyd rhai pryderon ynghylch amcanion y FfDC. Dywedodd rhai fod y cynlluniau yn rhy gyffredinol ac nad oeddent yn ddigon manwl neu fod angen iddynt ganolbwyntio'n fwy ar weithredu. Ymhlith yr enghreifftiau o fanylion y dylid eu cynnwys roedd: perygl llifogydd; manylion am weithgarwch rheoli gwastraff; manylion am fwynau/gweithgarwch echdynnu mwynau; manylion am y Gymraeg; manylion am fynd i'r afael ag anghydraddoldeb; manylion am yr economi; diogelu asedau diwylliannol/hanesyddol/treftadaeth; ac unrhyw ystyriaeth o anghenion sipiwn a theithwyr. Cododd ymatebwyr eraill bryderon ynghylch y mapiau, gan awgrymu eu bod yn annigonol ar gyfer gwneud penderfyniadau a bod angen iddynt gynnwys mwy o fanylion, neu gwnaethant ddweud y gallai darparu mapiau eraill fod wedi bod yn ddefnyddiol (e.e. map o'r boblogaeth).

Information provided on the national map are omitted from the regional maps, most noticeably protected landscape (National Parks and AONBs). The regional maps should include not only the information on the national map but provide additional regional context. Additional detail is necessary to accurately reflect the extent of regional growth centres, which may be best represented by inset maps.

Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch y ffaith bod yn y cynlluniau yn anghyson â'i gilydd; enghraifft gyffredin o hyn oedd Maes Awyr Caerdydd y dywedodd ymatebwyr ei fod yn anghyson â chynigion yn ymwneud â chynaliadwyedd yn y FfDC.

Growth and development of Cardiff airport is in contradiction to the decarbonising and sustainable objectives outlined in this document.

Enghraifft arall oedd bod datblygu Caergybi fel porthladd i longau mordeithio yn mynd yn groes i gynigion ehangach sy'n ymwneud â chynaliadwyedd. Fel gyda pholisïau eraill yn y FfDC, awgrymwyd bod angen cysoni'r FfDC yn gliriach â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Awgrymwyd hefyd fod angen i'r cynlluniau ganolbwyntio fwy ar faterion economaidd.

Thema allweddol derfynol, ond pwysig, yw lle y cododd ymatebwyr bryderon ynghylch y gydberthynas rhwng y FfDC a CDSau a CDLLau, gan nodi bod angen egluro'r gydberthynas. Er enghraifft, gwnaed sylwadau nad yw ffigurau a rhagfynegiadau'r FfDC bob amser yn cyd-fynd â'r rhai mewn CDSau na CDLLau.

The NDF makes it clear that the green belt will be put in place (and boundaries finalised) via the SDP. There is a query therefore as to whether it exists just because it is in the NDF and, if so, what status it can have if it is not fully defined and justified. Why therefore should an SDP inherit the requirement to designate a green belt.

However, given how specific the preceding chapters and policies are about spatial choices, locations for growth and numbers (for housing at least), and given what comes later in the regional sections, this policy could imply more freedom for SDPs than it actually delivers. The SDPs will all be prepared in the context of this version of the NDF, although the prospect of a 5 year review does raise some questions about the NDFs relationship to the SDP process. The SE Wales SDP, for example, is programmed for adoption in 2024/25 (at about the time of the first review of the NDF). These concerns and the role of the NDF (before SDPs are in place) are not tackled in the Development Plans Manual which was recently consulted on.

Yn gysylltiedig â hyn roedd pryderon ehangach, a drafodir ymhellach yn yr adroddiad hwn, ynghylch y ffaith bod y FfDC yn tanseilio democratiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau lleol. Roedd rhai o'r farn nad oedd digon o bwys yn cael ei roi ar CDSau a CDLLau sy'n bodoli eisoes. Mae teimladau cysylltiedig bod cynrychiolwyr lleol, cyrff lleol a gwybodaeth leol yn cael eu hanwybyddu gan Lywodraeth Cymru fwyfwy canoledig a'i system gynllunio. Yn achos llawer o'r ymatebwyr, mae'r ofnau hyn wedi'u hymgorffori yn y FfDC. Mae'r ofnau hyn yn rhedeg ar draws llawer o'r themâu, gan gynnwys dynodiad rhanbarthau ac mewn ofnau sy'n cynyddu ac yn dwysáu bod rhaniad rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol sy'n ffafrio rhanbarth trefol De-ddwyrain Cymru ac, i raddau llai, Abertawe, ond sy'n ffrwyno economi a thwf ardaloedd gwledig Canolbarth a De-orllewin Cymru a Gogledd Cymru.

It sounds a sensible policy however I am concerned that it will impact upon local democracy and that attention will be focused more upon Cardiff and Newport with the needs of other small towns becoming secondary and subservient to the Cardiff and Newport centric thinking.

With Local Development plans originating from Swansea is a further erosion of local democracy.

Codwyd rhai materion eraill nad oedd pob un ohonynt yn canolbwyntio ar y model tri rhanbarth. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol: y dylid ystyried dulliau eraill o gynhyrchu ynni; bod angen mwy o weithredu rhwng siroedd/ardaloedd y gororau; effaith weledol tyrbinau gwynt; a chyflymder gweithgarwch adeiladu tai a'r difrod amgylcheddol a achosir ganddo.

Cwestiynau Hawdd eu Deall 5, 6 a 7

4.7.11 Mae cwestiynau hawdd eu deall 5, 6 a 7 yn ymdrin â Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru yn y drefn honno.


Cwestiwn 5 – Gogledd Cymru

C.5 Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau ar gyfer Gogledd Cymru?

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 5 – Ystadegau

4.7.12 Dengys Siart CH.5 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chwestiwn C.5. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

CH5



	Ydw	Ddim yn siwr	Na	Cyfanswm
Nifer	23	33	27	83
Canran	28%	40%	33%	100

Cwestiwn 5 – Prif Themâu

4.7.13 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn 5.

Thema	Cod	Cyfanswm
Yr economi/twristiaeth	Bydd y cynlluniau yn cael effeithiau negyddol ar yr economi neu'r diwydiant twristiaeth	6
Gwrthwynebiad cyffredinol	Ar y cyfan, anghytuno â'r cynigion ar gyfer Gogledd Cymru	5
Rhanbarth Gogledd Cymru	Pryderu ynghylch yr effaith ar Ynys Môn	5
Rhanbarth Gogledd Cymru	Anghytuno â'r polisiâu arfaethedig ar gyfer y rhanbarthau/nid yw'n ddull gweithredu da, yn fy marn i	3
Awgrymir daearyddiaeth/rhanbarthau amgen	Dylai fod pedwar rhanbarth/mae'n dibynnu ar y ffiniau/mae gwahaniaethau rhwng gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Cymru	3
Datblygiadau gwynt/solar	Pryderu ynghylch yr effaith weledol/bydd y tyrbinau yn rhy fawr/dylid cyflwyno clustogfeydd er mwyn lleihau'r effaith weledol/caiff twristiaid eu hatal rhag dod i'r ardal	3
Rhanbarth Gogledd Cymru	Cytuno â'r polisiâu arfaethedig ar gyfer y rhanbarthau/rwy'n credu ei fod yn ddull gweithredu da	2
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynni niwclear	2
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan, cytuno â'r cynigion ar gyfer Gogledd Cymru	1
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	1
Trafnidiaeth	Mae cysylltiadau trafniadaeth da yn hanfodol i'r economi/twristiaeth/teithio llesol/mae angen gwella trafniadaeth	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		2

Cwestiwn 5 – Sylwebaeth

4.7.14 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Pan gawsant eu holi'n benodol am Ogledd Cymru, ymatebodd 24 o bobl drwy nodi eu bod yn pryderu am yr effaith ar yr economi neu dwristiaeth, yn enwedig ar Ynys Môn.

North Wales needs state-of-the-art hospitals and proper support for its important industries of agriculture and tourism. It doesn't need huge tracts of Denbighshire and the whole interior of Anglesey obliterated by solar and windfarms (visible from Snowden) which can only wipe out tourism and small local businesses and cause people to leave the region in search of work and a decent quality of life.

The building of Wind Turbines on Anglesey is totally at odds with the role of the island as a tourist destination and an area of AONB.

Roedd bron pob un o'r pryderon hyn yn ymwneud â ffermydd gwynt ac roedd bron pob un o'r pryderon ynghylch yr effaith ar Ynys Môn yn ymwneud yn benodol â ffermydd gwynt.

Wrth awgrymu ffiniau neu raniadau daearyddol amgen ar gyfer y rhanbarthau, nododd yr ymatebwyr fod gwahaniaethau rhwng gogledd-ddwyrain a gogledd-orllewin Cymru neu y dylai fod pedwar rhanbarth. Nododd ymatebydd arall nad oedd yn glir ble roedd y ffin ond ei fod yn gwrthwynebu cynnwys unrhyw ran o ogledd Powys yn rhanbarth Gogledd Cymru.


Cwestiwn 6 – Canolbarth a De-orllewin Cymru

C.6 Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru?

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 6 – Ystadegau

4.7.15 Dengys Siart CH.6 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â chwestiwn C.6. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn.

CH6



	Ydw	Ddim yn siwr	Na	Cyfanswm
Nifer	24	22	50	96
Canran	25%	23%	52%	100

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 6 – Prif Themâu – Canolbarth a De-orllewin Cymru

4.7.16 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn hawdd ei ddeall 6.

Thema	Cod	Cyfanswm
Datblygiadau gwynt/solar	Effeithiau ecolegol/difrod amgylcheddol/niwed i gefn gwlad	19
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Bydd y cynlluniau yn cael effaith negyddol ar Ganolbarth Cymru/mae Canolbarth Cymru wedi'i anwybyddu	13
Twristiaeth/yr economi	Bydd y cynlluniau yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth a busnes yn yr ardal	13
Awgrymir daearyddiaeth/rhanbarthau amgen	Rwy'n anghytuno â'r penderfyniad i osod ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ac Abertawe yn yr un grŵp/dylid ystyried cymunedau gwledig Canolbarth Cymru fel endid ar wahân	8
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynni niwclear	6
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Rwy'n anghytuno â'r penderfyniad i osod ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ac Abertawe yn yr un grŵp/dylid ystyried cymunedau gwledig Canolbarth Cymru fel endid ar wahân	4
Cludo ynni	Pryder ynghylch sut i gysylltu ffermydd gwynt/solar gwledig â'r grid cenedlaethol/y seilwaith sydd ei angen i gludo'r ynni	4
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	3
Mae angen rhagor o fanylion	Dylid llunio cynigion mwy penodol/rwyf am wybod sut y bydd y FfDC yn effeithio ar Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSPs)	3
Datblygiadau gwynt/solar	Lleihau maint, nifer neu arwynebedd datblygiadau gwynt/solar	3
Prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	3

Datblygiadau gwynt/solar	Yr effaith ar iechyd/llesiant	2
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Rhy eang/mae angen canolbwyntio'n fwy ar weithredu/mae angen iddynt fod yn fesuradwy/ar y cyfan nid ydynt yn ddigon manwl neu eglur	2
Gwrthwynebiad cyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n anghytuno â'r cynigion	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		2

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 6 – Sylwebaeth

4.7.17 Mae'r adran ganlynol yn rhoi sylwebaeth hawdd ei deall ar bryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Gwnaeth 42 o ymatebwyr sylwadau ar y cynlluniau ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru. Fel arfer, roedd y rhain yn ymwneud ag effeithiau ecolegol tyrbinau gwynt ar Ganolbarth Cymru, ond gwnaethant godi pryderon hefyd ynghylch yr effeithiau ar dwristiaeth mewn cymunedau gwledig, y ffordd y caiff ynni a gynhyrchir yn ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ei gysylltu â'r grid a faint o seilwaith sydd angen ei ddatblygu er mwyn cyflawni hyn. At hynny, cafwyd nifer bach o sylwadau ynghylch effeithiau tyrbinau gwynt ar iechyd a llesiant.

The grid connection in mid wales is poor, to get power from turbines and solar farms there then send to south wales will require an enormous amount of cabling or pylons. These types of green energy are intermittent and can't be stored easily.

I think the benefits don't out way they cost of renewing out beautiful land scape. Great scenery is mid Wales' biggest asset

Roedd sylwadau eraill yn cyfleu'r farn bod Canolbarth Cymru (gan gyfeirio at Bowys yn benodol) wedi'i anwybyddu, wedi'i anghofio neu y byddai'n cael ei ddefnyddio er budd rhanbarthau eraill, e.e. fel ardal a ddefnyddir i gyflenwi ynni i weddill Cymru.

Mid wales should be considered separately, but as always, we are the forgotten area of Wales

This area appears to be the dumping ground for large scale renewable energy projects [...] In Powys, the plan to grow Llandrindod Wells and Newtown appears to be thrown in to appease the residents. For the people of Mid Wales, the NDF paves the way to the destruction of communities in the area.

Fel y mynegwyd mewn manau eraill yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd yr ymatebwyr o'r farn nad oedd digon o bwys wedi'i roi ar dwristiaeth yng Nghanolbarth Cymru a'r effaith y byddai tyrbinau gwynt yn ei chael ar y diwydiannau hyn a'r economi leol.

Amlygodd awgrymiadau ar gyfer trefniadau rhanbarthol amgen, fel roeddent wedi'i wneud ym mhrif holiadur yr ymgynghoriad, fod gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ac Abertawe, gan ddadlau na ddylid grwpio'n rhain yn un rhanbarth.

The area you have marked as Mid Wales is not really Mid Wales. I have never heard of Swansea described as being in Mid Wales. Mid Wales being comprised of Powys and Ceredigion[...]

There is no "Mid and South West Wales". Swansea and Llanelli have needs and aspirations absolutely in conflict with those of the great rural heartlands of Powys. How can the two be bundled together?

There should be a mid Wales area separate from SW Wales

These areas are so vast and completely different in their geography and demographic that it seems nonsensical to group them together

Firstly, this cannot be regarded as a region as the Framework lumps a City Region in with two distinct and predominantly rural regions. In addition, Mid Wales has little connectivity with South West Wales as demonstrated in the document...


Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 7 – De-ddwyrain Cymru

C.7 Ydych chi'n cytuno gyda'r cynlluniau ar gyfer De-ddwyrain Cymru?

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 7 – Ystadegau

4.7.18 Dengys Siart CH.7 nifer yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn ac i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag ef. Dengys y tablau cysylltiedig union nifer a chanran yr ymatebwyr a fynegodd farn. Mae'n ymdrin â chwestiwn hawdd ei ddeall 7.

CH7



	Ydw	Ddim yn siwr	Na	Cyfanswm
Nifer	52	28	20	100
Canran	52%	28%	20%	100

Cwestiwn hawdd ei ddeall 7 – Prif Themâu'r Ymgynghoriad

4.7.19 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn hawdd ei ddeall 7.

Thema	Cod	Cyfanswm
Yn gwrthwynebu'n gyffredinol	Anghytuno â'r rhaniad rhanbarthol/rhoddir gormod o sylw i'r De-ddwyrain	6
Yn gwrthwynebu'n gyffredinol	Ar y cyfan, anghytuno â'r cynigion	5
Pryderon ynghylch tyrbinau gwynt	Effeithiau ecolegol/difrod amgylcheddol/niwed i gefn gwlad	3
Darpariaeth ynni amgen	Dylai'r Llywodraeth ystyried ffermydd gwynt ar y môr neu ynni'r llanw/biomas/ynni niwclear	3
Rhanbarth De-ddwyrain Cymru	Pryderu ynghylch yr effaith ar seilwaith trafndiaeth/mae'r seilwaith trafndiaeth yn annigonol i ddarparu ar gyfer y nifer cynyddol o ddatblygiadau e.e. Maes Awyr Caerdydd	2
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Anghytuno â'r penderfyniad i osod ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru ac Abertawe yn yr un grŵp/dylid ystyried cymunedau gwledig Canolbarth Cymru fel endid ar wahân	1
Mae angen rhagor o fanylion	Hoffwn weld cynigion mwy penodol yn cael eu llunio	1
Datblygiadau gwynt/solar	Lleihau maint, nifer neu arwynebedd datblygiadau gwynt/solar	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		3

Cwestiwn Hawdd ei Ddeall 7 – Sylwebaeth

Cyflwynodd 14 o ymatebwyr sylwadau, er mwyn awgrymu, gan amlaf, fod gormod o sylw yn cael ei roi i ranbarth De-ddwyrain Cymru, a bod y rhanbarth hwn yn cael y rhan fwyaf o'r buddiannau sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau.

Well you are only interested in South Wales aren't you.

There is an undue emphasis on South East Wales at the expense of the rest of the country. More should be spent on developing fast broadband access across the whole nation to strengthen rural entrepreneurship and employment.

This area seems to have got away without providing any renewable energy, but with the growth planned will consume much more energy.

Codwyd pryderon tebyg i'r rhai a welir mewn manau eraill ynghylch y niwed ecolegol ac amgylcheddol a'r niwed i dirweddau y byddai tyrbinau gwynt yn ei achosi, a gwnaed awgrymiadau ar gyfer datblygiadau ynni ar y môr ac ynni'r llanw.

Roedd sylwadau eraill, a oedd yn benodol i ranbarth De-ddwyrain Cymru, yn ymwneud â seilwaith trafndiaeth, gwrthwynebu ehangu meysydd awyr a datblygu er mwyn annog pobl

i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus a dulliau teithiol llesol.

Cyflwyniadau Ysgrifenedig

4.7.20 Darparwyd yr ymatebion canlynol i'r ymgynghoriad fel cyflwyniad ysgrifenedig ac ni wnaethant ddefnyddio holiadur llawn na holiadur hawdd ei ddeall.

Lleiniau glas

Roedd y cynigion ar gyfer dynodi lleiniau glas yn cael eu cefnogi gan rai cyflwyniadau o safbwynt diogelu bywyd gwyllt a thir amaethyddol rhag gwaith datblygu. At hynny, croesawodd Julie Morgan AC y cynlluniau, gan gyfeirio at y gefnogaeth sylweddol o ddeisebau ar gyfer llain las yn Ne-ddwyrain Cymru a chyfeiriodd at y ffaith bod yr ardal i'r gogledd o'r M4, gan gynnwys ar y naill ochr a'r llall i Fynydd Caerffili, wedi'i dynodi'n Lletem Las a fydd yn cael ei diogelu tan 2026 (yn y Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer Caerdydd a Chaerffili).

Galwyd hefyd am ymestyn y llain las arfaethedig yn y Dde-ddwyrain at linell yr esgair o amgylch gogledd Caerdydd ar draws Cwm Taf i ymestyn ar draws ardal Mynydd y Garth a gorllewin Caerdydd am ei fod yn “*extremely distinctive setting to the City*”. Yn y cyfamser, awgrymodd RCPT y dylid ei hymestyn o Fynydd Caerffili yn y gogledd i'r M4 ac y dylai gynnwys Ystad Rhiw'r-perrai a'i pharcdir hanesyddol, yn ogystal â Choed Craig Rhiw'r-perrai, fel y dangosir gan Uwchgynllun Tirwedd Gynaliadwy Caerffili a dosbarthiad tir Amaethyddol a'r “... *fact that it has no significant physical infrastructure*”.

Fodd bynnag, awgrymodd Powells Chartered Surveyors y byddai dynodi lleiniau glas yn gwrthdaro â CDLI Sir Fynwy ac yn gosod cyfyngiadau economaidd niweidiol ar dwf gwledig a gallu busnesau gwledig i arallgyfeirio. Gwnaethant hefyd roi enghreifftiau o achosion lle roedd tir a oedd wedi'i ddynodi'n llain las wedi gorfod cael ei ryddhau wedyn am ei fod yn cyfyngu gormod ar waith datblygu.

We, as a firm, undertake development work and planning consultancy in a number of counties both in England and Wales. We are finding that in our recent experience of dealing with the greenbelts in the Gloucester, Cheltenham and Tewkesbury under the Joint Core Strategy area, there has been a significant release of greenbelt in and around Cheltenham and Gloucester principally because greenbelt has been far too restrictive over the previous 40 years or so. The restriction has only led to a significant undersupply of housing which in turn has led to a much more significant release of greenbelt than later on a disproportionate level. If the greenbelt policy had been absent, there is an argument to say smaller scale development could have taken place on a more organic basis over the period of years rather than it all being clumped together within one plan period to satisfy objectively assessed and identified need.

Powells Chartered Surveyors

Awgrymodd eraill fod gorgyffwrdd rhwng ardaloedd twf a lleiniau glas ar fapiau'r FfDC, yn ôl pob golwg, a ddisgrifiwyd fel anghysondeb.

RCPT strongly supports the proposal for a Green Belt to the north of Cardiff. However, we suggest that it is defined more clearly without overlapping an Area of Growth (which appears contradictory).

RCPT

Canolbarth Cymru

Er i bryderon gael eu lleisio ynghylch datblygiadau gwynt yn gyffredinol, cyfeiriodd sylwadau yn benodol ar yr effaith ar Ganolbarth Cymru o ran yr effaith ar dwristiaeth. Ystyriwyd bod y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn dibynnu ar yr amgylchedd naturiol ac, felly, y byddai effaith weledol tyrbinau a'u seilwaith cysylltiedig yn atal twristiaid rhag dod i'r rhanbarth. Nododd un cyflwyniad nad yw'r cynlluniau yn nodi sut y byddai incwm rhanbarthol a gollid oherwydd yr effaith ar dwristiaeth yn cael ei liniaru.

At hynny, ystyriwyd bod mawnogydd, priddoedd tywyll a choetir Canolbarth Cymru yn agored i'w diraddio gan waith adeiladu tyrbinau gwynt a bod hyn, felly, yn mynd yn groes i egwyddorion amgylcheddol.

The Mid Wales landscapes already have significant windfarm development; yet upland areas where windfarms and their infrastructure are not installed provide significant carbon storage not only in peat but its dark soils and woodlands. Potential for further sequestration is a significant part of the strategic planning of the environmental and agricultural sectors

Cadwraeth Ucheldir Powys

Roedd allfudo yn destun pryder parhaus i'r ardal, gyda rhai yn awgrymu bod angen mwy o ddatblygu i sicrhau twf busnesau er mwyn atal sgiliau a phobl ifanc rhag gadael yr ardal

It is also noted that whilst development is planned for North Wales and South Wales there are no plans to encourage business development in Mid Wales. We need more Business parks to enable local Businesses to grow and so help to retain our young people and associated skills.

Cyngor Cymuned Llandysilio

Roedd sawl cyflwyniad o Ogledd Cymru am gael mwy o eglurder ynglŷn â rôl ynni niwclear ar gyfer cyflenwi ynni i Gymru yn y dyfodol, gyda rhai yn awgrymu bod hwn yn opsiwn carbon isel effeithiol yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd a ddatganwyd. Ar y llaw arall, roedd sawl ymatebydd o'r farn na ddylid ystyried ynni niwclear o gwbl fel ffynhonnell ynni ac roeddent yn gwrthwynebu cyfnewid allyriadau carbon am wastraff niwclear, tra dywedodd eraill nad oedd yn glir i ba raddau roedd y FfDC yn cefnogi datblygiadau niwclear yn y dyfodol neu, yn benodol, a fyddai'r penderfyniad i sefydlu adweithydd modiwl bach yn Nhrawsfynydd yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU ac a fyddai'n cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol y byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu arno neu'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol y byddai Llywodraeth y DU yn penderfynu arno.

Yn ogystal â'r Ardaloedd â Blaenoriaeth, gwrthwynebwyd dynodi Canolbarth a De-orllewin Cymru yn rhanbarth hefyd. Mae hyn yn adlewyrchu ymatebion a nodwyd mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn. Teimlwyd bod y dystiolaeth ar gyfer dynodi'r rhanbarth hwn yn wael a

bod y rhanbarth ei hun yn codi problemau. Roedd rhai o'r farn y byddai Abertawe yn dominyddu o fewn y trefniant hwn, gan ddenu adnoddau i ffwrdd o ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru.

[Respondent states that Swansea is better included with Cardiff region] It is clear that Swansea has been arbitrarily appended to mid Wales in order to create of this enormous rural area an urban loading, with urban priorities sucking the lifeblood out of rural areas, so leaving the latter a Cinderella in a quasi-apartheid system. The purpose of this appalling gerrymandering of mid Wales (whose natural connections are east west into large parts of Gwynedd and in England, Shropshire and Hereford) is glaringly apparent.

The NDF proposal of three planning regions for Wales based on Cardiff, Swansea and Wrexham is unacceptable. A "spatial strategy" for Mid and South West Wales (See map on draft NDF page 25) which lumps Tenby and Welshpool together and suggests that Swansea can be in any sense a "regional centre" or "focal point" for planners in Montgomeryshire is seriously deluded.

Roedd eraill o'r farn y byddai'r "super-region" hwn yn tanseilio lleisiau'r bobl hynny yn ardaloedd gwledig Canolbarth Cymru. Y farn gyffredinol oedd bod y FfDC yn ystyried Canolbarth a De-orllewin Cymru yn ardal homogenaidd, ac nad oedd wedi ystyried canfyddiadau a materion lleol. Dangosodd yr ymatebydd olaf a ddyfynnwyd uchod sut roedd yn credu bod y rhanbarth yn ddiystyr drwy nodi:

Here in Llansantffraid we are closer in distance to Lancaster or Nottingham than to Swansea and much closer to both in travelling time. Nobody with whom we discussed the "three regions" proposal could see any merit in it. Our recommendation is that Mid Wales or Powys should immediately be re-defined as a fourth Welsh planning region as previously.

Dywedodd un ymatebydd fod y FfDC yn rhoi mwy o sylw i Ogledd-ddwyrain Cymru gyda rhannau helaeth o Ogledd-orllewin Cymru yn cael eu hanwybyddu.

At hynny, beirniadwyd y mapiau a ddefnyddir i ddangos Ardaloedd â Blaenoriaeth a rhanbarthau o ran eu cywirdeb, y dystiolaeth sy'n sail iddynt, pa mor fanwl ydynt a pha mor ddefnyddiol ydynt, o ganlyniad, ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Cyflwyniad Safonedig

4.7.21 Cyflwyniadau safonedig yw ble mae nifer o ymatebion (union debyg) wedi'u cyflwyno ar fater penodol.

Cyflwynodd 67 o unigolion, dau gyngor tref ac un cyngor cymuned ar Ynys Môn, ymatebion union debyg neu debyg iawn a oedd yn gwrthwynebu datblygiadau gwynt a solar ar Ynys Môn ar sail y ffaith bod y tyrbinau yn rhy uchel ac yn rhy fawr, y posibilrwydd o ddefnyddio ffynonellau ynni amgen, diffyg eglurder neu sail dystiolaeth ar gyfer yr ardaloedd â blaenoriaeth ac ymgynghoriad annigonol.

Roedd 23 o gyflwyniadau safonedig yn ymwneud â Pholisi Ynni Gogledd-orllewin Cymru (polisi 22), gan wrthwynebu'n benodol y defnydd arfaethedig o ynni niwclear. Yn benodol, roedd y

gwrthwynebiadau hyn yn ymwneud â'r deunydd gwastraff, difrod amgylcheddol, cost trydan, technoleg nas profwyd ac ansicrwydd ynglŷn â nifer y swyddi i bobl leol, problemau cymdeithasol a phrofiadau gwael â safleoedd niwclear eraill, y cysylltiad ag arfau niwclear, rhannu cyllid ar gyfer ynni adnewyddadwy ac anghysondebau â deddfwriaeth bresennol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 16: Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

- 4.7.22 Nifer cymharol fach o sylwadau a wnaed mewn perthynas â Pholisi drafft 16 ynghylch egwyddor y polisi, yr hyn sy'n ofynnol ganddo na'i eiriad. Derbynnir yn gyffredinol ei bod yn rhesymol i'r FfDC roi cyfeiriad i CDSau a bod yr hyn a nodir gan y polisi yn ofynion realistig ar gyfer cynllun rhanbarthol. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, yr ymgynghorwyd yn ei gylich yn 2019, yn nodi cyngor a chanllawiau ar lunio CDSau ac yn cefnogi polisi'r FfDC. Am fod gan bron pob awdurdod yng Nghymru CDLI, mae gan gynllunwyr brofiad o lunio cynlluniau datblygu a gallant gyflawni cynlluniau rhanbarthol.
- 4.7.23 Gofynnodd sylwadau a gafwyd yn uniongyrchol i'r polisi hwn ac i rannau eraill o'r FfDC ble roedd angen CDSau; beth yw'r gydberthynas rhwng parciau cenedlaethol a CDSau; beth fydd yn digwydd os nad oes CDS wedi'i lunio; beth fydd yn digwydd i'r FfDC ar ôl i CDSau gael eu mabwysiadu; rôl CDSau o ran ymdrin â materion trawsffiniol; a'r gydberthynas rhwng CDSau a bargeinion twf.
- 4.7.24 Mae'r testun ategol wedi'i ymestyn er mwyn egluro rôl y FfDC o ran cefnogi CDSau. Mae esboniad o'r ffordd y dylai CDSau ystyried materion trawsffiniol wedi'i gyflwyno ac mae'n nodi pa mor bwysig ydyw bod CDSau yn cydweithio â rhanbarthau yn Lloegr ac Iwerddon. Mae'r rôl sydd i'w chwarae gan CDSau o ran helpu i gyflawni bargeinion dinas-ranbarthau a bargeinion twf yn hanfodol ac mae testun ategol wedi'i ychwanegu er mwyn egluro a chadarnhau'r gydberthynas hon. Mae'r gydberthynas rhwng CDSau a'r FfDC yn y dyfodol yn allweddol i gysoni'r system gynllunio ar bob lefel er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae testun ategol wedi'i ychwanegu er mwyn esbonio sut y caiff FfDCau yn y dyfodol eu llywio gan CDSau.
- 4.7.25 Mae testun wedi'i ychwanegu hefyd er mwyn egluro'r gydberthynas rhwng Canlyniadau'r CDS a'r FfDC er mwyn helpu i ddarparu ffocws ar gyfer llunio CDSau. Yn olaf, mae'r testun ategol wedi'i ymestyn i gynnwys trosolwg llawnach o bolisiâu rhanbarthol y FfDC a'u ffocws ar dwf cenedlaethol a rhanbarthol a rheoli a chefnogi'r twf hwn ym mhob rhanbarth.
- 4.7.26 O ganlyniad i newidiadau eraill, caiff y polisi hwn ei ailrifo'n Bolisi 19.

Rhanbarth Newydd Canolbarth Cymru a Rhanbarth Newydd De-orllewin Cymru

- 4.7.27 Mae Polisi 16 y FfDC drafft a'r testun ategol wedi'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod rhanbarth Canolbarth Cymru wedi'i gyflwyno. Mae rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, a gynigiwyd yn wreiddiol, wedi'i rannu'n ddau ranbarth ar wahân, sef Canolbarth Cymru a De-orllewin Cymru. Mae elfen ranbarthol y FfDC bellach yn seiliedig ar bedwar rhanbarth – sef y Gogledd, y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain.
- 4.7.28 Cafwyd cryn nifer o sylwadau ynghylch rhanbarth arfaethedig Canolbarth a De-orllewin Cymru. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y rhanbarth yn rhy fawr; nad oedd unrhyw gydbertynas sylfaenol rhwng lleoedd megis y Trallwng a Dinbych-y-pysgod sy'n 100 milltir oddi wrth ei gilydd; y byddai'n amhosibl llunio CDS ar gyfer ardal mor fawr; nad oedd y rhanbarth yn adlewyrchu nodau na blaenoriaethau'r bargeinion twf sefydledig na'r bargeinion twf sydd wrthi'n cael eu datblygu yn rhanbarth Abertawe a Chanolbarth Cymru; y byddai'r problemau ar draws y rhanbarth amrywiol hwn yn rhy fawr i'w datrys drwy ddefnyddio un dull gweithredu rhanbarthol, a bod y rhanbarth yn cynnwys yr ardal drefol fwyaf ond un yng Nghymru a'r ardal fwyaf tenau ei phoblogaeth ac y byddai angen mabwysiadu dulliau gweithredu hollol wahanol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau a wynebir yn yr ardaloedd trefol a gwledig.
- 4.7.29 Cydnabu'r FfDC drafft fod yr ardal yn fawr ac amrywiol ac roedd o blaid defnyddio dulliau gwahanol o fynd i'r afael â materion rhanbarthol ledled rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Datblygwyd y dull tri rhanbarth yn unol â dull tri rhanbarth y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac er mwyn cefnogi a chydgysylltu polisiâu economaidd i ddarparu tai, gwasanaethau a seilwaith.
- 4.7.30 Cytunir y bydd newid i ddull pedwar rhanbarth a chyflwyno rhanbarth y Canolbarth wedi'i ddiffinio yn atgyfnerthu'r FfDC. Mae'n golygu y gall pob rhanbarth gael ei lywio ar sail y materion y mae'n rhaid iddo fynd i'r afael â nhw a nodi polisiâu a all ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar y materion allweddol. Bydd hefyd yn sicrhau bod daearyddiaeth ofodol y FfDC yn adlewyrchu barn pobl Cymru ar y rhanbarth ehangach lle maent yn byw yn well. Mae swyddog Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru yn cefnogi'r newid hwn ac, yn yr un modd, mae'n adolygu dull gweithredu Llywodraeth Cymru ledled Canolbarth a De-orllewin Cymru. (gweler Ymateb Llywodraeth Cymru am bolisiâu newydd ar y Canolbarth Cymru ym mharagraff 4.7.51)

Mapiau a Data Ychwanegol ar gyfer Pob Rhanbarth

- 4.7.31 Gwnaed sylwadau mewn nifer o ymatebion ar wahanol rannau o'r FfDC drafft mewn perthynas â'i gynnwys gofodol. Mynegwyd y farn y dylai'r cynllun gofodol cenedlaethol fod yn fwy gofodol o ran y ffordd y mae'n cyflwyno cynnwys ac y gellir cyflwyno llawer o'r materion y mae'r FfDC yn ceisio dylanwadu arynt yn syml iawn ar ffurf mapiau. Daeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'r casgliad y gellid ymchwilio ymhellach i oblygiadau'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd ar gyfer pob ardal yng

Nghymru ac, ar gyfer pob ardal, y dylai'r FfDC fapio dimensiynau demograffig, economaidd ac amgylcheddol a dimensiynau o ran y Gymraeg.

4.7.32 Bwriadwyd i'r ffeithluniau a ddangosir ar ddechrau pob pennod ranbarthol roi trosolwg rhagarweiniol o bob rhanbarth, gan nodi amrywiaeth o faterion gofodol sy'n unigryw i bob rhanbarth. O ailystyried, caiff y trosolwg rhagarweiniol hwn ei atgyfnerthu gan ddull mwy penodol a chyson o nodi'r materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym mhob rhanbarth yn ofodol. Caiff y ffeithlun sy'n cyflwyno pob rhanbarth ar dudalennau 48, 55 a 61 o'r FfDC drafft ei ddisodli gan fapiau a graffeg sy'n nodi'r nodweddion gofodol rhanbarthol allweddol.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 7, 10 ac 13 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Maen nhw hefyd yn ymdrin â materion 5 ac 8 a godwyd gan y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Rhanbarth – y Gogledd

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 17 y FfDC drafft: Wrecsam a Glannau Dyfrdwy

- 4.7.33 Mae Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn dal i fod yn Ardal Twf Cenedlaethol, gyda phrif nodweddion y polisi hwn yn cael eu cadw. Mae geiriad y polisi hwn, a pholisïau cyfatebol mewn rhanbarthau eraill, wedi'i ddiwygio er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng gwahanol rannau o'r FfDC. Gofynnodd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad pam roedd gwahaniaethau yng ngeiriad y polisïau ar gyfer yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol ac rydym yn cytuno y gellir cyflwyno dull gweithredu mwy cyson heb effeithio ar gwmpas y polisi. Fel rhan o'r broses o sicrhau mwy o gysondeb, caiff y polisi ei ailenwi'n "*Ardal Twf Cenedlaethol - Wrecsam a Glannau Dyfrdwy*", ac o ganlyniad i newidiadau eraill caiff ei ailrifo'n Bolisi 20.
- 4.7.34 Prin oedd y pryderon sylweddol a godwyd gan yr ymgynghoriad ynghylch y polisi hwn ac, ar y cyfan, roedd ei nodau yn cael eu derbyn. Nodir y cyfiawnhad dros nodi bod Wrecsam a Glannau Dyfrdwy yn Ardal Twf Cenedlaethol yn [Papur Esboniadol y FfDC ar y Strategaeth Ofodol](#).
- 4.7.35 Rhestrir rhai o'r lleoedd allweddol yn yr Ardal Twf Cenedlaethol yn y testun ategol. Dylai'r rhestr hon a'r map strategol lywio cynigion mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ond nid yw'n rhestr ddiffiniol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol yn y rhanbarth ddatblygu polisïau addas a nodi safleoedd priodol i'w datblygu er mwyn helpu i gyflawni nodau'r polisi hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 18 y FfDC drafft: Aneidiadau Arfordirol yng Ngogledd Cymru

- 4.7.36 Mae'r gyfres o drefi mawr ar hyd arfordir y gogledd yn dal i fod wedi'u nodi fel Ardaloedd Twf Rhanbarthol. Newid sylweddol i'r polisi yw'r penderfyniad i gyflwyno Caergybi, y nododd sawl ymateb i'r ymgynghoriad ei bod yn chwarae rôl bwysig fel canolfan fanwerthu, fasnachol a gwasanaethau. Cydnabu'r FfDC drafft bwysigrwydd Porthladd Caergybi ond ni ddarparodd ddatganiad clir ynghylch pwysigrwydd y dref ei hun. Dylai'r polisi diwygiedig hwn sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gyfer twf a gwaith datblygu yn cael eu nodi mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol.
- 4.7.37 Mae geiriad y polisi hwn, a pholisïau cyfatebol mewn rhanbarthau eraill, wedi'i ddiwygio er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng gwahanol rannau o'r FfDC. Gofynnodd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad pam roedd gwahaniaethau yn y geiriad rhwng y polisïau ar gyfer Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac rydym yn cytuno y gellir cyflwyno dull gweithredu mwy cyson heb effeithio ar gwmpas y polisi. Fel rhan o'r broses o sicrhau mwy o gysondeb, caiff y polisi ei ailenwi'n "*Ardaloedd Twf Rhanbarthol – Aneidiadau Arfordirol y Gogledd*", ac o ganlyniad i newidiadau eraill caiff ei ailrifo'n Bolisi 21.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 19 y FfDC drafft: Lleiniau Glas yng Ngogledd Cymru

- 4.7.38 Cyflwynwyd nifer o sylwadau ynghylch y lleiniau glas arfaethedig ar gyfer Gogledd a De-ddwyrain Cymru. Roedd rhai ymatebwyr wedi cwestiynu'r dystiolaeth ar gyfer nodi'r ardaloedd; y potensial i leiniau glas gyfyngu ar waith datblygu; y potensial i leiniau glas gyfyngu ar waith datblygu y gellid ei gyflawni yn seiliedig ar farchnadoedd trawsffiniol cryf; safbwynt Llywodraeth Cymru wrth benderfynu bod angen llain las a dileu'r penderfyniad o'r haen ranbarthol sy'n fwy addas ar gyfer darparu tystiolaeth ac ymgysylltu a nodi a sefydlu llain las; a oedd Llywodraeth Cymru wedi camddeall diben lleiniau glas. Nododd eraill y byddai lleiniau glas yn cyfyngu ar yr economi wledig; nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod angen lleiniau glas; a bod dull gweithredu anghyson rhwng y polisiau yn y Gogledd a'r De-ddwyrain.
- 4.7.39 Mae'r lleiniau glas yn elfen hanfodol o Strategaeth Ofodol y FfDC. Bwriedir iddynt ganolbwyntio gwaith datblygu yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol, sef y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf cynaliadwy strategol. Mae papur Esboniadol y Strategaeth Ofodol (<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/ffdc-papur-esboniadol-y-strategaeth-ofodol.pdf>) yn esbonio'r rhesymeg dros y lleiniau glas.
- 4.7.40 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer lleiniau glas. Mae'n esbonio, wrth sefydlu'r llain las, y dylid sicrhau bod digon o dir datblygu ar gael, gan ystyried yr angen am dir datblygu yn y tymor hwy, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd y tu hwnt i'r Llais Las a'r angen i leihau'r angen i deithio. Wrth nodi llain las, gellir diogelu tir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac mae'n rhaid i ffiniau lleiniau glas arfaethedig gael eu diffinio'n ofalus i gyflawni hyn. Felly, gall y broses o lunio CDSau a diffinio lleiniau glas ystyried gofynion twf hirdymor rhanbarth, gan gynnwys mewn aneddiadau yn yr ardaloedd llain las dangosol a ddangosir ar fapiau strategaethau gofodol Gogledd a De-ddwyrain Cymru. Ni dderbynnir y bydd lleiniau glas yn cyfyngu ar dwf yn uniongyrchol. Yn hytrach, dylid ystyried lleiniau glas drwy broses statudol ffurfiol a all ystyried twf ledled y rhanbarth er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o waith datblygu ac adfywio cynaliadwy; nodi hierarchaethau aneddiadau a lleoliadau ar gyfer twf rhanbarthol yng nghyd-destun y FfDC; a phenderfynu ar yr ymateb rhanbarthol priodol i bwysau datblygu y tu allan i'r rhanbarth.
- 4.7.41 Er mwyn osgoi ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a ddylai ddigwydd yn yr ardaloedd llain las dangosol a ddangosir ar fapiau strategaethau gofodol Gogledd a De-ddwyrain Cymru, cyn i CDSau gael eu mabwysiadu, gwneir newidiadau i'r polisi hwn er mwyn nodi'n glir na ddylai CDLlau na phenderfyniadau ynghylch rheoli datblygu ganiatáu datblygiadau mawr yn yr ardaloedd hyn nes i'r CDSau perthnasol gael eu cyhoeddi.
- 4.7.42 Derbynnir y sylwadau ar yr anghysondeb rhwng polisiau rhanbarth y Gogledd a rhanbarth y De-ddwyrain a byddwn yn sicrhau bod mwy o gysondeb

rhyngddynt. O ganlyniad i newidiadau eraill, caiff y polisi hwn ei ailrifo'n Bolisi 22.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 20: Porthladd Caergybi

4.7.43 Mae'r FfDC wedi cael ei diweddaru'n sylweddol mewn ymateb i ymatebion ymgynghori yn ymwneud â materion trafndiaeth. Mae Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, wedi'i hehangu gyda thri pholisi ychwanegol ar Gysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol.

4.7.44 Mae Porthladd Caergybi wedi'i nodi fel Porth Strategol o dan y polisi Cysylltedd Rhyngwladol arfaethedig (Polisi arfaethedig 10). Mae hyn er mwyn cydnabod ei gysylltiadau rhyngwladol, ei raddfa a'i rôl yn economi Cymru a'r rhanbarth. Er bod ganddo rôl bwysig o fewn yr economi leol a rhanbarthol, mae hefyd yn ased cenedlaethol o bwys sy'n darparu porth rhyngwladol pwysig i gludo nwyddau a theithwyr. Mae'n brif sianel ar gyfer mewnfurion ac allfurion ac isadeiledd trafndiaeth allweddol rhwng tir a môr gan ddarparu cysylltedd rhyngwladol i Gymru a'r DU.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 21: Cysylltiadau Trafndiaeth â Gogledd-orllewin Lloegr

4.7.45 Mynegodd nifer o ymatebion bryder ynghylch diffyg manylion am y cynigion Metro a fydd yn cael dylanwad sylweddol ar leoliadau datblygu yn y dyfodol. Roedd rhai ymatebion hefyd o'r farn bod angen mwy o ffocws polisi ar drafndiaeth gyhoeddus yn gyffredinol a chyfleoedd nad oeddent yn gysylltiedig â'r cynigion Metro unigol.

4.7.46 Mae'r FfDC wedi cael ei diweddaru'n sylweddol mewn ymateb i ymatebion ymgynghori yn ymwneud â materion trafndiaeth. Mae Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, wedi'i hehangu gyda pholisïau ychwanegol ar Gysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol (Polisïau 10, 11 a 12 arfaethedig). Mae'r polisïau arfaethedig hyn yn rhoi mwy o ffocws ar deithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus a lleihau'r defnydd a pherchnogaeth o gerbydau preifat. Mae'r rhain yn egwyddorion sylfaenol ym Mholisi Cynllunio Cymru ac fe'u hadlewyrchwyd yn yr FfDC wedi'i diweddaru.

4.7.47 Mae'r polisïau Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol bellach yn nodi'r dull strategol o gysylltu a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio egnïol a thrafndiaeth gyhoeddus. Mae'r polisïau trafndiaeth rhanbarthol drafft (Polisïau drafft 21, 26 a 31) wedi'u diwygio i ganolbwyntio ar gynigion Metro penodol gyda phwyslais ar wella cysylltedd yn eu priod ranbarthau a rhanbarthau cyfagos. Mae'r polisïau'n gosod cyfeiriad ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer ystyried cynigion manwl y Metro i sicrhau bod buddion cysylltiedig yn cael eu cynyddu i'r eithaf. Fel rhan o gyflwyno mwy o gysondeb, ailenwir y polisi yn "Metro Gogledd Cymru". O ganlyniad i newidiadau eraill bydd yn cael ei ail-rifo fel Polisi 23.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 22: Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni

- 4.7.48 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y teimladau cryf sydd gan rai tuag at gynhyrchu pŵer niwclear, a'r hyn sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn benodol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod y buddion economaidd y mae'r datblygiadau hyn hefyd yn helpu i'w cynnig i'r ardal a'r cyfleoedd sydd gan safleoedd niwclear presennol i ddod â ffyniant i'r rhanbarth hwn. O ganlyniad i newidiadau eraill bydd y polisi hwn yn dod yn Bolisi 24
- 4.7.49 Cydnabyddir bod angen i'r polisi fod yn fwy penodol ynglŷn â'r prosiectau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi ac felly mae cyfeiriadau at Raglen Ynys Ynni Ynys Môn, Wylfa Newydd a Trawsfynydd wedi'u cynnwys. Mae safle Trawsfynydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Yn ystod y cam cynllunio manwl, bydd angen ystyried y dyluniad a'i effaith ar amgylchedd a thirwedd y Parc Cenedlaethol, a bydd gofyn hefyd ystyried camau posibl i i liniaru'r effeithiau hynny.
- 4.7.50 Yn sgil sylwadau ar y polisiâu ynni adnewyddadwy, mae'n amlwg hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru ddatgan ei genfogaeth ar gyfer elfennau datblygu ynni adnewyddadwy ar y môr sydd angen eu lleoli ar y tir trwy'r FfDC. Mae'r polisi bellach wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa hon.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 31 a 50 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Maen nhw hefyd yn ymdrin â materion 4 a 6 a godwyd gan y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Rhanbarth diwygiedig – y Canolbarth

* Polisi Arfaethedig Newydd 25 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol Canolbarth Cymru

4.7.51 Mae cwmpas y polisi gofodol strategol ar gyfer Canolbarth Cymru wedi'i ddiffinio gan y polisi gofodol strategol cenedlaethol – Polisi arfaethedig 1: 'Ble bydd Cymru yn tyfu'. Mae'r polisi hwn yn nodi bod gan Ganolbarth Cymru Ardaloedd Twf Rhanbarthol. Mae hyn yn adlewyrchu maint y trefi a dosbarthiad y boblogaeth yng Nghanolbarth Cymru. Drwy nodi bod Canolbarth Cymru yn rhanbarth, mae cyfle i lunio strategaeth ofodol ranbarthol sydd wedi'i theilwra at y rhanbarth.

4.7.52 Mae'r dull gofodol arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'n cydnabod bod lleoedd yn y rhanbarth yn gydgysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol. Mae pobl yn y rhanbarth wedi arfer â gorfod defnyddio trefi gwahanol ar gyfer gwasanaethau gwahanol – er enghraifft siopa mewn un lle, defnyddio'r llyfrgell a'r ganolfan hamdden mewn lle arall. Mae'r polisi arfaethedig yn cydnabod y ffordd hon o fyw ac yn hyrwyddo dull 'aml-ganolfan' o ddatblygu yn y rhanbarth. Mae llawer o leoedd yn rhan o glwstwr a mater i'r Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fydd nodi lleoliadau ar gyfer twf a gwaith datblygu yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol a nodwyd.

4.7.53 Mae'r polisi arfaethedig yn nodi pum Ardal Twf Rhanbarthol, sef:

- Aberystwyth
- Aberhonddu a'r Ffiniau
- Bro Hafren, gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd
- Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair ym Muallt
- Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi, Castellnewydd Emlyn*, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan.

4.7.54 Mae'r pum ardal yn lleoedd pwysig yn rhanbarthol. Mae pob un ohonynt yn cynnig gwasanaethau cyhoeddus a masnachol, cyfleusterau cymunedol a chyfleoedd cyflogaeth. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth yn llai datblygedig nag ydyw mewn rhannau mwy trefol o Gymru, ond mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn cysylltu'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac yn galluogi pobl mewn rhannau gwledig o'r rhanbarth i'w cyrraedd.

4.7.55 Nid yw'r FfDC yn gosod targedau twf na gofynion tai ar gyfer y rhanbarth; dylai'r rhain gael eu pennu gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, gan ddefnyddio tystiolaeth leol ac mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid a chymunedau yn y rhanbarth. Dylid ystyried ffactorau megis darparu gwasanaethau a chyfleusterau, hygyrchedd a chapasiti. Mae rhai o'r ardaloedd twf mewn Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd dynodedig eraill neu'n agos iawn atynt, ac mae'n bwysig bod y ffactorau hyn yn cael eu hystyried hefyd. Ni ddylai'r awdurdodau cynllunio lleol

perthnasol ystyried bod y pum ardal a enwyd yn gyfartal na meddwl y dylid eu mynegi mewn unrhyw drefn.

4.7.56 Nid oes unrhyw Ardaloedd Twf Cenedlaethol yn y rhanbarth am nad yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod unrhyw ran o'r rhanbarth yn ddigon hygyrch ac yn cael ei gwasanaethu'n ddigon da er mwyn iddi weithredu fel canolbwynt ar gyfer twf. Aberystwyth yw anheddiad mwyaf y rhanbarth; mae ganddo brifysgol enwog, ysbyty cyffredinol a nifer o wasanaethau a sefydliadau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae ei leoliad yng ngogledd-orllewin y rhanbarth yn golygu nad yw'n gweithredu fel canolbwynt i'r rhanbarth cyfan. I lawer o bobl a chymunedau, mae lleoedd fel Birmingham, Caerdydd, Henffordd, yr Amwythig neu Abertawe yn gyrchfannau mwy naturiol ar gyfer gwasanaethau pwysig.

**Mae Ardal Twf Rhanbarthol Dyffryn Teifi yn cynnwys Castellnewydd Emlyn wedi'i lleoli yn Sir Gaerfyrddin yn rhanbarth y De-orllewin. Mae hyn yn adlewyrchu cydberthynas swyddogaethol agos lleoedd ar hyd Dyffryn Teifi. Bydd yn bwysig bod y cynlluniau datblygu strategol a lleol perthnasol ar draws y ffin ranbarthol yn mabwysiadu dull gweithredu cydgysylltiedig sy'n cydnabod natur drawsffiniol yr Ardal Twf Rhanbarthol hon yn benodol.*

*** Polisi arfaethedig newydd 26 – Tyfu economi y Canolbarth**

4.7.57 Cafwyd nifer uchel o sylwadau mewn perthynas â rhanbarth y Canolbarth a'r De Orllewin. Ymhlith y sylwadau oedd:

- Nid oedd pobl yn cydnabod y rhanbarth fel ardal weithredol;
- roeddent ystyried yr ystod o faterion yn rhy amrywiol i fynd i'r afael â hwy mewn un dull rhanbarthol;
- roeddent yn credu y byddai materion gwledig yn cael eu colli yng nghyd-destun y materion trefol yn rhanbarth Abertawe;
- roeddent yn credu nad oedd y sectorau gwledig traddodiadol wedi cael eu hadnabod na mynd i'r afael â hwy yn ddigonol;
- dywedasant, lle trafodwyd materion gwledig yn yr NDF eu bod yn ystrydebol ac nad oeddent yn cydnabod bod gan ardaloedd gwledig Cymru a Chanolbarth Cymru y potensial i gefnogi mentrau deinamig, modern ac arloesol;
- fe wnaethant awgrymu bod dyfodol Cymru gymaint yn wledig ag yr oedd yn drefol;
- dywedodd pobl fod ardaloedd gwledig a Chanolbarth Cymru eisoes yn gartref i ystod eang o gwmnïau modern, cryf a dylid adeiladu ar hyn a'i gryfhau;
- dywedon nhw nad yr FfDC yw'r haen i fynd i'r afael â materion rhanbarthol; a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud yng Nghanolbarth Cymru ar fargen twf rhanbarthol ac nid yw'r NDF drafft yn cefnogi'r dull hwn.

4.7.58 Aethpwyd i'r afael â rhai o'r materion hyn gan newidiadau i Bolisiâu gwledig 4 a 5 arfaethedig y FfDC. Trafodir y newidiadau hyn mewn man arall yn yr adroddiad hwn (o baragraff 4.2.37 ar gyfer Polisi 4 a 4.2.46 ar gyfer Polisi 5).

4.7.59 Cytunir bod cyflwyno rhanbarth yn y Canolbarth yn cryfhau'r FfDC ac yn caniatáu iddo ganolbwyntio'n gliriach ar faterion allweddol fel cefnogi economi'r rhanbarth. Mae'r polisi newydd yn cydnabod y dylai twf yn y Canolbarth yn y dyfodol fod yn seiliedig ar sectorau traddodiadol a newydd a bod gan CDSau a CDLlau ran allweddol i'w chwarae wrth sefydlu'r fframwaith polisi i gefnogi economi'r rhanbarth. Mae'r testun ategol yn nodi pwysigrwydd y fargen dwf ranbarthol a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a'r rôl y bydd CDSau a CDLlau yn ei chwarae wrth hwyluso eu cyflawni.

*** Polisi arfaethedig newydd 27 – Symudedd yn y Canolbarth**

4.7.60 Mae symudedd yn fater allweddol i bobl yn rhanbarth y Canolbarth a daeth hyn ar draws dro ar ôl tro yn y sylwadau. Mae'r pellter rhwng lleoedd, yr angen i deithio o fewn a thu allan i'r rhanbarth i gyrraedd swyddi, ysgolion, siopau a gwasanaethau a'r diffyg trafndiaeth gyhoeddus aml yn golygu bod yr angen i deithio a sut mae pobl yn teithio yn nodwedd ganolog o fywydau beunyddiol pobl. Roedd y sylwadau'n cydnabod pwysigrwydd y car preifat, ac er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd trafndiaeth gyhoeddus a mathau eraill o deithio, nad oedd llawer neu ddim dewis arall i'r car i lawer

4.7.61 Mae cyflwyno rhanbarth y Canolbarth yn cryfhau'r FfDC ac yn caniatáu iddo ganolbwyntio'n gliriach ar faterion allweddol fel teithio a symud. Mae'r polisi arfaethedig yn cydnabod y gall buddsoddiad yn seilwaith trafndiaeth y rhanbarth wella hygyrchedd, cefnogi twf a helpu i adfywio lleoedd. Mae'n nodi'r rôl bwysig y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ei chael wrth helpu i ddarparu seilwaith trafndiaeth newydd a rheoli defnydd tir i sicrhau bod cyfleoedd sy'n deillio o well hygyrchedd yn cael eu cymryd.

4.7.62 Mae'r testun ategol yn cydnabod cysylltiadau y Canolbarth â ffin Lloegr, y rhanbarth ehangach â phoblogaethau mawr ac ail ddinas Lloegr, Birmingham. Mae cyd-weithio trawsffiniol eisoes ar y gweill a chefnogir hyn yn llawn. Mae hefyd yn cydnabod rôl y car preifat a phwysigrwydd cefnogi mathau eraill o deithio.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 10, 11 ac 31 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Maen nhw hefyd yn ymdrin â materion 6 ac 8 a godwyd gan y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Rhanbarth diwygiedig – y De-orllewin

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 23 y FfDC drafft: Bae Abertawe a Llanelli

4.7.63 Mae Bae Abertawe a Llanelli yn dal i fod yn Ardal Twf Cenedlaethol, gyda phrif nodweddion y polisi hwn yn cael eu cadw. Mae geiriad y polisi hwn, a pholisïau cyfatebol mewn rhanbarthau eraill, wedi'i ddiwygio er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng gwahanol rannau o'r FfDC. Gofynnodd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad pam roedd gwahaniaethau yn y geiriad rhwng y polisïau ar gyfer Ardaloedd Twf Cenedlaethol ac rydym yn cytuno y gellir cyflwyno dull gweithredu mwy cyson heb effeithio ar gwmpas y polisi. Fel rhan o'r broses o sicrhau mwy o gysondeb, caiff y polisi ei ailenwi'n "Ardal Twf Cenedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli", ac o ganlyniad i newidiadau eraill caiff ei ailrifo'n Bolisi 28.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 24 y FfDC drafft – Canolfannau Rhanbarthol

4.7.64 Mae rhannu y Canolbarth a'r De-orllewin yn ddau ranbarth ar wahân yn golygu bod angen diweddarau'r polisi hwn. Cedwir y lleoedd y mae'r FfDC yn nodi eu bod o bwys rhanbarthol yn y De-orllewin fel Ardaloedd Twf Rhanbarthol. Lleisiwyd amheuon ynghylch y penderfyniad i gynnwys Penfro fel Ardal Twf Rhanbarthol oherwydd pryderon y gallai twf a gwaith datblygu effeithio ar gymeriad hanesyddol y dref. Cydnabyddir nodweddion arbennig Penfro, a'r angen i'w cynnal a'u gwella, yn llawn ac ni ddylid ystyried bod y penderfyniad i gynnwys Penfro mewn Ardal Twf Rhanbarthol yn fygythiad i'r nodweddion hynny. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn gallu defnyddio statws Penfro fel rhan o'r Ardal Twf Rhanbarthol i ganolbwyntio ar wella'r treflun sy'n adlewyrchu ei phwysigrwydd fel canolfan gwasanaethau a thwristiaeth.

4.7.65 Mae geiriad y polisi hwn, a pholisïau cyfatebol mewn rhanbarthau eraill, wedi'i ddiwygio er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng gwahanol rannau o'r FfDC. Gofynnodd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad pam roedd gwahaniaethau yn y geiriad rhwng y polisïau ar gyfer Ardaloedd Twf Rhanbarthol ac rydym yn cytuno y gellir cyflwyno dull gweithredu mwy cyson heb effeithio ar gwmpas y polisi. Fel rhan o'r broses o sicrhau mwy o gysondeb, caiff y polisi ei ailenwi'n "Ardal Twf Rhanbarthol - Caerfyrddin a Threfi'r Hafan", ac o ganlyniad i newidiadau eraill caiff ei ailrifo'n Bolisi 29.

*** Polisi Arfaethedig Newydd 30 – Lleiniau Glas yn y De-orllewin**

4.7.66 Gwnaed sylwadau yn ystod yn ymgynghoriad y gallai'r ffaith nad oedd polisi ar leiniau glas yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru beri dryswch ynglŷn â safbwynt Llywodraeth Cymru ar leiniau glas yn y rhanbarth. Gellid dehongli nad oedd y FfDC am weld llain las yn y rhanbarth, nad oedd y FfDC am i CDS yn y rhanbarth ystyried llain las, nad oedd gan Lywodraeth Cymru farn ar y

mater neu fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi llain las. Roedd y dull gweithredu gwahanol hwn rhwng y rhanbarthau yn anghyfartal a chynigiwyd y dylid diwygio'r FfDC er mwyn cynnwys polisi ar leiniau glas yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.

- 4.7.67 Rydym yn cytuno â'r sylwadau hyn. Mae'r lleiniau glas yn elfen hanfodol o Strategaeth Ofodol y FfDC. Bwriedir iddynt ganolbwyntio gwaith datblygu yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol, sef y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf cynaliadwy strategol. Mae papur Esboniadol y Strategaeth Ofodol (<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/ffdc-papur-esboniadol-y-strategaeth-ofodol.pdf>) yn esbonio'r rhesymeg dros y lleiniau glas.
- 4.7.68 Mae'n bwysig, o gofio'r Ardal Twf Cenedlaethol a nodwyd yn rhanbarth y De-orllewin, fod safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir ac na chaiff CDS yn y dyfodol ei rwystro gan ansicrwydd. Felly, caiff y FfDC ei newid er mwyn cynnwys polisi sy'n dwyn y teitl 'Lleiniau Glas yn Ne-orllewin Cymru' a fydd yn helpu CDSau i sefydlu lleiniau glas yn y rhanbarth.
- 4.7.69 Mae pwysau datblygu yn y Gogledd-ddwyrain a'r De-ddwyrain i'w priodoli'n rhannol i'r ffaith bod lleiniau glas sefydledig i'w cael yn Lloegr. Yn y rhanbarthau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ardaloedd llain glas dangosol er mwyn helpu proses y CDS i sefydlu lleiniau glas a sicrhau na fydd CDLlau a phenderfyniadau ynghylch rheoli dablygu yn cyfeirio twf mawr at yr ardaloedd hyn cyn i broses y CDS ystyried twf rhanbarthol cynaliadwy a sut y dylid rheoli pwysau datblygu ehangach. Nid yw'r pwysau datblygu o amgylch Ardal Twf Cenedlaethol y De-orllewin yn cael eu llywio'n rhannol gan bwysau trawsffiniol ehangach ac, felly, nid ystyrir bod angen nodi ardal llain las ddangosol yn y FfDC. Fel y noda'r polisi newydd, mae Llywodraeth Cymru am weld proses y CDS yn nodi ac yn sefydlu lleiniau glas yn y De-orllewin.

Ymateb Llywodraeth Cymru - polisi drafft 25: Dyfrffordd y Ddau Gleddau

- 4.7.70 Caiff Polisi drafft 25 - Dyfrffordd y Ddau Gleddau ei hadolygu i adlewyrchu'r sylwadau a wnaed a'r newidiadau arfaethedig i'r polisiâu trafndiaeth yn yr FfDC - yn benodol Polisi arfaethedig 10: Cysylltedd Rhyngwladol - a chydabod ei bwysigrwydd mewn perthynas ag ynni
- 4.7.71 Mae'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod pwysigrwydd Dyfrffordd y Ddau Gleddau o safbwynt trafndiaeth yn cael sylw ym Mholisi 10 arfaethedig sydd wedi'i leoli yn adran strategaeth ofodol y FfDC, gan adlewyrchu ei bwysigrwydd a'i fuddion cenedlaethol. Ymdrinnir â phwysigrwydd yr ardal ar gyfer anghenion ynni Cymru 'trwy Bolisi 32 arfaethedig.
- 4.7.72 Mae'r newidiadau i Bolisi drafft 25 o'r herwydd yr ymatebion ymgynghori penodol mewn perthynas ag adlewyrchu pwysigrwydd Dyfrffordd y Ddau Gleddau ar gyfer ynni i'r rhanbarth, Cymru a'r DU. Y rhesymeg dros y newidiadau hyn yw cydnabod rôl strategol y Ddyfrffordd a'i photensial ar gyfer profi, datblygu a darparu technolegau ynni adnewyddadwy a'r buddion

ehangach y gallai hyn eu cynnig i'r rhanbarth. Mae'r newidiadau yn cydnabod natur dŵr dwfn y ddyfrffordd gan y cydnabyddir bod hyn yn darparu cyfle unigryw na ddylid ei sterileiddio trwy ddefnydd tir amhriodol.

4.7.73 Bydd y newidiadau hyn yn helpu i gyflawni Canlyniadau rhif 6 (lleoedd lle mae ffyniant, arloesedd a diwylliant yn cael eu hyrwyddo) ac 11 (lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio) yn ogystal â chyfrannu at amcanion datgarboneiddio ehangach Llywodraeth Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru - polisi drafft 26: Metro Bae Abertawe

4.7.74 Mynegodd nifer o ymatebion bryder ynghylch diffyg manylion am y cynigion Metro a fydd yn cael dylanwad sylweddol dros y lleoliadau datblygu yn y dyfodol. Roedd rhai ymatebion hefyd o'r farn bod angen mwy o ffocws polisi ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol a chyfleoedd nad oeddent yn gysylltiedig â'r cynigion Metro unigol.

4.7.75 Diweddarwyd y FfDC yn sylweddol mewn ymateb i ymatebion ymgynghori yn ymwneud â materion trafnidiaeth. Mae Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, wedi'i hehangu gyda pholisïau ychwanegol ar Gysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol (Polisïau arfaethedig 10, 11 a 12). Mae'r polisïau Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol wedi'u llywio gan alwadau am fwy o ffocws ar deithio egniöl, trafnidiaeth gyhoeddus a lleihau'r defnydd a pherchnogaeth ar gerbydau preifat. Mae'r rhain yn egwyddorion sylfaenol ym Mholisi Cynllunio Cymru ac fe'u hadlewyrchwyd yn y FfDC wedi'i diweddarau.

4.7.76 Mae'r polisïau Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol bellach yn nodi'r dull strategol o gysylltu a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r polisïau rhanbarthol wedi'u diwygio i ganolbwyntio ar eu cynnig Metro penodol gyda phwyslais ar wella cysylltedd yn eu priod ranbarthau a rhanbarthau cyfagos. Mae'r polisïau'n gosod cyfeiriad ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer ystyried cynigion manwl y Metro i sicrhau bod buddion cysylltiedig yn cael eu cynyddu i'r eithaf.

4.7.77 Fel rhan o gyflwyno mwy o gysondeb, bydd y polisi'n cael ei ail-enwi'n "Metro y De Orllewin", ac o ganlyniad i newidiadau eraill bydd yn cael ei ail-rifo fel Polisi 31

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 10, 33 a 50 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Maen nhw hefyd yn ymdrin â mater 8 a godwyd gan y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Rhanbarth – y De-ddwyrain

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisiâu drafft 27-29

27 – Caerdydd

28 – Casnewydd

29 – Blaenau'r Cymoedd

- 4.7.78 Ymdriniodd y FfDC drafft â'r Ardal Twf Cenedlaethol yn Ne-ddwyrain Cymru drwy dri pholisi ar wahân. Nododd sawl ymateb i'r ymgynghoriad fod hyn yn anghyson â pholisiâu yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol eraill. O ganlyniad, rydym yn cynnig y dylid uno'r polisiâu hyn, gyda rhai diwygiadau a llai o eiriau. Caiff y polisi newydd ei enwi'n "Ardal Twf Cenedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd", ac o ganlyniad i newidiadau eraill caiff ei rifo'n Bolisi 33.
- 4.7.79 Nid yw'r cynllun diwygiedig yn newid nodau'r polisi yn sylweddol o ddull gweithredu'r FfDC drafft. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn cefnogi rôl a statws Caerdydd fel y brifddinas, tra roedd egwyddor Polisi 28 ar Gasnewydd yn cael ei chroesawu'n eang. Ni wnaeth pryderon ynghylch a ellid cyflawni Polisi 28, mewn perthynas ag argaeledd tir llwyd i'w ddatblygu ar unwaith yng Nghasnewydd, gydnabod yn ddigonol fod y FfDC yn gynllun 20 mlynedd a bod cyfleoedd datblygu ar raddfa fawr yn codi yn aml mewn ardaloedd trefol. At hynny, mae sicrhau bod tir addas ar gael i'w ddatblygu yn un o'r nodau sydd wrth wraidd Polisi 3 y FfDC drafft. Tynnodd yr ymgynghoriad sylw at bryderon dilys ynghylch cyfyngiadau yn ymwneud â pherygl llifogydd yng Nghasnewydd ac ardaloedd twf eraill; bydd polisi arfaethedig newydd ar Llifogydd (gweler Cwestiwn 15, paragraff 4.8.6) yn helpu i sicrhau bod ardaloedd datblygu posibl yn fwy abl i wrthsefyll llifogydd.
- 4.7.80 Roedd Polisi 29 yn y FfDC drafft yn canolbwyntio ar ardal Blaenau'r Cymoedd, tra bod y polisi arfaethedig yn nodi ardal ehangach y Cymoedd fel rhan o'r Ardal Twf Cenedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu'r map strategol ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn y FfDC drafft, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'r rhanbarth yn yr ardal twf. Mae'r polisi diwygiedig yn cyd-fynd yn agosach â'r map strategol ac, felly, dylai leihau'r potensial am unrhyw ddryswch. Mae'r testun ategol yn cadw'r cynnwys ar Flaenau'r Cymoedd a chyfeiriadau at uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleoedd economaidd yn yr ardal.
- 4.7.81 Bydd y polisi diwygiedig a'r diagram strategol wedi'i ddiweddarau ar gyfer y rhanbarth yn sail i bolisiâu a chynigion gofodol mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Rôl y cynlluniau hyn fydd dosbarthu twf yn briodol a nodi canolfannau twf allweddol yn yr Ardal Twf Cenedlaethol.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 30 y FfDC drafft: Lleiniau Glas yn Ne-ddwyrain Cymru

- 4.7.82 Cyflwynwyd nifer o sylwadau ynghylch y lleiniau glas arfaethedig ar gyfer Gogledd a De-ddwyrain Cymru. Holodd rhai ymatebwyr ynghylch y dystiolaeth ar gyfer nodi'r ardaloedd; y potensial i leiniau glas gyfyngu ar waith datblygu; y potensial i leiniau glas gyfyngu ar waith datblygu y gellid ei gyflawni yn seiliedig ar farchnadoedd trawsffiniol cryf; safbwynt Llywodraeth Cymru wrth benderfynu bod angen llain las a dileu'r penderfyniad o'r haen ranbarthol sy'n fwy addas ar gyfer darparu tystiolaeth ac ymgysylltu a nodi a sefydlu llain las; a oedd Llywodraeth Cymru wedi camddeall diben lleiniau glas. Nododd eraill y byddai lleiniau glas yn cyfyngu ar yr economi wledig; nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod angen lleiniau glas; a bod dull gweithredu anghyson rhwng y polisiâu yn y Gogledd a'r De-ddwyrain.
- 4.7.83 Mae'r lleiniau glas yn elfen hanfodol o Strategaeth Ofodol y FfDC. Bwriedir iddynt ganolbwyntio gwaith datblygu yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol, sef y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf cynaliadwy strategol. Mae papur Esboniadol y Strategaeth Ofodol (<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/ffdc-papur-esboniadol-y-strategaeth-ofodol.pdf>) yn esbonio'r rhesymeg dros y lleiniau glas.
- 4.7.84 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer lleiniau glas. Mae'n esbonio, wrth sefydlu'r llain las, y dylid sicrhau bod digon o dir datblygu ar gael, gan ystyried yr angen am dir datblygu yn y tymor hwy, effeithiau pwysau datblygu mewn ardaloedd y tu hwnt i'r Llais Las a'r angen i leihau'r angen i deithio. Wrth nodi llain las, gellir diogelu tir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac mae'n rhaid i ffiniau lleiniau glas arfaethedig gael eu diffinio'n ofalus i gyflawni hyn. Felly, gall y broses o lunio CDSau a diffinio lleiniau glas ystyried gofynion twf hirdymor rhanbarth, gan gynnwys mewn aneddiadau yn yr ardaloedd llain las dangosol a ddangosir ar fapiau strategaethau gofodol Gogledd a De-ddwyrain Cymru. Ni dderbynnir y bydd lleiniau glas yn cyfyngu ar dwf yn uniongyrchol. Yn hytrach, dylid ystyried lleiniau glas drwy broses statudol ffurfiol a all ystyried twf ledled y rhanbarth er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o waith datblygu ac adfywio cynaliadwy; nodi hierarchaethau aneddiadau a lleoliadau ar gyfer twf rhanbarthol yng nghyd-destun y FfDC; a phenderfynu ar yr ymateb rhanbarthol priodol i bwysau datblygu y tu allan i'r rhanbarth.
- 4.7.85 Er mwyn osgoi ansicrwydd ynglŷn â'r hyn a ddylai ddigwydd yn yr ardaloedd llain las dangosol a ddangosir ar fapiau strategaethau gofodol Gogledd a De-ddwyrain Cymru, cyn i CDSau gael eu mabwysiadu, gwneir newidiadau i Bolisi 34 er mwyn nodi'n glir na ddylai CDLlau na phenderfyniadau ynghylch rheoli datblygu ganiatáu datblygiadau mawr yn yr ardaloedd hyn nes i'r CDSau perthnasol gael eu cyhoeddi.
- 4.7.86 Derbynnir y sylwadau ar yr anghysondeb rhwng polisiâu rhanbarth y Gogledd a rhanbarth y De-ddwyrain a byddwn yn sicrhau bod mwy o gysondeb

rhyngddynt. O ganlyniad i newidiadau eraill, caiff y polisi hwn ei ailrifo'n Bolisi 34; ac er cysondeb, bydd yn cael teitl newydd, Lleiniau Glas yn y De-ddwyrain.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 31: Twf mewn aneddiadau sy'n canolbwyntio ar gludiant gynaliadwy

- 4.7.87 Mynegodd nifer o ymatebion bryder ynghylch diffyg manylion am y cynigion Metro a fydd yn cael dylanwad sylweddol dros y lleoliadau datblygu yn y dyfodol. Roedd rhai ymatebion hefyd o'r farn bod angen mwy o ffocws polisi ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol a chyfleoedd eraill nad oeddent yn gysylltiedig â'r cynigion Metro unigol.
- 4.7.88 Diweddarwyd yr FfDC yn sylweddol mewn ymateb i ymatebion ymgynghori yn ymwneud â materion trafnidiaeth. Mae Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, wedi'i hehangu gyda pholisïau ychwanegol ar Gysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol (Polisïau arfaethedig 10, 11 a 12). Mae'r polisïau Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol wedi'u llywio gan alwadau am fwy o ffocws ar deithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a lleihau'r defnydd a pherchnogaeth ar gerbydau preifat. Mae'r rhain yn egwyddorion sylfaenol ym Mholisi Cynllunio Cymru ac fe'u hadlewyrchwyd yn yr FfDC wedi'i diweddarau.
- 4.7.89 Mae'r polisïau Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol bellach yn nodi'r dull strategol o gysylltu a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn buddsoddi mewn gwelliannau i deithio egniol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r polisïau rhanbarthol wedi'u diwygio i ganolbwyntio ar eu cynnig Metro penodol gyda phwyslais ar wella cysylltedd yn eu priod ranbarthau a rhanbarthau cyfagos. Mae'r polisïau'n gosod cyfeiriad ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer ystyried cynigion manwl y Metro i sicrhau bod buddion cysylltiedig yn cael eu cynyddu i'r eithaf.
- 4.7.90 Fel rhan o gyflwyno mwy o gysondeb, bydd y polisi'n cael ei ailrifo'n "Metro y De Ddwyrain", ac o ganlyniad i newidiadau eraill bydd yn cael ei ail-rifo fel Polisi 36

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi drafft 32: Maes Awyr Caerdydd

- 4.7.91 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pryderon a fynegwyd mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad bod Maes Awyr Caerdydd, ac unrhyw ehangu yn y dyfodol, yn anghyson â'r datgarboneiddio a'r amcanion cynaliadwy yn yr FfDC. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru ac yn yrrwr allweddol o fewn economi Cymru. Mae'n borth rhyngwladol sy'n cysylltu Cymru â'r byd ac yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru.
- 4.7.92 Diweddarwyd yr FfDC yn sylweddol mewn ymateb i ymatebion i'r ymgynghoriad yn ymwneud â materion trafnidiaeth. Mae Pennod 4, sy'n

cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, wedi'i hehangu gyda thri pholisi ychwanegol ar Gysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol (Polisiâu arfaethedig 10, 11 a 12). Mae Maes Awyr Caerdydd wedi'i nodi fel Porth Strategol, o dan y polisi Cysylltedd Rhyngwladol. Mae hyn er mwyn cydnabod ei gysylltiadau rhyngwladol, ei raddfa a'i rôl yn economi Cymru a'r rhanbarth.

4.7.93 Mae'r FfDC yn cefnogi datblygu priodol sy'n gallu gwella cysylltedd rhyngwladol ac y gellir ei gyfiawnhau o fewn targedau statudol ar newid y hinsawdd a chyllidebau carbon. Bydd rhaid i benderfynadau ar hedfan rhyngwladol ddangos sut y gellir fynd yn eu blaen o fewn targedau statudol ar newid y hinsawdd a chyllidebau carbon.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Polisi 33 y FfDC drafft: Parc Rhanbarthol y Cymoedd

4.7.94 Nifer cymharol fach o sylwadau a wnaed mewn perthynas â Pholisi drafft 33. Roedd y sylwadau hynny a wnaed yn cefnogi'r dull gweithredu, ar y cyfan. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurhad ynglŷn â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, ei rôl, ei statws a sut y caiff ei sefydlu. Y ffordd orau o gynllunio ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd a'i sefydlu yw drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae'r gwaith o sefydlu'r Parc yn mynd rhagddo ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol. Gall polisiâu a dyraniadau priodol mewn cynlluniau datblygu sicrhau bod cymunedau lleol a'r rhanbarth ehangach yn cael budd o gamau gweithredu a buddsoddiad Llywodraeth Cymru; a bod tai, cyflogaeth, datblygiadau masnachol a datblygiadau cysylltiedig yn cael eu cynllunio a'u cydgysylltu â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae polisi'r FfDC fel y'i drafftiwyd yn ddigon i gefnogi'r gwaith hwn. O ganlyniad i newidiadau eraill, caiff y polisi hwn ei ailrifo'n Bolisi 35.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 50 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

4.8 MATERION ERAILL A PHOLISIÂU ARFAETHEDIG NEWYDD Y FfDC

Cwestiwn 15 y ffurflen ymateb lawn a Chwestiwn Hawdd ei Ddeall 8.

4.8.1 Mae Cwestiwn 15 wedi'i gyflwyno cyn cwestiynau 12, 13 a 14 am ei fod yn ymwneud yn agosach â'r cwestiynau a'r testun blaenorol.

Cwestiwn 15 – Materion Eraill

C.15 A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud ar y FfDC, neu unrhyw gynigion amgen y dylem eu hystyried, yn eich barn chi?

Cwestiwn 15 – Prif Themâu

4.8.2 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw.

Thema	Cod	Cyfanswm
Nid yw'r cynlluniau yn cynnwys digon o fanylion/tystiolaeth/nid ydynt yn ddigon tryloyw/mae angen eu hegluro/maent yn ddiffygiol	Ni ddarperir sail dystiolaeth fanwl/nid ystyrir twristiaeth/yr effaith ar dwristiaeth/cynllunio trafndiaeth genedlaethol/diffiniadau a meini prawf manwl e.e. seilwaith gwyrdd/cyfeiriadau at bolisiau economaidd strategol	98
Datblygiadau gwynt/solar	Rwy'n anghytuno â defnyddio/adeiladu tyrbinau gwynt/mae tyrbinau gwynt yn amharu ar ardaloedd o harddwch naturiol	88
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau yn lleol/dylid ymynggori â'r gymuned leol a dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn lleol/dylai fod yn bosibl gwrthwynebu datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd (gwynt neu solar)/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	75
Pryderon yr effaith ffisegol	Diogelu asedau presennol/mannau agored/cefn gwlad/ardaloedd gwledig/ardaloedd o harddwch naturiol/Coetir Hynafol/ecosystem/bywyd gwylt/y dirwedd/bioamrywiaeth	71
Cysoni	Mae'r FfDC yn gwrthdaro â pholisiau a deddfau allweddol eraill Llywodraeth Cymru/mae angen ei gysoni â nhw/mae angen iddo gyfeirio atynt e.e. Cynllunio, PCC a Nodiadau Cyngor Technegol, prosesau ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, polisiau/mentrau Datblygu Economaidd (gan gynnwys rhai rhanbarthol), Trafnidiaeth, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016/Bargeinion Dinesig a Thwf ac ati, Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni Cymru, Addysg, Iechyd ac ati	60

Ymgynghori	Dylid parchu barn ymatebwyr/etholwyr	46
Dewisiadau amgen	Dylai'r cynigion ystyried dewisiadau amgen i ddatblygiadau ynni gwynt neu ddatblygiadau solar mawr ar y tir e.e. ar y môr, ynni'r llanw, biomas, niwclear, trydan dŵr, hydrogen	46
Cyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n anghytuno â'r cynigion/y FfDC/yn fy marn i, bydd y cynigion yn ddrwg/niweidiol i Gymru	43
Ardaloedd gwledig	Dylid ystyried barn cymunedau	40
Democratiaeth leol	Rwy'n gofyn am fwy o ymgysylltu â chyrrff lleol/cynrychioliadol	39
Trafnidiaeth a theithio	Dim polisi cyffredinol ar drafnidiaeth – mae cysylltiadau trafndiaeth da yn hanfodol i'r economi/twristiaeth/teithio llesol/mae angen gwella trafndiaeth/y rhwydwaith ffyrdd/pryderon ynghylch seilwaith trafndiaeth cenedlaethol (gan gynnwys yr M4)/mae angen iddo gyfeirio at seilwaith newydd	37
Awgrym amgen (ar raddfa lai neu leol)	Buddsoddi mewn cynlluniau hunangynhaliol/grantiau i gynhyrchu eich ynni eich hun/eich ynni eich hun/ailgyflwyno arian grant ar gyfer gosod paneli solar ar dai/amodau cynllunio ar gyfer paneli solar a phaneli gwresogi ar ddatblygiadau masnachol/datblygiadau tai (adeiladau newydd carbon niwtral)/cynhyrchu ynni'n lleol/mawnogydd	34
Ymgynghori	Ni roddwyd digon o gyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad/nid yw'n deg/gellir rhagweld y canlyniad/mae penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud/roedd angen cynnal ymgynghoriad ystyrllon/ni neilltuwyd digon o amser ar gyfer yr ymgynghoriad/nid oedd digon o le i gofnodi atebion i rai o'r cwestiynau/roedd yn anodd deall y dogfennau/doeddwn i ddim yn gallu cael data mapio o Arup – ni ellir craffu ar y data, nid ydynt wedi'u troshaenu fel y gellir craffu arnynt/roedd angen ymgynghori'n ehangach â sectorau a rhanddeiliaid ehangach/nid oedd yr ymgynghoriad yn addas at y diben	34
Pryderon ynghylch effeithiau economaidd negyddol	Bydd y cynigion yn arwain at golli swyddi/buddsoddiad (yn y sector twristiaeth, sectorau cysylltiedig a sectorau eraill); byddant yn newid canfyddiadau o'r hyn a gynigir i dwristiaid	32
Datblygiadau gwynt/solar	Mae'r ardal yn rhy fawr/dylid lleihau graddfa cynlluniau ar gyfer ffermydd gwynt/solar	31
Diwyg y cynlluniau a'r ffordd y'u cyflwynwyd	Pryderon ynghylch y lliwiau ar y mapiau/gwybodaeth sydd wedi'i hepgor o'r mapiau/y ffordd y maent wedi'u cyflwyno/y geiriad/rhifau'r paragraffau a chyfeiriadau/diwyg y ddogfen/y ffiniau a ddangosir ac ati	31
Ardaloedd gwledig	Dim digon o fanylion neu ni roddir digon o bwylais ar dirwedd Cymru/ardaloedd o harddwch naturiol/sy'n werthfawr oherwydd y dirwedd (e.e. hanesyddol/diwylliannol, iechyd, llesiant, hamdden, economaidd)	30
Geiriad a diwygiadau	Newidiadau neu ddiwygiadau penodol i'r geiriad y gofynnir amdanynt neu a awgrymir	29

Cysoni	Pryderon ynghylch gwrthdaro â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol/anghenion cenedlaethau'r dyfodol/nid yw'n cyd-fynd â'r Ddeddf	28
Cysoni	Pryderon, neu mae angen eglurhad, ynghylch y ffordd y caiff y FfDC ei ddefnyddio/pa berthynas fydd rhyngddo â CDSau a CDLLau a PPC/sut y bydd haenau is yn gweithio/ar ba gam y bydd yn ofynnol rhoi sylw iddo	27
Yn aml gwnaed cymariaethau â Lloegr lle roedd pobl o'r farn bod gan bobl leol lais llawer cryfach wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, yn enwedig mewn perthynas â thyrbinau gwynt.

Mae'n werth nodi bod llawer o bobl wedi cyfeirio at achos diweddar Fferm Wynt Hendy yn Llandeglaau, yr ymddengys eu bod yn ei ystyried yn drobwynt o ran tanseilio democratiaeth leol. Adroddodd ymatebwyr sut roedd pryderon lleol wedi peri i Gyngor Sir Powys wrthod rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer Fferm Wynt Hendy, sef penderfyniad a gadarnhawyd ar apêl gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Fodd bynnag, roedd y penderfyniad i beidio â chaniatáu'r datblygiad wedi'i wyrdroi gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Mae'n amlwg bod y digwyddiad hwn yn dal yn fyw yn y cof ac, yn ei sgil, mae llawer o bobl yn ddrwgdybus iawn o Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas â materion cynllunio sy'n ymwneud â seilwaith ynni adnewyddadwy.

...the member of the Welsh Government responsible, having barely had time to read the inspector's report, overrode the whole democratic process and waved the developers in. This was the act of an autocracy, not a democracy. If you want to take the people of Wales with you for your NDF, you must scrupulously observe proper democratic process and not act as you did in Powys, or your proposed National Development Framework will seem to be what might have been expected from a dictatorship rather than from a democracy

Sadly, the way in which works at the Hendy wind farm have been carried out, show that the authorities have no regard for the local populations in Wales

The people of Powys had challenged the erection of a wind farm in the wonderfully beautiful area round Hendy, near Llandrindod Wells and Powys County Council denied the developers planning permission. The developers appealed against this decision on the grounds that the production of renewable energy trumped all other considerations. After a lengthy and costly inspection, Powys County Council's decision was upheld. Whereupon the member of the Welsh Government responsible, having barely had time to read the inspector's report, overrode the whole democratic process and waved the developers in. This was the act of an autocracy, not a democracy. If you want to take the people of Wales with you for your NDF, you must scrupulously observe proper

democratic process and not act as you did in Powys, or your proposed National Development Framework will seem to be what might have been expected from a dictatorship rather than from a democracy.

One can have no confidence in WG making unbiased judgements. Wales has already experienced Ministers overriding Planning Inspectors' well-argued RE decisions.

Lleisiodd llawer o ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch y broses ymgynghori a arweiniodd at deimladau pellach bod y broses ddemocrataidd yn cael ei thanseilio. Tueddai'r pryderon hyn i ymwneud â'r gred bod y broses yn *fait accompli* am nad oedd digon o gyhoeddusrwydd wedi'i roi iddi; bod y rhai a oedd yn bresennol yn teimlo nad oeddent yn cael gwrandawriad neu na fyddai'r ymgynghoriad yn newid y polisi terfynol. Nododd un ymatebydd fod diffyg gwybodaeth am y broses ôl-ymgynghori yn ychwanegu at y teimladau hyn:

I do not think the process that this consultation sits within has been explained sufficiently for the lay person to enable a full response, for example

- *what happens next?*
- *will there be a further consultation, or responses produced to this draft?*
- *when might the framework be implemented?*
- *do Welsh Government have to approve it?*

Nid yw'r FfDC yn cyd-fynd â pholisïau eraill

Roedd llawer o rwystredigaeth lle roedd pobl o'r farn bod y FfDC yn anghyson â pholisïau presennol neu'n tansilio mewn ffyrdd gwahanol.

Lleisiwyd pryderon ynghylch y ffordd y mae'r FfDC yn newid tirwedd polisi cynllunio Cymru, gydag ymatebwyr yn gofyn beth yw'r berthynas rhyngddo â CDSau a CDLLau. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau y byddai statws y FfDC yn golygu ei fod yn disodli CDSau a CDLLau. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr, fel y trafodir mewn manau eraill yn y ddogfen hon, yn uniongyrchol at faterion a oedd yn ymwneud ag amwysedd statws y FfDC mewn perthynas â CDSau a CDLLau. Fodd bynnag, yn y cyflwyniadau a gafwyd o Bowys ynghylch datblygiadau ynni, mynegwyd pryderon ynghylch y berthynas hon yn bennaf yn nhermau'r ffordd y mae'r FfDC yn drech na CDSau a CDLLau mewn perthynas â phenderfyniadau cynllunio, yn enwedig o ystyried y farn bod y FfDC 'yn anghyson ag amcanion y CDLI'.

This framework seems to brush aside Powys County Council's Local Development Plan causing an erosion of local democracy by removing local decision-making.

Policy protections for the natural world within Local Development Plans will be swept away where the consideration of large RE development within Priority Areas is concerned.

Roedd rhai gwrthwynebiadau i'r anghysondebau hyn yn seiliedig ar deimladau eu bod yn tansilio'r amser sydd wedi'i dreulio a'r arian sydd wedi'i wario ar lunio cynlluniau rhanbarthol a lleol. Gwrthwynebiad arall oedd y byddai mabwysiadu'r FfDC yn golygu bod llai o benderfyniadau yn cael eu gwneud yn lleol. Ystyriwyd y byddai hyn yn achosi problemau, yn enwedig o ystyried pryderon a leisiwyd nad yw'r FfDC yn sensitif i nodweddion unigryw ardaloedd lleol yng Nghymru. Ymddangosai fod hyn yn gwaethygu teimladau bod galluedd

a dealltwriaeth leol yn cael eu dileu o'r system gynllunio yng Nghymru a'i fod yn agwedd arall ar thema eang lle roedd ymatebwyr o'r farn bod democratiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau lleol yn cael eu tanseilio gan y FfDC.

The RE section of Powys County Council's Local Development Plan has been tossed aside. The cost of producing the LDP must have been very considerable, and we now see that our money is to be wasted by the WG. So much for local democracy; the WG is behaving like a dictatorship. For many of us the LDP battle was massively stressful over a long period of time. It is beyond belief that we now have to go through it all again thanks to the WG.

There is nothing in the NDF to give anyone any confidence that local people will be anything other than ignored.

Codwyd pryderon eraill, sef bod y FfDC yn mynd yn groes i amcanion polisiau Cymreig eraill, gan gynnwys: *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru; Cynlluniau Rheoli Rhostiroedd; Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Ymgynghori; a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*. Roedd llawer o'r farn bod y posibilrwydd y câi ecosystemau eu dinistrio er mwyn adeiladu seilwaith ynni adnewyddadwy, yn groes i egwyddorion cyffredinol cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd yn y polisiau eraill hyn. Gwaethydwyd hyn gan y teimladau o ddifreinio gwledig a drafodwyd eisoes.

This does not seem compatible with the objectives of the Environment (Wales) Act or the Well-being of Future Generations (Wales) Act, or the Nature Recovery Action Plan which has committed Welsh public bodies to the 'sustainable management of natural resources', 'sustainable development' and the "enhancement of resilient ecosystems", and also to work towards the 7 Wellbeing of Future Generations Goals. Rural areas are being regarded as provisioning areas for urban Wales without regard to their intrinsic benefits and needs.

Canolbwyntiodd beirniadaethau eraill ar y ffaith na roddwyd ystyriaeth i'r ffordd y mae polisiau gwahanol yn cysylltu â'i gilydd, tra cyfeiriodd rhai at yr hyn yr oeddent yn ystyried eu bod yn anghysondebau yn y manylion.

There is no consideration of how the marine plan can cross cut to deliver targets despite the now adopted plan stating at 338: Coherence across land-sea planning and consenting and with wider electricity cable considerations are important to ensure sufficient capacity to enable grid connection of new technologies.

The NDF documents "Assessment of onshore wind and solar energy potential in Wales", the Marine Plan and PPW 10, (5.7.16), use the original statement made in 2017: "one gigawatt of renewable electricity capacity in Wales to be locally owned by 2030;" whereas the NDF (page 36) reads, "one gigawatt of renewable energy capacity to be locally owned by 2030." I am sure the Welsh public would like Welsh Government to get a grip and provide clarity on what the locally owned target is, electricity or energy capacity.

Awgrymodd rhai fod y FfDC yn tanseilio polisiau hanesyddol sydd wedi annog neu orfodi ffermydd yng Nghymru i arallgyfeirio drwy geisio ffrydiau refeniw i ffwrdd o fusnesau anamaethyddol. Dywedodd un ymatebydd fod *"upland farms have been encouraged to invest millions in tourism based diversification"* ac roedd o'r farn y bydd rhai o'r busnesau

sydd wedi cael eu tyfu o ganlyniad, ac sy'n seiliedig ar dwristiaeth seiliedig ar y dirwedd, yn wynebu colledion lle y bydd seilwaith ynni gwynt a solar yn effeithio ar y dirwedd hon.

Roedd grŵp o bobl hefyd a ddywedodd fod angen cysoni cynlluniau Cymreig i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd (e.e. datgarboneiddio) â pholisïau a strategaethau'r DU a pholisïau a strategaethau byd-eang. Nid oedd digon o fanylion am ba bolisïau roedd pobl yn credu ei bod yn bwysig cysoni polisïau Cymru â nhw ac roedd mwy o deimlad, er mwyn bod llwyddiannus, fod angen i strategaethau ar gyfer yr hinsawdd gael eu cydgysylltu'n fyd-eang. Felly, mae angen i Gymru sicrhau bod ei pholisïau yn cyd-fynd â'r cyd-destun ehangach hwn.

Amau'r dystiolaeth sy'n sail i'r FfDC

Roedd cryn nifer o bobl yn amau'r sail dystiolaeth sydd wrth wraidd y FfDC. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o'r beirniadaethau hyn at ddull y FfDC o ymdrin â seilwaith ynni gwynt a solar. Dywedodd rhai o'r rhain na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau dull gweithredu'r FfDC tra awgrymodd eraill fod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn wan. Awgrymodd trydydd grŵp fod tystiolaeth groes wedi'i hanwybyddu (e.e. tystiolaeth a oedd yn awgrymu bod ynni adnewyddadwy yn amhriodol). O ganlyniad, codwyd cwestiynau am addasrwydd canlyniadau, Ardaloedd â Blaenoriaeth a pholisïau'r FfDC.

how can anyone have any confidence in the [Welsh Government's] decision making, when it has shown itself to ignore any conflicting evidence [gives examples of other Acts/Policy that they feel contain evidence which has been ignored]

The spurious claim that wind farms contribute to the local economy is another of those oft repeated myths that seem to become accepted as fact by distant Governments with no supporting evidence

Awgrymodd rhai pobl nad oedd unrhyw arbenigwyr wedi'u defnyddio i lywio'r FfDC neu fod yr arbenigwyr anghywir wedi'u defnyddio i wneud hynny. Awgrymodd rhai fod gan randdeiliaid a ddewiswyd er mwyn ymgynghori â nhw ar y FfDC agendâu a oedd yn cyd-fynd â rhai Llywodraeth Cymru, tra roedd eraill o'r farn bod yr adran o'r FfDC sy'n ymdrin ag ynni adnewyddadwy yn ffafrio datblygwyr a Llywodraeth Cymru yn hytrach na phobl Cymru.

It appears evident that stakeholders who have been [consulted] are set to profit massively from the industrialisation of the hills of Wales.

Roedd un unigolyn o'r farn bod yr argyfwng hinsawdd yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau'r cynllun, yn enwedig am na ddatganodd Llywodraeth Cymru fod argyfwng hinsawdd tan ar ôl i'r gwaith o lunio'r FfDC ddechrau. Awgrymodd rhai pobl fod y diffiniad o gynaliadwyedd a ddefnyddir yn y FfDC yn rhy gul ac y dylid ei ehangu.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Cwestiwn 15

Polisiau newydd arfaethedig

4.8.5 O dan gwestiwn 15 rydym wedi cynnwys polisiau newydd arfaethedig i'r FfDC yn ogystal â materion eraill. Mae'r polisiau hyn yn ychwanegol at rai polisiau newydd sydd wedi'u grwpio ynghyd o dan y meysydd pwnc perthnasol yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Y polisiau newydd arfaethedig a nodir yn yr adran hon yw:

- 8 - Llifogydd
- 10 - Cysylltedd Rhyngwladol
- 11 - Cysylltedd Cenedlaethol
- 12 - Cysylltedd Rhanbarthol

Y polisiau newydd arfaethedig a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad yw:

- 6 - Canol Trefi yn Gyntaf
- 5 - Cefnogi'r Economi Wledig
- 13 - Cefnogi Cyfathrebu Digidol
- 25 – Ardaloedd twf rhanbarthol – y Canolbarth
- 26 – Tyfu economi y Canolbarth
- 27 - Symudaeth yn y Canolbarth

✳️ Polisi Arfaethedig Newydd 8 – Llifogydd

4.8.6 Gofynnodd nifer o ymatebion pam nad oedd drafft y FfDC yn cynnwys polisi ar lifogydd, a pham nad oedd fawr ddim cyfeiriad at berygl llifogydd yn y ddogfen. Y rheswm pam nad oedd polisi yn y FfDC yw am ein bod o'r farn bod Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15 yn darparu'r polisi a'r canllawiau sydd eu hangen er mwyn i faterion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd gael eu hystyried yn llawn yn y system gynllunio.

4.8.7 Nododd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad sut y gallai fod gan y FfDC rôl i'w chwarae hefyd o ran hyrwyddo rheoli perygl llifogydd yn effeithiol, yn enwedig mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol, lle mae lleoedd sy'n wynebu perygl llifogydd. O ailystyried, rydym yn cytuno y dylid cynnwys polisi ar reoli perygl llifogydd yn y FfDC.

4.8.8 Mae'r polisi arfaethedig yn cydnabod pwysigrwydd perygl llifogydd yng Nghymru a dylai helpu i roi sicrwydd y gellir cyflawni'r strategaeth ofodol a'r dyheadau ar gyfer gwaith datblygu cynaliadwy mewn lleoliadau priodol yn yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Mae'r polisi arfaethedig yn

atogu'r polisi cynllunio cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru yn ogystal â'r Strategaeth Genedlaethol sy'n cael ei datblygu ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Dylai haenau Strategol a Lleol y cynllun datblygu nodi sut mae llifogydd yn cael eu hystyried yn eu hardaloedd twf diffiniedig a'u hardaloedd gwledig

- 4.8.9 Yn ogystal â pholisi newydd, rydym yn cynnig y dylid cynnwys cyfeiriadau ychwanegol at berygl llifogydd a seilwaith rheoli perygl llifogydd drwy'r FfDC. Bydd Pennod 2 o'r FfDC sy'n rhoi'r cyd-destun ac yn nodi heriau allweddol yn cynnwys mwy o fanylion am oblygiadau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys sut mae perygl llifogydd o afonydd a'r môr yn cynyddu. Bydd yr adrannau rhanbarthol ym Mhennod 5 hefyd yn cynnwys cyfeiriadau cryfach a manylach at berygl llifogydd yn y rhanbarthau.

Mae'r polisi arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 1 ac 19 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Polisiau Arfaethedig Newydd - Cysylltedd

- 4.8.10 Mae'r FfDC wedi'i ddiweddarau'n sylweddol yng ngoleuni ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn ymwneud â materion trafndiaeth. Mae Pennod 4, sy'n ymdrin â'r materion strategol cenedlaethol, wedi'i hehangu drwy ychwanegu tri pholisi ar Gysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol. Roedd gan y FfDC drafft un polisi trafndiaeth cenedlaethol, a oedd yn canolbwyntio ar gerbydau allyriadau isel iawn (gweler adran 4.5), ac yn ymdrin â materion trafndiaeth eraill yn y naratif a'r polisiau rhanbarthol. Y rheswm pennaf dros hyn yw bod Strategaeth Trafndiaeth newydd i Gymru yn cael ei datblygu ac na chaiff ei chyhoeddi tan ar ôl y FfDC. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad bwysigrwydd rhoi mwy o sylw i gysylltedd trafndiaeth, sydd wedi llywio'r broses o ddatblygu triawd o bolisiau newydd, fel y gwelir isod

- 4.8.11 Mae cysylltedd a symud yn faterion allweddol i bobl yng Nghymru ac mae'r angen i deithio yn nodwedd ganolog o'u bywydau bob dydd. O safbwynt rhyngwladol mae'n hanfodol bod gan Gymru gysylltiad da â gweddill y Byd ar gyfer symud pobl a chargo yn effeithiol fel rhan o rwydweithiau economaidd a chadwyni cyflenwi. Ar lefel genedlaethol a rhanbarthol dylai'r FfDC alluogi pobl i gael gafael ar swyddi, gwasanaethau, addysg a siopau trwy deithiau byrrach, mwy effeithlon a chynaliadwy gyda ffocws ar gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- 4.8.12 Derbynnir y dylai'r FfDC ganolbwyntio'n glir ar drafndiaeth a chysylltedd. Mae'r polisiau newydd yn cydnabod y gall buddsoddi yn y seilwaith trafndiaeth rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol wella cysylltedd, cefnogi twf a helpu i adfywio lleoedd. Derbynnir hefyd bod angen i'r polisiau nodi'n glir

y rôl bwysig fydd gan Gynlluniau Datblygu Sstrategol a Lleol wrth helpu i wella cysylltedd a darparu seilwaith trafndiaeth newydd.

4.8.13 Mae'r polisiâu'n adlewyrchu fod gan Llywodraeth Cymru nôd o leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r rhain yn egwyddorion sylfaenol ym Mholisi Cynllunio Cymru ac maent wedi'u hadlewyrchu yn y FfDC wedi'i ddiweddarau.

4.8.14 Cododd rhai o'r ymatebion bryderon nad yw'r FfDC yn ceisio datrys y problemau sy'n gysylltiedig â thagfeydd ar hyd yr M4. Sefydlwyd Comisiwn Trafnidiaeth De Cymru i ystyried ffyrdd o ddatrys y problemau sy'n gysylltiedig â thagfeydd yn yr ardal ac, er ei bod yn rhy gynnar i ganlyniadau'r gwaith hwn gael eu datblygu yn y fersiwn hon o'r FfDC, dylai ei argymhellion lywio'r Cynllun Datblygu Strategol newydd ar gyfer y rhanbarth.

***Polisi Arfaethedig Newydd 10 – Cysylltedd Rhyngwladol**

4.8.15 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltedd rhyngwladol rhwng Cymru a'r byd ehangach, gan nodi fod Maes Awyr Caerdydd, Porthladd Caergybi, Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnwys Porthladdoedd Aberdaugleddau a Doc Penfro, a Phorthladd Abergwaun yn byrth strategol. Mae'r polisi Cysylltedd Rhyngwladol yn integreiddio tri pholisi rhanbarthol o'r FfDC drafft – sef Polisiâu drafft 20, 25 a 32. I gael rhagor o fanylion am y ffordd y mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi llywio'r polisi Cysylltedd Rhyngwladol, gweler paragraffau 4.7.43, 4.7.70 a 4.7.91.

4.8.16 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad priodol y Pyrth Strategol i gynnal eu rôl mewn cysylltedd rhyngwladol. Cydnabyddir bod rhaid i benderfynadau yn ymwneud â hedfan rhyngwladol ddangos eu bod yn dderbyniol o ran targedau statudol ar newid yr hinsawdd a chyllidebau carbon.

4.8.17 Mae'r Pyrth Strategol yn hanfodol i symud pobl a chargo yn effeithiol yn eu priod ranbarthau, Cymru a'r DU. Fe'u nodwyd oherwydd eu cysylltedd rhyngwladol, eu graddfa a'u rolau yn economi Cymru. Mae'n bwysig bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn cefnogi'r Pyrth Strategol ac yn cynyddu'r cyfleoedd y maent yn eu darparu i gefnogi twf ar draws y gwahanol ranbarthau a Chymru.

***Polisi Arfaethedig Newydd 11 – Cysylltedd Cenedlaethol**

4.8.18 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltedd yn genedlaethol a'r cysylltiadau rhwng rhanbarthau ac yn buddsoddi yn y gwaith o'u gwella. Mae'n nodi mai ein blaenoriaethau yw annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau hwy, wrth sicrhau bod mwy o deithiau yn gallu cael eu gwneud mewn cerbydau trydan. Mae hefyd o blaid ehangu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

***Polisi Arfaethedig Newydd 12 – Cysylltedd Rhanbarthol**

4.8.19 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltedd o fewn rhanbarthau ac ar raddfeydd lleol ac yn buddsoddi yn y gwaith o'u gwella. Mae'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig.

4.8.20 Nod y polisiâu Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol newydd arfaethedig yw gwella cysylltedd o fewn a rhwng rhanbarthau, a ledled Cymru. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ymatebion yr ymgynghoriad, a amlygodd fod drafft y FfDC wedi nodi materion trafndiaeth, ond nad oedd yn cynnig ffyrdd y byddant yn cael eu gwella. Mae'r polisiâu newydd hefyd wedi'u llywio gan alwadau am fwy o ffocws ar deithio egnïol, trafndiaeth gyhoeddus a lleihau'r defnydd a pherchnogaeth o gerbydau preifat. Mae'r rhain yn egwyddorion sylfaenol ym Mholisi Cynllunio Cymru ac fe'u hadlewyrchwyd yn yr FfDC wedi'i diweddarau.

Mae'r polisiâu newydd arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 1, 12, 21, 22 a 31-33 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Mae hefyd yn ymdrin â materion 6 a 7 a godwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru i Faterion Eraill a Godwyd

- Monitro
- Ymgynghori ac Ymgysylltu
- Cysoni Cynlluniau
- Defnyddio tystiolaeth i lywio'r FfDC drafft
- Craffu ar y FfDC
- Y Ffordd y Cyflwynwyd y FfDC a'i Strwythur

Ymateb Llywodraeth Cymru – Monitro

4.8.21 Mae ymatebion wedi nodi pwysigrwydd monitro'r FfDC a'r ffaith nad oes unrhyw gyfeiriadau at hyn yn y FfDC drafft. O gofio pwysigrwydd y FfDC, rydym yn cytuno'n llwyr fod angen inni ddeall sut y mae wedi cael ei roi ar waith ac, yn benodol, y cynnydd y mae wedi'i wneud tuag at gyflawni Canlyniadau'r FfDC. Byddwn yn adolygu'r FfDC yn unol â'r broses statudol ac mae'n debygol y caiff yr adolygiad cyntaf o'r FfDC ei gynnal a'i gyhoeddi 5 mlynedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Bydd yr adolygiad yn nodi a oes cynnydd yn cael ei wneud a pha gamau y dylid eu cymryd i newid y FfDC os bydd angen. Mae Pennod 3 o'r FfDC wedi'i diwygio i gynnwys amlinelliad o'n dull o fonitro'r FfDC a'r cwestiynau allweddol y byddwn yn eu defnyddio er mwyn helpu i nodi a yw'r FfDC wedi bod yn llwyddiannus. Caiff papur ar Fonitro ac Adolygu'r FfDC ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r FfDC a bydd yn nodi'n fanwl y fframwaith ar gyfer monitro'r FfDC.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliadau 1 a 9 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Ymgynghori ac Ymgysylltu

- 4.8.22 Roedd rhai ymatebwyr yn feirniadol o broses ymgynghori ac ymgysylltu'r FfDC drafft. Roedd sylwadau yn cynnwys y ffaith nad oedd digon o gyhoedduswydd wedi'i roi i'r ymgynghoriad, diffyg ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus a lleol neu gynrychioliadol, proses anonest a'r ffaith bod y cynllun yn *fait accompli*. Derbyniwyd hefyd adborth gadarnhaol, trwy'r ymgynghoriad a chan bobl fu yn y digwyddiadau ymgysylltu.
- 4.8.23 Lluniwyd Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd³ sy'n nodi ein hymrwymiad ffurfiol i gynnwys y cyhoedd yn 2016; mae'n nodi amserlen y FfDC a'r dulliau ymgysylltu a ddefnyddir drwy gydol proses y FfDC. At hynny, mae Cynllun Ymgysylltu wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan a chaiff ei ddiweddarau dros amser ac mae'n dangos calendr o gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau sydd wedi'u cynnal hyd yma. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-cynllun-ymgysylltu_0.pdf
- 4.8.24 Roedd proses ymgynghori'r FfDC drafft yn eang ei chwmpas a dilynodd ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus. Yn ogystal â'r ffurflen ymgynghori ar-lein roedd ffurf y gellid ei lawrlwytho i'w dychwelyd â llaw neu drwy e-bost ar gael. Cysylltwyd yn uniongyrchol â thua 1550 o grwpiau ac unigolion (gan gynnwys 83 o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig) drwy ein Cronfa Ddata Ymgynghori sy'n agored i bawb ac sy'n cynnwys partïon statudol ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb. Cyhoeddwyd fersiynau hawdd eu deall o gwestiynau'r ymgynghoriad hefyd.
- 4.8.25 Roedd cyfathrebu uniongyrchol ar ffurf cyfarfodydd, sesiynau galw heibio i'r cyhoedd a digwyddiadau eraill i randdeiliaid, sydd i gyd wedi'u nodi yn y Cynllun Ymgysylltu (gweler uchod). Cynhaliwyd sesiynau galw heibio ledled Cymru. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid pwysig a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau mwy o faint ledled Cymru hefyd. Rhoddir manylion pellach yn adran 2 yr adroddiad.
- 4.8.26 Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r FfDC drafft ar wefan Llywodraeth Cymru, YouTube a Twitter, ac roedd hyn yn cynnwys defnyddio cyfrif Twitter y Gweinidog a sianeli rhanddeiliaid i ledaenu gwybodaeth. Mae adroddiadau ar y FfDC hefyd wedi ymddangos yn y cyfryngau newyddion ar-lein a phrint prif ffrwd a chyfnodolion gweithwyr proffesiynol.
- 4.8.27 Rydym wedi llunio cyfres o adnoddau a phhecynnau adnoddau i ysgolion er mwyn helpu pobl ifanc i ddeall cynllunio, gan gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

³ <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-datganiad-cyfranogiad-y-cyhoedd>

4.8.28 Mae galwadau i newid y FfDC wedi cael eu crynhoi a'u hystyried ym mhrif gorff yr adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad. Mae prif bwyntiau'r ymatebwyr wedi cael eu hamlygu a'u trafod yn Ymateb Llywodraeth Cymru ac mae newidiadau i bolisi'r FfDC drafft wedi cael eu nodi'n glir o ganlyniad i'r broses hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Cysoni Cynlluniau

4.8.29 Mae'r ffaith bod Cynlluniau Datblygu Lleol i'w cael ledled Cymru, y penderfyniad i gyflwyno cynllun datblygu cenedlaethol newydd ar ôl i'r FfDC gael ei gyhoeddi a'r ffocws cryf ar gyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol, yn golygu bod y system cynllunio datblygu yng Nghymru yn newid yn sylweddol. Dros y degawd nesaf, bydd ardaloedd yn symud o sefyllfa lle mae ganddynt un cynllun datblygu i sefyllfa lle mae ganddynt dri. Mae'r ymatebion wedi nodi, yn rhesymol ddigon, fod y newid hwn, o bosibl, yn cyflwyno cymhlethdod ychwanegol i'r system cynllunio datblygu ac y bydd y gydberthynas a'r cysondeb rhwng cynlluniau ar wahanol haenau yn fater allweddol yn y dyfodol.

4.8.30 Caiff Pennod 1 o'r FfDC ei hehangu i gynnwys esboniad (a modelau gweledol) o'r ffordd y mae'r FfDC yn cyd-fynd â Pholisi Cynllunio Cymru a haenau eraill y system cynllunio datblygu. Mae'r testun ategol ar gyfer Polisi 16 y FfDC drafft (19 bellach), sef Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol, wedi cael ei newid er mwyn cydnabod bod y gydberthynas rhwng CDSau a'r FfDC yn y dyfodol yn allweddol i gysoni'r system gynllunio ar bob lefel er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru, ac y caiff FfDCau yn y dyfodol eu llywio gan CDSau.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 13 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion. Maent hefyd yn ymdrin â mater 5 a godwyd gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau. Gweler adrannau 5 a 6 o'r adroddiad hwn am fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Defnyddio tystiolaeth i lywio'r FfDC drafft

4.8.31 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a nododd fod angen darparu'r holl fanylion am y ffordd y cafodd y FfDC drafft ei baratoi. Cafodd y gwaith o baratoi'r FfDC ei lywio gan strategaethau, polisiâu a dogfennau ehangach. Mae [Crynodeb o Dystiolaeth](#) a chyfres o [Bapurau Esboniadol](#) wedi'u cyhoeddi er mwyn rhoi manylion pellach am y dystiolaeth sydd wedi llywio'r FfDC drafft. Mae'r dystiolaeth ar gael yn hawdd ei darllen gan y cyhoedd ac mae'r Crynodeb a'r Papurau Esboniadol yn cyfeirio'n glir at ei lleoliad.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Craffu ar y FfDC

4.8.32 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn darparu'r sail ar gyfer craffu ar y FfDC. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn cadarnhau bod yn rhaid cyflwyno'r FfDC drafft a'r

adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n nodi sut mae ymatebion i'r drafft wedi'u hystyried gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn iddo eu hystyried dros gyfnod o 60 diwrnod pan fydd yn weithredol. Nodir yr amserlen ar gyfer paratoi'r FfDC yn [Natganiad y FfDC o Gyfranogiad Cyhoeddus](#) ac mae'n cadarnhau y caiff y drafft ei ystyried gan y Senedd dros gyfnod o 60 diwrnod. Mater i'r Senedd yw penderfynu sut y creffir ar y FfDC yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r ymateb a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 51 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Cyflwyniad a Strwythur y FfDC

- 4.8.33 Mae'n bwysig inni fod dogfen y FfDC yn ddeniadol, yn hawdd ei defnyddio ac yn hawdd ei deall. Casglwyd adborth ar y ffordd y cyflwynwyd y FfDC drafft, a gyhoeddwyd mewn sawl fformat mewn print ac ar-lein, drwy ymgynghoriad ffurfiol ac yn anffurfiol drwy sgysiau â phobl sy'n defnyddio'r FfDC drafft.
- 4.8.34 Ar y cyfan, cafodd y ffordd y cyflwynwyd y FfDC drafft dderbyniad da. Nododd pobl ei bod yn ddogfen gryno ag amrywiaeth dda o ffotograffau o wahanol rannau o Gymru. Cawsom awgrymiadau manwl ynglŷn â chyfansoddiad tudalennau penodol yn y ddogfen ddrafft a syniadau ar gyfer ffotograffau ychwanegol. Ar y cyfan, roedd pobl yn deall sut roedd y polisiau a'r testun cyffredinol yn ymwneud â'i gilydd, er bod rhai tudalennau lle nad oedd y gydberthynas hon yn gwbl gywir.
- 4.8.35 Mae gennym gyfle i fynd i'r afael â'r awgrymiadau hyn a sicrhau bod y FfDC cyhoeddedig yn cael ei gyflwyno cystal â phosibl. Bydd yn cynnwys mwy o fapiau, siartiau a ffotograffau na'r FfDC drafft, er mwyn helpu i ddangos yr heriau a'r tueddiadau a nodwyd ym Mhennod 2 a'r polisiau ym Mhenodau 4 a 5. Mae defnyddio ffotograffau a siartiau yn rhoi gwrthgyferbyniad gweledol i'r testun, yn dangos enghreifftiau cadarnhaol o bob rhan o'r wlad ac yn helpu i wneud y ddogfen yn fwy darllenadwy. Caiff y ffeithluniau ar gyfer pob rhanbarth eu datblygu a'u gwella'n sylweddol. Bydd addasiadau eraill i'r ddogfen derfynol yn cynnwys peidio â gosod mwy nag un polisi fesul tudalen, er mwyn helpu i sicrhau eglurder cyffredinol y negeseuon allweddol yn y ddogfen.

Mae'r ymateb a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 3 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

4.9 ARFARNIAD O GYNALIADWYEDD INTEGREDIG

Cwestiwn 12 y ffurflen ymateb lawn

Cwestiwn 12

Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig er mwyn asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynllun. Nododd yr adroddiad nifer o ddangosyddion monitro, gan gynnwys iechyd, cydraddoldebau, y Gymraeg, yr effaith ar gymunedau gwledig, hawliau plant, newid yn yr hinsawdd a datblygu economaidd.

C12.1 A oes gennych unrhyw sylwadau ar ganfyddiadau'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig? Nodwch unrhyw ddangosyddion monitro amgen eraill a fyddai'n atgyfnerthu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, yn eich barn chi.

Cwestiwn 12 – Prif Themâu

4.9.1 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw.

Thema	Cod	Cyfanswm
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n derbyn/cefnogi canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig (AGI)	11
Ymgynghoriad	Ni roddwyd digon o gyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad/nid yw'n deg/mae'n fait accompli/mae penderfyniadau eisoes wedi'u gwneud	10
Datblygiadau gwynt/solar	Dw i yn erbyn defnyddio/adeiladu tyrbinau gwynt	9
Datblygiadau gwynt/solar	Effeithiau ecolegol/difrod amgylcheddol/niwed i gefn gwlad	9
Datblygiadau gwynt/solar	Rwy'n pryderu ynghylch yr effaith weledol/bydd y tyrbinau yn rhy fawr/dylid cyflwyno clustogfeydd er mwyn lleihau'r effaith weledol/caiff twristiaid eu hatal rhag dod i'r ardal	8
Ystyriaeth ychwanegol	Nid yw'n cynnwys lleiniau glas/dylid ailystyried effaith lleiniau glas ar gyfleoedd cyflogaeth/tai/cynhwysiant economaidd/llifogydd	8
Ystyriaethau eraill na chyfeiriwyd atynt yn aml	Dylid ystyried Brexit, Parthau Perygl Nitradau, lleihau defnydd, newidiadau ym mhroffil y boblogaeth, treftadaeth, cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	8
Dylid cynnwys dangosydd/cyfeiriadau/mwy o bwyslais	Argyfwng hinsawdd/diogelu'r amgylchedd naturiol/bioamrywiaeth/cynaliadwyedd	7
Ymgynghori	Dw i ddim yn deall beth yw Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig/sut mae'n berthnasol/mae'n rhy anodd i'w ddehongli/mae'n amhosibl ei ddeall	7

Dylid cynnwys dangosydd/cyfeiriadau/mwy o bwyslais	Ansawdd aer/monitro ansawdd aer	6
Dylid cynnwys dangosydd/cyfeiriadau/mwy o bwyslais	Twristiaeth	6
Y Gymraeg	Rwy'n gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer y Gymraeg/rwy'n anghytuno ag addysg cyfrwng Cymraeg	6
Dylid cynnwys dangosydd/cyfeiriadau/mwy o bwyslais	Gofal iechyd	5
Dewisiadau amgen	Dylai'r cynigion ystyried dewisiadau amgen yn lle datblygiadau ynni gwynt ar y tir e.e. ar y môr, ynni'r llanw, biomas, niwclear	5
Cymunedau yng Nghymru	Cefnogi cymunedau yng Nghymru yn well/Cynyddu neu wella gwaith datblygu/cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig e.e. lle mae siaradwyr Cymraeg yn byw/nid yw'r ardaloedd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn cael digon o fuddsoddiad	5
Ystyriaeth ychwanegol	Asesiadau eraill e.e. Asesiad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol, cyfarwydddebau amgylcheddol eraill, PCC10, Asesiad Rheoliad Cynefinoedd	5
Y Gymraeg	Dylid rhoi mwy o bwyslais ar y Gymraeg	4
Nid yw'r cynigion yn ddigon manwl	Yr effaith ar gymunedau gwledig	4
Ymgynghori	Dylai ymgynghoriad geisio barn gweithwyr proffesiynol mewn diwydiant/arbenigwyr/arolygwyr annibynnol i brofi cadernid	4
Gwrthwynebiad cyffredinol	Rwy'n anghytuno, ar y cyfan/nid oes angen y cynigion	3
Nid yw'r cynigion yn ddigon manwl	Cyffredinol – amhenodol	3
Nid yw'r cynigion yn ddigon manwl	Mae'r ddarpariaeth o ran tai/cynlluniau ar gyfer tai yn annigonol	3
Nid yw'r cynigion yn ddigon manwl	Llesiant	3
Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru	Mae Canolbarth Cymru yn cael ei anwybyddu/dylid rhoi mwy o bwyslais ar fy ardal/nid oes gan y FfDC ddigon o bolisiau sydd wedi'u hanelu at ardal benodol e.e. y Trallwng, Powys	3
Cefnogaeth gyffredinol	Ar y cyfan, rwy'n cytuno ag egwyddor cynaliadwyedd	2
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau yn lleol/dylid ymgynghori â'r gymuned leol a dylai penderfyniadau gael eu gwneud yn lleol	2
Dylid cynnwys dangosydd/cyfeiriadau/mwy o bwyslais	Trafnidiaeth/trafnidiaeth carbon isel	2
Dylid cynnwys dangosydd/cyfeiriadau/mwy o bwyslais	Gofal i'r henoed	2

Dylid cynnwys dangosydd/cyfeiriadau/mwy o bwyslais	Ystyriaethau eraill na chyfeiriwyd atynt yn aml (llesiant, ERAMMP, addysg)	2
Ymgynghori	Mae gwallau yn yr AGI/mae pethau wedi'u hepgor ohono	2
Geiriad	Awgrym ynglŷn â newid y geiriad	2
Pryderon eraill ynghylch tai	Pryder ynghylch effaith gweithgarwch adeiladu tai ar gydlyniant cymunedol/troseddu/bydd y cynlluniau yn gwaethygu'r argyfwng tai	2
Beirniadaeth o'r dangosyddion monitro	E.e. Nid yw'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a'r FfDC yn cyd-fynd â'i gilydd/dw i ddim yn deall sut y penderfynwyd ar y dangosyddion monitro	1
Cyllid	Mae angen mwy o gyllid ar gynghorau lleol/dylid gwrthdroi toriadau	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		9

Cwestiwn 12 – Sylwebaeth

4.9.2 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italic, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Ymhlith y sylwadau ar yr AGI, roedd grŵp o bobl a fynegodd gefnogaeth gyffredinol i'r AGI fel darn o waith.

We support WG in embedding the findings of the report into policy.

A thorough piece of work and encouraging to know that policies are constructed within such a broad awareness.

Mynegodd rhai bryderon ynghylch yr AGI. Nododd un ymateb, a gyflwynwyd gan sefydliad, bryderon ynghylch y broses a ddefnyddiwyd i lunio'r AGI, gan ofyn “[whether] the 17 objectives (as measures) do capture and ensure the sustainability of the dNDF”. Awgrymodd fod gwendidau yn null yr AGI yn tanseilio ei gasgliadau.

Conclusion 6.1. Table 2.8 (p55) matches NDF policies against the 17 objectives however the scoring depends on aspirational “guesstimates” of the impacts of the dNDF policies and the ability of the NDF policies to achieve the NDF outcomes which makes the entire exercise open to accusations that is both circular and value-laden rather than objective

Yn benodol, roedd yn pryderu am fod yr AGI yn nodi bod effeithiau strategaeth ofodol y FfDC ar 10 allan o'r 17 o amcanion yr AGI yn fwy cymysg.

Nododd rhai ymatebwyr fod problemau yn gysylltiedig â'r broses ymgynghori ar gyfer yr AGI a'r FfDC, gan adlewyrchu pryderon a godir mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn. Ystyriwyd nad oedd y broses ymgynghori yn ddigon eang ac nad oedd pobl yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal.

The report needs better dissemination for non-professionals.

...when I speak to people in my locality NO-ONE was aware of the NDF. There was no advertisement, nothing posted on any boards, no leaflet drop, no request for participation within the draft stage and no simplified statement (within the actual localities)...If I am right in thinking you want the ordinary people of Wales to know about this process - which is indeed a political and social one affecting all of our lives - why did I only find out about it by a chance reading in a local rag? If you want a transparent all-inclusive process, why haven't you ensured this happened? At the very least, a simplified ISA should be made available - not just online but in people's letterboxes.

What sort of general public promotion did the ISA and the NDF actually have? - Because this is the first we have heard of it, we didn't even know this survey was being carried out until they told us it was closing. It finally made it onto national television, but only due to the disquiet everyone felt about the Welsh landscape being sold-off to build wind farms and the ugly spectre of industrial pylons being raised yet again in mid-Wales.

Mae'r datganiad ei bod yn haws i gynulleidfa broffesiynol gymryd rhan yn yr ymgynghoriad na chynulleidfa leyg yn awgrymu ei bod yn bosibl nad oedd strategaethau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol heb ddiddordeb proffesiynol yn ddigonol. Cydnabuwyd ei bod yn bwysig cynnwys gweithwyr proffesiynol yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg ymgysylltu canfyddedig â'r cyhoedd roedd rhai o'r farn bod y broses ymgynghori yn anonest.

Er bod pobl wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, roedd rhai problemau yn gysylltiedig â hygyrchedd yr AGI. Ni allai dau ymatebydd weithio allan beth oedd AGI, gan ofyn yn syml gwestiynau i'r perwyl "what is this?":

I cannot find anything about the ISA in the National Development Framework document. I'm sure it was important...

Roedd rhai ymatebwyr fel petaent wedi cymysgu'r FfDC â'r AGI sy'n awgrymu ei bod yn bosibl nad oedd ymatebwyr yn glir ynghylch beth yw'r berthynas rhwng FfDC a'r Arfarniad. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod yr AGI ei hun yn rhy ddwys a thechnegol i'w ddeall:

I tried reading it but found it utterly impenetrable ... and I've spent the best part of my career reading and writing such documents

At 350 pages, Planning Aid Wales would question the accessibility of this document for members of the public, albeit, the provision of the provision of a non-technical summary is welcomed

[Name of organisation] applauds the undertaking of this exhaustive iterative approach however the 350 pages of the stages and suite of tables illustrating the procedure are too extensive and complex for our detailed assessment in this context.

Roedd y sefydliad a gyflwynodd yr ymateb olaf uchod yn pryderu y gall dwysedd y ddogfen arwain at ddiffyg ymgysylltu a fydd, yn ei dro, yn golygu "an important overall view of the fitness of the NDF is lost".

Roedd llawer o'r rhai a oedd wedi darllen yr AGI yn pryderu ynghylch ei gynnwys, gan gyfeirio at hepgoriadau neu'n awgrymu ffactorau amgen y dylai'r AGI fod wedi'u hystyried. Dim ond datgan bod ganddynt bryderon a wnaeth rhai, ymhelaethodd eraill ar y pryderon hyn.

Roedd rhai o'r farn nad oedd yr AGI yn ddigon manwl, gydag un ymatebydd yn ei ddisgrifio fel "very partial" ac ymatebydd arall yn dweud ei nad yw'n "... take on board the view of industry professionals". Dywedodd ymatebydd arall fod diffyg eglurder ynghylch y ffordd y penderfynwyd ar ddangosyddion monitro ac amcanion yr AGI a diffyg gwaith craffu trylwyr a diffyg sail dystiolaeth ar gyfer y sefyllfa bresennol (h.y. beth fyddai'n digwydd pe na châi unrhyw beth ei wneud). Awgrymodd eraill y dylid cyfeirio at asesiadau a dangosyddion amgen yn yr AGI, er enghraifft: prawf cadernid; Asesiad o Gynaliadwyedd; Asesiad Amgylcheddol Strategol; Polisi Cynllunio Cymru 10; cyfarwydddebau amgylcheddol eraill. Awgrymodd unigolyn arall fod angen i fesurau canlyniadau roi llais i bobl:

Outcomes monitoring is all about measuring the changes in people's real lives over time - but it doesn't have to be done through indicators - you can just ask people directly - give them a voice - so ask people how content/happy/satisfied they are with their lives now and ask them again in five years' time.

Trafododd rhai ymatebwyr bynciau penodol yn yr AGI. Un awgrym oedd nad oedd yr AGI yn cynnwys digon o fanylion am dai. Er bod rhai o'r rhain, ar y cyfan, yn rhannu eu barn ar dai yn y FfDC (e.e. niferoedd tai na roddwyd cyfrif amdanynt; diffyg map ffordd), canolbwyntiodd eraill hefyd ar gynaliadwyedd a thai fel yr ymdrinnir â nhw yn yr AGI, gydag un yn awgrymu bod angen iddo ystyried y gydberthynas rhwng ansawdd aer a datblygiadau tai. Roedd ymatebydd arall yn amau casgliadau proses sgorio asesiad yr AGI mewn perthynas â'r angen i "create opportunities for the provision of good quality, safe, affordable housing that meets identified needs"; awgrymodd yr ymatebydd y byddai lleiniau glas yn cyfyngu ar ddatblygiadau tai ac yn gwaethygu'r argyfwng tai.

Lleisiwyd pryder hefyd ynghylch y ffaith nad oedd digon o fanylion am lesiant yn yr AGI. Dim ond nodi hyn a wnaeth rhai, tra awgrymodd y rhai a ymhelaethodd ar eu rhesymau nad oedd digon o gysylltiad yn cael ei wneud yn yr AGI rhwng datblygu ffermydd gwynt a'u heffaith negyddol ar lesiant oherwydd effeithiau sŵn, cysgodion symudol, malltod gweledol a dinistrio manau gwyrdd.

Pryder arall oedd y diffyg ystyriaeth canfyddedig o'r amgylchedd naturiol yn yr AGI. Roedd rhai o'r farn nad oedd digon o fanylion am ansawdd aer a gweithgarwch monitro ansawdd aer yn yr AGI. Unwaith eto, dim ond siarad am gynigion y FfDC yr oedd llawer o bobl, sy'n awgrymu, unwaith eto, fod ymatebwyr, i ryw raddau, yn cymysgu dogfennau'r FfDC â dogfennau'r AGI. Rhoddodd pobl eraill enghreifftiau o ble y gallai'r AGI fod wedi gwella ei ystyriaeth o ansawdd aer:

[The respondent refers to paragraph 2.6.10 which talks about the need to better consider and mediate the significant negative effects of P32 and P20 (expansion of Cardiff airport and the Port of Holyhead) on air quality] Confirmation as to what has happened with the recommendation is sought. It is also noted that the need to consider emission contributions is not referenced in the supporting text of Policy 32, which is surely a factor to mitigate this identified environmental impact.

It is not clear that this appraisal process clearly and effectively identifies environmental issues, or when it does, this has any impact on the policies drafted. For example the absence of any follow up on the recommendation that the proposals for Cardiff Airport and the Port of Holyhead be subject to more detailed analysis because of significant increases in carbon emissions

Roedd eraill o'r farn nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i ecosystemau a bioamrywiaeth yn yr AGI. Unwaith eto, roedd rhai o'r ymatebion hyn yn cyfeirio at y FfDC yn unig ond cyfeiriodd eraill at yr AGI yn uniongyrchol:

The ISA analysis relies on the incorporation of the HRA which relates only to Natura 2000 sites and Ramsars. These are important but only represent a minute portion of the declining species and habitats at critical risk throughout Wales

Roedd eraill o'r farn nad oedd yr AGI wedi ystyried newid yn yr hinsawdd:

*Insufficient reference to a climate change emergency having been declared.
Insufficient links to a "Prosperity for all: A low carbon wales*

Nododd yr un sefydliad a ddywedodd fod y ffaith y byddai effeithiau'r FfDC ar 10 allan o'r 17 o amcanion cynaliadwyedd yr AGI yn "mixed" yn achosi problemau, hefyd fod llawer o'r 10 targed hyn yn ymwneud â'r amgylchedd naturiol a hinsawdd nad yw'n "... support the ISA conclusion about the sustainability of the NDF".

Awgrymodd un unigolyn y dylai'r AGI hefyd ystyried trafndiaeth carbon isel a'i seilwaith cysylltiedig yn amcanion 6 ac 8 er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n ymwneud â'r FfDC a'r amgylchedd/newid yn yr hinsawdd.

Roedd grŵp o ymatebion yn ymwneud â thwristiaeth. Nid yw'r un o'r rhain yn cyfeirio at yr AGI yn uniongyrchol ond, ar y cyfan, maent yn canolbwyntio eu pryder ar deimlad nad yw'r FfDC yn diogelu economïau gwledig am y bydd tyrbinau gwynt yn cael effaith negyddol ar yr economi dwristaidd y mae economïau gwledig yn dibynnu arnynt. Mae'r rhain yn adlewyrchu barn a ddatblygwyd mewn mannau eraill yn y crynodeb hwn.

Cyfeiriodd eraill at y ffaith bod angen i'r AGI ganolbwyntio ar iechyd a gofal cymdeithasol. Unwaith eto, canolbwyntiodd rhai pobl ar y FfDC yn hytrach na'r AGI, gan drafod, er enghraifft, yr angen i ystyried gofal i'r henoed. Soniodd dau ymateb am y materion hyn mewn perthynas â'r AGI. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio ar sicrhau gwasanaethau iechyd cynaliadwy, yn ogystal â monitro anghydraddoldebau iechyd a defnyddio asiantaethau iechyd i nodi cynnydd yn erbyn canlyniadau iechyd a llesiant:

We welcome the inclusion of Objective 2 in the ISA framework which focusses on health, wellbeing and health inequalities and that these have been considered as part of the integrated assessment of the draft NDF...The monitoring dashboard that is developed needs to be drafted with, and linked into, public health and health service policy makers, agencies such as Public Health Wales and providers to ensure that health and inequalities are sufficiently monitored and progress against health and wellbeing outcomes captured.

What thought has been given to how the Framework sits with NHS planning, for example, will Health Boards be mandated to ensure all plans are sustainable?... We understand from discussion at an engagement session on the NDF that the Team agreed to discuss with WG Health & Social Services leads to look at how to reflect in NHS planning guidance (not just capital and estates).

Pwysleisiodd sylwadau eraill ynghylch iechyd bwysigrwydd iechyd meddwl a llesiant, ac roeddent o blaid eu cynnwys yn yr AGI neu gwnaethant awgrymu y gallai effaith tyrbinau gwynt drwy newid y dirwedd neu greu llygredd sŵn neu gysgodion symudol, effeithio ar iechyd meddwl neu lesiant.

Roedd grŵp o ymatebion a ganolbwyntiodd ar y Gymraeg neu gymunedau Cymraeg. Ar y cyfan, ni wnaeth yr ymatebion hyn drafod materion mewn perthynas â'r AGI ac roeddent yn adlewyrchu sylwadau ar y cysylltiadau rhwng y FfDC, y Gymraeg a chymunedau Cymraeg a ddisgrifir yn fanwl mewn rywle arall yn y crynodeb hwn (e.e. pwysigrwydd cefnogi'r Gymraeg; yr angen am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg; yr angen i gefnogi cymunedau gwledig Cymraeg drwy gynlluniau manwl ar gyfer datblygu). Nododd un ymatebydd fod yr AGI yn awgrymu y bydd effeithiau'r FfDC ar y Gymraeg yn gymysg, nad yw'n galonogol.

Canolbwyntiodd grŵp arall o ymatebion ar faterion sy'n ymwneud â'r seilwaith ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt a solar. Ni chyfeiriodd llawer o'r sylwadau hyn at yr AGI a gwnaethant adleisio sylwadau ynghylch y FfDC a wneir mewn manau eraill yn y crynodeb hwn (e.e. yr effaith weledol; niwed i'r ecosystem; niwed i'r diwydiant twristiaeth; dylid ceisio dod o hyd i atebion ynni amgen). Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr AGI mewn perthynas â chynhyrchu ynni gwynt a solar. Nododd un unigolyn fod cynigion y FfDC ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt a solar yn tanseilio amcan 2 yr AGI (*i gyfrannu at wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol pawb...*) ac amcan 15 (*i greu'r cyfleoedd ar gyfer diogelu a hyrwyddo diwylliant Cymru*). Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod yr AGI yn awgrymu y bydd effeithiau'r FfDC ar nwyon tŷ gwydr ac ynni yn gymysg, sy'n codi amheuaeth ynghylch a fydd yr AGI yn llwyddiannus yn y maes hwn.

Roedd set o ymatebion o dan y themâu *cynnwys dangosydd / cyfeiriadau / mwy o bwyslais: ystyriaethau eraill na chyfeiriwyd atynt yn aml* neu *ystyriaethau ychwanegol* yn cyfeirio at y FfDC yn bennaf ac roeddent yn cynnwys pryderon ynghylch: yr angen i bwysleisio addysg (yn enwedig mewn perthynas â dinasyddiaeth, ymwybyddiaeth o hanes Cymru, ymwybyddiaeth o gyd-destun byd-eang Cymru); mynd i'r afael â rhaniadau a amlygwyd gan Brexit; diogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas; addysg fel modd i feithrin goddefgarwch a chynhwysiant cymdeithasol; a'r angen am bolisi ar dwf poblogaeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â gorboblogi.

O fewn y themâu *cynnwys dangosydd / cyfeiriadau / mwy o bwyslais: ystyriaethau eraill na chyfeiriwyd atynt yn aml* neu *ystyriaethau ychwanegol* roedd set o ymatebion na wnaethant drafod yr AGI. Yn aml dim ond unwaith y codwyd pryderon penodol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Dylai Amcan 7 annog dull strategol o asesu a rheoli perygl llifogydd ar raddfa dalgylch a sicrhau twf ar draws ffiniau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod datblygiadau sy'n agored i niwed yn yr ardaloedd hynny lle y ceir y risg isaf o

lifogydd; sicrhau bod gwaith asesu perygl llifogydd yn cyfrif am yr effaith sawl senario ar gyfer newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys senario lle y bydd y tymheredd yn codi 4°C erbyn 2100.

- Dylai Amcan 8 annog cyfleoedd i leihau allyriadau i'r aer o amaethyddiaeth ddwys.
- Dylai Amcan 9 annog dull strategol o asesu a rheoli risgiau i ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr; dylid annog asesu effaith sawl senario ar gyfer newid yn yr hinsawdd ar ansawdd ac adnoddau dŵr, gan gynnwys senario lle y bydd y tymheredd yn codi 4°C erbyn 2100.
- Dylai Amcan 11 annog rhoi ystyriaeth i botensial newid yn yr hinsawdd i waethgu anghydraddoldeb cymdeithasol a mynd i'r afael â'r risg hon.
- Dylai Amcan 16 annog prisio (yn ffisegol a/neu'n ariannol) gyfalaf naturiol ac annog gwaith datblygu er mwyn sicrhau gwelliannau amgylcheddol net (h.y. nid dim ond sicrhau na fydd gwaith datblygu yn achosi niwed net).
- Dylai Amcan 17 annog lleihau faint o wastraff a gynhyrchir a hyrwyddo prosesu gwastraff yn agos at y tarddle.
- Yr angen i'r FfDC gynnwys materion sy'n ymwneud â pherygl llifogydd a mwy o ddatblygiadau tai o gofio bod y rhain yn yr AGI.
- Yr angen i'r FfDC gynnwys materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer a pherygl llifogydd a mwy o ddatblygiadau tai o gofio bod y rhain yn yr AGI.
- Yr angen i gyfeirio at Barthau Perygl Nitradau; mae effeithiau nitradau mewn cyrsiau dŵr i'w gweld yn hawdd ac mae'n ddangosydd sy'n hawdd i'w fesur. Mae hyn yn berthnasol i amcanion 9 a 13 yr AGI.
- Mae pwysigrwydd a hyd ffin Cymru sy'n wynebu'r môr yn haeddu cael mwy o sylw o ran ei gallu i gyflawni amcanion yr AGI, yn enwedig amcanion 3, 4 a 6 (gweler y Cynllun Morol Cenedlaethol).
- Mae'r AGI yn cyfeirio'n helaeth at bwysigrwydd y dirwedd, gan gynnwys mewn perthynas â'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ac yn nodi bod ystyriaethau o ran y dirwedd wedi'u hatgyfnerthu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y FfDC lle mai prin yw'r cyfeiriadau at y dirwedd a cheir tensiynau lle mae Polisi 6 a Pholisi 11 yn "...insist *"significant adverse landscape impacts" must be avoided. Policy 10 includes "acceptance of landscape change" in Wind and Solar RE Priority Areas.*"
- Mae dadansoddiad yr AGI yn dibynnu ar ymgorffori'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ond mae hyn ond yn ymwneud â safleoedd Natura 2000 a safleoedd Ramsar sy'n bwysig ond sydd ond yn cynrychioli "...a minute portion of the declining species and habitats at critical risk throughout Wales".
- *"Even if we accept the scoring in the key Table 2.8, Air quality, Water, Biodiversity and geodiversity, & Natural Resources all score plenty of "minor negative" (pink), some of which should undoubtedly be "strong negative" (red) had there not been an underlying bias towards positive scores and motive to suppress red scores. The only NDF Policy red score red is the long-term impact of the Development of Holyhead port on Green House Gases and Energy. Many strong positives rely on the "mitigation" of avoiding negative impacts and some of these connections are tenuous"*
- *"The Policy 10 Priority Areas covering 20% or rural Wales scores dark blue: "range of positive and negative outcomes". The NDF must have regard to Section 6 of the Environment (Wales) Act, which in turn is governed by the UN 1992 Convention on*

Biological Diversity (EA s6 (a)) which notes that “the fundamental requirement for the conservation of biological diversity is the in-situ conservation of ecosystems and natural habitats and the maintenance and recovery of viable populations of species in their natural surroundings”

- Pryder bod y fersiwn ddiwygiedig o'r AGI (28/8/19) wedi dileu'r datganiad “*the NDF seeks to maximise onshore wind and solar energy potential, whilst minimising the potential impact on the most sensitive environmental and cultural assets*” ac wedi rhoi datganiad mwy cymedrol yn ei le, sef “*there is a presumption in favour of large scale onshore wind and solar energy generation potential in the Priority Areas for Renewable Energy, and acceptance of landscape change and a focus on maximising benefits and minimising impacts.*” Mae'r datganiad mwy newydd hwn wedi dileu pob cyfeiriad at asedau amgylcheddol a diwylliannol sensitif.
- “*The NDF is largely a framework for towns and the “rural-proofing” exercise is not convincing. The realities of the rural economic structure is not recognised.*” Mae hyn i'w briodoli i'r ffaith nad yw twristiaeth (sy'n hanfodol i economïau gwledig) wedi'i chynnwys yn amcanion yr AGI er y cyfeirir ati yn y ddogfen ehangach.
- Mae amcanion yr AGI yn ymwneud â nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond nid yw'r rhain yn cael eu cyflawni gan y FfDC.
- Mae angen adolygu'r sgoriau mewn perthynas â dulliau polisi amgen ar gyfer lleiniau glas yn yr AGI o ran asesu yn erbyn amcanion 3, 4, 7 a 12 yr AGI. Diben hyn yw cydnabod bod lleiniau glas yn cyfyngu ar waith datblygu gan gynnwys tai ac nad yw lleiniau glas bob amser yn lliniaru llifogydd.
- Mae'r AGI yn argymhell y gallai'r FfDC roi mwy o sylw i berygl llifogydd ond nid yw'n gwneud hynny.

Yn olaf, lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, ond ni wnaethant sôn yn benodol am yr AGI. Roedd yr un peth yn wir lle y mynegodd pobl bryderon ynghylch democratiaeth a phrosesau gwneud penderfyniadau lleol yn cael eu tanseilio. Roedd y pwyntiau a godwyd yma yn adleisio'r rhai a drafodir yn fanwl mewn manau eraill yn y ddogfen gryno hon.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig

4.9.3 Mae'r sylwadau a gafwyd ynghylch yr Arfarniad Integredig o Gynaliadwyedd (AGI) wedi'u hadolygu a byddant yn bwydo i mewn i'r adolygiad o'r FfDC ac yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad amgylcheddol diwygiedig yr AGI. Rhoddir manylion pellach yn Atodiad G. Gallwch weld sut yr aed ai i asesu'r FfDC drafft yn y papur esboniadol ar yr Aseiad (<https://llyw.cymru/asesiadau-papur-esboniadol>).

4.9.4 Mae'r AGI wedi dilyn proses ragnodedig, fel y'i pennir yn sylfaenol gan y Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol ac y'i llywir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae hefyd yn integreiddio gofynion nifer o brosesau asesu deddfwriaethol ac anneddfwriaethol eraill. Fodd bynnag, fel cynllun cenedlaethol, mae lefel y gwaith asesu ar raddfa fwy strategol. Caiff materion sy'n ymwneud â rhanbarth a'r ardal leol eu hasesu ar lefel y CDS a'r CDLI.

- 4.9.5 Mae'r broses ymgynghori statudol wedi'i dilyn o ran proses yr AGI. At hynny, mae digwyddiadau ymgynghori pellach wedi'u cynnal ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gwybod am y broses. Mae'r FfDC a'r AGI wedi cael eu llywio a'u datblygu gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio. Cynigir y dylid egluro'r broses asesu gan gynnwys y pum ffordd o weithio a rôl rhanddeiliaid yn y cynllun a dogfen yr AGI. Ceir manylion pellach am y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu sydd wedi llywio'r FfDC ar y wefan: <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol>.
- 4.9.6 Bydd fframwaith monitro'r AGI yn ceisio monitro effeithiau sylweddol rhagweledig y FfDC. Bydd cysylltiad agos rhyngddo a fframwaith monitro'r FfDC.

4.10 ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

Cwestiwn 13 y ffurflen ymateb lawn

Cwestiwn 13

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r FfDC, cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Diben proses yr Asesiad yw nodi ac asesu unrhyw 'effeithiau sylweddol' a gaiff y cynllun ar safleoedd megis Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer adar, a mynd i'r afael â nhw.

C13 A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

Cwestiwn 13 Prif Themâu'r Ymgynghoriad

4.10.1 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw.

Thema	Cod	Cyfanswm
Datblygiadau gwynt/solar	Niwed ecolegol neu niwed i gynefinoedd/niwed i fywyd gwylt e.e. adar	31
Gwrthwynebiad cyffredinol	Rwy'n anghytuno â'r cynigion	27
Gwaith datblygu	Dylid diogelu tir lleiniau glas/bydd datblygu ar safleoedd maes glas yn effeithio ar gynefinoedd bywyd gwylt	23
Cefnogaeth gyffredinol	Rwy'n cytuno y dylid diogelu bywyd gwylt/cynefinoedd/tir lleiniau glas/ardaloedd o harddwch naturiol	21
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	E.e. nid ydynt yn darparu manylion penodol/sail dystiolaeth/gwybodaeth am fesurau lliniaru	14
Ardaloedd cadwraeth	Dylid cynyddu nifer yr ardaloedd cadwraeth/ardaloedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer cadwraeth/cynyddu cynefinoedd cydgysylltiedig/dylid diogelu rhanbarthau penodol	7
Dewisiadau amgen	Dylai'r cynigion ystyried dewisiadau amgen yn lle datblygiadau ynni gwynt ar y tir e.e. ar y môr, ynni'r llanw, biomas, niwclear	5
Ymgynghori	Dw i ddim yn deall beth yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd/sut mae'n berthnasol	5
Democratiaeth/prosesau gwneud penderfyniadau lleol	Mae'r cynlluniau yn gwrthwynebu gwneud penderfyniadau'n lleol/o blaid prosesau ymyngori a gwneud penderfyniadau lleol/gellir gwrthwynebu datblygiadau gwynt newydd/gwrthwynebu ar sail yr effaith ar y dirwedd	3

Ymgynghori	Dylai ymgynghoriad geisio barn gweithwyr proffesiynol mewn diwydiant/arbenigwyr/arolygwyr annibynnol i brofi cadernid	2
Nid yw'r cynlluniau yn mynd yn ddigon pell		1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		10

Cwestiwn 13 – Sylwebaeth

4.10.2 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Er bod un unigolyn yn gwrthwynebu diogelu'r amgylchedd a chynefinoedd yn gyffredinol, gan awgrymu y byddai'n well gwario'r arian ar bobl drwy fuddsoddi mewn addysg neu iechyd, roedd pob ymatebydd arall yn cytuno bod diogelu cynefinoedd yn bwysig.

Roedd rhai a ddywedodd eu bod yn cytuno y dylid diogelu cynefinoedd ond na wnaethant gyfeirio at yr adroddiad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Dywedodd llawer o'r rhain fod mesurau diogelu o'r fath yn “vital”, a dywedodd un unigolyn, “*I don't consider that it goes far enough in protecting all species . . . including humans!*”. Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd sicrhau y caiff y mesurau diogelwch arfaethedig a nodwyd eu rhoi ar waith mewn gwirionedd. Awgrymodd un unigolyn fod angen geirio'r Adroddiad ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn well:

The wording of the HRA places only an indicative or suggested responsibility for complying with it. Current planning policy is more definitive in its wording.

Lleisiwyd pryderon ynghylch y broses ymgynghori. Dywedodd sawl unigolyn na allent ddod o hyd i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, neu os oeddent wedi edrych arno, nad oeddent yn gallu deall y ddogfen:

What the hell is this [the HRA]?

It makes no sense to me.

It is hard to comment on this as it is lengthy and confusing.

Dywedodd rhai nad oedd digon o wybodaeth wedi'i cheisio gan arbenigwyr a sefydliadau megis Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Cymru; Cymdeithas Adareg Cymru a RSPB Cymru. Lleisiwyd amheuan ynghylch y ffaith bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi gormod o fewnbwn i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd am mai Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ydyw. Roedd pobl fel petaent yn canolbwyntio'n fwy ar y FfDC wrth drafod y broses ymgynghori, gydag un ymatebydd yn dweud:

The evidence base put forward as part of this consultation falls a long way short of what would be expected of a document that will form part of the statutory development plan.

Dyweddod rhai nad oedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ddigon manwl gydag un ymatebydd yn nodi bod “*the HRA is inaccurate and far from complete*”. Ni ddywedodd rhai pa fanylion oedd wedi'u hepgor o'r asesiad, yn eu barn nhw. Awgrymodd un unigolyn y byddai argaeledd adnodd Mapio Sensitifrwydd Bywyd Gwyllt yng Nghymru yn helpu i ychwanegu manylion cadarn a chynhwysfawr, gan ychwanegu yr ymddengys nad oes unrhyw strategaeth gydlynol ar gyfer diogelu adar ac ystlumod y tu allan i ardaloedd gwarchoddedig. Adleisiwyd hyn gan ymatebydd arall a ddywedodd fod angen i'r strategaeth ystyried ardaloedd y tu allan i safleoedd gwarchoddedig dynodedig, yn ogystal â choridorau cysylltu rhwng ardaloedd sy'n bwysig oherwydd bioamrywiaeth.

Cafwyd grŵp arall o awgrymiadau ar gyfer ymestyn diffiniadau o ardaloedd y dylid eu diogelu ac ymhlith y syniadau a gynigiwyd roedd: coedwig genedlaethol; AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; gwarchodfeydd natur SoDdFA Coed Cilygroeslwyd; Graig Wylt; Gwarchodfa Natur Gloŷnnod Byw Creigiau Eyrarth; Safleoedd Ystlumod Sir Benfro fel un o brif nodweddion Safleoedd Ystlumod Sir Benfro ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Llynnoedd Bosherton; gwarchodfa natur Cwm y Wydden; Mynydd Cynffig; ACA Twyni Tywod Bae Caerfyrddin; ac ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro. Awgrymodd un ymatebydd nad oedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi cydnabod y byddai'n anodd rhoi'r FfDC ar waith ar Safle Morol Ewropeaidd Bae a Morydau Caerfyrddin.

Mynegodd un ymatebydd bryder fod dogfen yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ddogfen ar wahân i ddogfen y FfDC. Y rheswm dros hyn oedd y bydd angen i unrhyw gynlluniau datblygu “... *take into account the HRA of the NDF to ensure the mitigation measures are adequately covered.*” Nododd, ym mhroses y CDLI, fod yn rhaid i brosesau lliniaru gael eu nodi yn y cynllun datblygu ac y dylai'r un peth fod yn wir yn y FfDC.

Dyweddod un ymatebydd y dylai'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ystyried effeithiau sy'n deillio o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at faterion yn ymwneud â democratiaeth leol ond ni wnaethant ganolbwyntio ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Yn lle hynny, gwnaethant godi pryderon y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu “*override local democracy and concerns*” wrth iddi geisio cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Ystyriwyd bod hyn ar draul cymunedau lleol. Mae'r rhain yn adleisio pryderon ynghylch democratiaeth leol a drafodir yn fanwl mewn manau eraill yn yr adroddiad cryno hwn.

Mae grŵp arall o ymatebion wedi'i drefnu o dan y thema *datblygu*. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hyn yn ymwneud â safleoedd penodol fel y trafodwyd uchod, neu ag effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy. Gan gyfeirio ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, dywedodd un unigolyn

...the presumption should be in favour of no development in these special wild places and unique habitats rather than 'mitigating' the impact of development

Trafododd grŵp o ymatebion fater datblygiadau ynni adnewyddadwy. Fel mewn ymatebion i gwestiwn 8, roedd llawer o'r ymatebion hyn yn mynegi barn gyffredinol am seilwaith ynni adnewyddadwy sy'n cyd-fynd â themâu a ddatblygir yn llawnach mewn mannau eraill yn y crynodeb hwn. Fodd bynnag, roedd rhai yn cysylltu hyn â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Y brif ddatl oedd bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, sy'n canolbwyntio ar ddiogelu cynefinoedd, yn anghyson â'r FfDC sy'n canolbwyntio ar ddatblygu seilwaith ynni gwynt a solar a fydd yn dinistrio cynefinoedd. Er enghraifft:

In the Rhiew Valley, part of the catchily named "Priority Area 5" where there would be a presumption in favour of windfarm development and an "acceptance of landscape change" lies Cwm y Wydden Nature Reserve, the only known Welsh site for the insect Pseudopomyza atrimana. Migrant birds like the Pied Flycatcher or Wood Warbler which frequent the site would be at risk from the blades, as would all the bats, Red Kites, Grey Heron, curlew etc. etc.

Pwynt arall a wnaed oedd nad yw anifeiliaid (e.e. adar) yn cydnabod ffiniau dynol nac yn cydymffurfio â nhw, sy'n tanseilio defnyddioldeb yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o ran dynodi Ardaloedd â Blaenoriaeth:

P10 of the report claims that the priority areas for additional wind farms have avoided Natura 2000/Ramsar sites and National Parks and ANOB's and have therefore protected the wildlife. Unfortunately upland birds have not yet been able to distinguish between these sites and the priority areas. The red kite that is protected over the National Park can be cut to pieces a few minutes later by flying through a wind turbine on the priority area. The conclusion of P10 is therefore not relevant to the protection of upland birds

I rai, roedd y materion hyn yn tanseilio defnyddioldeb yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:

There is no mention of the damage to our wildlife, particularly upland birds, in the HRA which will be caused if more wind farms are allowed on our uplands. The HRA is therefore of no value to the Framework.

Ymateb Llywodraeth Cymru – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

4.10.3 Mae'r sylwadau a gafwyd ynghylch yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u hadolygu a chânt eu bwydo i mewn i'r adolygiad o'r FfDC diwygiedig a'u dogfennu yn adroddiad wedi'i ddiweddarau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

4.10.4 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac mae wedi ystyried cyfraith achosion ddiweddar. Mae'n asesu effeithiau'r FfDC ar safleoedd Natura 2000 yn unig, sy'n cael eu diogelu drwy gyfraith yr UE neu eu trin fel y cyfryw drwy bolisi'r llywodraeth. Mae'r rhain yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), yn ogystal ag ACAau ac AGAau ymgeisiol a phosibl, a safleoedd Ramsar. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ceisio sicrhau na fydd y FfDC yn arwain at effaith sylweddol debygol ar unrhyw safle Natura 2000.

4.10.5 Cynhaliadwyd sawl ymgynghoriad ar yr Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd ochr yn ochr â'r AGI a chynhaliwyd sawl digwyddiad ymgynghori ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gwybod am y broses. Bu swyddogion hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid megis CNC a'r RSPB wrth i'r gwaith hwn ddatblygu. Ceir manylion pellach am y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu sydd wedi llywio'r FfDC ar y wefan: <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol>.

4.10.6 Asesir yr effeithiau ehangach ar fioamrywiaeth yn yr AGI a chaiff canlyniadau gwaith sgrinio'r Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd eu hintegreiddio yn yr AGI lle y bo'n briodol, fel rhan o'r broses iteraid.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 46 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5 o'r adroddiad hwn am ragor o fanylion.

4.11 EFFEITHIAU AR Y GYMRAEG

Cwestiwn 14 y ffurflen ymateb lawn

Cwestiwn 14

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r FfDC yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

C14.1 Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu liniaru'r effeithiau negyddol?

C14.2 Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y FfDC arfaethedig, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau:

- I. ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg
- II. nad yw'n cael effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 14.1 – Prif Themâu'r Ymgynghoriad

Thema	Cod	Cyfanswm
Cefnogaeth gyffredinol	Rwy'n cytuno y dylid ystyried y Gymraeg/dylid annog pobl i ddysgu/defnyddio'r Gymraeg, yn fy marn i	27
Gwrthwynebiad cyffredinol	Rwy'n anghytuno â blaenoriaethu'r Gymraeg/nid yw'r Gymraeg yn bwysig/yn fy marn i, mae'r Gymraeg yn cael ei gorfodi ar bobl ddi-Gymraeg/mae'n wahaniaethol	18
Yr economi/cyflogaeth	Mae'r Gymraeg/annog siaradwyr Cymraeg yn dda i gyfleoedd cyflogaeth	14
Yr un mor bwysig â'i gilydd	Dylid rhoi'r un pwys ar y Gymraeg a'r Saesneg/ni ddylid trin y naill na'r llall yn llai ffafriol	11
Dysgu Cymraeg	Dylid annog pobl i ddysgu Cymraeg yn y gweithle/mabwysiadu adnoddau dwyieithog yn y gwaith	9
FfDC	Ni fydd y FfDC yn cael unrhyw effaith/ddim yn siŵr sut y gallai'r FfDC fod wedi effeithio ar y Gymraeg/nid oes cysylltiad rhwng y defnydd o'r Gymraeg a gwaith cynllunio i hyrwyddo'r Gymraeg	9
Dim digon o fanylion	Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl/ni ellir dweud sut yr effeithir ar y Gymraeg	9
Y sefyllfa bresennol	Dylid parhau â'r polisiau presennol ar y Gymraeg/mae'r cyfleoedd presennol i ddefnyddio'r Gymraeg yn dda/roeddwn i'n meddwl bod hyn eisoes ar waith	9

Cyllid	Mae'r cynigion ar gyfer y Gymraeg yn ddrud/maent yn faich ar y sector cyhoeddus	8
FfDC	Bydd y FfDC yn cael effaith negyddol anghymesur ar siaradwyr Cymraeg e.e. oherwydd polisïau rhanbarthol	6
Ysgolion	Dylid darparu mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg/rhoi mwy o arian iddynt/gwella'r ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion	5
Cymunedau yng Nghymru	Cefnogi cymunedau yng Nghymru yn well/Cynyddu neu wella gwaith datblygu/cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig e.e. lle mae siaradwyr Cymraeg yn byw/nid yw'r ardaloedd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn cael digon o fuddsoddiad	5
FfDC	Bydd y FfDC yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg/bydd yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (amhenodol)/gwell cysylltedd	5
Dysgu Cymraeg	Dylai'r FfDC gynnwys mynediad at wersi Cymraeg am ddim/a gymorthdelir/addysgu cynlluniau Cymraeg/adnoddau ar-lein am ddim	3
Yr economi/cyflogaeth	Mae'r cynigion ar gyfer y Gymraeg yn golygu bod sefydlu busnesau yng Nghymru yn llai deniadol/byddant yn cael effaith negyddol ar economi Cymru	3
Dysgu Cymraeg	Dylid mabwysiadu dull gweithredu llai rhagnodol/peidiwch â rheoleiddio maes dysgu Cymraeg/gall atal pobl rhag dysgu'r Gymraeg/bod yn wrthgynhyrchiol	2
Dysgu Cymraeg	Dylid sicrhau bod dysgu'r Gymraeg yn brofiad plerusrus	2
Dysgu Cymraeg	Dylid cynnig cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg ledled y DU	2
Yr Amgylchedd	Mae mynnu bod pob cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg yn niweidiol i'r amgylchedd	1
Cymunedau yng Nghymru	Dylid defnyddio asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg/gwneud mwy o ddefnydd o asesiadau o'r fath	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		8

Cwestiwn 14.1 – Sylwebaeth

4.11.1 Mae'r adran ganlynol yn sylwebaeth fwy manwl ar bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr. Mae hefyd yn cynnwys dyfyniadau dethol gan ymatebwyr, a gyflwynir mewn italig, sy'n ategu'r safbwyntiau hynny.

Gofynnodd y cwestiwn hwn i'r ymatebwyr ystyried yr effeithiau y byddai'r FfDC yn eu cael ar y Gymraeg.

Roedd grŵp o ymatebion y gellir eu dosbarthu'n ddatganiadau cyffredinol am agweddau at y Gymraeg yn gyffredinol. Yn y grŵp hwn, roedd rhai yn gwrthwynebu defnyddio'r Gymraeg fel mater o egwyddor. Nid oedd rhai o'r rhain ond yn ddatganiadau o wrthwynebiad:

I don't speak Welsh and don't think it is necessary to speak Welsh

Nododd eraill eu barn a'r rhesymau drosti:

The removal of the option to learn in the medium of English for school children locally was quite divisive. Some felt that it decreased the children's ability to converse in English and disproportionately impacted one part of the community. It also penalised those with special educational needs.

Roedd mwy o bobl yn gefnogol i'r Gymraeg mewn egwyddor. Roedd amrywiaeth eang o resymau dros hyn.

The benefits of being bilingual I think are fantastic

The language has to be used, otherwise it will die

The benefits of bilingualism are well known but there is also the issue of national pride and the ridiculous stigma that still exists against the Welsh language

The Welsh Language is an important part of our national identity and something unique that is attractive both within Wales and looking into Wales from outside.

Roedd mwy o bobl yn gefnogol i'r Gymraeg mewn egwyddor. Roedd amrywiaeth eang o resymau dros hyn.

Access to employment for Welsh and English first language speakers must be equitable – it should be illegal to weight one or the other as a requirement of employment.

The English language is essential in the international community and should therefore have no less priority than Welsh in education and public services in Wales. No one should be disadvantaged through lack of fluency in either language.

Y tu hwnt i'r datganiadau safbwynt cyffredinol hyn, roedd ymatebwyr a oedd wedi ystyried yr effeithiau y gallai'r FfDC eu cael ar y Gymraeg yn llawnach. Gall yr effeithiau roedd pobl yn credu y gallai'r FfDC eu cael ar y Gymraeg gael eu crynhoi'n fras yn: effeithiau negyddol; effeithiau cadarnhaol a dim effaith.

Roedd rhai pobl o'r farn y byddai'r FfDC yn cael **effeithiau negyddol** ar y Gymraeg. Roedd y rhesymau dros hyn yn ymwneud yn bennaf â theimlad mai'r ardaloedd gwledig yw cryfder y Gymraeg, lle mae ffermio a chymunedau gwledig ehangach yn chwarae rôl allweddol wrth gynnal y Gymraeg. Fel y nodwyd mewn man arall, ystyriwyd y gallai'r FfDC gael effaith negyddol ac anghymesur ar y cymunedau gwledig hyn, naill ai drwy'r hyn y mae'n ei wneud (e.e. tyrbinau gwynt yn effeithio ar amaethyddiaeth a thwristiaeth) neu'r hyn nad yw'n ei wneud (e.e. methu â darparu cynlluniau ar gyfer rhai o'r ardaloedd hyn). O ganlyniad, ystyriwyd y byddai'r FfDC yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

The policy will not support the Welsh language in areas where it is becoming weaker due to lack of plans for areas such as Gwynedd, Ceredigion and Carmarthenshire.

Farming communities in rural Wales are key to preserving the Welsh language and fostering its development. Regrettably the siting of "solar farms" in areas such as Priority Area 13 will irreparably harm the Welsh language as they will disrupt normal farming practices (which are predominantly conducted in the Welsh language) and solar farms are constructed and managed often by foreign companies (non-Welsh speaking)

Roedd rhai pobl o'r farn y bydd y FfDC yn cael **effaith gadarnhaol** ar y Gymraeg. Awgrymodd cwmni a ymatebodd y gallai gwelliannau i seilwaith a awgrymwyd gan y FfDC gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg:

Rydym yn croesawi'r ystyriaeth a roddir i effaith y FfDC ar y Gymraeg ac yn rhagweld y gall rwydwaith ddatblygedig o seilwaith gyda chysylltiadau cryfach gael effaith gadarnhaol

Awgrymodd eraill ffyrdd y gallai'r FfDC gael mwy o effaith gadarnhaol. Un awgrym oedd, o fewn y FfDC, y dylid rhoi statws arbennig i ardaloedd Cymraeg ac y dylai astudiaeth werthuso pa amodau cynllunio a fyddai'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu.

In terms of mitigation or enhancing positive effects, there will need to be an assessment of the impact of the following on Welsh language arising from the NDF policy areas related to:

- *Population and demographics including new migration flows*
- *Quality of Life indicators including those measures relating to health and wellbeing and the environment*
- *Economic development*
- *Physical and social infra-structure development*
- *Social and cultural schemes*

Trafododd sawl unigolyn yr angen i'r FfDC ganolbwyntio ar fuddsoddiad priodol er mwyn cefnogi economïau cymunedau Cymraeg.

Develop the economy to ensure a firm footing for Welsh-speaking communities. The importance of sustaining and growing communities with a high density of Welsh speakers has already been noted. It is important for several reasons. These communities contain the higher percentages of Welsh speakers who describe themselves as fluent speakers as well as higher percentages of speakers using the language most frequently. While each community is unique, there are some common characteristics to these communities. They include high population mobility – young Welsh speakers leaving, and an influx of mainly older people... We want to see good jobs that enable young people to remain or, if they leave for different life experiences, to return to these areas to live and raise a family. We need more than employment to keep people in these areas, and to attract them back.

Dywedodd un arall y gallai'r FfDC wneud mwy i hyrwyddo'r Gymraeg.

The NDF should promote the use of the language in the all sectors, and in the historic environment, bilingual information at all contact points. This also provides understanding of the origins and roots of the nation's history, supporting distinctive culture, and sense of place and belonging.

Nododd ymateb arall, am fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn canolbwyntio ar sicrhau diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, y dylai'r FfDC gyfeirio'r weledigaeth hon yn gliriach o fewn yr 33 o feysydd polisi a nodwyd.

Roedd grŵp arall o bobl a ddywedodd **na fyddai'r FfDC yn cael unrhyw effaith** ar y Gymraeg. Gwnaeth rhai ddatganiadau cyffredinol na allent weld sut y gallai gwaith datblygu, na'r system

gynllunio, effeithio ar y Gymraeg, gydag un ymatebydd yn dweud na ddylai'r strategaeth ar gyfer y Gymraeg fod yn rhan o gynllun datblygu cenedlaethol. Dywedodd eraill nad oedd angen i'r FfDC ymdrin â materion yn ymwneud â'r Gymraeg am fod strategaethau a pholisïau priodol eisoes ar waith. Awgrymwyd hefyd nad oedd y FfDC yn rhoi digon o fanylion am sut i hyrwyddo'r Gymraeg a bod angen rhagor o ganllawiau:

We support the positive and ambitious aims outlined in Outcome 4 in respect of the Welsh language, and in particular welcome the recognition given to the importance of providing jobs and homes to support the language in Welsh speaking communities. However, it is not clear whether outcome 4 alone will have a positive impact upon the Welsh language given that there is no other guidance within the document to build upon the outcome...It is presumably considered a matter for LDPs to consider how the land use planning system can support the Welsh language. It will therefore be entirely down to the content of respective LDPs to deliver on the NDF's outcome. However, given that the growth of the Welsh language is one of the outcomes of the NDF and that its importance has been acknowledged in respect of all three regions, we consider that it should be categorised as a strategic matter of national importance and further elaboration and guidance through a policy should be provided.

The document does not set out clearly how it is likely to impact on the Welsh Language and how such effects have been mitigated.

Trafododd grŵp o ymatebion faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a'r economi/gweithle a dangosodd ddwy set o safbwyntiau croes am y budd y mae economi Cymru yn ei gael o'r Gymraeg. Awgrymodd un set o ymatebion fod annog pobl i siarad Cymraeg yn dda i'r economi. Fel rheol, nid yw'r rhesymau dros hyn yn ddatblygedig iawn ond mae rhyw awgrym o bwysigrwydd uwchsgilio unigolion, o ran sgiliau Cymraeg a sgiliau iaith a sgiliau trosglwyddadwy eraill, er mwyn eu helpu i ddod â gwerth i gwmnïau yng Nghymru. Un awgrym yw, er mwyn i'r Gymraeg fod o fudd i economi Cymru, fod yn rhai i bawb fuddsoddi ynddi (pob cwmni; addysg; iechyd ac ati). Awgrymodd ymateb arall, oherwydd y cysylltiad rhwng gwaith cynllunio, yr economi a chymunedau yng Nghymru, ei bod yn hanfodol bod y Gymraeg yn treiddio drwy'r FfDC:

Recognizing the relationship between the planning system and the economy in ensuring the viability of Welsh speaking communities, this vision and the prosperity of the Welsh language should permeate all areas of this policy document.

Awgrymodd syniadau amgen fod rhywfaint o bryder y byddai gorfodi'r Gymraeg ar fusnesau yng Nghymru yn atal busnesau o'r tu allan i Gymru rhag buddsoddi yng Nghymru.

The NDF is unlikely to have any effect on the use of the Welsh language or the use of any other language currently spoken in Wales. Welsh Government however is constantly trying to attract inward investment from overseas. Use of the Welsh language in these circumstances is likely to have a negative effect.

Rhoddyd sylw hefyd i addysgu a dysgu'r Gymraeg a chafwyd awgrymiadau ynglŷn ag addysg Gymraeg a oedd yn ymdrin ag amrywiadau o syniadau.

Canolbwyntiodd rhai ymatebwyr ar addysgu a dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion. Roedd gan rai agweddau negyddol at addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion. Un safbwynt oedd na ddylid

addysgu'r Gymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru; safbwynt arall oedd na ddylid addysgu'r Gymraeg mewn unrhyw ysgol yng Nghymru.

I am a Welsh speaker but some aspects of policy are driven by ideology and not reality i.e. the current policy of compulsory Welsh learning in Primary education, this means less time is spent on other subjects this can be disadvantageous.

Welsh is not the primary language in all regions and so I do not agree with plans to force it upon all areas. Imposing this will produce more negative feelings towards the WAG and Welsh language.

Roedd gan eraill agweddau cadarnhaol at addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion ac roeddent o'r farn y dylid addysgu'r Gymraeg ym mhob ysgol yng Nghymru. O'r ymatebwyr hyn, awgrymodd rhai fod angen addysgu'r Gymraeg yn well neu mewn ffordd fwy uchelgeisiol fel pwnc o fewn y cwricwlwm. Awgrymodd eraill fod angen mwy o gyllid er mwyn adeiladu rhagor o ysgolion cyfrwng Gymraeg.

Welsh education needs to be more ambitious moving more schools towards category 1 level

Welsh was never on the curriculum when I was in school and I still think it needs to be taught better in schools

Awgrymodd un unigolyn fod angen gwell addysg dechnegol yn Gymraeg, gan dynnu sylw at y cysylltiad rhwng addysg a chyfleoedd gwaith:

Technical education opportunities in Welsh and technical employment opportunities in rural welsh speaking areas are very important to keep young people in an area and ensure it remains sustainable

Canolbwyntiodd eraill ar gyfleoedd i ddysgu sgiliau Cymraeg mewn cyd-destunau nad ydynt yn gysylltiedig â'r ysgol. Ystyriwyd bod gan y gweithleoedd rôl i'w chwarae o ran addysgu'r Gymraeg. Awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu addysg am ddim mewn sgiliau Cymraeg ym mhob cymuned ledled Cymru.

I think it should be made easier to learn Welsh. And not cost anything.

It should be more that you are given [the] opportunity [to] learn in the workplace ...it would be better to encourage learning from the workplace to increase the use of welsh

Welsh should be taught in all schools and free Welsh learning opportunities should be provided in every community.

O ran y Gymraeg, roedd rhai o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod dysgu Cymraeg yn brofiad plerusrus ym mha gyd-destun bynnag y mae'n cael ei dysgu. Awgrymodd un ymateb y dylid addysgu hanfodion y Gymraeg ledled y DU.

Roedd ffocws arall ar y Gymraeg yn ymwneud â'r gydberthynas rhwng sgiliau Cymraeg a'r gweithle. Roedd rhai o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, naill drwy anogaeth neu, os na fydd hynny'n gweithio, drwy ddeddfwriaeth. Awgrymodd rhywun y dylai hyn gynnwys anogaeth i ddatblygu deunyddiau dwyieithog ac y dylid rhoi grantiau er mwyn helpu i fodloni'r gofyniad hwn. Adleisiodd ymatebydd arall bwynt a wnaed uchod am y cysylltiadau rhwng addysg dechnegol yn Gymraeg ac argaeledd swyddi technegol sy'n gofyn am y Gymraeg.

Support for developments that will provide good well paid employment in areas with significant numbers of Welsh speakers should be encouraged. The SMR proposals at Trawsfynydd and continued investment at Llanbedr Airfield should be actively supported

Tynnodd pobl eraill sylw at broblemau a oedd, yn eu barn nhw, yn deillio o'r gofyniad i ddarparu ar gyfer y Gymraeg yn y gweithle a thu hwnt. Roedd un unigolyn yn pryderu ynghylch yr effeithiau ar fusnes lle y gallai rhywun fynnu ar wasanaeth yn Gymraeg gan fusnes Saesneg ei hiaith. Roedd mwy o bobl yn pryderu ynghylch y costau a'r logisteg sy'n gysylltiedig â dwyieithrwydd, boed hynny mewn busnes, yn y sector cyhoeddus neu mewn rhyw faes arall (e.e. arwyddion ffyrdd). Roedd y pryderon yn ymwneud yn bennaf â chost a/neu effeithiau ecolegol cynhyrchu pethau ddwywaith, yn enwedig o ystyried sefyllfa bresennol yr economi a'r hinsawdd.

In this climate obsessed world I do often ponder what the carbon footprint is from effectively duplicating every piece of literature.

The cost of supporting a bilingual state is a significant burden to business and taxpayer alike. It should be a personal choice and not a state policy

I am in favour of the use of the Welsh language but think that we have more important things to spend money on currently than promoting the Welsh language. I am therefore not in favour of any money being currently spent on promoting the Welsh language. We should channel money into climate change crisis 1st.

Nododd eraill bwysigrwydd deunydd dwyieithog fel rhan o ddarpariaeth y Gymraeg. Cydnabu rhai fod cost ariannol yn gysylltiedig â hyn y dylai Llywodraeth Cymru, o bosibl, dalu rhan ohoni.

Cwestiwn 14.2 – Prif Themâu

4.11.2 Mae'r tabl isod yn nodi prif bryderon ymatebwyr wedi'u mynegi yn ôl thema, ynghyd â nifer yr ymatebwyr a wnaeth y sylw hwnnw. Mae'n ymdrin â chwestiwn 14.2.

Thema	Cod	Cyfanswm
Cymunedau yng Nghymru	Cefnogi cymunedau yng Nghymru yn well/Cynyddu neu wella gwaith datblygu/cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig e.e. lle mae siaradwyr Cymraeg yn byw/nid yw'r ardaloedd â'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg yn cael digon o fuddsoddiad	15
Gwrthwynebiad cyffredinol	Rwy'n anghytuno â blaenoriaethu'r Gymraeg/yn fy marn i, mae'r Gymraeg yn cael ei gorfodi ar bobl ddi-Gymraeg/mae'n wahaniaethol	10
Dysgu Cymraeg	Dylai'r FfDC gynnwys mynediad at wersi Cymraeg am ddim/a gymorthdelir/addysu cynlluniau Cymraeg/adnoddau ar-lein am ddim	10
Cefnogaeth gyffredinol	Rwy'n cytuno â'r cynigion ar gyfer y Gymraeg/rwy'n credu y dylid annog pobl i ddysgu/defnyddio'r Gymraeg	8

Yr un mor bwysig â'i gilydd	Dylid rhoi'r un pwys ar y Gymraeg a'r Saesneg/ni ddylid trin y naill na'r llall yn llai ffafriol	7
Yr economi/cyflogaeth	Dylid annog pobl i ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle	6
Deddfwriaeth	Mae angen sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith	6
Dysgu Cymraeg	Sicrhau bod dysgu'r Gymraeg yn brofiad plerus	5
Cymunedau yng Nghymru	Dylid defnyddio asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg/gwneud mwy o ddefnydd o asesiadau o'r fath	5
Y sefyllfa bresennol	Dylid parhau â'r polisiâu presennol ar y Gymraeg/mae'r cyfleoedd presennol i ddefnyddio'r Gymraeg yn dda	4
Dysgu Cymraeg	Dylid mabwysiadu dull gweithredu llai rhagnodol/peidiwch â rheoleiddio maes dysgu Cymraeg/gall atal pobl rhag dysgu'r Gymraeg/bod yn wrthgynhyrchiol	3
Cyllid	Rwy'n anghytuno â'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg – dylid tynnu'r cyllid yn ôl/ei leihau e.e. ysgolion cyfrwng Cymraeg	2
Yr economi/cyflogaeth	Mae'r cynigion ar gyfer y Gymraeg yn golygu bod sefydlu busnesau yng Nghymru yn llai deniadol/byddant yn cael effaith negyddol ar economi Cymru	2
FfDC	Caiff y FfDC effaith gadarnhaol ar y Gymraeg/bydd yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg (amhenodol)/gwell cysylltedd	1
Dichonoldeb	Dw i ddim yn credu y gellir cyflawni'r targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg/mae'n afrealistig	1
Nid yw'r cynlluniau yn ddigon manwl	Mapiau	1
<i>Arall (nas nodwyd)</i>		5

Cwestiwn 14.2 – Sylwebaeth

Holodd cwestiwn 14.1 am yr effeithiau y gallai'r FfDC ar ei ffurf ddrafft bresennol eu cael ar y Gymraeg. Gofynnodd y cwestiwn hwn i bobl ystyried sut y gallai'r FfDC gael ei lunio er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a (b) sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Gofynnwyd i bobl ystyried sut y gellid newid y FfDC er mwyn sicrhau y bydd yn cael effaith gadarnhaol neu na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar yr un o'r canlyniadau hyn. Mae'n werth nodi, am fod y ddau gwestiwn hyn yn ymddangos yn agos at ei gilydd ar y ddogfen ymgynghori, y ddau o dan y pennawd “*Y Gymraeg*”, fod yr atebion wedi goryffwrdd weithiau.

Fel o'r blaen, roedd rhai yn gwrthwynebu defnyddio'r Gymraeg fel mater o egwyddor. Fodd bynnag, cafwyd llai o ddatganiadau cyffredinol ynghylch y Gymraeg mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ac roedd yr ymatebion yn canolbwyntio'n fwy ar bolisi. Awgrymodd un ymatebydd fod y targedau ar gyfer y Gymraeg yn afrealistig.

Awgrymodd rhai hefyd nad oedd angen newid polisi Cymru ar yr iaith Gymraeg neu na ddylai'r polisi hwnnw ymyrryd â'r gallu i ddewis iaith. Fodd bynnag, mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar ymatebion a ymdriniodd â'r cwestiynau a ofynnwyd.

Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn canolbwyntio ar sut y gellid sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn nad oedd angen i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal. Fel arfer, mynegwyd hyn fel pobl yn credu mai dim ond un o'r ieithoedd sy'n bwysig neu'n angenrheidiol. Roedd rhai pobl o'r farn mai'r Saesneg oedd yr unig iaith a oedd yn bwysig, tra bod eraill o'r farn mai'r Gymraeg oedd yr unig iaith bwysig.

Weithiau, cymerodd pobl un o'r safbwyntiau hyn heb roi unrhyw resymau i esbonio pam roeddent yn teimlo felly. Mewn achosion eraill, rhoddwyd rheswm (e.e. ymateb i ymddygiad ymosodol canfyddedig tuag at siaradwyr di-Gymraeg; y Gymraeg fel iaith hanesyddol Cymru). Un enghraifft oedd y Gymraeg yn cael ei disgrifio fel iaith “*bonus*”, sy'n dangos safbwynt lle mae'r Saesneg wedi'i normaleiddio fel prif iaith Cymru. Gellid dadlau bod yr holl safbwyntiau hyn, ynddynt eu hunain, yn dangos nad yw'r ieithoedd yn cael eu trin yn gyfartal ar hyn o bryd.

I lawer, roedd sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal yn bwysig, yn gyffredinol ac fel rhywbeth y dylai'r FfDC fynd i'r afael ag ef:

Neither language should be used less favourably than the other, both are of equal importance. Any other interpretation could be seen to be discriminatory. The NDF should not contain any text that suggests otherwise.

Gwnaed sawl awgrym ynglŷn â sut y gellid sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Nid oedd pob un o'r awgrymiadau hyn yn ymwneud yn benodol â'r FfDC ond roedd llawer yn gwneud hynny.

Roedd rhai o'r farn mai'r Saesneg yw'r iaith sydd o dan anfantais yng Nghymru. Awgrymwyd y gallai'r anfantais hon effeithio ar ganlyniadau'r FfDC.

At present there seems to be adverse effects on the non-Welsh speakers as there is now positive discrimination in some parts of Wales if Welsh is not spoken. This will ultimately affect employment and the recruitment of the best skills from the market place and may well jeopardise the Welsh economy in the long-term contrary to the aims of the NDF.

Fodd bynnag, awgrymodd llawer o ymatebion mai'r Gymraeg yw'r iaith y mae angen codi ei statws er mwyn sicrhau cydraddoldeb. Yr awgrymiadau hyn a gaiff eu trafod nawr.

Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod ysgolion yn allweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn codi ei statws fel ei bod yn gyfartal â'r Saesneg.

A policy that focuses attention on the very young /pre-school is the way forward as infants need to be steeped in the Welsh Language at an early age.

Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd y Gymraeg ar gwricwlwm ysgolion cyfrwng Saesneg. Awgrym amgen oedd bod angen rhagor o ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn enwedig mewn datblygiadau newydd mewn ardaloedd lle y siaredir y Gymraeg yn bennaf.

Awgrymodd rhai fod arferion yn y gweithle yn allweddol er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Roedd ymatebion penagored i'r cwestiwn hwn yn llai

datblygedig nag ymatebion ynghylch y Gymraeg a'r gweithle ar gyfer cwestiwn 10 ac roedd mwy o drafodaeth ynghylch y materion a godwyd gan Gymraeg ar gyfer y gweithle nag awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid newid hyn. Codwyd rhai awgrymiadau ynglŷn â'r angen i ymgorffori hyfforddiant a chyfleoedd i siarad Cymraeg mewn gweithleoedd yng Nghymru a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â hyn yng nghyd-destun economi ehangach nad yw'n gweithredu yn Gymraeg. Canolbwyntiodd un ymatebydd ar bwysigrwydd recriwtio pobl i swyddi ar y sail bod angen iddynt ddysgu Cymraeg. Mae'r unigolyn hwn yn awgrymu nad yw'r gofyniad yn cael ei orfodi'n aml ar ôl i staff gael eu recriwtio a, phan fydd cwmni yn noddi rhywun i ddysgu Cymraeg, y dylid monitro pa mor rhugl ydyw yn y Gymraeg er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon ofynnol o fewn y cyfnod gofynnol.

Awgrymodd rhai, er mwyn ennyn diddordeb pobl ddi-Gymraeg, y dylai gweithgarwch i hyrwyddo'r iaith fod yn ehangach ei gwmpas, gan ennyn diddordeb pobl ddi-Gymraeg yn niwylliant yr iaith yn ogystal â'r iaith ei hun.

People who don't speak Welsh, especially those who have moved into Wales don't understand the importance of the language culturally and socially and politically - this needs to change - only then will they become favourable towards it and even PROUD of it. Lots more money is needed to help this group really VALUE the language and support it

Dadl arall oedd mai dim ond pe bai'r canlyniad hwn a'r strategaethau i'w gyflawni yn cael eu hymgorffori mewn deddfwriaeth y gellid sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Gan adleisio pwyntiau a wnaed ynghylch arwyddocâd diwylliannol y Gymraeg, awgrymodd un unigolyn bod angen i Lywodraeth Cymru gael polisi unigol ar iaith a diwylliant.

Trafodwyd pwysigrwydd cydnabod nad yw'r FfDC yn gweithredu ar wahân i bolisiau eraill ac y byddai gweithredu ar hyn yn atgyfnerthu'r cydraddoldeb ieithyddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Er mwyn codi statws y Gymraeg bydd angen mabwysiadu dull gweithredu cydgysylltiedig lle mae ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhedeg drwy bolisi Llywodraeth Cymru:

Welsh Government policies in all aspects of development have an impact on the position of the Welsh language in the community. Therefore, the prosperity of the Welsh language in the community must be placed at the very beginning of the process of formulating Welsh Government policies, strategies and plans in each department, rather than adding the Welsh language as an appendix during the process or at the end. If the Government really wants to ensure the survival and prosperity of the Welsh language, then it must be ensured that the policies of every field - education, employment, housing, etc. - aim specifically at stabilizing and strengthening the Welsh language as a living community language .

Gan bwysleisio'r ffaith bod angen i strategaeth ar gyfer y Gymraeg fod ar waith yn y sector addysg, y sector iechyd a'r sector gofal, mae ymatebydd arall yn rhoi enghraifft i ddangos pam mae'n bwysig bod y FfDC yn ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn perthynas â'r sectorau hyn:

...this is a basic human right, to be able to communicate in your mother tongue when you're in a position of need or in a fragile state. There will be added stress involved for an individual having to resort to a second language when required to explain their

concerns/symptoms/ ailments, and this is especially problematic when dealing with children, those suffering with mental health or dementia and too many of our older Welsh-speaking generation are living in residential homes without care provided in Welsh or an opportunity for them to use the language on an everyday basis.”

Awgrymodd rhywun arall bod angen i'r FfDC atgyfnerthu materion a godwyd gan Cymraeg 2050, sef Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg. Yn benodol, mae Strategaeth y Gymraeg yn galw am i gynllunwyr ieithyddol a datblygwyr gydweithio i greu cymunedau Cymraeg sy'n "hyfyw yn economaidd ac yn ieithyddol". Fel hyn, byddwn yn gallu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chodi ei statws. Awgrymodd ymatebydd arall y byddai dynodi "ardaeloedd o sensitifrwydd ieithyddol" yn diogelu'r dirwedd ieithyddol yn yr un ffordd ag y mae AHNEau a pharciau cenedlaethol yn diogelu'r dirwedd ffisegol. Byddai'r rhain yn:

Areas where development would occur, and might in fact be encouraged, but in a way which is sensitive to the maintenance of Welsh as a community language and for which particular public policy interventions might be required

Dywedodd eraill fod angen i'r FfDC roi mwy o ganllawiau ar godi statws y Gymraeg.

Yn union fel yr awgrymwyd y dylai'r Gymraeg fod wrth wraidd holl bolisiau Llywodraeth Cymru, awgrymwyd hefyd y dylid integreiddio'r Gymraeg yn holl bolisiau a chanlyniadau'r FfDC:

The impact on the Welsh language and the need to consider how the plans work in favour of the Welsh language must be highlighted through the entire document in order to ensure that there is a relationship between each change and policy in the NDF and a positive impact on the language and community well-being.

Contributors responding to these questions agreed that references to the Welsh language should be strengthened throughout the draft NDF. Both the Welsh Government's Welsh Language Strategy and the Well-being goals under the Well-being of Future Generations (Wales) Act acknowledge the importance of the social use of the Welsh language.

Lleisiwyd rhywfaint o bryder nad yw'r FfDC yn cysylltu'r Gymraeg yn benodol â datblygiad economaidd. Gan fod y FfDC yn ddogfen strategol y rhoddwyd cyd-destun gofodol iddi ar gyfer gwaith datblygu, mae hyn yn awgrymu bod rhai yn pryderu bod ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg yn cael eu dileu o brosesau datblygu ac y bydd y Gymraeg yn dioddef o ganlyniad i hynny. Nododd un ymatebydd fod angen i'r FfDC ddarparu ar gyfer ystyriaeth leol o effaith polisi ar y Gymraeg a bod angen cynnal Aseidiadau o'r Effaith ar y Gymraeg:

We consider that clearer and stronger compatible guidance through PPW and TAN20 would assist Local Planning Authorities to develop robust LDP strategies which can positively contribute towards creating opportunities for the Welsh language to develop and thrive. Of specific assistance would be examples of best practice in terms of assessing the impacts of local plans on the Welsh language and the provision of a standardised Welsh Language Impact Assessment methodology

Awgrymwyd y dylai Aseidiadau o'r Effaith ar y Gymraeg gael eu cynnal gan un corff, Comisiynydd y Gymraeg o bosibl.

Awgrym cysylltiedig, fel yng nghwestiwn 10, yw pwysigrwydd y FfDC o ran buddsoddi'n briodol er mwyn cynnal cymunedau lle y siaredir y Gymraeg a sicrhau y byddant yn datblygu ac yn goroesi.

[Organisation name] would like to see recognition within the NDF that supporting rural communities has a positive effect on the use of the Welsh language

Fel enghraifft o fethiant i ystyried y Gymraeg, lleisiwyd pryder na chyfeiriwyd at rai o'r 'Bröydd Cymraeg' yn y ddogfen (e.e. Meirionnydd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin). Lleisiwyd pryder bod hyn yn golygu na chânt eu datblygu ac y gallent ddirywio a fyddai, yn ei dro, yn peri i sefyllfa'r Gymraeg ddirywio. Awgrym arall oedd y dylid defnyddio enwau Cymraeg ym mhob datblygiad newydd.

Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

Cafwyd llai o drafodaeth uniongyrchol ynghylch y ffordd y gall y FfDC greu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod y Gymraeg o dan anfantais oherwydd y FfDC ac roedd teimlad y byddai codi statws y Gymraeg fel ei bod yn gyfartal â'r Saesneg yn creu mwy o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

I rai, roedd cyfle yn ymwneud â buddsoddiad cyfrannol mewn system o arferion a thechnolegau a oedd yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg:

Rhoi yr un hawl i bobl gael defnyddio Y Gymraeg yn gyfartal a'r Saesneg. Rhaid buddsoddi mewn technoleg, addysg a mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn bodoli ac yn cael eu defnyddio gan rannu ymarfer da

Nododd un ymatebydd ei bod yn bwysig bod y system hon yn cynnwys arwyddion dwyieithog er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Tynnwyd sylw ar y ffaith bod mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg mewn cymunedau Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod cysylltiad rhwng creu mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg a'r gwahanol alwadau a wnaed i fuddsoddi mewn cynnal cymunedau Cymraeg oherwydd *"the higher the number of speakers living in a geographical area, the higher the probability of opportunities being available to them to use the language in day-to-day communication"*. I un ymatebydd, mae hyn yn awgrymu proses allweddol y dylid ei chynnal er mwyn sicrhau bod y FfDC yn cynllunio'n well ar gyfer cymunedau o'r fath:

[Organisation name] considers that more effort should have been placed on spatial analysis to establish a mechanism that would be resilient across Wales and for large and small scale communities to identify areas with significant potential for language growth and areas of significant sensitivity, based on a combination of numbers and of percentages Improved support / safeguarding for farming would encourage safeguarding of the language.

Yn olaf, cyfeiriwyd at weithgarwch addysgu a dysgu er mwyn creu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Y rheswm dros hyn yw ei fod yn meithrin sgiliau a hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn ogystal â chynnig cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ynddi'i hun. Ymhlith yr awgrymiadau a wnaed ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg roedd: darpariaeth mewn ysgolion; darpariaeth mewn cymunedau; darpariaeth mewn gweithleoedd; adnoddau

ar-lein am ddim ar gyfer dysgu'r iaith a dysgu am ddiwylliant Cymru (a ariennir gan Lywodraeth Cymru); cyhoeddi a chefnogi ymgyrch Dywedwch Rywbeth yn Gymraeg; gwneud mwy i alluogi pobl sy'n byw yng ngwledydd eraill y DU i barchu a gwerthfawrogi'r Gymraeg (ymgyrch farchnata); rhaglen helaeth a chynhwysfawr “*teach Welsh*”, y mae cryn gyhoeddusrwydd wedi'i rhoi iddi. Mae'r rhaglen hon, sydd ar gael am ddim, yn defnyddio'r teledu, y rhyngwrwd a dosbarthiadau wyneb yn wyneb; a darparu ar gyfer cyrsiau a gymorthdelir gan y llywodraeth er mwyn annog addysgu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn Ne-ddwyrain Cymru.

Cyflwyniad Safonedig

15 individuals submitted responses detailing concerns about the impact to the Welsh language. Specifically, the proposed three regions being unsuited due to a variety of criteria; the risk of overdevelopment of Carmarthenshire, the north-west and north-east; and the encouragement of inward and outward migration through west to east rather than north to south transport links. The submission strongly opposed non-elected members on SDP committees, the enforcement of SDPs, and designating specific areas as areas for growth. The submission suggested a specific policy to increase the numbers of primarily Welsh speaking communities, re-use existing housing stock and re-opening Carmarthen-Aberystwyth railway.

Ymatebion ynghylch y Gymraeg – Effeithiau ar y Gymraeg

- 4.11.3 Dim ond nifer bach o'r ymatebion a ymdrinodd â'r cwestiwn drwy roi adborth ar effaith debygol y FfDC ar y Gymraeg ac awgrymu sut y gellid gwella'r effeithiau cadarnhaol. Dylai'r pryderon ynghylch yr effaith y bydd strategaeth ofodol sy'n canolbwyntio ar ardaloedd trefol yn ei chael ar gymunedau gwledig, gan gynnwys llawer sy'n ardaloedd lle mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, gael eu lleihau gan yr ystyriaeth fwy manwl o faterion gwledig sy'n cael ei chynnig. Mae ychwanegu polisi ar yr economi wledig (gweler paragraff 4.2.46) a chydabod y Canolbarth fel rhanbarth ar wahân (gweler paragraff 4.7.51) yn newidiadau arfaethedig pwysig sy'n dangos ein hymrwymiad i ddatblygu gwledig cynaliadwy.
- 4.11.4 Codwyd diffyg ffocws ar faterion trafniadaeth fel ffactor a allai effeithio ar gymunedau Cymraeg; dylai'r polisiau arfaethedig newydd ar gysylltedd cenedlaethol a rhanbarthol yn benodol sicrhau manteision clir i gymunedau ym mhob rhan o Gymru (gweler paragraff 4.8.10). Bydd gwell cysylltedd a mwy o fuddsoddiad mewn seilwaith trafniadaeth rhanbarthol a lleol yn gwneud busnesau yn fwy cystadleuol, gan alluogi twf cyflogaeth a mynediad gwell at wasanaethau. Gall y gwelliannau hyn fod o fudd i bob cymuned ac, yn benodol, gallent gefnogi'r economi wledig, sy'n bwysig i lawer o gymunedau Cymraeg.
- 4.11.5 Lleisiwyd pryder, er bod y FfDC yn gosod esiampl gadarnhaol o ystyried yr iaith drwy bennu Canlyniad clir a phenodol ar gyfer y FfDC, y byddai cyflawni'r canlyniad hwnnw yn dibynnu'n llwyr ar Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae'r ffaith nad oedd polisi penodol ar y Gymraeg yn y FfDC yn cael ei ystyried yn wendid hefyd. Yn ein barn ni, mae'r Gymraeg yn llinyn sy'n rhedeg drwy bob agwedd ar y FfDC, ynghyd â'r nodau llesiant eraill. Nid yw'r

Gymraeg yn ddefnydd tir nac yn fater i'w ystyried ar wahân ac, felly, y ffordd fwyaf priodol o ymdrin â hi yw drwy ei hintregreiddio yn strategaeth gyffredinol y cynllun. Rydym wedi ceisio dangos y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn gliriach drwy fodel cyd-destunol ym Mhennod 1, diwygiadau i Ganlyniad 4 a chyfeiriadau mwy manwl at yr iaith ym mhob adran ranbarthol.

4.11.6 Gall y FfDC, a haenau eraill o'r cynllun datblygu, wella llesiant yr iaith drwy ddatblygu strategaethau gofodol sy'n helpu i sicrhau bod y datblygiadau cywir yn digwydd yn y lleoedd cywir. Gall hyn fod yn fwy effeithiol na pholisïau sy'n dweud pethau cadarnhaol am yr iaith ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith yn y pen draw. Ymhlith yr ardaloedd twf a nodwyd yn y FfDC drafft roedd lleoedd â nifer a/neu ganran sylweddol o siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys Caerdydd, Bae Abertawe a Llanelli, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, Caerfyrddin, Aberystwyth, Bangor a Chaernarfon; ystyriodd y weledigaeth ar gyfer twf a gwaith datblygu yn y lleoedd hyn yn benodol eu pwysigrwydd fel canolfannau o fywyd a diwylliant Cymraeg. Rydym yn cynnig y bydd y FfDC diwygiedig hefyd yn nodi Dyffryn Teifi fel Ardal Twf Rhanbarthol. Mae hon yn ardal arall lle mae'r iaith yn ganolog i gymunedau a gall lefel a dosbarthiad priodol o dwf yn yr ardal helpu i gynnal a thyfu cymunedau Cymraeg yn yr ardal. Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau manwl a chynigion datblygu yn cydnabod ac yn adlewyrchu pwysigrwydd y gwahanol ardaloedd twf i'r Gymraeg.

Mae'r newidiadau arfaethedig a nodwyd yn ymdrin â Chasgliad 8 gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Gweler adran 5.

5. Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r [adroddiad](#) dyddiedig Rhagfyr 2019

Casgliadau	Ymateb
<p>Casgliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio canlyniadau'r Fframwaith i gyfleu gweledigaeth hirdymor mwy beiddgar. Mae angen datblygu dimensiwn cenedlaethol y strategaeth yn llawnach.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Caiff penodau rhagarweiniol y Fframwaith, hyd at a chan gynnwys Canlyniadau'r Fframwaith, eu diweddarau a byddant yn nodi rôl y Fframwaith yn gliriach a'r ffordd y gall helpu i sicrhau newidiadau beiddgar. Caiff y Canlyniadau eu cryfhau a'u hategu gan fframwaith monitro.</p> <p>Caiff Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, ei hehangu drwy bolisiau ychwanegol ar faterion gwledig, trafnidiaeth, cyfathrebu digidol a pherygl llifogydd. Bydd cyfeiriadau cliriach at y cysylltiadau rhwng y materion cenedlaethol a'r materion rhanbarthol, drwy groesgyfeirio a defnyddio strwythurau cyson.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 2. Dylai'r Fframwaith ddefnyddio set o egwyddorion clir ar gyfer datblygu cynaliadwy, sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, i fod yn sail i ganllawiau ar nodi lleoliadau priodol ar gyfer twf a datblygiad.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Roedd y Fframwaith drafft yn nodi sut y gwnaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i diffiniad o ddatblygu cynaliadwy, ei lywio yn ystod y broses o'i baratoi. Caiff Pennod 1 o'r Fframwaith ei diwygio er mwyn sicrhau ei bod yn cyfleu negeseuon allweddol yn glir.</p> <p>Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy ar bob cam o'r broses o ddatblygu'r Fframwaith ac yn sicrhau ei fod yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 3. Mae lle i archwilio a chyflwyno'n well oblygiadau'r heriau a'r cyfleoedd a nodwyd ar gyfer pob ardal yng Nghymru. Ar gyfer pob ardal, dylai'r Fframwaith fapio'r dimensiynau demograffig, economaidd ac</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y bydd cyfleu materion allweddol ar ffurf ofodol yn cryfhau'r Fframwaith ac yn helpu i esbonio'n well yr heriau a'r cyfleoedd y mae'r Fframwaith yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Caiff Pennod 2 a'r adrannau rhanbarthol eu diwygio i gynnwys mwy o fapiau a chyflwyno data ar ffurf graffig.</p>

Casgliadau	Ymateb
amgylcheddol ac ar gyfer y Gymraeg	Goblygiad Ariannol: Dim.
<p>Casgliad 4. Mae angen rhesymeg gliriach dros ddyrannu polisiau rhwng y Fframwaith a Pholisi Cynllunio Cymru. Dylai polisiau nad ydynt yn rhai gofodol gael eu cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru. Pan fydd polisi cenedlaethol wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac nid yn y Fframwaith, dylai'r Fframwaith gyfeirio at y polisi hwnnw.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y gallai'r berthynas rhwng y ddwy ddogfen, a'r ffordd y dyrennir polisiau, gael eu mynegi'n gliriach.</p> <p>Roedd y polisiau a gynhwyswyd yn y Fframwaith drafft yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth a amlinellwyd mewn dogfennau strategaeth allweddol, yn enwedig lle mae'r rhain yn cynnwys elfen ofodol, ac mae PCC yn cwmpasu pob mater pwysig sy'n berthnasol i'r system gynllunio.</p> <p>Bydd Pennod 1 o'r Fframwaith yn rhoi rhesymeg glir dros ddyrannu polisiau ac mae wedi'i osod mewn esboniad diwygiedig o'r berthynas rhwng y dogfennau. Caiff diagram eglurhaol ei gynnwys sy'n dangos y meysydd pwnc a gwmpesir yn y ddwy ddogfen. Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn ceisio nodi lle mae'r pynciau yn cael eu cwmpasu gan y ddwy ddogfen a lle nad yw hynny'n digwydd.</p> <p>Er mwyn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng polisiau'r Fframwaith a PCC, byddwn yn cynnwys croesgyfeiriadau gweledol ochr yn ochr â phob polisi, ac yn dwyn ynghyd yr holl ddolenni mewn atodiad i'r Fframwaith.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi matrices neu grid sy'n nodi ac yn croesgyfeirio'r berthynas rhwng y Fframwaith a pholisiau eraill yn glir.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Cydnabyddir bod eglurder a thryloywder ynghylch y berthynas rhwng dogfennau polisi yn bwysig. Caiff asesiad cynaliadwyedd integredig ei gyhoeddi ar y cyd â'r Fframwaith, ac mae hwn yn amlinellu cwmpas dogfennau sy'n rhannu perthynas â'r Fframwaith.</p> <p>Mae'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i gasgliad 4 yn gymwys i'r casgliad hwn a byddant yn rhoi eglurder ynglŷn â'r berthynas rhwng y Fframwaith a pholisiau eraill. At hynny, caiff datganiadau ar y ffordd y mae'r Fframwaith yn cysylltu â strategaethau eraill bellach eu cynnwys.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>Casgliad 6. Dylai'r asesiad o heriau a chyfleoedd yn y Fframwaith osod Cymru yn ei chyd-destun geowleidyddol ehangach a mynd i'r afael â'i pherthnasoedd allanol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu dulliau o annog cydweithredu trawsffiniol ar faterion cynllunio gofodol sydd o ddiddordeb i'r naill a'r llall.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y byddai Pennod 2 o'r Fframwaith yn cael ei chryfhau drwy roi cyd-destun ehangach y DU a'r cyd-destun geowleidyddol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cyfleoedd i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion cynllunio gofodol ond mae'n cydnabod bod y cyd-destun deddfwriaethol a'r dull o ymdrin â chynllunio gofodol dipyn yn wahanol yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda swyddfeydd Meiri'r Awdurdodau Cyfun yn ne-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a gogledd-orllewin Lloegr wrth baratoi'r Fframwaith drafft. Mae fforymau megis cyfarfodydd Prif Swyddogion Cynllunio'r pum gweinyddiaeth a'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig wedi cael eu defnyddio i ddatblygu dulliau gweithredu a rennir lle y bo modd. Mae cyfleoedd i gydweithredu ar faterion cynllunio gofodol a fydd yn fuddiol i bawb, er enghraifft gwaith presennol Comisiwn Geo-ofodol y DU i ddatblygu'r gallu i fapio, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i fod yn rhan o hynny.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 7. Rydym yn siomedig nad oes digon o aliniad a chydgyfnewidioldeb rhwng y Fframwaith, y Strategaeth Drafndiaeth, Cynllun Carbon Isel Cymru, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd egluro sut y bydd y Fframwaith yn cefnogi'r economi sylfaenol.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Rydym yn cytuno y caiff y Fframwaith ei gryfhau pan gaiff ei ategu gan strategaethau a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru. I ryw raddau, dylai hyn ddatblygu mewn ffordd organig wrth i ddogfennau megis y Strategaeth Drafndiaeth a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gael eu diwygio yn y blynyddoedd sydd i ddod. Cyhoeddwyd papur esboniadol yn esbonio sut y bydd y Fframwaith yn datblygu wrth iddo gael ei ddiwygio ym mis Ionawr 2020.</p> <p>Bydd y Fframwaith diwygiedig yn egluro'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng y Fframwaith a dogfennau sy'n bodoli eisoes, megis Cymru Carbon Isel a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.</p> <p>Bydd y Fframwaith diwygiedig yn cynnwys cyfeiriadau ychwanegol at yr economi sylfaenol, fel y'i diffiniwyd yn Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi. Pan gaiff elfennau arwahanol o'r economi sylfaenol eu nodi yn y Fframwaith, byddwn yn nodi bod hyn yn rhan o'r economi sylfaenol.</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru wneud datganiad ynghylch sut y bydd y polisiau yn y Fframwaith yn cyfrannu at ei uchelgais i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Caiff Canlyniad 4 y Fframwaith ei ddatblygu, gan nodi sut y gall cynllunio gyfrannu at yr uchelgais ehangach o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys amcan penodol ar y Gymraeg ac yn cynnwys datganiadau sy'n esbonio'r ffordd y mae polisiau'r Fframwaith yn cyfrannu at uchelgeisiau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y dylid monitro'r Fframwaith.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y byddai'r Fframwaith yn cael ei gryfhau pe bai esboniad o'r ffordd y caiff ei fonitro a'i adolygu. Caiff Pennod 3 ei hehangu i roi trosolwg o'r dull gweithredu arfaethedig a chaiff papur ategol sy'n esbonio'r broses monitro ac adolygu ei gyhoeddi.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 10. Dylai'r Fframwaith fabwysiadu'r model pedwar rhanbarth a argymhellir gan Brifysgol Caerdydd.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Daw 'Dynodi Ardaloedd Rhanbarthol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol', sef adroddiad gan Brifysgol Caerdydd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017, i'r casgliad y dylai'r Fframwaith gynnwys pedwar rhanbarth, gyda Cheredigion yn rhan o ranbarth y de-orllewin a Phowys yn rhan o ranbarth Dwyrain Canolbarth Cymru yn ei rhinwedd ei hun. Mae'r adroddiad yn cydnabod y gall rhanbarth awdurdod sengl achosi problemau, gan nodi:</p> <p>Fodd bynnag, os penderfynir gan Lywodraeth Cymru na ddylai un awdurdod sengl greu rhanbarth, awgrymir rhoi ystyriaeth i ranbarth sy'n cynnwys Ceredigion a Phowys o ystyried y cysylltiadau gogleddol sy'n bodoli rhwng y ddau Awdurdod Unedol a rhywfaint o'r dadansoddiad rhanbartholi. Cydnabyddir fod y cysylltiadau mwyaf naturiol i rannau helaeth o Geredigion gyda do orllewin Cymru, yn enwedig Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, yn hytrach na Phowys. Bydd rhaid adlewyrchu hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Strategol</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>Cytunir y dylai'r Fframwaith fabwysiadu'r model pedwar rhanbarth a argymhellwyd gan Brifysgol Caerdydd ar y sail y dylai rhanbarth gynnwys mwy nag un awdurdod.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 11. Dylai'r Fframwaith gydnabod y cyfleoedd i bobl fyw a gweithio'n gynaliadwy y tu allan i drefi a dinasoedd.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod yn rhaid i ardaloedd gwledig gynnig cyfleoedd i bobl fyw a gweithio yno er mwyn iddynt barhau'n lleoedd cynaliadwy, gwydn a llwyddiannus, sy'n ategu ardaloedd trefol mawr yn hytrach na chystadlu â nhw.</p> <p>Mae'r Fframwaith yn cefnogi twf cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru. Caiff Ardaloedd Twf Cenedlaethol eu hategu gan Ardaloedd Twf Rhanbarthol a fydd yn tyfu, yn datblygu ac yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a masnachol ar raddfa ranbarthol. Dylai datblygu a thwf mewn trefi a phentrefi mewn ardaloedd gwledig fod yn gymesur ac ar raddfa briodol, a chefnogi dyheadau ac anghenion lleol. Ni ddylent fod yn destun lefelau twf allai arwain at greu aneddiadau lloeren anghynaliadwy</p> <p>Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, bydd polisi 4 yn y Fframwaith drafft ar gymunedau gwledig yn cael ei rannu'n ddau bolisi: Polisi 4 diwygiedig Cefnogi Cymunedau Gwledig a Pholisi 5 newydd arfaethedig Cefnogi'r Economi Wledig. Y nod yw rhoi ffocws cliriach ar y materion sy'n berthnasol i bob polisi a mwy o fanylion amdanynt, a fydd, gyda'i gilydd, yn rhoi strategaeth fwy cydlynol ar gyfer ardaloedd gwledig.</p> <p>Mae'r Fframwaith diwygiedig yn cefnogi cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn gryf; y nod yw sicrhau twf cynaliadwy o ran yr economi a thai a chynnal a gwella mynediad at wasanaethau.</p> <p>Mae'r Fframwaith diwygiedig yn cydnabod yr angen am sylfaen economaidd eang i roi cyfleoedd cyflogaeth a lefelau sgiliau a chyflogau uwch, ac mae'n nodi'r sectorau y dylai Awdurdodau Cynllunio geisio eu hannog, gan gynnwys y sector sylfaenol (yn enwedig twristiaeth a bwyd a diod), arallgyfeirio amaethyddol a mentergarwch arloesol ac uwch-dechnoleg.</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>Mae'r Fframwaith diwygiedig yn pwysleisio y dylai aneddiadau adlewyrchu egwyddorion da o ran creu lleoedd er mwyn creu lleoedd llesol a ffyniannus lle y gall pobl gerdded a beicio a lle maent yn llai dibynnol ar geir, gan arwain at fwy o fuddiannau iechyd a lles. Caiff mentrau trafndiaeth gyhoeddus eu cefnogi, ynghyd â theithio llesol, a thwf rhwydweithiau gwefru trydan. Mae'r Fframwaith yn cefnogi cysylltiadau strategol cryfach ar draws a rhwng rhanbarthau.</p> <p>Mae'r Fframwaith diwygiedig yn nodi y dylai Rhanbarthau weithio gyda'i gilydd i nodi ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau trafndiaeth strategol cryfach rhwng ardaloedd gwledig a threfi mwy o faint a dinasoedd er budd economaidd pawb.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 12. Dylai'r Fframwaith bennu strategaeth gadarnhaol ar gyfer adfywiad a datblygu economaidd a chymdeithasol yng nghefn gwlad Cymru. Dylai'r strategaeth hon annog twf economaidd priodol, gwell cysylltiadau trafndiaeth a chysylltedd ecolegol.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y dylai'r Fframwaith gael ei ddiwygio i gyflwyno neges fwy cadarnhaol ar gyfer ardaloedd gwledig. Mae'r Polisi 5 arfaethedig yn tynnu sylw at y cyfleoedd ar gyfer twf a datblygiad mewn ardaloedd gwledig ac yn cydnabod yr heriau y mae angen eu hateb er mwyn sefydlu lleoedd gwydn a chynaliadwy, yn economaidd ac yn gymdeithasol.</p> <p>Caiff Polisi 4 yn y Fframwaith drafft ar gymunedau gwledig ei rannu'n ddau bolisi: Polisi 4 diwygiedig, Cefnogi Cymunedau Gwledig, a Pholisi 5 newydd, Cefnogi'r Economi Wledig. Y nod yw rhoi ffocws cliriach ar y materion sy'n berthnasol i bob polisi a mwy o fanylion amdanynt, a fydd, gyda'i gilydd, yn rhoi strategaeth fwy cydlynol ar gyfer ardaloedd gwledig.</p> <p>Bydd y Fframwaith diwygiedig yn nodi'r sectorau sy'n bwysig i ardaloedd gwledig ac a ddylai gael eu cefnogi. Mae angen i'r economi wledig sefydlu sylfaen cyflogaeth a sgiliau eang i feithrin gwydnwch a chynaliadwyedd. Mae'n hanfodol bod cyfleoedd yn bodoli mewn ardaloedd gwledig i gadw pobl o oedran gweithio, helpu i fynd i'r afael â materion cymdeithasol, a chyfrannu at lesiant. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn cefnogi'r sector sylfaenol (gan bwysleisio sectorau megis twristiaeth a bwyd a diod), busnesau newydd, micro-fusnesau, amaethyddiaeth ac arallgyfeirio. Mae'r Fframwaith diwygiedig hefyd yn cydnabod pwysigrwydd busnesau arloesol ac uwch-dechnoleg mewn ardaloedd gwledig er</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>mwyn eu helpu i gyrraedd eu potensial llawn. Dylai awdurdodau cynllunio annog twf pob un o'r sectorau hyn, a'r rhwydweithiau cyflenwi a dosbarthu, drwy bolisiau mewn cynlluniau datblygu strategol a lleol.</p> <p>Bydd y Fframwaith diwygiedig yn pwysleisio y dylai aneddiadau gwledig adlewyrchu egwyddorion da o ran creu lleoedd er mwyn creu lleoedd llesol a ffyniannus lle y gall pobl gerdded a beicio ac lle maent yn llai dibynnol ar geir, gan arwain at fwy o fuddiannau iechyd a lles. Caiff mentrau trafndiaeth gyhoeddus eu cefnogi, ynghyd â theithio llesol, a thwf rhwydweithiau gwefru.</p> <p>Bydd y Fframwaith diwygiedig yn pwysleisio' angen i wella trafndiaeth a chysylltedd yn gyffredinol ledled Cymru. Mae'n cynnwys Polisi 11 newydd, Cysylltedd Cenedlaethol newydd a Pholisi 12 newydd, Cysylltedd Rhanbarthol.</p> <p>Manylir ar gysylltedd ecolegol ym Mholisi 8 drafft, sef Fframwaith Strategol ar gyfer Gwella Bioamrywiaeth a Sicrhau bod Ecosystemau yn Wydn. Caiff hwn ei ddiwygio ac ei ail-rifo'n Bolisi 9 arfaethedig, sef Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd.</p> <p>Nodir natur hanfodol systemau cyfathrebu digidol mewn ardaloedd gwledig er mwyn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol ac economaidd, mynediad at wasanaethau a helpu i fynd i'r afael ag ynysu ac allgau a gwella llesiant. Mae'r Fframwaith diwygiedig yn cefnogi'r angen am seilwaith digidol cyflym, modern mewn ardaloedd gwledig. Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol weithio gyda gweithredwyr ffonau symudol a band eang er mwyn sicrhau eu bod yn asesu anghenion ardaloedd gwledig ac yn cynllunio ar eu cyfer drwy broses y cynlluniau datblygu strategol a lleol. Bydd Ardaloedd Gweithredu Symudol yn cyfrannu at yr amcan hwn ac mae polisi Cyfathrebu Digidol hefyd wedi cael ei gyflwyno yn y Fframwaith.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y strategaeth yn y Fframwaith yn cael ei rhoi ar waith cyn i Gynlluniau Datblygu Strategol gael eu</p>	<p>Derbyn</p> <p>Daw'r Fframwaith yn weithredol fel cynllun datblygu o'r diwrnod y caiff ei gyhoeddi a chaiff ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniadau. Pan gaiff y Fframwaith ei gyhoeddi, efallai y bydd angen adolygu cynlluniau</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>mabwysiadu. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi dangos nad oes ganddynt fawr o ddyhead i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y gellir eu cymell i ddatblygu cynlluniau o'r fath.</p>	<p>datblygu lleol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r Fframwaith.</p> <p>Gan gydnabod nad oes cynlluniau datblygu strategol ar waith eto, mae'r Fframwaith yn rhoi ffocws ar gynllunio rhanbarthol. Mae polisiau rhanbarthol y Fframwaith yn amlinellu'r materion rhanbarthol allweddol a nodwyd drwy'r broses o baratoi'r cynllun, er mwyn rhoi man cychwyn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol. Mae hyn yn rhoi cyd-destun ar gyfer cynllunio rhanbarthol cyn i gynlluniau datblygu strategol gael eu mabwysiadu. Gan fod yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol gydymffurfio â'r Fframwaith yn ôl y gyfraith, mae cynnwys rhanbarthol y Fframwaith yn rhoi amlinelliad clir o'r materion y mae'n rhaid i gynlluniau datblygu strategol fynd i'r afael â nhw Mae Polisi 19 arfaethedig ym Mhennod 5 o'r Fframwaith yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol.</p> <p>Bydd polisiau rhanbarthol y Fframwaith yn canolbwyntio camau gweithredu a buddsoddiad Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y pedwar rhanbarth, gan nodi materion gofodol strategol allweddol a rhoi fframwaith ar gyfer cydgysylltu'r broses o gyflawni polisiau cenedlaethol ym maes yr economi, tai, adfywio, yr amgylchedd, llifogydd, ynni, ardaloedd gwledig a thrafnidiaeth. Bydd cynlluniau datblygu strategol, ar ôl iddynt gael eu paratoi, yn datblygu polisiau rhanbarthol y Fframwaith ac yn ychwanegu manylion atynt.</p> <p>Un nodwedd bwysig ar y system cynllunio datblygu dair haen yw gallu cynlluniau datblygu eraill sy'n cael eu datblygu a'u mabwysiadu i ddylanwadu ar gynlluniau haen uwch. Dros amser, disgwylir i'r Fframwaith, y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r CDLlau lywio ei gilydd a bydd y berthynas hon yn sicrhau system gynllunio effeithiol a chadarn ar bob lefel.</p> <p>Cafodd y Fframwaith ei baratoi i gefnogi'r broses o gyflwyno cynlluniau datblygu strategol yn uniongyrchol. Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2019 wedi ystyried cynllunio rhanbarthol yn benodol, ac mae'n rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i weithio gyda'i gilydd i baratoi cynlluniau datblygu strategol. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd ynglŷn â chyflawni cynlluniau datblygu strategol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried defnyddio ei phwerau ymyrryd os bydd angen er mwyn</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>dechrau ac ysgogi'r broses o baratoi cynlluniau datblygu strategol.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod cynllunio strategol cenedlaethol a rhanbarthol a bargeinion dinas-ranbarth yn cael eu cydgysylltu a'u halinio'n briodol. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan pa bryd, yn ôl ei dealltwraeth hi, y bydd cynlluniau Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn cael eu cyhoeddi.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae Ffyniant i Bawb yn nodi bod y Fframwaith yn chwarae rôl ganolog o ran ysgogi twf cynaliadwy a gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd drwy lywio cynlluniau datblygu strategol dros yr 20 mlynedd nesaf.</p> <p>Mae'r Fframwaith yn cefnogi'r broses o roi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar waith a bydd yn helpu i gynllunio'r seilwaith cysylltiedig modern y mae'r Cynllun yn ceisio ei gyflawni ac i gael y cysyniadau angenrheidiol, gan sicrhau bod swyddi yn agosach i gartrefi; a datblygu dull cynllunio a chyflawni rhanbarthol cadarnach.</p> <p>Bydd bargeinion dinesig a darparu seilwaith i ysgogi twf mewn ardaloedd rhanbarthol ehangach yn dibynnu ar y system gynllunio er mwyn helpu i gydgysylltu'r broses o gyflwyno seilwaith, defnyddiau tir a manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad mewn rhanbarthau.</p> <p>Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (FfERh) mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid er mwyn llywio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymdrin â datblygu economaidd drwy ganolbwyntio ar ranbarthau.</p> <p>Mae Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn cynnwys ymrwymiad i fynd i'r afael fwyfwy â datblygu'r economi ar lefel rhanbarthau ac yn nodi'r bwriad i ddatblygu cynlluniau economaidd rhanbarthol ym mhob un o ranbarthau Cymru.</p> <p>Ar ôl trafod â rhanddeiliaid, y farn gyffredin yw nad oes angen cynllun ond bod yn hytrach angen Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy'n nodi set o flaenoriaethau economaidd a rennir ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector a fframwaith ar y cyd ar gyfer eu cyflawni ym mhob un o'r rhanbarthau. Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (FfERh) yn gyfryngau pwysig ar gyfer annog cydweithio a'r bwriad yw i'r FfERh fod yn strategaeth datblygu economaidd lefel uchel a thymor hir ym mhob rhanbarth, o dan</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>arweiniad Llywodraeth Cymru. Cânt eu dylunio a'u cyflawni ar y cyd â'r partneriaid rhanbarthol.</p> <p>Bydd y FfERh yn nodi ac yn datblygu y cryfderau unigryw ym mhob rhanbarth o Gymru, gan gefnogi twf economaidd sy'n gynhwysol ac sy'n gynaliadwy. Byddant yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i oresgyn anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, gan helpu Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae hyn yn gyson ac yn gyflenwol â'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol (Cymru-gyfan) ac mae gwaith yn cael ei wneud ar y cyd trwy gydweithrediad clos â WEFO.</p> <p>Mae'r timau rhanbarthol o dan arweiniad y Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi bod yn gweithio gyda'r prif randdeiliaid a phartneriaid dros y misoedd diwethaf i gasglu tystiolaeth ar gyfer datblygu'r FfERh a bydd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau cydweithio mwy dros y misoedd i ddod, gyda golwg ar gyhoeddi'r FfERh yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo i alinio a bwydo'r Bargeinion Twf a Dinesig, prosiect yr OECD ar lywodraethu a buddsoddi rhanbarthol, syniadau WEFO ar Gronfeydd Buddsoddi Rhanbarthol, safbwynt Llywodraeth Leol ar CJC's ac amrywiaeth o waith datblygu economaidd ar draws Lywodraeth Cymru, yn dylanwadu ar gynnwys ac amseriad y FfERh. At hynny, bydd egwyddorion cyd-ddylunio a chyd-ddatblygu'n sail i'r FfERh, a byddant o'r oherwydd yn adlewyrchu'r cyflymder y bydd partneriaid ym mhob rhanbarth am fwrw ati, yn hytrach nag ar amserlen Llywodraeth Cymru.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 15. Dylai'r strategaeth a nodir yn y Fframwaith fod â phwrpas economaidd cliriach.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Rydym yn cytuno y byddai'r Fframwaith yn cael ei gryfhau pe bai datganiadau cliriach ar uchelgeisiau economaidd yn cael eu cynnwys. Caiff cysylltiadau rhwng y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi eu gwneud yn fwy eglur, gan gynnwys cydnabod rôl yr economi sylfaenol (gweler hefyd Gasgliad 7).</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>Casgliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tystiolaeth o'r capasiti i ddatblygu yn y canolfannau trefol presennol a'r tir sy'n eiddo cyhoeddus sydd ar gael i'w ddatblygu ar y raddfa ac yn y lleoliadau sy'n ofynnol i gefnogi strategaeth y Fframwaith.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Nid yw'r Fframwaith yn pennu targedau ar gyfer lefelau twf, ac felly nid ystyrir bod astudiaethau capasiti penodol yn briodol nac yn angenrheidiol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwaith mapio sy'n dangos hyd a lled newidiadau o ran defnydd tir mewn lleoliadau trefol, gan gynnwys y lleoedd hynny a enwyd yn strategaeth y Fframwaith drafft, dros yr 20 mlynedd diwethaf.</p> <p>Mae tir o dan berchenogaeth gyhoeddus yn cynnwys daliadau Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, y GIG, y Weinyddiaeth Amddiffyn a Cyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd Uned Tir Cyhoeddus ei sefydlu'n ddiweddar o fewn Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar sicrhau datblygiadau drwy dir o dan berchenogaeth gyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mantais datblygu un gofrestr a map o dir o dan berchenogaeth gyhoeddus ond nid yw hyn yn bodoli eto.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 17. Dylai polisïau sy'n ymwneud ag aneddiadau newydd fod yn gyson rhwng y Fframwaith a Pholisi Cynllunio Cymru.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae PCC yn rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer aneddiadau newydd a'r broses y bydd cynllun datblygu yn ei dilyn i ddynodi un. Mae PCC yn ei gwneud yn bosibl i aneddiadau newydd gael eu nodi o dan amgylchiadau penodol, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu eu nodi.</p> <p>Ni chytunwn â'r casgliad bod PCC a'r Fframwaith yn anghyson â'i gilydd. Mae'r Fframwaith hwn yn nodi nad oes angen aneddiadau newydd ar hyn o bryd ac y dylem ganolbwyntio ar welliannau radical i ddinasoedd a threfi sy'n bodoli eisoes, er mwyn mynd i'r afael ag amddifadedd, anghydraddoldeb a gwella'r ystod o wasanaethau a gynigir ganddynt a'u hansawdd. Nid yw'r safbwynt hwn yn atal fersiynau o'r Fframwaith yn y dyfodol rhag nodi bod angen aneddiadau newydd os yw'r dystiolaeth yn awgrymu eu bod yn angenrheidiol.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 18. Dylai'r Fframwaith wneud datganiad cliriach am rôl bwysig</p>	<p>Derbyn</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>prifysgolion wrth gefnogi datblygu strategol ac adnewyddu ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol.</p>	<p>Cytunir y dylai Pennod 2 o'r Fframwaith nodi'r cyfle y mae prifysgolion yn ei gynnig i gefnogi datblygu strategol. Bydd pob adran ranbarthol hefyd yn cael ei diwygio i nodi pwysigrwydd prifysgolion ym mhob rhanbarth.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>Casgliad 19. Credwn fod y Fframwaith yn allweddol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Dylai'r Fframwaith edrych y tu hwnt i ddatgarboneiddio a mynd i'r afael ag agweddau eraill ar newid yn yr hinsawdd megis risg llifogydd, rheoli dŵr a'r goblygiadau ar gyfer cynllunio'r arfordir.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cynigir polisi newydd ar berygl llifogydd (Polisi 8), sy'n cydnabod difrifoldeb perygl llifogydd mewn rhai rhannau i'r Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol a'r angen i reoli perygl llifogydd mewn ffordd gynaliadwy.</p> <p>Mae Canlyniadau'r Fframwaith wedi cael eu diwygio i gryfhau a datblygu cyfeiriadau at newid yn yr hinsawdd, yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.</p> <p>Bydd y diwygiadau i Bennod 2 yn cynnwys rhoi mwy o gyd-destun ar newid yn yr hinsawdd a materion cysylltiedig, gan gynnwys perygl llifogydd, rheoli dŵr a chynllunio'r arfordir.</p> <p>Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys polisiâu ar y rôl y mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn ei chwarae, gan gynnwys diogelu gwasanaethau ecosystemau a darparu seilwaith gwyrdd, ac mae creu cysylltiad rhwng y rhain a materion rheoli tir ehangach, y mae pob un ohonynt yn hollbwysig fel rhan o'r ymateb i'r argyfwng hinsawdd.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 20. Dylai'r canlyniad newid yn yr hinsawdd gwmpasu tai a dylai'r canlyniad ar gyfer cartrefi a thai fynd i'r afael â'r mathau o gartrefi y mae angen i Gymru eu hadeiladu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Caiff Canlyniadau'r Fframwaith eu diwygio i gryfhau a datblygu cyfeiriadau at newid yn yr hinsawdd, yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad a chasgliad y Pwyllgor.</p> <p>Caiff Canlyniad 11 ei ddiwygio'n benodol i nodi y bydd angen i gartrefi newydd fod yn effeithlon o ran ynni a helpu cymunedau i ymaddasu at yr hinsawdd newidiol.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>Casgliad 21. Dylai'r Fframwaith fynegi dimensiwn gofodol ei strategaeth ar gyfer datgarboneiddio trafndiaeth a gwresogi. Dylai nodi'n gliriach sut y dylid sicrhau llai o ddibyniaeth ar gerbydau preifat mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn mynegi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau dibyniaeth ar geir preifat a chefnogi newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n cydnabod y bydd sicrhau'r newid moddol hwn yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatgarboneiddio a gwella ansawdd aer.</p> <p>Mae PCC yn amlinellu polisi sy'n gofyn am ddefnyddio hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy mewn perthynas â datblygiadau newydd, sy'n rhoi blaenoriaeth ar gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn lle cerbydau modur preifat. Mae'r hierarchaeth drafndiaeth yn cydnabod bod gan Gerbydau Isel lawn eu Hallyriadau rôl bwysig i'w chwarae o ran datgarboneiddio trafndiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle ceir prinder gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus.</p> <p>Er mwyn cefnogi'r polisi yn PCC, caiff Pennod 4 o'r Fframwaith ei hehangu drwy bolisïau ychwanegol ar Gysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol. Mae'r polisïau newydd a'r testun ategol yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltedd o fewn a rhwng ardaloedd trefol a gwledig drwy leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid moddol i gerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r polisïau hefyd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith ac ailfywiogi'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.</p> <p>O ran datgarboneiddio gwres, mae'r Polisi 16 arfaethedig yn nodi mai ein blaenoriaeth ofodol yw y dylid ymchwilio i addasrwydd a dichonolrwydd Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol yn y trefi a'r dinasoedd a nodwyd yn y Fframwaith fel Ardaloedd â Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol. Er bod rhwydweithiau gwres yn cael eu cefnogi mewn egwyddor lle bynnag y maent yn ddichonadwy, rhain yw'r ardaloedd yng Nghymru yr ystyrir eu bod yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer rhwydweithiau gwres.</p> <p>Goblygiad Ariannol:Dim</p>
<p>Casgliad 22. Dylai'r Fframwaith nodi sut y dylid cyflwyno'r seilwaith gwefru</p>	<p>Derbyn</p>

Casgliadau	Ymateb
cerbydau a'r rhwydweithiau gwres.	<p>Cytunir y dylai'r Fframwaith nodi'n gliriach sut y gall y system gynllunio helpu i gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan ledled Cymru.</p> <p>Caiff Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, eu hehangu drwy bolisiau ychwanegol ar drafnidiaeth. Bydd y polisiau newydd ar Gysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol (Polisiau 11 a 12 arfaethedig) yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses o gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig a threfol. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi Strategaeth ar Wefru Cerbydau Trydan. Cyflwynwyd hawliau datblygu a ganiateir yn 2019 ar gyfer gosod, newid a chyfnewid pwyntiau trydan a phileri gwefru i ailwefru cerbydau trydanol, yn ddarostyngedig i amodau, er mwyn cyflymu'r broses o greu rhwydwaith Cymru gyfan o seilwaith gwefru cerbydau trydanol – mewn cartrefi, gweithleoedd a chyrchfannau allweddol, megis archfarchnadoedd, canolfannau manwerthu a masnachol a chyfleusterau hamdden.</p> <p>O ran rhwydweithiau gwres, mae'r Fframwaith yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio archwilio a nodi cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol, yn enwedig yn yr Ardaloedd â Blaenoriaeth, a, lle y bo modd, geisio datblygu Rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol i ddinasoedd neu drefi cyfan mewn cymaint o leoliadau â phosibl. Mae'n nodi y dylai cynigion ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg ar raddfa fawr o 100 o anheddau neu 10,000 metr sgwâr o arwynebedd masnachol neu fwy, o leiaf, ystyried y potensial ar gyfer rhwydwaith gwres.</p> <p>Mae cymorth i gynllunio rhwydweithiau gwres eisoes ar gael gan Lywodraeth y DU. Mae rhan o Becyn Cymorth Ynni Adnewyddadwy Llywodraeth Cymru i gynllunwyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y gall awdurdodau cynllunio lleol ddechrau mapio'r potensial yn eu hardaloedd. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried pa gymorth a chanllawiau eraill y gall eu rhoi yn y dyfodol.</p> <p>Goblygiad Ariannol:</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £2m yn y byrdymor i hwyluso rhwydwaith o wefrwyr cyflym i gerbydau trydan. Fodd bynnag, y disgwyl yw mai</p>

Casgliadau	Ymateb
	busnesau a diwydiant fydd yn ysgogi llawer o'r broses o gyflwyno seilwaith gwefru.
<p>Casgliad 23. Dylai'r Fframwaith edrych ar y sector tai yn ei gyfanrwydd a mynd i'r afael â rôl y sector preifat, gan gynnwys busnesau adeiladu bach a chanolig (BBaChau) wrth ddarparu tai. Dylai hyn gynnwys safleoedd bach nad ydynt wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod adeiladwyr tai yn y sector preifat yn chwarae rôl bwysig o ran diwallu'r angen am dai, gan gynnwys cyfrannu at y gwaith o ddarparu tai fforddiadwy.</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag adeiladwyr tai ar ddarparu tai yn y sector preifat. Fodd bynnag, er mwyn diwallu'r angen sylweddol am gartrefi fforddiadwy a nodwyd yn 'Amcangyfrifon o'r angen am dai' Llywodraeth Cymru, mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar rôl awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gynyddu nifer y tai fforddiadwy a ddarperir yng Nghymru. Bydd diwygiadau arfaethedig i'r testun sy'n ategu'r polisi ar 'Cyflenwi Cartrefi Fforddiadwy' yn cydnabod cyfraniad cartrefi newydd ar y farchnad o ran diwallu'r angen am dai yn fwy cyffredinol.</p> <p>Mae Polisi Cynllunio Cymru eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio bennu targed ar gyfer cyflenwi cartrefi ar safleoedd bach a chynnal cofrestr o'r safleoedd bach sydd islaw'r trothwy dyrannu yn eu cynllun datblygu. At hynny, mae Cronfa Safleoedd Segur Llywodraeth Cymru, gwerth £40m, yn helpu i greu a hyrwyddo cyfleoedd datblygu i gwmnïau adeiladau sy'n BBaChau. Hefyd, ers 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn helpu adeiladwyr sy'n BBaChau i gael cyllid datblygu fforddiadwy drwy Gronfa Datblygu Eiddo Cymru. (Gweler Casgliad 4.)</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 24. Mae angen i'r Fframwaith nodi'r dulliau i'w defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy newydd ar y raddfa a ragwelir yn y strategaeth. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yr "Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy" a gomisiynwyd ganddi, ac a</p>	<p>Gwrthod</p> <p>Mae'r Fframwaith yn nodi'n glir y bydd angen rhoi mwy o ffocws ar rôl awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac adeiladwyr sy'n BBaChau er mwyn sicrhau'r cynnydd yn nifer y cartrefi fforddiadwy a nodwyd. Mae casgliadau'r 'Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy' yn cefnogi hyn ac fe'u hystyriwyd wrth baratoi'r Fframwaith drafft.</p>

Casgliadau	Ymateb
gyflwynodd adroddiad ym mis Mai 2019, yn llywio'r Fframwaith.	Goblygiad Ariannol: Efallai y bydd yn rhaid i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer tai fforddiadwy newid.
Casgliad 25. Dylid diweddarau amcangyfrif y Fframwaith o'r angen am dai yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael.	Derbyn Caiff amcangyfrifon diwygiedig o'r angen am dai eu cynnwys yn fersiwn derfynol y Fframwaith. Goblygiad Ariannol: Dim
Casgliad 26. Dylid mynegi unrhyw dargedau ar gyfer tai fforddiadwy fel niferoedd, nid canrannau.	Gwrthod Nid yw'r Fframwaith yn cynnwys targedau ar gyfer tai fforddiadwy. Daw'r canrannau o dai fforddiadwy a gynhwyswyd yn y Fframwaith o 'Amcangyfrifon o'r angen am dai yn ôl deiliadaeth' Llywodraeth Cymru. Rhai dangosol yn unig ydynt, yn seiliedig ar dueddiadau, ac maent yn rhan o'r cyd-destun i lywio awdurdodau cynllunio wrth benderfynu ar eu gofynion tai drwy eu cynlluniau datblygu strategol neu leol. Goblygiad Ariannol: Dim
Casgliad 27. Mae angen rhoi sylw arbennig i anghenion tai pobl hŷn. Dylai'r Fframwaith ei hun roi arweiniad cenedlaethol yn hyn o beth.	Derbyn mewn egwyddor Cydnabyddir bod poblogaeth newidiol Cymru, gan gynnwys y duedd o niferoedd uwch o bobl hŷn, yn rhan o'r cyd-destun ar gyfer y Fframwaith, fel y'i hamlinellir ym Mhennod 2. Mae'r angen am dai ymhlith pobl hŷn yn amrywio ledled Cymru ac felly'r awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â hyn, yn seiliedig ar yr anghenion penodol a nodwyd ganddynt ar gyfer eu hardal. Goblygiad Ariannol: Dim
Casgliad 28. Dylai'r Fframwaith gydnabod pwysigrwydd busnesau adeiladu bach a chanolig wrth ddarparu tai yng nghefn gwlad Cymru ac archwilio'r potensial i gael gwared ar rwystrau i adeiladu datblygiadau tai bach sy'n cynnwys llai na 10 uned.	Derbyn mewn egwyddor Mae'r Fframwaith yn cydnabod bod gan adeiladwyr sy'n BBaChau rôl bwysig i'w chwarae i gynyddu faint o gartrefi newydd a ddarperir ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith o hwyluso hyn, mae Polisi Cynllunio Cymru eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio bennu targed ar gyfer cyflenwi cartrefi ar safleoedd bach a chynnal cofrestr o safleoedd bach sydd islaw'r trothwy dyrannu yn eu cynllun datblygu. O ran dileu rhwystrau, mae Cronfa Safleoedd Segur Llywodraeth Cymru,

Casgliadau	Ymateb
	<p>gwerth £40m, yn helpu i greu a hyrwyddo cyfleoedd datblygu i gwmnïau adeiladau sy'n BBaChau. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Cynllun Hunanadeiladu Cymru sy'n helpu leihau'r rhwystrau a'r ansicrwydd sy'n atal pobl rhag adeiladu tai eu hunain. Hefyd, ers 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn helpu adeiladwyr sy'n BBaChau i gael cyllid datblygu fforddiadwy drwy Gronfa Datblygu Eiddo Cymru. (Gweler Casgliad 4.)</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 29. Mae'r Pwyllgor yn siomedig gyda'r diffyg cynnydd parhaus o ran diwygio Rhan L (Arbed tanwydd ac ynni) o'r rheoliadau adeiladu. Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan beth yw ei hamserlen ar gyfer diwygio Rhan L.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cyhoeddwyd cynigion Rhan L (ac F) ar gyfer tai newydd ar gyfer ymgynghoriad ar 19 Rhagfyr 2019, a daeth i ben ar 12 Mawrth 2020. Mae'r cynigion yn cynnwys cam sylweddol ac angenrheidiol o ran perfformiad ynni a charbon tai newydd. Gwnaeth yr ymgynghoriad hefyd roi manylion safonau posibl ar gyfer 2025. Yn ddiweddarach eleni, byddwn hefyd yn ymgynghori ar gynigion i atal gorwresogi mewn anheddau newydd, safonau Rhan L ar gyfer adeiladau annomestig a lle y gwneir gwaith adeiladu ar anheddau sy'n bodoli eisoes. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi mai'r amserlen a ffeirir ar gyfer dwyn rheoliadau Rhan L i rym yw 2020.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 30. Dylai'r Fframwaith bennu'r gofynion o ran y seilwaith craidd a dylai ddarparu fframwaith gofodol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer pob math o seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru bennu ei safbwynt "mewn egwyddor" ar brosiectau a pholisïau seilwaith sydd heb eu datganoli.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae anghenion seilwaith hirdymor y wlad yn cael eu hasesu gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Mae'r Fframwaith yn fodd i gydgyssylltu buddsoddiad mewn seilwaith â strategaeth ehangach ar gyfer datblygu, er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar fuddsoddiad mewn seilwaith. Caiff y Fframwaith ei gyhoeddi cyn bod Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn gwneud ei argymhellion, felly dylai'r Comisiwn gydnabod y gefnogaeth gref i systemau Metro, seilwaith teithio llesol a gwyrdd gwell, a seilwaith rheoli perygl llifogydd yn y Fframwaith. Fel yr amlinellir mewn ymateb i Gasgliad 7, bydd mwy o gysondeb a natur gilyddol rhwng dogfennau allweddol wrth i'r gyfres lawn o strategaethau a chynlluniau perthnasol gael eu rhoi ar waith.</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau'n rheolaidd dros fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU a darparwyr cyfleustodau mewn seilwaith nas datganolwyd a fydd yn fuddiol i lesiant pobl yng Nghymru, a bydd yn parhau i wneud hynny. Lle y caiff prosiectau seilwaith nas datganolwyd eu cynnig gan bartïon eraill, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiadau clir o'i barn ac yn sicrhau ei bod yn chwarae rhan weithredol mewn trafodaethau a chynlluniau.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 31. Dylai'r Fframwaith gynnwys cynigion penodol i fynd i'r afael â materion cysylltedd yng Nghymru yn ychwanegol at y rhai sy'n croesi'r ffin â Lloegr. Dylai hyn gynnwys gwell cysylltedd rhwng trefi a dinasoedd Cymru, rhwng ardaloedd trefol a gwledig a hefyd o fewn ardaloedd gwledig. Dylai'r Fframwaith hefyd adlewyrchu blaenoriaethau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y dylai'r Fframwaith fod yn fwy penodol a mynd i'r afael â materion cysylltedd o fewn ffiniau Cymru yn ogystal â'r rhai sy'n croesi'r ffin â Lloegr.</p> <p>Caiff Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, ei hehangu drwy bolisïau ychwanegol ar Gysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol (polisïau 11 a 12 arfaethedig). Mae'r polisïau newydd a'r testun ategol yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltedd o fewn a rhwng ardaloedd trefol a gwledig drwy leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r polisïau hefyd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith ac ailfywiogi'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.</p> <p>Caiff y polisïau Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol eu cefnogi gan bolisïau trafndiaeth penodol yn yr adrannau rhanbarthol o'r Fframwaith sy'n rhoi'r cyd-destun rhanbarthol a chynigion penodol ar gyfer gwella cysylltedd.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 32. Mae'r Pwyllgor yn deall bod mwy o alw am gysylltedd trafndiaeth o'r dwyrain i'r gorllewin yn y prif goridorau yng Ngogledd a De Cymru, ond dylai'r Fframwaith hefyd fynd i'r afael â'r cysylltedd gwael rhwng Gogledd Cymru a De Cymru.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y dylai'r Fframwaith hefyd fynd i'r afael â chysylltedd ledled Cymru a rhwng y Rhanbarthau.</p> <p>Caiff Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, ei hehangu drwy bolisïau ychwanegol ar Gysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol. Mae'r polisïau newydd a'r testun ategol yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella cysylltedd ledled</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>Cymru a rhwng y Rhanbarthau drwy leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi newid moddol i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.</p> <p>Caiff y polisiâu Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol eu cefnogi gan bolisiâu trafndiaeth penodol yn yr adrannau rhanbarthol o'r Fframwaith sy'n rhoi'r cyddestun rhanbarthol a chynigion penodol ar gyfer gwella cysylltedd.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 33. Mae angen rhoi mynegiant gofodol yn y Fframwaith i ymrwymadau Llywodraeth Cymru ar seilwaith digidol, gan gynnwys Parthau Gweithredu ar Ffonau Symudol. Mae angen datblygu polisiâu gofodol ar gyfer porthladdoedd a chludo nwyddau.</p>	<p>Gwrthod – Ardaloedd Gweithredu Symudol Derbyn – Porthladdoedd a chludo nwyddau</p> <p>Er mai bwriad cynnar Llywodraeth Cymru oedd cynnwys mapiau sy'n dangos Ardaloedd Gweithredu Symudol yn y Fframwaith, ni fu modd gwneud hynny o fewn amserlen gyfredol y Cynllun. Mae'r Adran Seilwaith Digidol yn parhau â'i gwaith o nodi lleoliadau penodol pob Ardal. Pan fyddant wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd yn ymgynghori arnynt yn y ffordd arferol.</p> <p>Mae polisi'r Fframwaith yn pennu'n glir egwyddor Ardaloedd Gweithredu Symudol, a'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol a gweithredwyr symudol i greu'r amgylchedd priodol i gyflwyno gwell darpariaethau yn yr ardaloedd hyn (ar ôl eu nodi). Mae statws cynllun datblygu'r Fframwaith yn rhoi mwy o bwys ar fwriadau'r polisi er nad oes cyfeiriad gofodol uniongyrchol at Ardaloedd.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau cyfryngau symudol ar fenter i sefydlu Rhwydwaith Gwledig a Rennir ledled y DU, gan gynnwys Cymru. Byddai'n caniatáu i gwmnïau rannu seilwaith i ddarparu 4G, er mwyn darparu'r gwasanaethau symudol cyflym a dibynadwy sydd eu hangen arnynt i'r rhan fwyaf o ardaloedd gwledig. Rhaid wrth gytundeb yn gyntaf a byddai'n digwydd dros gyfnod o 5 mlynedd hyd at 2025.</p> <p>Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu'r sefyllfa o ran porthladdoedd yn y polisi cenedlaethol ac yn cydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae o ran yr economi a</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>chludo nwyddau mewn ffordd gynaliadwy. Mae PCC yn cydnabod bod porthladdoedd gweithredol ac atyniadol sy'n ateb y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn gwneud Cymru yn lleoliad atyniadol i fusnesau, ymwelwyr a chlodwyr nwyddau.</p> <p>Caiff y sefyllfa bolisi hon ei chefnogi drwy gyflwyno Polisi Cysylltedd Rhyngwladol newydd ym Mhennod 4 o'r Fframwaith, sy'n nodi Maes Awyr Caerdydd, Dyfrffordd y Ddau Gleddau, Porthladd Abergwaun a Phorthladdoedd Caergybi fel Pyrth Strategol (polisi 10 arfaethedig). Mae'r Pyrth Strategol yn hollbwysig at ddibenion cludo pobl a nwyddau yn effeithiol fel rhan o rwydweithiau neu gadwyni cyflenwi n yn eu priod ranbarthau, Cymru a'r DU.</p> <p>Goblygiadau Ariannol:</p> <p>Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn y Fframwaith o ran y polisi ar Ardaloedd Gweithredu Symudol. Efallai y bydd angen cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu'r seilwaith symudol o fewn Ardaloedd.</p> <p>Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ran polisïau gofodol ar gyfer porthladdoedd a chludo nwyddau.</p>
<p>Casgliad 34. Dylai'r Fframwaith bennu gweledigaeth strategol unedig ar gyfer dyfodol ynni yng Nghymru a bod yn glir ynghylch y targedau ar gyfer cynhyrchu trydan a datgarboneiddio y mae Llywodraeth Cymru yn anelu atynt.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae'r Fframwaith yn ystyried polisïau a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r polisïau cynllunio sydd eu hangen i'w cyflawni. Nid rôl y Fframwaith yw nodi strategaeth a pholisi ynni cyffredinol Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'r Fframwaith yn glir mai nod ei bolisïau ynni adnewyddadwy yw helpu i gyflawni targedau presennol Llywodraeth Cymru o ran ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio a bennwyd gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.</p> <p>Derbynnir y dylai'r sefyllfa uchod gael ei nodi'n gliriach yn y Fframwaith a chaiff testun ategol y polisïau ar ynni adnewyddadwy ei newid.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>Casgliad 35. Dylai'r Fframwaith fod yn gefnogol i dechnolegau adnewyddadwy heblaw gwynt a solar, a mynd i'r afael â storio a'r angen am seilwaith ar y tir ar gyfer ffermydd gwynt yn y môr.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Roedd y Fframwaith drafft yn cynnwys polisi a oedd yn cefnogi technolegau ynni adnewyddadwy eraill ac a oedd yn ceisio ystyried yr un materion â'r rhai ar gyfer gwynt a solar. Fodd bynnag, derbynnir y gallai'r sefyllfa fod yn fwy clir.</p> <p>Mae polisiâu ynni adnewyddadwy diwygiedig y Fframwaith bellach yn amlwg yn gymwys i bob math o dechnoleg adnewyddadwy a charbon isel ac mae cyfeiriadau at ofynion seilwaith cysylltiedig bellach wedi'u cynnwys.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 36. Ni ddylai lefel y gefnogaeth yn y Fframwaith ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy fod yn wannach na'r hyn a ddarparwyd eisoes gan Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol y DU. Dylai polisiâu ynni adnewyddadwy fynd i'r afael ag ailberu ac ymestyn oes y datblygiadau presennol.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Yn ein barn ni, nid oedd y Fframwaith drafft yn cynnig amgylchedd llai cefnogol i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy na chynt. Dylai hyn, ynghyd â'r datganiadau polisi cadarnhaol iawn yn PCC roi'r gefnogaeth polisi sydd ei hangen ar ddatblygwyr ynni adnewyddadwy i fwrw ymlaen â chynlluniau. Yng Nghymru, mae trefn lawer mwy cefnogol i ddatblygiadau gwynt ar raddfa fawr ar y tir na'r hyn a ddarperir gan Lywodraeth y DU ar gyfer datblygiadau yn Lloegr.</p> <p>Fodd bynnag, derbyniwn y gallai'r polisiâu fod yn gliriach. Mae'r polisiâu diwygiedig yn fwy penodol o ran mynegi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy yn gyffredinol a nodi y caiff cynlluniau ganiatâd ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf yn y polisiâu.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 37. Dylai'r Fframwaith bennu goblygiadau datgarboneiddio gwres a chlodiant o ran y galw am drydan a'r system drawsyrro.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae'n anodd i'r Fframwaith amlinellu goblygiadau datgarboneiddio gwres a chlodiant ar hyn o bryd gan nad yw'r llwybrau tuag at ddatgarboneiddio wedi'u pennu ac mae llawer o amrywiadau arnynt. Nid rôl y Fframwaith yw amlinellu strategaeth a pholisi ynni cyffredinol Llywodraeth Cymru, sydd ar gael mewn man arall.</p>

Casgliadau	Ymateb
	<p>Fodd bynnag, yn ystod oes y Fframwaith, mae'n debygol y bydd y system ynni yn symud i "system amlfodd trosglwyddo", a fydd yn gofyn am hyblygrwydd i fanteisio i'r eithaf ar y rhyngberthnasau a'r synergeddau rhwng y sectorau ynni, gwres a thrafnidiaeth. Bydd angen i adolygiadau o'r Fframwaith yn y dyfodol ymateb i hyn. Mae testun i'r perwyl hwn wedi cael ei ychwanegu i'r Fframwaith diwygiedig.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 38. Dylai'r Fframwaith fynegi gweledigaeth a strategaeth i gefnogi datblygiadau sy'n seiliedig ar ddsbarthu ynni'n lleol.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newid i systemau dosbarthu ynni lleol fel ffordd o leihau'r angen am seilwaith grid newydd ar raddfa fawr. Caiff testun ategol y Fframwaith ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at y dull 'amlfodd trosglwyddo' hwn.</p> <p>Mae'r Fframwaith yn ystyried polisiau a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r polisiau cynllunio sydd eu hangen i'w cyflawni. Nid rôl y Fframwaith yw amlinellu strategaeth a pholisi ynni cyffredinol Llywodraeth Cymru, sydd ar gael mewn man arall.</p> <p>Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wrthi'n paratoi datganiad polisi ar ynni lleol a'i oblygiadau o ran dosbarthu.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 39. Dylid diwygio Polisi 7 i fynd i'r afael â gofynion y seilwaith grid.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Caiff Polisi 7 Drafft: Cerbydau Allyriadau Isel lawn ei ymgorffori yn y polisiau ar Gysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol (polisiau 11 a 12 arfaethedig) ym Mhennod 4 o'r Fframwaith.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda gweithredwyr y rhwydwaith ynni yng Nghymru i ddatblygu'r seilwaith grid trydan i gefnogi'r defnydd cynyddol o gerbydau trydan, a adlewyrchir yn y testun ategol.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Y disgwyl yw mai busnesau a diwydiant fydd yn ysgogi llawer o'r broses o gyflwyno</p>

Casgliadau	Ymateb
	seilwaith gwefru, gan gynnwys capasiti a seilwaith y grid.
<p>Casgliad 40. Dylai'r Fframwaith fabwysiadu fframwaith polisi sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Er i bolisiau ynni adnewyddadwy'r Fframwaith drafft restru'r materion yr oedd angen eu hystyried, cydnabyddir nad oeddent yn rhoi'r sicrwydd i randdeiliaid na'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y meini prawf y dylid eu dilyn.</p> <p>Mae'r Fframwaith diwygiedig yn cynnwys polisi manwl sydd wedi'i lunio'n gadarnhaol yn seiliedig ar feini prawf i benderfynu ar bob math o ddatblygiad ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel dros 10MW.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 41. Mae datblygiadau ynni gwynt ac ynni solar yn destun cyfyngiadau gwahanol iawn a gallant effeithio mewn ffyrdd gwahanol ar fywyd gwyllt, ac felly dylid mynd i'r afael â hwy drwy gyfrwng polisiau cynllunio ar wahân.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Er y derbynnir bod datblygiadau gwynt a solar yn cael effeithiau gwahanol ar fywyd gwyllt, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, ar lefel strategol, fod modd i bolisiau'r Fframwaith gael eu llunio i ymdrin â'r materion hyn gyda'i gilydd. Fel yn achos llawer o ddogfennau polisi cynllunio eraill, mae'n well llunio polisiau unigol sy'n cwmpasu pob technoleg sydd ar gael a bod y sawl sy'n gwneud penderfyniad yn ystyried y materion yn fanwl.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau ymarfer ar hyn a fydd yn ddefnyddiol yn hyn o beth: https://llyw.cymru/goblygiadau-cynllunio-datblygiadau-ynni-adnewyddadwy-ac-ynni-carbon-isel-canllaw-ymarfer</p> <p>Mae polisiau a thestun ategol diwygiedig y Fframwaith yn rhoi datganiadau cliriach ar ddiogelu safleoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt gwarchoddedig.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 42. Dylai polisiau'r Fframwaith ar ddatblygiadau ynni gwynt ac ynni'r haul roi'r un lefel o ddiogelwch i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ag a</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae'n bwysig bod y Fframwaith a PCC yn gyson o ran dangos yr un lefel o ddiogelwch i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau).</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>roddir i Bolisi Cynllunio Cymru.</p>	<p>Mae'r polisi sy'n seiliedig ar feini prawf a'r testun ategol wedi cael eu newid er mwyn sicrhau'r lefel hon o gysondeb rhwng y dogfennau.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 43. Dylai'r Fframwaith gydnabod y potensial i sicrhau buddion amgylcheddol a hamdden mewn cysylltiad â datblygiadau ynni adnewyddadwy.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Cydnabu'r Fframwaith drafft y potensial i sicrhau buddion sy'n gysylltiedig â chynlluniau ynni adnewyddadwy, gan nodi bod yn rhaid i geisiadau cynllunio ddangos sut y maent wedi sicrhau'r buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol mwyaf posibl fel rhan o'r cynnig datblygu.</p> <p>Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r datganiadau hyn fod yn gryfach, yn enwedig o ran buddion amgylcheddol. Felly, mae'r polisiâu ynni adnewyddadwy diwygiedig yn nodi y dylai cynigion ddisgrifio'r buddion clir y bydd y cynllun yn eu sicrhau o ran gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i gymunedau lleol. Mae'r polisi sy'n seiliedig ar feini prawf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion gynnwys mesurau gwella bioamrywiaeth er mwyn sicrhau buddiant clir o ran yr amgylchedd.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 44. Dylid rhoi mynegiant gofodol yn y Fframwaith i wella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau, seilwaith gwyrdd strategol a'r goedwig genedlaethol. Dylai'r Fframwaith nodi sut y dylid cyflawni'r ymrwymadau.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Gellid cryfhau'r Fframwaith i gyfleu'r polisiâu amgylcheddol strategol yn ofodol. Caiff map eglurhaol ei gynnwys yn y Fframwaith er mwyn dangos gwybodaeth fras am leoliadau ar gyfer themâu megis mannau pwysig o ran bioamrywiaeth, rhwydweithiau bioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau. Caiff y testun ategol ei ehangu i gynnwys naratif mwy cyfarwyddol ar roi'r polisi ar waith.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 45. Dylid cryfhau Polisi 8 i nodi bod yn "rhaid" amddiffyn bioamrywiaeth yn hytrach nag y "dylid" ei amddiffyn ac y dylai hefyd</p>	<p>Derbyn</p> <p>Dylid newid geiriad y polisi i 'rhaid'; mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Caiff y polisi ei ddiwygio i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth.</p>

Casgliadau	Ymateb
fynnu bod datblygiad yn cyfrannu at adfer natur.	Goblygiad Ariannol: Dim
<p>Casgliad 46. Dylai'r Fframwaith bennu blaenoriaethau gofodol cenedlaethol ar gyfer gwella bioamrywiaeth. Mae angen ymgorffori'r gofyniad am y mesurau lliniaru a nodwyd gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn y Fframwaith. Dylai'r rhwydwaith ecolegol cenedlaethol fynd i'r afael ag anghenion rhywogaethau â blaenoriaeth.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Gellir cryfhau'r Fframwaith i gynnwys ffocws ehangach ar bolisi er mwyn sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth. Gellir defnyddio ffocws strategol y Fframwaith i sicrhau buddiant clir o ran bioamrywiaeth er mwyn gwireddu twf cynaliadwy.</p> <p>Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Fframwaith yn broses asesu iterus; mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu tabl lliniaru sy'n nodi'n glir y mesurau lliniaru y bydd eu hangen i gyflawni polisiâu'r Fframwaith. Bydd cyfeiriadau yn y Fframwaith at yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu gwella a bydd y rhain yn cyfeirio'r glir at y mesurau lliniaru.</p> <p>Mae'r polisi a'r naratif ategol wedi cael eu cryfhau i ymateb i anghenion rhywogaethau o fewn rhwydweithiau ecolegol gwydn. Byddwn yn cyfeirio at anghenion pob rhywogaeth er mwyn adlewyrchu cymhlethdod systemau naturiol.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 47. Dylai datblygiad y goedwig genedlaethol ystyried rôl bosibl plannu coed o ran rheoli risg dŵr a llifogydd yn ogystal â chynhyrchu bwyd-amaeth. Wrth blannu'r goedwig genedlaethol dylid osgoi mawndiroedd.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae'r polisi ar y Goedwig Genedlaethol yn y Fframwaith yn un galluogol. Un o'r nodau strategol yw datblygu adnodd coedwig genedlaethol sy'n cyflwyno ecosystemau cysylltiedig a gwell bioamrywiaeth a chynefinoedd. Caiff anghenion penodol trefniadau plannu eu nodi mewn man arall ond bydd y Fframwaith yn llywio cynaliadwyedd lleoliadau o'r fath drwy'r polisi ar rwydweithiau ecolegol gwydn.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 48. Dylai'r Fframwaith nodi'r asedau coetir presennol. Dylai'r goedwig genedlaethol hybu ymhellach y gwaith o warchod y coedwigoedd glaw</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Cytunwn y dylid cryfhau'r ffordd y caiff mathau presennol cyffredinol o gynefinoedd eu cyfleu'n ofodol yn y Fframwaith. Caiff map eglurhaol, sy'n nodi asedau coetir presennol allweddol, ei gynnwys.</p>

Casgliadau	Ymateb
<p>Celtaidd sydd o arwyddocâd byd-eang.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Goedwig Law Geltaidd a bydd y Polisi ar Goedwig Genedlaethol yn cael ei roi ar waith i gyd-fynd a'r cynefin unigryw hwn sydd o bwys mawr, a'i gefnogi ymhellach.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 49. Dylid achub ar y cyfle i wneud cysylltiadau rhwng rhwydweithiau seilwaith gwyrdd a'r agendâu tai ac adnewyddu trefol. Dylid gwneud cysylltiadau hefyd rhwng rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, y goedwig genedlaethol a'r agenda twristiaeth a hamdden drwy fentrau fel y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.</p>	<p>Derbyn mewn egwyddor</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai rôl seilwaith gwyrdd o ran creu cymunedau trefol cynaliadwy gael ei chydabod yn gliriach yn y Fframwaith. Bydd y polisi arfaethedig ar ffurfio twf trefol yn cyfeirio at rôl weithredol seilwaith gwyrdd fel un o brif egwyddorion creu lleoedd.</p> <p>Mae PCC 10 yn mynegi cysylltiadau ehangach rhwng meysydd polisi megis rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, twristiaeth a llwybrau teithiol llesol. Mae'r naratif ar greu lleoedd yn mynegi cysylltiadau o'r fath mewn ffordd gadarnhaol.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>Casgliad 50. Mae angen mwy o eglurder am rôl lleiniau glas yn y strategaeth genedlaethol a rhanbarthol; y disgrisiwn a roddir i'r Cynlluniau Datblygu Strategol o ran eu diffinio; y berthynas rhwng rolau lleiniau glas a seilwaith gwyrdd; a pherthynas bosibl lleiniau glas â'r polisi o ran y goedwig genedlaethol.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Derbynnir y byddai'n fuddiol pe bai polisiâu'r Fframwaith (a'u testun ategol) ar leiniau glas yn y gogledd a'r de-ddwyrain yn nodi'n gliriach sut y byddent yn cael eu sefydlu drwy broses y cynlluniau datblygu strategol a sut y dylid penderfynu ar gynigion cynllunio yn yr ardaloedd hyn cyn i'r cynlluniau datblygu strategol gael eu mabwysiadu. Caiff y Fframwaith ei newid i'r perwyl hwn.</p> <p>Er y gall lleiniau glas a seilwaith gwyrdd gwmpasu'r un ardaloedd yn ddaearyddol ac atgyfnerthu ei gilydd o ran diogelu tir rhag datblygu, mae dibenion nodi seilwaith gwyrdd a lleiniau glas yn wahanol.</p> <p>Bydd yr un rhesymeg yn wir am dir y nodwyd y gellir plannu coed arno fel rhan o'r Goedwig Genedlaethol. Hefyd, mae'r cwestiwn ynghylch sut i fynd i'r afael â mathau eraill o ddatblygu mewn llain las, gan gynnwys datblygiadau a all fod yn gysylltiedig â'r cynnig ar gyfer coedwig genedlaethol, eisoes wedi'i gwmpasu drwy bolisiâu PCC.</p>

Casgliadau	Ymateb
	Goblygiad Ariannol: Dim
<p>Casgliad 51. Dylai'r Pwyllgor Busnes, sef Pwyllgor y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am ystyried gweithdrefnau'r Cynulliad, gyflwyno cynigion i hwyluso'r gwaith o graffu ar y Fframwaith terfynol yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Dylai wneud hynny trwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allanol a Phwyllgorau'r Cynulliad.</p>	<p>Nid lle Llywodraeth Cymru yw derbyn neu wrthod</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Pwyllgor Busnes er mwyn sicrhau ei bod yn hwyluso gwaith y Pwyllgor ar graffu ar y Fframwaith drafft, yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>

6. Llythyr y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau

Ymateb Lywodraeth Cymru i'r [llythyr](#) dydiedig 5 Chwefor 2020

Mater a Godwyd	Ymateb
<p>1. Mae'n ymddangos bod diffyg uchelgais yn y fframwaith. Wrth ddrafftio dogfen gynllunio genedlaethol allweddol fel hon, mae cyfle i osod yr agenda a gwneud newidiadau a fydd yn mynd i'r afael â materion cymdeithasol pwysig fel mynd i'r afael â newid hinsawdd ac anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol. Teimlai'r Pwyllgor fod y cyfle hwn wedi'i gollu rhywfaint.</p>	<p>Nid ydym yn derbyn asesiad y Pwyllgor bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn dangos diffyg uchelgais. Mae'r Fframwaith yn cynnwys gweledigaeth a'r polisïau i'w gwneud yn bosibl i welliannau radical gael eu gwneud i olwg lleoedd a'r ffordd y maent yn gweithredu ledled Cymru, a rhoi hynny ar waith. Mae'r weledigaeth a'r polisïau yn adlewyrchu'r fframwaith strategol ehangach y mae'r Fframwaith yn rhan ohono, sy'n cynnwys y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, Cymru Carbon Isel a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.</p> <p>Mae'r Fframwaith yn ceisio mynd i'r afael â heriau sylweddol a hirdymor, gan gynnwys yr argyfyngau hinsawdd ac amgylcheddol. Yn benodol, mae'n ceisio bod yn fodd i newid dulliau teithio, a lleihau pellteroedd rhwng cartrefi pobl, eu swyddi a'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt. Mae'n ymrwymedig i greu lleoedd – y dull o gynllunio sy'n rhoi gwerth ar gael mynediad rhagorol at wasanaethau, cyfleusterau cymunedol a mannau agored mewn cymunedau. Y canlyniad clir fyddai cymdeithas sydd wedi datgarboneiddio ac sy'n llai dibynnol ar geir, a chymunedau iachach, mwy cymdeithasol sydd â gwasanaethau lleol ffyniannus. Yn hyn o beth, mae'r Fframwaith yn cyd-fynd yn llwyr ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ailfywiogi canol trefi, datblygu systemau trafndiaeth Metro a gwella ein hadnoddau naturiol.</p> <p>Defnyddir y term 'diffyg uchelgais' mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad sydd am i'r Fframwaith ganiatáu i dir maes glas yn gyffredinol gael ei ddefnyddio i ddatblygu trefi cymudo newydd mewn lleoliadau gwael ac ystadau 'ddim yn unman'. Mae canolbwyntio ar gyfleoedd i adfywio ac adnewyddu canol trefi drwy hyrwyddo datblygiadau cymysg a seilwaith trafndiaeth gynaliadwy gwell yn y trefi a'r dinasoedd sy'n bodoli eisoes yn uchelgeisiol, am nad hwn i'w opsiwn hawsaf i'w ddewis. Dyma'r dull gweithredu sydd fwyaf tebygol o roi blaenoriaeth ar ddefnyddio tir maes llwyd ac yn fwyaf tebygol o arwain at ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy yn y dyfodol.</p>

Mater a Godwyd	Ymateb
	<p>Fel amcangyfrif, bydd cartrefi newydd a ddatblygir dros yr ugain mlynedd nesaf yn cyfrif am 8% o'r stoc dai. Nid yw'r Fframwaith yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer yr 8% hon o gartrefi yn unig – mae hefyd yn rhoi gweledigaeth o ran sut y bydd pob lle yn iachach ac yn fwy ffyniannus.</p> <p>Bydd gweledigaeth y Fframwaith yn dylanwadu ar ddogfennau eraill Llywodraeth Cymru. Bydd y system o'i adolygu bob pum mlynedd (neu'n gynt) yn sicrhau y gall ddylanwadu ar strategaethau a chynlluniau cysylltiedig sy'n cael eu datblygu, ac ymateb iddynt, gan gynnwys: Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ac argymhellion Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. Amlinellir gweledigaeth ar gyfer y ffordd y bydd y Fframwaith yn datblygu gyda phob adolygiad mewn papur ar Fframwaith Monitro'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>2. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y diffyg uchelgais hwn yn golygu na fydd y Fframwaith yn creu'r cyd-destun cywir i feithrin twf yn yr economi. Dywedodd yr Athro Goodstadt <i>“what's missing is some sense of the overall scale of the Welsh economy and what that should be”</i> a dywedodd mai dim ond <i>“trend-based view of life”</i> sy'n cael ei amlinellu yn y ddogfen.</p>	<p>Mae'r Fframwaith yn ystyried polisiau a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r polisiau cynllunio a'r cyd-destun sydd eu hangen i'w cyflawni. Nid rôl y Fframwaith yw pennu polisi economaidd cyffredinol Llywodraeth Cymru gan fod hyn ar gael mewn manau eraill yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.</p> <p>Mae'r Fframwaith yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer yr uchelgeisiau cynllunio a nodir ym mholisiau Llywodraeth Cymru i'w gwireddu drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, a fydd yn manylu ar lefelau disgwylidig o dwf economaidd cynaliadwy, gan arwain at fwy o gydraddoldeb a thecwch rhwng ardaloedd.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>3. Er enghraifft, nid yw'r Fframwaith yn sôn am yr economi sylfaenol er bod hyn yn flaenoriaeth amlwg gan Lywodraeth Cymru, yn wir mae Comisiwn UK2070 wedi nodi bod Cymru yn arwain y ffordd</p>	<p>Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at yr economi sylfaenol wrthi'n cael ei datblygu gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru fel un o nodweddion allweddol y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae'n anodd llunio polisiau cynllunio defnydd tir strategol, cenedlaethol wedi'u seilio ar y sector hwn o</p>

Mater a Godwyd	Ymateb
<p>yn y maes hwn. Dylai'r Fframwaith fod yn nodi, yn dathlu ac yn adeiladu ar y dull economi sylfaenol.</p>	<p>ystyried ei fod yn lleol iawn ei natur ac wedi'i ysgogi gan angen o fewn ardal ddiffiniedig fanwl.</p> <p>Mae diwygiadau i'r Fframwaith yn cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd yr economi sylfaenol hyd a lled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried pa ganllawiau cynllunio eraill y gellid eu rhoi i awdurdodau cynllunio ac eraill er mwyn helpu i ddatblygu'r sector hwn.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>4. Mae diffyg uchelgais y ddogfen hefyd yn amlwg yn yr ystyr nad yw'n nodi darnau penodol o seilwaith trafndiaeth mawr allweddol. Er enghraifft, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl mwy o fanylion am y prosiectau Metro arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith.</p>	<p>Rhaid i'r Fframwaith gael ei ystyried ochr yn ochr â strategaethau a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafndiaeth newydd i Gymru yn 2020, a fydd yn amlinellu'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r canlyniadau a ddymunir ar gyfer trafndiaeth. Bydd y Strategaeth yn gyson â'r Fframwaith ac yn cefnogi ei strategaeth ofodol, sy'n cyfarwyddo lle y bydd ffocws datblygiadau newydd a buddsoddiad mewn seilwaith. Caiff Cynllun Cyflawni Trafndiaeth Cenedlaethol newydd ei lunio i gefnogi'r broses o roi Strategaeth Drafndiaeth Cymru a'r Fframwaith ar waith. Bydd anghenion seilwaith hirdymor y wlad hefyd yn cael eu nodi gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC).</p> <p>Mae'r Fframwaith yn fodd o bennu cyfeiriad a chydlynu buddsoddiad mewn seilwaith gyda strategaeth ehangach ar gyfer datblygu, er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar fuddsoddiad mewn seilwaith.</p> <p>Caiff y Fframwaith ei gyhoeddi cyn y bydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn gwneud ei argymhellion. Bydd mwy o gysondeb a pherthynas fwy cilyddol rhwng dogfennau allweddol wrth i'r gyfres lawn o strategaethau a chynlluniau perthnasol gael eu rhoi ar waith.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim</p>
<p>5. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am drefn y cynlluniau cenedlaethol, strategol a lleol. Mae'r rhan fwyaf o'r Cynlluniau Datblygu Lleol wedi'u llunio ac yn amlwg mae gwaith ar y</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i system cynllunio datblygu dair haen. Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 y gallu i awdurdodau cynllunio lleol gydweithredu i gynhyrchu CDSau. Er y cychwynwyd y pwerau perthnasol yn 2015, araf fu'r cynigion ar gyfer CDSau. Bydd y Mesur</p>

Mater a Godwyd	Ymateb
<p>gweill i ddatblygu'r Fframwaith. Fodd bynnag, ychydig iawn o waith sydd wedi'i wneud ar lefel ranbarthol ar Gynlluniau Datblygu Strategol. Mae'r Pwyllgor yn deall y byddwn ymhell i mewn i'r degawd hwn cyn i'r Cynllun Datblygu Strategol cyntaf fod ar waith. Erbyn hynny, byddwn yn yr ail fersiwn os nad trydydd fersiwn o'r Fframwaith. Mae'n ymddangos bod llunio rhai Cynlluniau Datblygu Lleol cyn y Fframwaith, ac ymhell cyn y Cynlluniau Datblygu Strategol, yn peri risg o anghysondeb o ran gwaith cynllunio strategol. Mae'r amserlen cyn i ni weld tair lefel o gynlluniau sy'n gyson ac yn gweithio yn y drefn gywir yn peri pryder hefyd. Hoffai'r Pwyllgor gael rhywfaint o sicrwydd ynghylch pa mor gyflym y caiff y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau datblygu Lleol sy'n weddill eu cyflwyno a sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau nad yw'r oedi hwn rhwng y tair lefel yn effeithio ar allu'r Fframwaith i ddarparu'r cynllun gofodol cywir i fynd i'r afael â'r prif flaenoriaethau cenedlaethol y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy.</p>	<p>Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gorfodi paratoi CDSau, gyda llywodraethu yn cael ei ddarparu gan Gyd-bwyllgorau Corfforaethol. Mae'r Fframwaith yn rhoi mandad pellach ar gyfer paratoi CDSau drwy roi ffocws ar gynllunio rhanbarthol ac mae Pennod 5 yn amlinellu fframwaith ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol (Polisi 19). Bydd polisiau rhanbarthol y Fframwaith yn canolbwyntio camau gweithredu a buddsoddiad Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y pedwar rhanbarth, nodi materion gofodol strategol allweddol a rhoi fframwaith ar gyfer cydgysylltu'r broses o gyflawni polisiau cenedlaethol ym maes yr economi, tai, adfywio, yr amgylchedd, llifogydd, ynni, ardaloedd gwledig a thrafnidiaeth.</p> <p>Gan gydnabod nad yw cynlluniau datblygu strategol ar waith eto, mae polisiau'r Fframwaith hefyd yn amlinellu'r materion rhanbarthol allweddol a nodwyd yn ystod y broses o baratoi'r Fframwaith, er mwyn rhoi man cychwyn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu strategol a chyd-destun rhanbarthol ar gyfer y system gynllunio cyn i gynlluniau datblygu strategol gael eu mabwysiadu. Gan ei bod yn ofynnol i gynlluniau datblygu strategol gydymffurfio â'r Fframwaith yn ôl y gyfraith, mae cyd-destun rhanbarthol y Fframwaith yn rhoi amlinelliad clir o'r materion y bydd yn rhaid i gynlluniau datblygu strategol fynd i'r afael â nhw, gan ei gwneud yn bosibl i ddulliau rhanbarthol penodol gael eu datblygu ar yr un pryd.</p> <p>Un nodwedd bwysig ar y system cynllunio datblygu dair haen fydd gallu cynlluniau datblygu eraill sy'n cael eu datblygu a'u mabwysiadu i ddylanwadu ar gynlluniau haen uwch. Disgwylir y bydd sylfeini tystiolaeth cynlluniau datblygu strategol yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Fframweithiau yn y dyfodol. Dros amser, bydd y Fframwaith, y cynlluniau datblygu strategol a'r CDLlau yn llywio ei gilydd a bydd y berthynas hon yn sicrhau system gynllunio effeithiol a chadarn ar bob lefel.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>6. Teimlai'r Pwyllgor nad oedd llawer o wybodaeth yn y ddogfen am wella cysylltiadau trafndiaeth rhwng rhanbarthau</p>	<p>Caiff y Fframwaith ei gryfhau mewn ymateb i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar faterion trafndiaeth. Caiff Pennod 4, sy'n cwmpasu'r materion strategol cenedlaethol, ei hehangu ac mae bellach yn</p>

Mater a Godwyd	Ymateb
<p>Cymru a dros y ffin â Lloegr. Gellid gwella cysylltedd rhwng y gogledd a'r de a rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn fawr. Gallai hyn fod drwy gysylltiadau uniongyrchol o fewn rhwydwaith trafndiaeth integredig Cymru gyfan, gan bwysleisio cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Yn ogystal â helpu pobl i deithio'n hawdd o amgylch Cymru, gallai'r rhwydwaith hwn hefyd gludo pobl i ganolfannau lleol lle gallant deithio ymlaen i Loegr, Iwerddon a thu hwnt.</p>	<p>cynnwys tri pholisi ychwanegol ar Gysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol.</p> <p>Polisi 10 Arfaethedig – Cysylltedd Rhyngwladol Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cysylltedd rhyngwladol ym Maes Awyr Caerdydd, Porthladd Caergybi, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Phorthladd Abergwaun. Mae'r polisi hwn yn integreiddio'r hyn a fu'n dri pholisi rhanbarthol yn y Fframwaith drafft.</p> <p>Polisi 11 Arfaethedig – Cysylltedd Cenedlaethol Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o wella cysylltedd cenedlaethol ac yn buddsoddi ynddo. Mae'n nodi mai ein blaenoriaethau yw annog pobl i wneud teithiau pellach ar drafnidiaeth gyhoeddus, a hefyd wneud teithiau hwy yn bosibl drwy gerbydau trydan, ac mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o gryfhau'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.</p> <p>Polisi 12 Arfaethedig – Cysylltedd Rhanbarthol Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o wella cysylltedd rhanbarthol ac yn buddsoddi ynddo. Mae'n amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig.</p> <p>Caiff y polisïau Cysylltedd Cenedlaethol a Rhanbarthol eu cefnogi gan bolisïau trafndiaeth penodol yn yr adrannau rhanbarthol o'r Fframwaith sy'n rhoi'r cyd-destun rhanbarthol a chynigion penodol ar gyfer gwella cysylltedd.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>7. Er nad yw teithio ar y môr wedi'i ddatganoli, mae porthladdoedd wedi'u datganoli. Er bod y Pwyllgor yn deall nad oes unrhyw borthladdoedd newydd yn debygol o gael eu datblygu, dylid rhoi sylw i gysylltiadau</p>	<p>Ategir y safbwynt bolisi trwy gyflwyno Polisi Cysylltedd Rhyngwladol newydd, ym Mhennod 4 o'r FfDC, sy'n nodi Porthladd Caergybi, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Phorthladd Abergwaun fel Pwrth Strategol..</p> <p>Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu'r polisi cenedlaethol o ran porthladdoedd ac yn</p>

Mater a Godwyd	Ymateb
<p>seilwaith â phorthladdoedd yn y ddogfen.</p>	<p>cydnabod y rôl bwysig y maent yn ei chwarae o ran yr economi a'r gallu i gludo nwyddau mewn ffordd gynaliadwy. Mae PCC yn cydnabod bod porthladdoedd gweithredol ac atyniadol sy'n ateb y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, yn gwneud Cymru yn lleoliad atyniadol i fusnesau, ymwelwyr a chlodwyr nwyddau.</p> <p>Fel y nodwyd yn PCC, mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn rhoi gweledigaeth y gall porthladdoedd gynllunio eu gweithrediadau presennol a'u gweithrediadau yn y dyfodol yn unol â hi, gan gynnwys opsiynau i ehangu ac arallgyfeirio. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried goblygiadau CMCC o ran defnydd tir wrth baratoi eu cynlluniau datblygu.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>
<p>8. Nid oedd y Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan y ddadl dros rannu Cymru yn dri rhanbarth. Er ei fod yn deall nad oes angen i Gynlluniau Datblygu Strategol gwmpasu rhanbarth cyfan, mae'n teimlo y byddai'n well rhannu rhanbarth canolbarth a de-orllewin Cymru, gan olygu bod canolbarth Cymru a de-orllewin Cymru yn rhanbarthau ar wahân er mwyn adlewyrchu eu nodweddion penodol.</p>	<p>Cytunir y byddai'r Fframwaith yn cael ei wella gan ddull gweithredu yn seiliedig ar bedwar rhanbarth. Caiff y Fframwaith ei gyflwyno ar sail pedwar rhanbarth, sef y gogledd, y canolbarth, y de-orllewin a'r de-ddwyrain.</p> <p>Goblygiad Ariannol: Dim.</p>

7. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 7.1 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn ddull o asesu effeithiau ehangach canlyniadau, strategaeth a pholisïau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC), ac yn fodd o sicrhau eu bod yn cyfrannu at uchelgeisiau diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Llywodraeth Cymru.
- 7.2 Roedd polisiâu drafft y FfDC yn destun ACI, ac mae'r polisiâu diwygiedig a'r polisiâu newydd arfaethedig wedi bod yn destun ACI hefyd. Mae adroddiad ACI llawn a chrynodeb annhechnegol wedi'u cyhoeddi ar wahân. Mae'r adran hon yn crynhoi prif ganlyniadau'r ACI ar gyfer pob polisi ac yn nodi sut y cawsant eu mireinio a'u gwella o ganlyniad i'r ACI.
- 7.3 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn broses sy'n helpu i fireinio a gwella polisiâu hefyd. Mae'n asesu a oes unrhyw botensial i'r cynllun effeithio ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cefnogi cynefinoedd neu rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, a adnabyddir hefyd fel safleoedd Natura 2000/Ramsar neu safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Cyhoeddir adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd llawn ar wahân. Mae'r adran hon yn crynhoi'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer pob un o'r polisiâu FfDC arfaethedig.

Polisi Arfaethedig a phrif gasgliadau'r ACI	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig – newidiadau manwl	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
<p>Polisi 1 - Lle bydd Cymru'n tyfu</p> <p>Polisi 2 - Llundain Twf ac Adnewyddu Trefol – Creu Lleuedd Strategol</p>		
<p>Yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, daeth yr ACI i'r casgliad y byddai Polisi 1 yn arwain at lawer o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion yr ACI, ynghyd â rhai effeithiau cymysg ar y Gymraeg ac effeithiau negyddol bach ar y perygl o lifogydd, ansawdd aer ac ansawdd dŵr, ac</p>	<p>Adolygwyd argymhellion yr ACI a gwnaed y newidiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwygiwyd y testun ategol i adlewyrchu pwysigrwydd prifysgolion ym mhob rhanbarth; • Mae manteision Polisi 1 ar gyfer iechyd a llesiant wedi'u cryfhau yn y testun ategol; 	<p>Sgriniwyd y polisiâu hyn allan gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan eu bod yn cael eu hystyried yn – <i>un o bolisiâu nad ydynt yn ddim mwy na datganiadau polisi cyffredinol neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol. Dylent gael eu sgrinio allan gan na allant gael effaith arwyddocaol ar safle.</i></p>

<p>effeithiau negyddol arwyddocaol ar nwyon tŷ gwydr ac ynni.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac yn Atodiad F - Tabl ar gyfer Grwpiau Polisi 1.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae manteision a chyfleoedd seilwaith gwyrdd a theithio llesol wedi'u hychwanegu at y testun ategol ar gyfer Polisi 2; • Mae'r testun ategol ar gyfer polisi wedi'i gryfhau er mwyn helpu i nodi effeithiau posibl datblygiad trefol cynyddol ar ansawdd aer. 	<p>Mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.</p>
<p>Byddai polisi 2 yn arwain at lawer o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion ACI a rhai effeithiau cymysg ar ansawdd aer.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac yn Atodiad F - Tabl ar gyfer Grwpiau Polisi 1.</p>	<p>Roedd nifer o'r argymhellion wedi'u cwmpasu yn yr holl bolisiau a'r testun ategol yn y FfDC, neu ym Mholisi Cynllunio Cymru neu mewn Nodiadau Cyngor Technegol.</p> <p>Mae Atodiad F o'r ACI yn cynnwys asesiad manwl o'r polisiau hyn.</p>	
<p>Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus</p>		
<p>Yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, daeth yr ACI i'r casgliad y byddai Polisi 3 yn arwain at lawer o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion yr ACI.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac</p>	<p>Adolygwyd argymhellion yr asesiad a gwnaed y newidiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwygiwyd Polisi 3 i adlewyrchu twf ac adfywio. • Cafodd y testun ategol ar gyfer Polisi 3 ei gryfhau i nodi pwysigrwydd teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. 	<p>Sgriniwyd y polisi hwn i mewn gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn ei asesu yn briodol gan ei fod yn cael ei ystyried yn – <i>un o bolisiau neu gynigion ag effaith arwyddocaol bosibl ar safle ar eu pen eu hunain.</i></p> <p>Nid yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cefnogi unrhyw</p>

<p>yn Atodiad F - Tabl ar gyfer Grwpiau Polisi 2.</p>	<p>Mae Atodiad F o'r ACI yn cynnwys asesiad manwl o'r polisi hwn.</p>	<p>gynlluniau neu brosiectau haen is lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy gamau lliniaru, a bydd yn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Cynllunio Cymru 10 a TAN 5.</p> <p>Mae Tabl 7 o adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi mesurau osgoi a lliniaru arfaethedig sydd eu hangen ar gyfer cynlluniau neu brosiectau haen is.</p>
<p>Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig</p>		
<p>Yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, daeth yr ACI i'r casgliad y byddai Polisi 4 yn arwain at lawer o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion yr ACI, ynghyd â rhai effeithiau cymysg ar y Gymraeg.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac yn Atodiad F - Tabl ar gyfer Grwpiau Polisi 1.</p>	<p>Adolygwyd argymhellion yr asesiad. Roedd nifer o'r argymhellion wedi'u cwmpasu yn yr holl bolisiâu a'r testun ategol yn y FfDC, neu ym Mholisi Cynllunio Cymru neu mewn Nodiadau Cyngor Technegol.</p> <p>Mae Atodiad F o'r ACI yn cynnwys asesiad manwl o'r polisi hwn.</p>	<p>Sgriniwyd y polisi hwn allan gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan ei fod yn cael ei ystyried yn – <i>un o bolisiâu nad ydynt yn ddim mwy na datganiadau polisi cyffredinol neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol. Dylent gael eu sgrinio allan gan na allant gael effaith arwyddocaol ar safle.</i></p> <p>Mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.</p>
<p>Polisi 5 – Cefnogi'r economi wledig</p>		

<p>Yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, daeth yr ACI i'r casgliad y byddai Polisi 5 yn arwain at lawer o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion yr ACI.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac yn Atodiad F - Tabl ar gyfer Grwpiau Polisi 1.</p>	<p>Adolygwyd argymhellion yr asesiad. Roedd nifer o'r argymhellion wedi'u cwmpasu yn yr holl bolisiâu a'r testun ategol yn y FfDC, neu ym Mholisi Cynllunio Cymru neu mewn Nodiadau Cyngor Technegol.</p> <p>Mae Atodiad F o'r ACI yn cynnwys asesiad manwl o'r polisi hwn.</p>	<p>Sgriniwyd y polisi hwn allan gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan ei fod yn cael ei ystyried yn – <i>un o bolisiâu nad ydynt yn ddim mwy na datganiadau polisi cyffredinol neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol. Dylent gael eu sgrinio allan gan na allant gael effaith arwyddocaol ar safle.</i></p> <p>Mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.</p>
<p><u>Polisi 6</u> – Canol Trefi yn Gyntaf</p>		
<p>Yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, daeth yr ACI i'r casgliad y byddai Polisi 6 yn arwain at lawer o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion yr ACI, a rhai effeithiau cymysg ar ansawdd aer a'r amgylchedd ac asedau hanesyddol.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac yn Atodiad F - Tabl ar gyfer Grwpiau Polisi 1.</p>	<p>Adolygwyd argymhellion yr asesiad ac fe gawsant eu cwmpasu yn yr holl bolisiâu a'r testun ategol yn y FfDC, neu ym Mholisi Cynllunio Cymru neu mewn Nodiadau Cyngor Technegol.</p> <p>Mae Atodiad F o'r ACI yn cynnwys asesiad manwl o'r polisi hwn.</p>	<p>Sgriniwyd y polisi hwn allan gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan ei fod yn cael ei ystyried yn - <i>un o bolisiâu sy'n rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynioldeb/cynaliadwyedd cynigion. Ni all y polisiâu cyffredinol hyn gael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd ac felly dylid eu sgrinio allan.</i></p> <p>Mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.</p>

<u>Polisi 7</u> – Darparu Cartrefi Fforddiadwy		
<p>Yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, daeth yr ACI i'r casgliad y byddai Polisi 7 yn arwain at rai effeithiau cadarnhaol bach a rhai effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion yr ACI, a nodwyd nifer o agweddau na fyddent yn cael unrhyw effaith uniongyrchol.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac yn Atodiad F - Tabl ar gyfer Grwpiau Polisi 3.</p>	<p>Nid oedd unrhyw argymhellion yn deillio o'r asesiad ar gyfer y polisi hwn.</p> <p>Mae Atodiad F o'r ACI yn cynnwys asesiad manwl o'r polisi hwn.</p>	<p>Sgriniwyd y polisi hwn allan gan yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan ei fod yn cael ei ystyried yn – <i>un o bolisiau sy'n rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynioldeb/cynaliadwyedd cynigion. Ni all y polisiau cyffredinol hyn gael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd ac felly dylid eu sgrinio allan.</i></p> <p>Mae rhagor o fanylion ar gael yn adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.</p>
<u>Polisi 8</u> - Llifogydd		
<p>Yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, daeth yr ACI i'r casgliad y byddai Polisi 8 yn arwain at lawer o effeithiau cadarnhaol bach ac effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar gyfer holl amcanion yr ACI, ynghyd ag effaith negyddol fach ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth.</p> <p>Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi yn Nhablau 3-1 a 3-3 o adroddiad yr ACI ac</p>	<p>Nid oedd unrhyw argymhellion yn deillio o'r asesiad ar gyfer y polisi hwn.</p> <p>Mae Atodiad F o'r ACI yn cynnwys asesiad manwl o'r polisi hwn.</p>	<p>Ar gyfer elfennau'r polisi sy'n dod o dan y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, daeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad bod modd sgrinio'r rhain allan gan fod y Strategaeth eisoes wedi bod trwy broses yr Asesiad ac nad oes angen asesiad arall – <i>cynigion y cyfeirir atynt ond nad ydynt wedi'u cynnig gan y cynllun.</i></p>

